



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 4 Mehefin 2008  
Wednesday, 4 June 2008**

**Cynnwys**  
**Contents**

- |     |  |
|-----|--|
| 3   | Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai<br>Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing                                 |
| 19  | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth<br>Questions to the Minister for Heritage  |
| 39  | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol<br>Questions to Minister for Social Justice and Local Government                                  |
| 61  | Ethol Aelod i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal<br>Election of a Member to the Committee on Equality of Opportunity  |
| 61  | Ethol Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Election of Trustees of the National Assembly for Wales Members' Pension Scheme               |
| 62  | Cwestiynau i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad<br>Questions to the Representative of the Assembly Commission  |
| 66  | Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd: 'Lleihau Allyriadau Carbon Trafnidiaeth yng Nghymru'<br>The Sustainability Committee's Report 'Carbon Reduction by Transport in Wales' |
| 92  | Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru<br>The Enterprise and Learning Committee's Report on Skills That Work for Wales                       |
| 115 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Nodyn Cyngor Technegol 8<br>Welsh Conservatives Debate: Technical Advice Note 8   |
| 138 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time  |
| 140 | Dadl Fer: Yr Hen a Wyr: Byddwch yn Gall am Weithio ar ôl 50<br>Short Debate: Sageism not Ageism: Get Wise to Work after 50   |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 12.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 12.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the Assembly to order.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing**

**The Presiding Officer:** Question 1, OAQ(3)0407(ESH), and question 2, OAQ(3)0408(ESH), have been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(3)0407(ESH), a chwestiwn 2, OAQ(3)0408(ESH), yn ôl.

#### **Cycling**

**Q3 Janice Gregory:** What is the Welsh Assembly Government doing to encourage cycling in Wales? OAQ(3)0370(ESH)

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** The Assembly Government is taking forward, with key partners, a programme of activity to encourage greater public participation in cycling. That includes extra funding for the Safe Routes in Communities initiative, piloting the Bike It scheme in Wales and a relaunched walking and cycling steering group to guide further activity.

**Janice Gregory:** Like many people, I am sure, I am really encouraged by the work that you have just outlined.

Many of my constituents tell me how glad they are that they have taken up cycling or have returned to it for regular travel, pleasure and exercise. Sadly, however, quite a number tell me that they have been rapidly disillusioned and put off by the state of cycle tracks—by the condition of the surface and the general environment, where there is litter and neglect. Cycle tracks are a crucial element in the Government's attempt to promote cycling, and it is a pity if people are put off cycling by the state of the tracks. Will you consult with colleagues, partners and local government on the best ways to tackle this problem?

#### **Seiclo**

**C3 Janice Gregory:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hybu seiclo yng Nghymru? OAQ(3)0370(ESH)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu rhaglen o weithgarwch, gyda phartneriaid allweddol, i annog mwy o'r cyhoedd i seiclo. Mae hynny'n golygu sicrhau arian ychwanegol ar gyfer y fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, treialu'r cynllun Bike It yng Nghymru ac ail-lansio grŵp llywio cerdded a seiclo er mwyn arwain mwy o weithgarwch.

**Janice Gregory:** Fel llawer o bobl, yr wyf yn siŵr, yr wyf yn falch iawn o'r gwaith yr ydych newydd ei amlinellu.

Mae llawer o'm hetholwyr yn rhoi gwybod imi pa mor falch ydynt eu bod wedi dechrau seiclo, neu wedi ail-ddechrau seiclo fel ffordd rheolaidd o deithio, fel pleser ac fel ymarfer corff. Yn anffodus, fodd bynnag, yr wyf wedi cael gwybod gan lawer o bobl eu bod wedi'u dadrithio'n gyflym ac nad ydynt yn cael eu hannog i seiclo oherwydd cyflwr y llwybrau seiclo—cyflwr yr wyneb a'r amgylchedd yn gyffredinol, lle ceir sbwriel ac esgeulustod. Mae llwybrau seiclo'n elfen hollbwysig yn ymgais y Llywodraeth i hyrwyddo seiclo, ac mae'n drueni os nad yw pobl yn cael eu hannog i seiclo oherwydd cyflwr y llwybrau. A wnewch ymgynghori â'ch cyd-Aelodau, eich partneriaid a llywodraeth leol i benderfynu ar y ffyrdd gorau o fynd i'r afael â'r broblem hon?

**Jane Davidson:** This is essentially a matter for local highway authorities as they have responsibility for the maintenance of rights of way and cycle paths. The Assembly Government absolutely agrees that cycle paths should be maintained to a high standard. Ensuring that path surfaces are in good repair, along with maintaining a high standard of signage, is critical in encouraging more people to walk and cycle.

Local authority representatives will be coming to our first conference on walking and cycling, arranged for 25 June. Along with the Deputy First Minister, I hope to promote this message strongly at that conference.

**David Lloyd:** O fod o ddifrif ynghylch lleihau allyriadau carbon a hybu trafndiaeth mwy cynaliadwy megis beicio, a allwch wneud rhywbeth am benderfyniad Trenau Arriva Cymru i leihau'r lle sydd ar eu trenau ar gyfer cario beiciau?

**Jane Davidson:** Responsibility for that comes under the Deputy First Minister's portfolio. It is important to say that, under the franchise agreement between Arriva Trains Wales and the Welsh Assembly Government, the train company has to provide a minimum level of provision as was in place under previous operators, which normally means space for two bicycles on trains. Like you, I believe that that is insufficient.

### Golwg ar Ynni

**C4 Nerys Evans:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch rôl bresennol Golwg ar Ynni yng Nghymru? OAQ(3)0380(ESH)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi cwrdd â Golwg ar Ynni a thrafod ei rôl a newidiadau yn y dyfodol i eiriolaeth defnyddwyr yng Nghymru. Nid yw diogelu defnyddwyr yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond byddaf yn cadw llygad ar y trefniadau newydd i gynrychioli defnyddwyr ar faterion ynni.

**Nerys Evans:** Mae'r adroddiadau diweddar a baratowyd ar ran Golwg ar Ynni yn

**Jane Davidson:** Mae hyn yn fater i'r awdurdodau priffyrdd lleol yn y bôn gan mai hwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw hawliau tramwy a llwybrau seiclo. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno'n llwyr y dylid cynnal a chadw llwybrau seiclo at safon uchel. Mae sicrhau bod wyneb llwybrau mewn cyflwr da, ynghyd â chynnal arwyddion at safon uchel, yn hanfodol i'r broses o annog mwy o bobl i gerdded a seiclo.

Bydd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn dod i'n cynhadledd gyntaf ar gerdded a seiclo, a gynhelir ar 25 Mehefin. Yr wyf fi a'r Dirprwy Brif Weinidog yn gobeithio hyrwyddo'r neges hon yn gryf yn y gynhadledd.

**David Lloyd:** If we are serious about reducing carbon emissions and promoting more sustainable transport such as cycling, what can you do about the decision of Arriva Trains Wales to reduce the space available on its trains for transporting bikes?

**Jane Davidson:** Daw'r cyfrifoldeb hwnnw o dan bortffolio'r Dirprwy Brif Weinidog. Mae'n bwysig nodi, o dan y cytundeb masnachfaint rhwng Trenau Arriva Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei bod yn rhaid i'r cwmni trenau ddarparu'r lefel sylfaenol o ddarpariaeth fel yr oedd ar waith gan y cwmni blaenorol, sydd fel arfer yn golygu lle i ddau feic ar drenau. Yr wyf yn cytuno â chi nad yw hyn yn ddigon.

### Energywatch

**Q4 Nerys Evans:** What discussions has the Minister had on the current role of Energywatch in Wales? OAQ(3)0380(ESH)

**Jane Davidson:** I have met Energywatch and discussed its role and future changes to consumer advocacy in Wales. Consumer protection is a reserved matter, but I will be keeping a close eye on the new arrangements for consumer representation on energy issues.

**Nerys Evans:** The recent reports prepared on behalf of Energywatch confirms recent

cadarnhau datganiadau diweddar bod pobl yng Nghymru yn talu mwy am ynni na phobl yn Lloegr. Bu trafodaethau rhwng Llywodraeth San Steffan a'r cwmnïau ynni ac maent wedi ymrwymo i gynyddu eu tariff cymdeithasol o £50 miliwn i £150 miliwn, sy'n gam i'r cyfeiriad iawn, ond mae'n warthus nad yw Gordon Brown wedi gwneud dim i ddelio â'r prisiau gwahaniaethol y mae cwsmeriaid Cymru yn eu talu o'u cymharu â chwsmeriaid yn Lloegr. A ydych yn credu bod hynny'n dderbyniol? A wnewch ymuno â galwad Plaid Cymru am sefydlu ombwdsmon annibynnol i Gymru a fydd yn edrych ar ôl buddiannau pobl Cymru?

**Jane Davidson:** In fact, the responsibility lies with Ofgem. Ofgem announced in February, with the strong support of Government, that it would undertake a price review. I have written to Sir John Mogg, asking him to ensure that the price differentials in Wales are fully taken account of in that review.

#### Environmental and Sustainability Credentials

**Q5 Andrew R.T. Davies:** What discussions has the Minister had with ministerial colleagues regarding the Welsh Assembly Government's environmental and sustainability credentials?  
OAQ(3)0403(ESH)

**Jane Davidson:** I have regular discussions with my Cabinet colleagues on a wide range of environmental and sustainability issues. There have been recent discussions at Cabinet on the development of the new Assembly Government sustainable development scheme. In addition, we have a new Cabinet sub-committee on climate change and the joint Ministers waste review board.

**Andrew R.T. Davies:** One of the key targets that will hopefully help your Government and this institution to deliver carbon reduction is the sustainable towns initiative that your Government has adopted in its transport portfolio. Sadly, Minister, you have chosen to

statements that people in Wales pay more for their energy than people in England. Discussions have been held between the Westminster Government and the energy companies, which have committed to increase their social tariff from £50 million to £150 million, which is a step in the right direction. However, it is a disgrace that Gordon Brown has done nothing to deal with the differential prices that customers in Wales pay compared with customers in England. Do you think that that is acceptable? Will you join Plaid Cymru's call to establish an independent ombudsman for Wales to safeguard the interests of the people of Wales?

**Jane Davidson:** Mewn gwirionedd, Ofgem sy'n gyfrifol am hyn. Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Ofgem, gyda chefnogaeth gref gan y Llywodraeth, y byddai'n cyflawni adolygiad prisiau. Yr wyf wedi ysgrifennu at Syr John Mogg, yn gofyn iddo sicrhau bod y gwahaniaethau mewn prisiau yng Nghymru yn cael eu hystyried yn llwyr yn yr adolygiad hwnnw.

#### Rhinweddau Amgylcheddol a Chynaliadwyedd

**C5 Andrew R.T. Davies:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chyd-Weinidogion ynghylch rhinweddau amgylcheddol a chynaliadwyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru?  
OAQ(3)0403(ESH)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'm cyd-Weinidogion yn y Cabinet ar amrywiaeth eang o faterion amgylcheddol a materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. Cafwyd trafodaethau yn y Cabinet yn ddiweddar ar ddatblygiad cynllun datblygu cynaliadwy newydd Llywodraeth y Cynulliad. Hefyd, mae gennym is-bwyllgor Cabinet newydd ar newid yn yr hinsawdd yn ogystal â bwrdd adolygu gwastraff y cyd-Weinidogion.

**Andrew R.T. Davies:** Un o'r prif dargedau a wnaiff helpu eich Llywodraeth a'r sefydliad hwn gobeithio i leihau allyriadau carbon yw'r fenter trefi cynaliadwy y mae eich Llywodraeth wedi'i mabwysiadu yn ei phortffolio trafniadaeth. Yn anffodus,

go down the route of piloting these projects across Wales, instead of learning from best practice in England and implementing a roll-out of this project. Are there any environmental benefits that we will gain from these pilot projects, or should we adopt the pilot schemes that have been proven in England, and get on with the job, as the Sustainability Committee believes that we should do, of rolling out this project to help us to meet our carbon reduction targets in transport?

**Jane Davidson:** It is important to look at the overarching evidence on the way in which Wales can reduce its ecological footprint. The report by the Stockholm Institute at the University of York that was launched last week demonstrates that the sustainable towns initiative is an important part of stabilising and reducing our ecological footprint. It also demonstrates that the 'One Wales' agenda is on track in terms of stabilising our footprint. In due course, the Deputy First Minister will announce the pilot schemes for sustainable travel towns in Wales, and it is important that we gather our own evidence about what works before we look at rolling out such initiatives further. However, the Assembly Government strongly supports the principle of sustainable travel towns, and I am pleased that you also support it.

**Irene James:** Minister, the delivery of more and various types of renewable energy sources is vital in the battle against climate change. Do you agree that the Assembly Government is leading the way on this issue, and not just paying lip service to the cause and opposing every individual application for renewable sources, as the Conservatives do?

**Jane Davidson:** I am happy to say that the Assembly Government is fully committed to the use of renewable energy sources, in the context of the proposals that we outlined in the renewable energy route-map and also in the context of microgeneration. I was pleased to announce this morning to the Sustainability Committee an extension of the low-carbon buildings programme, which will give Wales an additional £1 million from the

Weinidog, yr ydych wedi dewis treialu'r prosiectau hyn ledled Cymru, yn hytrach na dysgu o'r arfer gorau yn Lloegr a chyflwyno'r prosiect hwn. A gawn unrhyw fuddiannau amgylcheddol o'r prosiectau peilot hyn, ynteu a ddylem fabwysiadu'r cynlluniau peilot sydd wedi'u profi yn Lloegr, a mynd i'r afael â'r gwaith, fel y mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn credu y dylem ei wneud, a chyflwyno'r prosiect hwn er mwyn ein helpu i gyrraedd ein targedau lleihau carbon o ran trafndiaeth?

**Jane Davidson:** Mae'n bwysig edrych ar y dystiolaeth gyffredinol ar y ffordd y gall Cymru leihau ei hól-troed ecolegol. Mae'r adroddiad gan Sefydliad Stockholm ym Mhrifysgol Efrog a lansiwyd yr wythnos diwethaf yn dangos bod y fenter trefi cynaliadwy yn rhan bwysig o sefydlogi a lleihau ein hól-troed ecolegol. Mae hefyd yn dangos bod agenda 'Cymru'n Un' ar y trywydd cywir o ran sefydlogi ein hól-troed. Bydd y Dirprwy Brif Weinidog maes o law, yn cyhoeddi'r cynlluniau peilot ar gyfer trefi teithio cynaliadwy yng Nghymru, ac mae'n bwysig ein bod yn casglu ein tystiolaeth ein hunain ar yr hyn sy'n gweithio cyn ystyried cyflwyno mentrau o'r fath ymhellach. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi egwyddor y trefi teithio cynaliadwy'n frwd, ac yr wyf yn falch eich bod chithau hefyd yn ei chefnogi.

**Irene James:** Weinidog, mae cyflwyno mwy o ffynonellau ynni adnewyddadwy ac amrywiaeth ohonynt yn hanfodol yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd. A ydych yn cytuno bod Llywodraeth y Cynulliad yn arwain y ffordd ar y mater hwn, yn hytrach nag esgus cefnogi'r achos a gwrthwynebu pob cais unigol am ffynonellau adnewyddadwy, fel y mae'r Ceidwadwyr yn ei wneud?

**Jane Davidson:** Yr wyf yn falch o ddweud bod Llywodraeth y Cynulliad wedi'i hymrwymo'n llwyr i ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy, yng nghyd-destun y cynigion y gwnaethom eu hamlinellu yn y trywydd ynni adnewyddadwy a hefyd yng nghyd-destun microgynhyrchu. Yr oeddwn yn falch o gyhoeddi estyniad i'r rhaglen adeiladau carbon isel i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd y bore yma, a fydd yn

UK Government, match funded by £1 million from my department, to look at the introduction of microgeneration resources to the most deprived communities in Wales, specifically looking at air source heat pumps and ground source heat pumps on a 100 per cent grant basis.

sicrhau £1 miliwn ychwanegol i Gymru gan Lywodraeth y DU, ac £1 miliwn o nawdd cyfatebol gan fy adran, er mwyn edrych ar y broses o gyflwyno adnoddau microgynhyrchu i'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan edrych yn benodol ar bympiau gwres o'r awyr a phympiau gwres o'r ddaear ar sail grant 100 y cant.

**Jenny Randerson:** Minister, the concept of sustainability encompasses the sustainability of businesses in Wales, and working through Welsh businesses enables you as a Government to influence building methods and the environmental friendliness of those buildings methods. I am sure that you will be aware of 'Opening Doors', the Welsh Assembly Government charter for small-and-medium-sized-enterprise-friendly procurement but are you aware of the £5 million ceiling on tenders from SMEs for health construction projects, and are you, together with your Cabinet colleagues, willing to look at that £5 million ceiling? As it has been in place for some time, it will have been eroded by inflation and it also works against the interests of SMEs. There are well-documented instances of tenders that could have been fulfilled by companies in Wales going to large companies from England. Will you agree to look again at this discriminatory ceiling?

**Jenny Randerson:** Weinidog, mae cysyniad cynaliadwyedd yn cwmpasu cynaliadwyedd busnesau yng Nghymru, ac mae gweithio drwy fusnesau yng Nghymru yn eich galluogi fel Llywodraeth i ddylanwadu ar ddulliau adeiladu a pha mor ecogyfeillgar yw'r dulliau adeiladu hynny. Yr wyf yn siŵr eich bod yn gyfarwydd ag 'Agor Drysau', siarter Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfeillgar i gaffael o ran mentrau bach a chanolig eu maint ond a ydych yn ymwybodol o'r uchafswm o £5 miliwn ar dendrau gan fentrau bach a chanolig eu maint ar gyfer prosiectau adeiladu iechyd, ac a ydych, ynghyd â'ch cyd-Weinidogion, yn barod i ystyried yr uchafswm hwnnw o £5 miliwn? Gan ei fod wedi bod ar waith ers tro, bydd wedi'i erydu gan chwyddiant ac mae hefyd yn gweithio yn erbyn buddiannau'r mentrau bach a chanolig eu maint. Ceir digon o enghreifftiau o dendrau y gellid bod wedi'u cyflawni gan gwmnïau yng Nghymru yn mynd i gwmnïau mawr yn Lloegr. A wnewch gytuno i edrych eto ar yr uchafswm gwahaniaethol hwn?

12.40 p.m.

**Jane Davidson:** I am happy to raise the concerns on the back of the Record of Proceedings for today with the appropriate Minister.

**Jane Davidson:** Yr wyf yn fodlon codi'r pryderon gyda'r Gweinidog perthnasol yn dilyn Cofnod y Trafodion heddiw.

### Mortgages

**Q6 Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** What support does the Minister intend to give those unable to get mortgages due to the credit crunch? OAQ(3)0413(ESH)

**The Deputy Minister for Housing (Jocelyn Davies):** The Assembly Government can do little about the availability of mortgages. We must remember that mortgages are not the

### Morgeisi

**C6 Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Pa gefnogaeth y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei rhoi i'r rheini na allant gael morgais oherwydd y wasgfa gredyd? OAQ(3)0413(ESH)

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Ni all Llywodraeth y Cynulliad wneud llawer o ran sicrhau bod morgaeisi ar gael. Mae'n rhaid inni gofio nad dim ond

only way of accessing a home. For many, mortgages are not appropriate given their personal and financial circumstances. However, we are making significant efforts to increase the supply of affordable housing. For example, we have made a significant increase in the social housing grant for the next three years.

**Michael German:** I am grateful that there will be an increase in the social housing grant. However, as the First Minister succinctly put it, when we have a problem with private sector building, there will be much more demand on the affordable housing sector. Do you feel that the figure that you have determined of 6,500 homes by 2011 is achievable, and will it be sufficient to meet the increased demand from those who are facing problems in getting affordable housing?

**Jocelyn Davies:** ‘One Wales’ states ‘at least 6,500’. Some tell me that we cannot achieve the target but I believe that we can. It will not be easily achieved but we intend to do it by a number of means, one of which is the social housing grant that has increased significantly since 2004, when it was £56 million; it is now £106 million. You will recall, Mike, that in your time in Government—in your very first year—the social housing grant was slashed by £12 million and remained at a static budget of £56.4 million for the entire time for which you were in administration.

**Michael German:** The issue then was that we were in different financial circumstances. People are looking for houses. Let us see whether we can get a figure from you. How many affordable housing starts will there be in Wales during this financial year?

**Jocelyn Davies:** I cannot give you the figure now but we are working on a mechanism to capture all of the information available properly, so that it will be robust and to ensure that we do not double-count and that we capture everything. However, you have to accept that had the social housing grant had proper priority when you were in Government, more homes would be available

drwy forgeisi y gellir cael cartref. I lawer o bobl, nid yw morgesei yn addas ac ystyried eu hamgylchiadau personol ac ariannol. Fodd bynnag, yr ydym yn gwneud cryn ymdrechion i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Er enghraifft, yr ydym wedi gwneud cynnydd sylweddol i'r grant tai cymdeithasol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

**Michael German:** Yr wyf yn ddiolchgar y bydd cynnydd yn y grant tai cymdeithasol. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Prif Weinidog yn glir, pan fydd gennym broblem gydag adeiladu yn y sector preifat, bydd llawer mwy o alw ar y sector tai fforddiadwy. A ydych yn teimlo bod modd cyrraedd y ffigur yr ydych wedi'i bennu, sef adeiladu 6,500 o gartrefi erbyn 2011, ac a fydd yn ddigon i fodloni'r galw cynyddol gan y rheini sy'n wynebu problemau o ran cael tai fforddiadwy?

**Jocelyn Davies:** Mae ‘Cymru'n Un’ yn nodi ‘6,500 o leiaf’. Dywed rhai wrthyf na allwn gyrraedd y targed ond credaf ei bod yn bosibl. Ni fydd yn hawdd ei gyrraedd ond yr ydym yn bwriadu ei gyflawni drwy nifer o ffyrdd ac un ohonynt yw'r grant tai cymdeithasol sydd wedi cynyddu'n sylweddol er 2004, pan oedd yn £56 miliwn; mae bellach yn £106 miliwn. Fel y byddwch yn cofio, Mike, yn eich cyfnod yn y Llywodraeth—yn wir, yn eich blwyddyn gyntaf—cafodd y grant tai cymdeithasol ei gwtogi o £12 miliwn a pharhaodd mewn cyllideb sefydlog o £56.4 miliwn drwy gydol y cyfnod yr oeddech mewn gweinyddiaeth.

**Michael German:** Y mater bryd hynny oedd bod yr amgylchiadau ariannol yn wahanol. Mae pobl yn chwilio am dai. Beth am weld a allwch gynnig ffigur inni. Faint o dai fforddiadwy newydd fydd yn dechrau cael eu hadeiladu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon?

**Jocelyn Davies:** Ni allaf roi'r ffigur ichi ar hyn o bryd ond yr ydym yn gweithio ar ddull i gasglu'r holl wybodaeth sydd ar gael inni'n iawn, fel y bydd yn gadarn ac er mwyn sicrhau na fyddwn yn cyfri ddwywaith a'n bod wedi casglu popeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid ichi dderbyn pe bai'r grant tai cymdeithasol wedi bod yn flaenoriaeth briodol pan oeddech chi'n llywodraethu,



today.

**The Presiding Officer:** I call on Helen Mary Jones.

**Michael German:** Who was the housing Minister then, I wonder?

**Jocelyn Davies:** It was Peter Black.

**The Presiding Officer:** Order. I have just called on Helen Mary Jones to ask a supplementary question.

**Helen Mary Jones:** Deputy Minister, you will be aware that the kind of pressure that has been broadly faced in not being able to afford to buy or rent a home across Wales has been particularly acute for many years in our rural communities, as the Joseph Rowntree Foundation report highlights today. What actions can the Assembly Government take to respond to the specific concerns raised in that report to enable more of our young people to stay in our rural communities to live and work, if they so choose?

**Jocelyn Davies:** You are right in saying that the Joseph Rowntree Foundation launched its report this morning. I take some comfort from the fact that we are already acting upon and working towards many of the recommendations. One of the important aspects for us is that each planning authority—that is, the 22 local authorities plus the national parks—will be required, from March 2009, to have affordable housing delivery plans in which they will have to demonstrate how they intend to meet the needs that they have assessed locally.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** First, I associate myself with the attack that the Deputy Minister has made on the Government of which her Minister was a part. I was surprised by that.

What is the position regarding those people who currently have mortgages but are having difficulty paying those mortgages? You will be aware that, in the first quarter of this year, repossession orders rose by 26 per cent in Wales—the highest rate of increase in the whole of the United Kingdom. In England,

byddai mwy o gartrefi ar gael heddiw.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Helen Mary Jones.

**Michael German:** Pwy oedd y Gweinidog dros dai bryd hynny ys gwn i?

**Jocelyn Davies:** Peter Black ydoedd.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr wyf newydd alw ar Helen Mary Jones i ofyn cwestiwn ategol.

**Helen Mary Jones:** Ddirprwy Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod y problemau a wynebwr yn gyffredinol yng Nghymru o ganlyniad i fethu fforddio i brynu na rhentu tai wedi bodoli yn ein cymunedau gwledig ers blynnyddoedd, fel y mae adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree yn ei nodi heddiw. Pa gamau y gall Llywodraeth y Cynulliad eu cymryd i ymateb i'r pryderon penodol a godwyd yn yr adroddiad hwnnw er mwyn galluogi mwy o'n pobl ifanc i aros yn ein cymunedau gwledig i fyw a gweithio, os ydynt yn dewis gwneud hynny?

**Jocelyn Davies:** Yr ydych yn gywir drwy ddweud bod Sefydliad Joseph Rowntree wedi lansio ei adroddiad y bore yma. Credaf ei fod yn gysur ein bod eisoes yn gweithredu ar hyn ac yn gweithio tuag at lawer o'r argymhellion. Un o'r agweddau pwysig inni yw y bydd yn ofynnol i bob awdurdod cynllunio—hynny yw, y 22 o awdurdodau lleol yn ogystal â'r parciau cenedlaethol—fod â chynlluniau cyflenwi tai fforddiadwy erbyn mis Mawrth 2009, lle bydd yn rhaid iddynt ddangos sut y maent yn bwriadu diwallu'r anghenion y maent wedi'u hasesu'n lleol.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** I ddechrau, cysylltaf fy hun â'r ymosodiad a wnaeth y Dirprwy Weinidog ar y Llywodraeth yr oedd ei Gweinidog yn rhan ohoni. Yr oeddwn wedi fy synnu gan hynny.

Beth yw'r sefyllfa o ran y bobl hynny a chanddynt forgeisi ar hyn o bryd ond sy'n cael trafferion talu'r morgeisi hynny? Byddwch yn ymwybodol, yn ystod chwarter cyntaf eleni, i nifer y gorchmynion adfeddiannu godi 26 y cant yng Nghymru—y gyfradd uchaf o ran cynnydd drwy'r Deyrnas

the Minister is making free legal advice available to people in that position. Is the Assembly Government considering such action? It is clear that those people are unable to afford legal advice if they cannot afford their mortgage. Something needs to be done for them. What is your Government doing?

**Jocelyn Davies:** The figures on the social housing grant to which you refer are there for everyone to see, and you may draw whatever conclusions you wish from those. I am simply saying that I am not going to take a lecture from the Liberal Democrats on the amount of social housing grant available today.

On the subject of repossessions, we have arrangements with Shelter, and I suggest that anyone who is in difficulty with their mortgage take advice as early as possible. Shelter offers legal advice, as does the Legal Services Commission, and we provide funding to Shelter so that it can provide that expert advice.

**The Presiding Officer:** Question 7, OAQ(3)0417(ESH), has been withdrawn.

### Refuse Collection

**Q8 Mohammad Asghar:** Will the Minister make a statement on refuse collection in Newport? OAQ(3)0393(ESH)

**Jane Davidson:** I congratulate Newport City Council and its community sector partner, Wastesavers, on the excellent service that they provide to the people of Newport. Provisional figures show that Newport recycled 36 per cent of its waste last year, which is 3 per cent above the Welsh average, and that is well up on its performance of 31 per cent in 2006-07.

**Mohammad Asghar:** Thank you, Minister, for that answer but there is still much to be done. I have received many complaints from people in Newport about the council's decision to collect rubbish fortnightly instead of weekly. They say that bins become too full

Unedig gyfan. Yn Lloegr, mae'r Gweinidog yn sicrhau bod cyngor cyfreithiol am ddim ar gael i bobl sydd yn y sefyllfa honno. A yw Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried cam o'r fath? Mae'n amlwg nad yw'r bobl hynny'n gallu fforddio cyngor cyfreithiol os nad ydynt yn gallu fforddio talu eu morgais. Mae angen gwneud rhywbeth i'w helpu. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud?

**Jocelyn Davies:** Mae'r ffigurau ar gyfer y grant tai cymdeithasol y cyfeiriwch atynt ar gael i bawb eu gweld, a chewch lunio pa bynnag gasgliadau a ddymunwch o'r rheini. Dweud ydwyf yn syml nad wyf am dderbyn araith gan y Democratiaid Rhyddfrydol am faint o grant tai cymdeithasol sydd ar gael heddiw.

O ran adfeddiannu, mae gennym drefniadau gyda Shelter, ac awgrymaf i unrhyw un sy'n cael anhawster gyda'u morgais geisio cyngor cyn gynted â phosibl. Mae Shelter, yn ogystal â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, yn cynnig cyngor cyfreithiol, ac yr ydym yn darparu cyllid i Shelter er mwyn iddi allu darparu'r cyngor arbenigol hwnnw.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ(3)0417(ESH), yn ôl.

### Casglu Sbwriel

**C8 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gasglu sbwriel yng Nghasnewydd? OAQ(3)0393(ESH)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn llongyfarch Cyngor Dinas Casnewydd a Wastesavers, sef ei bartner yn y sector cymunedol, am y gwasanaeth rhagorol a ddarparant i bobl Casnewydd. Dengys ffigurau dros dro i Gasnewydd ailgylchu 36 y cant o'i wastraff y llynedd, sydd 3 y cant yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae hynny'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'i berfformiad yn 2006-07, pan ailgylchwyd 31 y cant.

**Mohammad Asghar:** Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw, ond mae llawer i'w wneud eto. Yr wyf wedi cael llw o gwynion gan bobl Casnewydd am benderfyniad y cyngor i gasglu sbwriel bob pythefnos yn hytrach nag yn wythnosol. Dywedant fod biniau'n mynd

and can be too heavy to handle. With summer coming, they are worried about health hazards, and particularly about rodents. They are also worried about rubbish that must be dumped in front of their doors when it does not fit in the bins. Will the Minister use her good offices to urge the council to reconsider a decision that is causing distress to a great many people in Newport?

**Jane Davidson:** In fact, Newport is among the best of the authorities in Wales on recycling. The Assembly Government has supported the introduction of fortnightly residual waste collection, with alternate collections of recyclates, particularly if authorities collect recyclable and compostable waste weekly. We are keen to see food waste collected weekly. However, there is substantial evidence to suggest that householders separate and recycle more materials when refuse is collected fortnightly, and those are then collected separately by their councils.

**William Graham:** I am sure that you will agree that it is imperative that we recycle electrical waste more efficiently. Six councils in south-east Wales give good information on the disposal or reuse of items. I encourage you to ensure that all councils are well aware of one of the world's leading electrical recycling facilities, in Queen Alexandra dock, provided by the Sims Group, and that proper and efficient use be made of it.

**Jane Davidson:** It is very important that people recycle electrical waste. In fact, there is guidance from the EU on this that the Assembly has debated previously. The major recommendation for all of us, I would hope, is that we should recycle as much as possible. We are looking at hard targets in Wales, including that of recycling 70 per cent of municipal waste by 2025. Even then, we will be a generation behind the best recyclers in Europe. Therefore, these are targets that we should all be meeting. The point about fortnightly collection is critical. As I have said in the Chamber before, the best councils in England—and here I must defer to your

yn rhy llawn, ac y gallant fod yn rhy drwm i'w cario. Gyda'r haf ar droed, maent yn pryderu am beryglon iechyd ac am lygod yn arbennig. Maent hefyd yn pryderu am sbwriel sy'n gorfod cael ei ddympio o flaen eu drysau pan na fydd yn ffitio yn y biniau. A wnaiff y Gweinidog ddefnyddio ei dylanwad i annog y cyngor i ailystyried penderfyniad sy'n achosi trallod i nifer fawr o bobl yng Nghasnewydd?

**Jane Davidson:** Yn wir, mae Casnewydd ymhlith un o'r awdurdodau gorau yng Nghymru o ran ailgylchu. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi cyflwyno casglu gwastraff gweddilliol bob pythefnos, gyda chasgliadau deunyddiau ailgylchu bob yn ail wythnos, yn enwedig os bydd awdurdodau'n casglu gwastraff compost ac ailgylchu'n wythnosol. Yr ydym yn awyddus i weld gwastraff bwyd yn cael ei gasglu'n wythnosol. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth sylweddol sy'n awgrymu y bydd deiliaid tai'n gwahanu ac yn ailgylchu mwy o ddeunyddiau pan gaiff sbwriel ei gasglu bob pythefnos, a chaiff y rheini wedyn eu casglu ar wahân gan eu cynghorau.

**William Graham:** Yr wyf yn siŵr y cytunwch ei bod yn rhaid inni ailgylchu gwastraff trydanol yn fwy effeithlon. Mae chwe chyngor yn y de-ddwyrain yn darparu gwybodaeth dda am waredu neu ailddefnyddio eitemau. Fe'ch anogaf i sicrhau bod pob cyngor yn ymwybodol o un o gyfleusterau ailgylchu eitemau trydanol mwyaf blaenllaw'r byd a geir yn noc y Frenhines Alecsandra—a ddarperir gan Sims Group—ac y caiff y cyfleuster ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn briodol.

**Jane Davidson:** Mae'n bwysig iawn bod pobl yn ailgylchu gwastraff trydanol. Yn wir, ceir arweiniad gan yr UE am hyn, ac mae'r Cynulliad wedi ei drafod yn y gorffennol. Y prif argymhelliad i bob un ohonom, byddwn yn gobeithio, yw y dylem ailgylchu gymaint â phosibl. Yr ydym yn edrych ar dargedau anodd yng Nghymru, gan gynnwys targed ailgylchu 70 y cant o wastraff trefol erbyn 2025. Hyd yn oed wedyn, byddwn genhedlaeth ar ei hôl hi o'n cymharu ag ailgylchwyr gorau Ewrop. Felly, dyma'r targedau y dylem oll eu cyrraedd. Mae'r pwynt ynghylch casglu sbwriel bob pythefnos yn hanfodol. Fel yr wyf wedi'i

party—are Conservative-led, using fortnightly waste collections. The majority of people find that the more you recycle, the less residual waste by far you have to be collected weekly.

### Energy Microgeneration

**Q9 David Melding:** Will the Minister make a statement on measures being taken to encourage the microgeneration of energy in South Wales Central? OAQ(3)0401(ESH)

**Jane Davidson:** We are taking a range of actions to promote microgeneration. These include removing planning barriers, expanding technical skills and supporting businesses. The role of microgeneration is highlighted in our consultation on the renewable energy route-map, and further action on it will be a crucial element of our energy strategy.

**David Melding:** A recent report commissioned by the UK Government indicated that as many as 9 million microgeneration units were feasible within the next 12 years—which I guess would mean somewhere in the region of 0.5 million units in Wales—and that, if they were on-stream, they would produce as much energy as five new large nuclear power stations or would make the equivalent carbon saving of removing all the heavy goods vehicles and buses on our roads in the UK. That sends a message that we need better planning procedures as well as financial incentives. That is an important aspect of how people get over that initial capital cost, especially if they are on average or modest incomes.

12.50 p.m.

**Jane Davidson:** I was excited to see that report come out last week. It talks about an outcome that is equivalent to removing the emissions of all heavy goods vehicles and buses from UK roads, which would be a substantial reduction: a 5 per cent cut in the

ddweud yn y Siambr o'r blaen, mae'r cynghorau gorau yn Lloegr—ac mae'n rhaid imi gyfeirio at eich plaid chi yma—yn cael eu harwain gan y Ceidwadwyr, drwy ddefnyddio gwasanaeth casglu gwastraff bob pythefnos. Mae'r mwyafrif o bobl yn gweld po fwyaf y byddwch yn ei ailgylchu, y lleiaf o beth wmbredd o wastraff gweddilliol y bydd gennych i'w gasglu'n wythnosol.

### Microgynhyrchu Ynni

**C9 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau sy'n cael eu cymryd i annog microgynhyrchu ynni yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)0401(ESH)

**Jane Davidson:** Yr ydym yn cymryd amrywiaeth o gamau i hyrwyddo microgynhyrchu. Mae'r rhain yn cynnwys dileu rhwystrau cynllunio, ehangu sgiliau technegol a chefnogi busnesau. Tynnir sylw at swyddogaeth microgynhyrchu yn ein hymgynghoriad ar y trywydd ynni adnewyddadwy, a bydd gweithredu ymhellach arno'n elfen allweddol o'n strategaeth ynni.

**David Melding:** Dangosodd adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU fod cynifer â 9 miliwn o unedau microgynhyrchu'n bosibl o fewn y 12 mlynedd nesaf—dyfalwn fod hynny'n golygu oddeutu 0.5 miliwn o unedau yng Nghymru—a, phetaent yn rhan o'r ffrwd, y byddent yn cynhyrchu'r un faint o ynni â phump o orsafoedd pŵer niwclear mawr newydd, neu'n gwneud yr un faint o arbedion carbon â phetaem yn tynnu'r holl gerbydau nwyddau trwm a bysiau oddi ar ein ffyrdd yn y DU. Mae hynny'n cyfleu neges bod angen gwell trefniadau cynllunio arnom yn ogystal â chymhellion ariannol. Mae hynny'n agwedd bwysig ar sut y bydd pobl yn ymdopi â'r gost gyfalaf gychwynnol honno, yn enwedig os ydynt ar incwm cyfartalog neu gymedrol.

**Jane Davidson:** Yr oeddwn yn edrych ymlaen at weld yr adroddiad hwnnw'n cael ei gyhoeddi'r wythnos diwethaf. Mae'n sôn am ganlyniad sy'n gyfystyr â dileu allyriadau'r holl gerbydau nwyddau trwm a bysiau oddi ar ffyrdd y DU, a fyddai'n lleihad sylweddol:

total 2006 UK carbon dioxide emissions. However, if you look further into the report, which you will agree is a large report, you will see that it states that,

‘For microgeneration technologies to play a significant role in the UK energy mix, they must achieve widespread penetration’.

Therefore, the fate of microgeneration depends strongly on the interplay between technology, development, policy support, and particularly consumer priorities. The Assembly Government has always supported feed-in tariffs as an incentivisation, and we will continue to argue for them.

**Leanne Wood:** Last February, the Deputy First Minister, Ieuan Wyn Jones, visited St Joseph’s church in Cwmaman, with Plaid Cymru councillors Pauline Jarman and Howard Davies. St Joseph’s is the first solar-panelled church in Wales. Do you welcome the fact that, this year, it has taken another step forward towards reducing carbon emissions by installing a new energy-saving heating system, thanks to money from the One Wales Government? During the planning stages, the parishioners opted to make the church as environmentally friendly as possible while ensuring the heritage of the building. Is that the type of project that the One Wales Government is keen to promote?

**Jane Davidson:** Absolutely. The One Wales Government is keen to promote projects that use renewable energy effectively. I am delighted to say that not only has that project been supported by funding from the Welsh Assembly Government, but there is also huge renewables activity in the social housing sector, which is critical to get greater acceptance of renewable technology, by people seeing that it can do the job.

gostyngiad o 5 y cant yng nghyfanswm allyriadau carbon deuocsid y DU yn 2006. Fodd bynnag, os edrychwch yn fanylach ar yr adroddiad sydd, ac yr wyf yn siŵr y cytunwch, yn adroddiad mawr, gwelwch ei fod yn datgan,

Er mwyn i dechnolegau microgynhyrchu chwarae rhan allweddol yng nghymysgedd ynni'r DU, rhaid iddynt gael eu treiddio'n eang.

Felly, mae tynged microgynhyrchu'n dibynnu'n drwm ar y cydadwaith rhwng technoleg, datblygu, cymorth polisi ac, yn arbennig, blaenoriaethau'r defnyddwyr. Mae Llywodraeth y Cynulliad wastad wedi cefnogi tariffau sy'n cael eu bwydo i mewn fel cymhelliant, a byddwn yn parhau i ddadlau o'u plaid.

**Leanne Wood:** Fis Chwefror diwethaf, ymwelodd y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones, ag eglwys San Joseff yng Nghwmaman gyda chynghorwyr Plaid Cymru, Pauline Jarman a Howard Davies. Eglwys San Joseff yw'r eglwys gyntaf yng Nghymru i gael paneli solar. A ydych yn croesawu'r ffaith ei bod wedi cymryd cam arall eleni at leihau allyriadau carbon drwy osod system wresogi newydd i arbed ynni, diolch i arian gan Lywodraeth Cymru'n Un? Yn ystod y camau cynllunio, dewisodd y plwyfolion wneud yr eglwys mor ecogyfeillgar â phosibl wrth ddiogelu treftadaeth yr adeilad. Ai'r math hwnnw o brosiect y mae Llywodraeth Cymru'n Un yn awyddus i'w hyrwyddo?

**Jane Davidson:** Heb os. Mae Llywodraeth Cymru'n Un yn awyddus i hyrwyddo prosiectau sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy'n effeithiol. Mae'n bleser gennyf ddweud bod y prosiect nid yn unig wedi'i gefnogi gan gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond ceir hefyd weithgareddau ynni adnewyddadwy enfawr yn y sector tai cymdeithasol, sy'n allweddol er mwyn i dechnoleg adnewyddadwy ennill ei phlwyf, wrth i bobl weld y gall wneud y gwaith.

### Flood Management Schemes

### Cynlluniau Rheoli Llifogydd

**Q10 Eleanor Burnham:** Will the Minister

**C10 Eleanor Burnham:** A wnaiff y

make a statement on the progress of flood management schemes in north Wales?  
OAQ(3)0384(ESH)

**Jane Davidson:** The Environment Agency and local authorities are the principal bodies with responsibility for flood management schemes, and I understand that, overall, good progress is being made on schemes in north Wales. The Welsh Assembly Government fully funds the agency's flood management activities, and provides grants to support local authorities.

**Eleanor Burnham:** I was concerned to hear in your recent statement about the change of emphasis that you have set in motion. While I commend any form of risk management, I was trying to bring to your attention the fact that many people who have been in the industry for many years believe that not enough preventative work has been done. The clearing of silt, for instance, under the bridge on the River Alyn in Rossett exacerbates the flooding that might occur, in many people's view. I commend the Environment Agency, because we have worked positively together on projects, and I am pleased about that. However, I am concerned about the preventative work that could add to this important issue, in many people's experience. What is your response to that?

**Jane Davidson:** I announced the New Approaches programme last year at the Royal Welsh Show, following several years of professionals telling the Assembly Government that we needed to take that new approach and working it up. I have had no representations from any professional involved in flood management to suggest that the approach that we have taken is wrong. Indeed, it is borne out by a Foresight report that was published in 2004, which suggested how Governments should manage flood issues. Therefore, if you have any expert recommendations to the contrary, I would be happy to receive them.

**Ann Jones:** I spoke to you almost 12 months ago about the Liverpool bay shoreline management plans, which affect the north Wales coastline and which were out for

Gweinidog ddatganiad am gynnydd cynlluniau rheoli llifogydd yn y gogledd?  
OAQ(3)0384(ESH)

**Jane Davidson:** Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol yw'r prif gyrff sy'n gyfrifol am gynlluniau rheoli llifogydd, ac yr wyf ar ddeall bod cynnydd da yn cael ei wneud ar y cyfan ar gynlluniau yn y gogledd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu gweithgareddau rheoli llifogydd yr asiantaeth yn llawn, ac mae'n darparu grantiau i gefnogi awdurdodau lleol.

**Eleanor Burnham:** Yr oeddwn yn bryderus o glywed yn eich datganiad diweddar am y newid pwyslais yr ydych wedi ei roi ar waith. Er fy mod yn cymeradwyo unrhyw fath o reoli risg, yr oeddwn yn ceisio dwyn i'ch sylw'r ffaith bod llawer o bobl sy'n gysylltiedig â'r diwydiant ers blynnyddoedd lawer yn credu nad oes digon o waith ataliol wedi'i wneud. Er enghraifft, ym marn llawer o bobl, mae clirio'r llaid o dan bont Afon Alun yn Rossett yn mynd i waethygu'r llifogydd a allai ddigwydd. Cymeradwyaf Asiantaeth yr Amgylchedd, oherwydd yr ydym wedi cydweithio'n gadarnhaol ar brosiectau, ac yr wyf yn falch o hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn poeni am y gwaith ataliol a allai ychwanegu at y broblem bwysig hon ym mhrofiad llawer o bobl. Beth yw'ch ymateb i hynny?

**Jane Davidson:** Cyhoeddais y rhaglen Dulliau Newydd yn Sioe Frenhinol Cymru'r llynedd, yn dilyn blynnyddoedd lawer o weithwyr proffesiynol yn dweud wrth Lywodraeth y Cynulliad bod angen inni arddel yr agwedd newydd honno ac adeiladu arni. Nid wyf wedi cael dim sylwadau gan unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â rheoli llifogydd i awgrymu ein bod wedi arddel yr agwedd anghywir. Yn wir, fe'i hategir gan adroddiad Rhagolwg a gyhoeddwyd yn 2004, a awgrymai sut y dylai Llywodraethau reoli problemau'n ymwneud â llifogydd. Felly, os oes gennych unrhyw argymhellion arbenigol sy'n groes i hynny, byddwn yn falch o'u cael.

**Ann Jones:** Siaradais â chi bron 12 mis yn ôl ynghylch cynlluniau rheoli arfordir bae Lerpwl, sy'n effeithio ar forlin gogledd Cymru ac a oedd wedi'u rhyddhau at ddiben

consultation. What discussions did your officials have to ensure that those plans actively reflect the needs of the coastline across north Wales, bearing in mind that a do-nothing approach was taken to a large section of the coast in the area of Prestatyn, and that that will severely hamper the very idea of tourism or even of having residential properties close to the coast? Could you update me on that? I appreciate that you may have to do so via a written answer.

**Jane Davidson:** Given that you are asking a specific detailed question, I would be very happy to respond to you in writing.

**Janet Ryder:** A number of beaches have had their blue-flag designation taken away or questioned because of the water quality. The Environment Agency has said that a lot of that is due to the flooding last year, which washed down a lot of debris into the sea. In many cases, it has been able to trace the source of some of the debris. Dŵr Cymru is accountable for some of it and there are repairs that it needs to carry out, but some of it is to do with farming practices and the produce that is spread on the land. May I have your assurance, Minister, that you will put pressure on Dŵr Cymru to carry out repairs where needed, to ensure that this does not happen again, and that you are working with your colleague, the Minister for Rural Affairs, to ensure that farmers appreciate that what they put on their land in upper-land areas sometimes washes down and has a detrimental effect on coastal areas?

**Jane Davidson:** I was delighted to launch the blue flag beaches for Wales last week at Aberavon, which would not be considered a typical Welsh beach to acquire the blue flag, but it demonstrates the high quality of our coastal environment. It is important to state for the record that, that, from memory, six beaches lost their blue flag, but five beaches gained a blue flag for the first time. There is always a movement in and out, depending on a number of issues. Those responsible for the blue flag and the Marine Conservation Society's own scheme of commendations for beaches made the point clearly that last year

ymgyngori. Pa drafodaethau gafodd eich swyddogion i sicrhau bod y cynlluniau hynny'n adlewyrchu'n gywir anghenion y morlin ar draws y gogledd, o gofio yr arddelwyd agwedd gwneud-dim at ran helaeth o'r arfordir yn ardal Prestatyn, ac y bydd hynny'n llesteirio'n ddifrifol y syniad o dwristiaeth, neu hyd yn oed o gael eiddo preswyl yn agos at yr arfordir? A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi ynghylch hynny? Sylweddolaf y bydd yn rhaid ichi wneud hynny'n ysgrifenedig o bosibl.

**Jane Davidson:** Ac ystyried eich bod yn gofyn cwestiwn manwl penodol, byddwn yn dra pharod i'ch ateb yn ysgrifenedig.

**Janet Ryder:** Mae nifer o draethau wedi colli eu baner las, neu mae'u baner las wedi'i gwestiynu oherwydd ansawdd y dŵr. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dweud mai llifogydd y llynedd sydd wrth wraidd hynny i raddau helaeth oherwydd cludwyd llawer o sbwriel i'r môr. Mewn llawer o achosion, llwyddwyd i olrhain o ble y deilliodd rhywfaint o'r sbwriel. Mae Dŵr Cymru yn atebol am rywfaint ohono, ac mae angen iddo wneud atgyweiriadau, ond mae rhywfaint ohono'n ymwneud ag arferion ffermio a'r cynnyrch a daenir ar y tir. A wnewch fy sicrhau, Weinidog, y rhoddwch bwysau ar Dŵr Cymru i wneud atgyweiriadau lle bynnag bydd angen, er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto, a'ch bod yn gweithio gyda'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, i sicrhau bod ffermwyr yn gwerthfawrogi bod yr hyn y maent yn ei roi ar eu tir mewn ardaloedd tir uchel weithiau'n llifo i lawr ac yn effeithio'n andwyol ar ardaloedd arfordirol?

**Jane Davidson:** Yr oedd yn bleser gennyf lansio'r traethau baner las ar gyfer Cymru yn Aberafan yr wythnos diwethaf—traeth nad ystyrid yn un o draethau nodweddiadol Cymru i ennill y faner las, ond mae'n dangos safon uchel ein hamgylchedd arfordirol. Mae'n bwysig datgan ar glawr bod, o'm cof, chwe thraeth wedi colli eu baner las, ond bod pum traeth wedi ennill baner las am y tro cyntaf. Bydd hyn wastad yn mynd yn ôl ac ymlaen, gan ddibynnu ar amryw o faterion. Gwnaethpwyd y pwynt yn glir gan y rheini sy'n gyfrifol am y faner las a chynllun cymeradwyo traethau Cymdeithas Cadwraeth

was the wettest summer on record. In fact, in Marine Conservation Society terms, the majority of regions across the UK that lost beach designations lost 10 per cent plus—the Channel Islands lost up to 47 per cent—whereas Wales lost only 2 per cent. We are, as you say, particularly vulnerable to issues with storm pollution and run-off from farmland, which carries materials like fertilisers and animal waste into the sea. I will ensure that I have a further discussion with my colleague, the Minister for Rural Affairs, on that issue.

### Tai Fforddiadwy

**C11 Nerys Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael yng nghefn gwlad Cymru? OAQ(3)0402(ESH)

**Jocelyn Davies:** We have a number of initiatives aimed at increasing the provision of affordable housing in rural Wales. These include the affordable housing delivery plans and the creation of a rural housing development fund, which I was pleased to announce this morning.

**Nerys Evans:** Yr ydym wedi clywed eisoes am yr adroddiad diddorol a buddiol iawn a gyhoeddwyd heddiw gan Sefydliad Joseph Rowntree ynghylch tai gwledig, sydd wedi ategu sawl pwynt a grybwyllwyd dros y blynyddoedd yn y maes hwn. Mae'r adroddiad wedi darganfod bod 18,000 o dai gwag yn y Gymru wledig. A ydych yn credu bod hynny'n dderbyniol, a beth sy'n cael ei wneud i ddelio â'r sefyllfa hon?

**Jocelyn Davies:** I was quite surprised by that figure, but the report states that there could be as many as 18,000 vacant properties in rural Wales, which would be more than adequate to meet the housing need. For approximately two years, I believe that local authorities have had the necessary powers to bring empty properties back under their control to get them occupied under the empty dwellings management Orders. However, I am not aware of any local authority that has used those powers. There may be one or two

y Môr, mai'r llynedd oedd yr haf gwlypaf ar gofnod. Yn wir, yn nhermau Cymdeithas Cadwraeth y Môr, collodd y rhan fwyaf o'r rhanbarthau ar draws y DU a gollodd ddyfarniadau traethau 10 y cant a mwy o'u dyfarniadau—collodd Ynysydd y Sianel hyd at 47 y cant—lle mai dim ond 2 y cant gollodd Cymru. Yr ydym, fel y dywedwch, yn arbennig o agored i niwed gan broblemau gyda llygredd storm a dŵr yn llifo oddi ar dir ffermydd, sy'n cario deunyddiau megis gwrtaith a gwastraff anifeiliaid i'r môr. Fe'ch sicrhaf y caf drafodaeth arall ynghylch y mater hwnnw gyda fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog dros Faterion Gwledig.

### Affordable Housing

**Q11 Nerys Evans:** Will the Minister make a statement regarding what the Welsh Assembly Government is doing to ensure that there is more affordable housing in rural Wales? OAQ(3)0402(ESH)

**Jocelyn Davies:** Mae gennym nifer o fentrau i gynyddu darpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru wledig. Mae'r rhain yn cynnwys y cynlluniau cyflenwi tai fforddiadwy a chreu cronfa datblygu tai gwledig. Yr oedd yn bleser gennyf gyhoeddi'r gronfa hon y bore yma.

**Nerys Evans:** We have already heard about the very interesting and beneficial report that was published today by the Joseph Rowntree Foundation about rural housing, which has corroborated many of the points that have been raised on this issue over many years. The report has discovered that there are 18,000 vacant properties in rural Wales. Do you think that that is acceptable, and what is being done to deal with this situation?

**Jocelyn Davies:** Fe'm syfrdanwyd braidd gan y ffigur hwnnw, ond mae'r adroddiad yn datgan y gallai fod cynifer â 18,000 o dai gwag yng Nghymru wledig, a fyddai'n fwy na digon i fodloni'r angen am dai. Credaf fod gan awdurdodau lleol y pwerau angenrheidiol ers oddeutu dwy flynedd i ddod â thai gwag yn ôl o dan eu rheolaeth er mwyn cael pobl i fyw ynddynt dan y Gorchmynion rheoli anheddau gwag. Fodd bynnag, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw awdurdod lleol sydd wedi defnyddio'r



that have done so, but I am not aware of any at all. Therefore, we clearly need to look at this matter. When local authorities are required to have their delivery plans, we believe that this is an area in which we will then see activity.

**Mark Isherwood:** The whole of the housing sector has been warning for many years that Wales is in a housing crisis. On the rural economy, the Confederation of British Industry, Business in the Community and Housing Forum Cymru have been warning for years that the lack of affordable rural housing is leading to the outward migration of people and investment. In that context, how do you respond to the statement in the report announced today, of which you have spoken, that the current and projected supply of new affordable housing will not be sufficient, that a seismic upward shift in provision is required to meet the need, and that the limited supply of housing and the difficulty of getting on to the property ladder is threatening the social and cultural sustainability of communities in rural Wales?

1.00 p.m.

**Jocelyn Davies:** I have read the report and seen that comment. The commission stressed that bringing even half of the vacant properties back into use would be very welcome indeed. There are a number of things that we are doing, as you know, including making affordable housing delivery plans a requirement—you have not told me yet whether you support that move. We have increased the social housing grant, we have provided training to local authorities on the use of section 106 and I am awaiting the final report from Sue Essex, which should ensure that housing associations can make a maximum contribution in this area.

**Mark Isherwood:** I also look forward to Sue's report, to which I have contributed. After you had to leave the meeting today, the National Landlords Association told us that it is undertaking research into vacant rural

pwerau hynny. Efallai fod un neu ddau wedi gwneud hynny, ond nid wyf fi'n ymwybodol o ddim un o gwbl. Felly, mae'n amlwg bod angen inni edrych ar y mater hwn. Pan fydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gael eu cynlluniau cyflenwi, credwn fod hwn yn faes lle gwelwn weithgarwch yn dilyn hynny.

**Mark Isherwood:** Mae'r sector tai drwyddo draw wedi rhybuddio ers blynyddoedd lawer bod Cymru'n wynebu argyfwng tai. Parthed yr economi wledig, mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Busnes yn y Gymuned a Fforwm Tai Cymru wedi bod yn rhybuddio ers blynyddoedd bod y diffyg tai fforddiadwy yng nghefn gwlad yn arwain at bobl yn allfudo ac allfuddsoddiad. Yn y cyd-destun hwnnw, sut yr ydych yn ymateb i'r datganiad yn yr adroddiad a gyhoeddwyd heddiw, yr ydych wedi sôn amdano, na fydd y cyflenwad cyfredol na'r cyflenwad rhagamcanol o dai fforddiadwy newydd yn ddigonol, bod gofyn i'r ddarpariaeth gynyddu'n sylweddol er mwyn diwallu'r angen, a bod y cyflenwad cyfyngedig o dai a'r anhawster o ran ymuno â'r ysgol eiddo yn rhoi cynaliadwyedd cymdeithasol a diwylliannol cymunedau Cymru wledig yn y fantol?

**Jocelyn Davies:** Yr wyf wedi darllen yr adroddiad ac wedi gweld y sylw hwnnw. Yr oedd y comisiwn yn pwysleisio y byddid yn croesawu ailddefnyddio hyd yn oed hanner yr eiddo gwag. Yr ydym yn gwneud nifer o bethau, fel y gwyddoch, gan gynnwys gwneud cynlluniau cyflenwi tai fforddiadwy yn ofniad—nid ydych wedi dweud wrthyf eto a ydych yn cefnogi'r cam hwnnw ai peidio. Yr ydym wedi cynyddu'r grant tai cymdeithasol, yr ydym wedi darparu hyfforddiant i awdurdodau lleol ar ddefnyddio adran 106 ac yr wyf yn disgwyl am yr adroddiad terfynol gan Sue Essex, a ddylai sicrhau y gall cymdeithasau tai gyfrannu cymaint ag y bo modd at y maes hwn.

**Mark Isherwood:** Yr wyf finnau hefyd yn edrych ymlaen at adroddiad Sue, yr wyf fi wedi cyfrannu ato. Ar ôl i chi orfod gadael y cyfarfod heddiw, dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid wrthym ei bod

properties and was already finding, for example, that many of them are owned by people who have suffered bereavement and were trying to access assistance accordingly. Therefore, I suspect that there may be some positive outcomes from that as well.

More broadly, in responding to the Assembly Government's review of the homebuy scheme, Community Housing Cymru said that it was concerned that some proposals will have an adverse effect on the availability of social housing. You refer to section 106, but we know that developers are cutting back because of the credit crunch. We know that our local authorities are saying that, in the current financial environment, they cannot let land go at sub-market prices. We know that the Office of Fair Trading has told us that the land bank available for developers is less than two years. We also know that the social housing grant is still less for rented homes and assisted purchase than it was in 1997 when the Conservatives left office, representing a 75 per cent cut in new affordable housing.

I conclude by referring to the report and ask how you will respond to it. It says that responding to rural housing needs will require strong leadership and political will at national and local levels, requiring extra funding for, and action on, rural housing now to offset the heavier future social, economic and cultural costs. I know that it is not just your responsibility and that you have to address this along with your Cabinet colleagues, but this is a crisis, Deputy Minister, which needs a seismic step change if we are to put the issue on a par with health and education and, thereby, avoid the additional social and economic costs that will accrue if we do not respond accordingly.

**Jocelyn Davies:** A number of the recommendations mirror things that we are already doing, and I take heart from that. It means that we are moving in the right direction, and I agree that it will take strong leadership. I note that you still have not told me whether you will support us in insisting

yn cynnal ymchwil i eiddo gwledig gwag a'i bod eisoes yn gweld, er enghraifft, bod nifer ohonynt yn berchen i bobl sydd wedi dioddef profedigaeth ac a oedd yn ceisio cael cymorth yn unol â hynny. Felly, yr wyf yn amau efallai y bydd rhai canlyniadau cadarnhaol o hynny hefyd.

Yn fwy cyffredinol, wrth ymateb i adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o'r cynllun cymorth prynu, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru ei fod yn poeni y caiff rhai cynigion effaith andwyol ar argaeledd tai cymdeithasol. Yr ydych yn cyfeirio at adran 106, ond gwyddom fod datblygwyr yn tynnu yn ôl oherwydd y wasgfa gredyd. Gwyddom fod ein hawdurdodau lleol yn dweud na allant ryddhau tir am brisiau sy'n is na'r farchnad, ac ystyried yr amgylchedd ariannol cyfredol. Gwyddom fod y Swyddfa Masnachu Teg wedi dweud wrthym fod y banc tir sydd ar gael i ddatblygwyr yn llai na dwy flynedd. Gwyddom hefyd fod y grant tai cymdeithasol yn dal yn llai ar gyfer cartrefi rhent a phrynu wedi'i gynorthwyo nag ydoedd yn 1997 pan adawodd y Ceidwadwyr lywodraeth, sy'n cynrychioli cwtogi 75 y cant ar dai fforddiadwy newydd.

Yr wyf yn cloi drwy gyfeirio at yr adroddiad a gofyn sut y byddwch yn ymateb iddo. Dywed y bydd ymateb i anghenion tai gwledig yn galw am arweiniad cryf ac ewyllys gwleidyddol ar lefelau cenedlaethol a lleol, sy'n gofyn am gyllid ychwanegol a gweithredu ar dai gwledig yn awr i wneud iawn am y costau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol trymach yn y dyfodol. Gwn mai nad dim ond chi sy'n gyfrifol a'i bod yn rhaid i chi roi sylw i hyn gyda'ch cyd-Weinidogion yn y Cabinet, ond mae hon yn argyfwng, Ddirprwy Weinidog, sy'n galw am newid enfawr os ydym am roi'r mater ar yr un lefel ag iechyd ac addysg a, drwy hynny, osgoi'r costau cymdeithasol ac economaidd ychwanegol a fydd yn cronni os na fyddwn yn ymateb yn unol â hynny.

**Jocelyn Davies:** Mae nifer o'r argymhellion yn adlewyrchu pethau yr ydym eisoes yn eu gwneud, ac mae hynny'n galonogol. Mae'n golygu ein bod ar y trywydd cywir, ac yr wyf yn cytuno y bydd yn gofyn am arweiniad cryf. Sylwaf nad ydych dal wedi dweud wrthyf a fyddwch yn ein cefnogi i fynnu bod

that planning authorities draw up affordable housing delivery plans.

**Peter Black:** You are under a misapprehension as to who was responsible for housing between 2000 and 2003. I was the Deputy Minister for Local Government and housing was the responsibility of Edwina Hart, who was also the Finance Minister.

The Joseph Rowntree Foundation report published this morning refers specifically to the number of affordable housing units needed in rural Wales. It is quite specific that the 6,500 target set in the 'One Wales' agreement for the whole of Wales by 2011 is inadequate, even for rural Wales. How will you respond to that particular recommendation?

**Jocelyn Davies:** I apologise if I gave the impression that you had the same responsibility that I currently have. I know that you made a valuable contribution to housing policy, but my point was that I do not think that you can preach to me about the resources in the social housing grant budget.

The 6,500 figure arose from discussions with local authorities relating to their housing strategies. We said that there should be at least 6,500, but if we are able to achieve more that will be welcome. Again, one of the things that we definitely need is a delivery mechanism, and we are convinced that the best way forward is to require affordable housing delivery plans from all planning authorities, and I would be grateful for your support on that.

awdurdodau cynllunio'n llunio cynlluniau cyflenwi tai fforddiadwy ai peidio.

**Peter Black:** Yr ydych wedi camddeall pwy oedd yn gyfrifol am dai rhwng 2000 a 2003. Fi oedd y Dirprwy Weinidog dros Lywodraeth Leol ac Edwina Hart oedd yn gyfrifol am dai, a oedd hefyd yn Weinidog Cyllid.

Mae adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree a gyhoeddwyd fore heddiw yn cyfeirio'n benodol at nifer yr unedau tai fforddiadwy y mae eu hangen yng Nghymru wledig. Mae'n eithaf penodol bod y targed 6,500 yn y cytundeb 'Cymru'n Un' ar gyfer Cymru gyfan erbyn 2011 yn annigonol, hyd yn oed ar gyfer Cymru wledig. Sut y byddwch yn ymateb i'r argymhelliad penodol hwnnw?

**Jocelyn Davies:** Ymddiheuraf os rhoddais yr argraff bod gennych yr un cyfrifoldeb ag sydd gennyf i ar hyn o bryd. Gwn ichi wneud cyfraniad gwerthfawr at bolisi tai, ond fy mhwynt oedd nad wyf yn meddwl y gallwch bregethu wrthyf am yr adnoddau yn y gyllideb grant tai cymdeithasol.

Cododd y ffigur 6,500 o drafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch eu strategaethau tai. Dywedasom y dylid cael o leiaf 6,500, ond os gallwn ddarparu rhagor, croesewir hynny. Unwaith eto, un o'r pethau y mae ei angen arnom yn bendant yw mecanwaith cyflenwi, ac yr ydym yn argyhoeddedig mai'r ffordd orau ymlaen yw mynnu cynlluniau cyflenwi tai fforddiadwy gan yr holl awdurdodau cynllunio, a byddwn yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ar hynny.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage**

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(3)0382(HER), yn ôl.

**The Presiding Officer:** Question 1, OAQ(3)0382(HER), has been withdrawn.

#### **Welsh Political Programmes**

#### **Rhaglenni Gwleidyddol Cymreig**

**Q2 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on the broadcasting of Welsh political programmes?  
OAQ(3)0389(HER)

**C2 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarlledu rhaglenni gwleidyddol Cymreig?  
OAQ(3)0389(HER)

**The Minister for Heritage (Rhodri Glyn Thomas):** On the whole, I believe that Wales is well served by programmes that cover Welsh politics. It will be important to ensure that the plurality of existing coverage is maintained.

**Jenny Randerson:** I am sure that you are aware that there is increasing concern about the coverage of Welsh politics and political issues on UK media. Even the BBC has recognised that, at the highest level. Are you aware that, when *Question Time* recently came to the Wales Millennium Centre, the presenter, David Dimbleby, ruled out any reference to Welsh issues by a member of the panel, saying that the audience would not understand them? He then went on happily to allow other politicians to raise issues that were of relevance only to England and which were therefore possibly not understood in Wales. Will you take this issue up specifically with the makers of the programme and at the highest level in the BBC, so that we do not have a repetition of this appalling situation the next time *Question Time* is welcomed to Wales?

**Rhodri Glyn Thomas:** I will be happy to take that issue up both with the producers of the programme, and with the BBC. It is rather strange that David Dimbleby would make that ruling, because, if I remember rightly, there was a whole series of *Question Time* programmes about the London mayoral election, which is presumably confined to London in terms of its interest. Therefore, there is a slight inconsistency there, but I will allow David Dimbleby to explain himself—I would not want to be in the position of defending his view.

**Nerys Evans:** Rai wythnosau yn ôl, daeth Michael Grade, cadeirydd ITV, i gyfarfod y Pwyllgor Darlledu. Cyfaddefodd fod ITV yn gwasanaethu Cymru yn wael o ran y lefel isel iawn o gomisiynu o Gymru—er enghraifft, credaf na chafodd dim ei gomisiynu yn 2006—a'r diffyg enfawr yn yr adlewyrchiad o Gymru mewn rhaglenni a straeon. Beth yw eich ymateb i hyn? O ystyried bod gostyngiad mewn darlledu o Gymru ar ITV ar y gweill, a ydych yn credu fod hyn yn dderbyniol?

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** At ei gilydd, credaf y caiff Cymru ei gwasanaethu'n dda gan raglenni sy'n trafod gwleidyddiaeth Cymru. Bydd yn bwysig sicrhau bod lluosogrwydd sylw o'r fath yn cael ei gynnal.

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod bod mwy a mwy o bryder ynghylch y sylw a roddir i wleidyddiaeth a materion gwleidyddol Cymru yng nghyfyngau'r DU. Mae'r BBC ar y lefel uchaf hyd yn oed wedi cydnabod hynny. A ydych yn gwybod pan ddaeth *Question Time* i Ganolfan Mileniwm Cymru'n ddiweddar, i'r cyflwynydd, David Dimbleby, rwystro aelod o'r panel rhag cyfeirio at faterion Cymreig, gan ddweud na fyddai'r gynulleidfa yn eu deall? Yr oedd wedyn yn ddigon bodlon caniatáu i wleidyddion eraill godi materion a oedd yn berthnasol i Loegr yn unig ac na fyddai felly o bosibl yn cael eu deall yng Nghymru. A wnewch fynd ar drywydd y mater hwn yn benodol gyda gwneuthurwyr y rhaglen ac ar y lefel uchaf yn y BBC, er mwyn sicrhau na ailadroddir y sefyllfa warthus hon y tro nesaf y caiff *Question Time* ei groesawu yng Nghymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** Byddaf yn fodlon mynd ar drywydd y mater hwnnw gyda chynhyrchwyr y rhaglen a gyda'r BBC. Mae'n eithaf rhyfedd y byddai David Dimbleby yn gwneud y fath beth oherwydd, os cofiaf yn iawn, bu cyfres gyfan o raglenni *Question Time* am etholiad maer Llundain, sydd mae'n debyg wedi'i gyfyngu i Lundain o ran diddordeb. Felly, ceir anghysondeb yn fan honno, ond byddaf yn rhoi cyfle i David Dimbleby esbonio—ni fyddwn yn dymuno bod yn sefyllfa amddiffyn ei safbwynt.

**Nerys Evans:** A few weeks ago, Michael Grade, chair of ITV, attended a meeting of the Broadcasting Committee. He admitted that ITV serves Wales poorly given the low level of commissioning from Wales—for example, I do not think that anything was commissioned in 2006—and the enormous failure to reflect Wales in programmes and storylines. What is your response to that? Bearing in mind that a reduction in broadcasting from Wales is on the cards for ITV, do you think that this is acceptable?

**Rhodri Glyn Thomas:** Cefais innau hefyd gyfle i gwrdd â Michael Grade, ynghyd â'r Prif Weinidog, cyn iddo ymddangos gerbron y pwyllgor, a chawsom gyfle i drafod y materion hyn gydag ef. Mae'n bwnc eithriadol o bwysig, oherwydd byddai datblygu'r nifer o raglenni o Gymru sydd yn ymddangos ar y rhwydwaith yn gyffredinol o fudd sylweddol iawn i Gymru. Yr oeddwn yng nghyfarfod y Pwyllgor Darlledu ddydd Llun, ac ar hyn o bryd 0.8 y cant o raglenni o Gymru sydd yn ymddangos ar y rhwydwaith. Nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu Cymru—er enghraifft, nid yw *Doctor Who* yn adlewyrchu Cymru, er ei bod yn rhaglen bwysig am ei bod yn creu sgiliau cynhyrchu rhaglenni yng Nghymru. Pe bai'r ffigur hwnnw yn codi i 3 y cant, byddai'r arian i economi Cymru yn codi o £23 miliwn i £66 miliwn pe bai ar draws nifer o sianelau; pe bai ar y BBC yn unig, byddai'n codi i £46 miliwn. Mae poblogaeth Cymru yn 5 y cant o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Pe baem yn cyrraedd y ffigur hwnnw, yr ydym yn sôn am elw i'r economi o dros £100 miliwn. Felly, gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn ei gyfarwydd yn cymryd diddordeb yn y pwnc hwn, a byddaf i fel Gweinidog yn sicr yn hyrwyddo'r angen i weld mwy o raglenni o Gymru ac am Gymru ar y rhwydweithiau.

**Alun Cairns:** Do you accept that political coverage in Wales by Welsh broadcasters is very good, but that what we are essentially looking for is a greater slice of network coverage of issues that affect Wales and balanced reporting on the network when devolved issues such as education and health are covered? For example, when they cover free prescriptions on the one hand, they couple that by saying that there are other priorities, such as longer waiting lists in Wales. We need balanced reporting. Do you recognise that you have a role, as Minister, to support those networks in Wales to ensure that they get a greater slice of the UK networks in getting those stories broadcast in a balanced, fair and accurate way?

1.10 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** I also had the opportunity to meet Michael Grade, along with the First Minister, before he appeared before the committee, and we discussed these issues with him. It is a hugely important issue, because increasing the number of programmes from Wales that appear on the network generally would be of substantial benefit to Wales. I attended the Broadcasting Committee meeting on Monday and, at the moment, 0.8 per cent of programmes shown on the network are from Wales. They do not necessarily reflect Wales—for example, *Doctor Who* does not reflect Wales, although it is an important programme because it generates programme production skills in Wales. If that figure rose to 3 per cent, the amount of funding for the Welsh economy would increase from £23 million to £66 million if it were across several channels; if it were on the BBC only, it would rise to £46 million. The population of Wales is 5 per cent of that of the United Kingdom. If we reached that figure, we are talking of a profit for the economy of more than £100 million. I hope, therefore, that the Assembly as a whole will take an interest in this issue, and, as Minister, I will certainly be promoting the need to see more programming from Wales and about Wales on the networks.

**Alun Cairns:** A ydych yn derbyn bod y sylw gwleidyddol a geir yng Nghymru gan ddarlledwyr Cymreig yn dda iawn, ond yr hyn yr ydym yn chwilio amdano yn ei hanfod yw darn mwy o'r sylw ar y rhwydwaith i'r materion sy'n effeithio ar Gymru a gohebiaeth gytbwys ar y rhwydwaith pan roddir sylw i faterion sydd wedi'u datganoli megis addysg ac iechyd? Er enghraifft, pan fyddant yn sôn am bresgripsiynau am ddim ar un llaw, byddant yn ategu at hynny drwy ddweud bod blaenoriaethau eraill, megis rhestrau aros hwy yng Nghymru. Mae angen gohebu cytbwys arnom. A ydych yn cydnabod bod gennych chi swyddogaeth, fel Gweinidog, i gefnogi'r rhwydweithiau hynny yng Nghymru i sicrhau eu bod yn cael darn mwy o rwydweithiau'r DU o ran darlledu'r straeon hynny mewn ffordd gytbwys, deg a chywir?

**Rhodri Glyn Thomas:** I totally agree with that. I have already raised these issues with the BBC, the BBC Trust's impartiality review and Ofcom. There is a genuine concern that matters relating to Wales are not adequately covered on the media networks and in the UK national press. Interestingly, following last year's elections, a small article appeared in the Guardian referring to the fact that little coverage had been given to the elections in Wales or the ensuing coalition discussions. That speaks for itself. Again, this is something that we all need to promote. However, I take my responsibility as a Minister in this area very seriously.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn cytuno'n llwyr â hynny. Yr wyf bob amser wedi codi'r materion hyn gyda'r BBC, adolygiad amhleidioldeb Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom. Ceir gwir bryder na chaiff materion sy'n ymwneud â Chymru ddigon o sylw ar y rhwydweithiau cyfryngau ac yn wasg genedlaethol y DU. Yn ddi-ddorol, yn dilyn etholiadau'r llynedd, ymddangosodd erthygl fach yn y *Guardian* yn cyfeirio at y ffaith mai prin oedd y sylw a roddwyd i'r etholiadau yng Nghymru na'r trafodaethau clymblaid a'u dilynodd. Mae hynny'n siarad cyfrolau. Unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth y mae angen i ni i gyd ei hyrwyddo. Fodd bynnag, byddaf yn cymryd fy nghyfrifoldeb fel Gweinidog yn y maes hwn yn ddirifol iawn.

### Hyrwyddo Cymru

**C3 David Lloyd:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Croeso Cymru i ddefnyddio'r hyn a fu'n flwyddyn ryfeddol o ran chwaraeon yng Nghymru fel ffordd o hyrwyddo Cymru i'r byd? OAQ(3)0379(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Bydd tîm Croeso Cymru yn parhau i ddefnyddio llwyddiannau chwaraeon a llwyddiannau eraill Cymru fel llwyfan ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus a sylw yn y wasg lle bo'n bosibl i helpu i ddenu mwy o ddigwyddiadau ac ymwelwyr i Gymru.

**David Lloyd:** Yn dilyn llwyddiant ein tîm rygbi cenedlaethol wrth gipio'r Gamp Lawn eleni, y Gweilch yn ennill Cwpan EDF, Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn ennill dyrchafiad ac, er mwyn imi fod yn deg a chadw pawb yn hapus, Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn cyrraedd rownd derfynol Cwpan yr FA, a ydych yn cytuno y dylem afael yn y cyfle hwn gyda dwy law i hyrwyddo Cymru fel gwlad egniol, lwyddiannus, sy'n gallu cyfrannu llawer mwy nag y dylai o ystyried ei maint?

**Rhodri Glyn Thomas:** Bu'r flwyddyn gyfredol yn flwyddyn hynod lwyddiannus yn y byd chwaraeon. Bydd Cwpan Rygbi'r Byd dan-20 yn dechrau y penwythnos hwn, a dymunwn yn dda i dîm Cymru yn y gystadleuaeth honno, gan obeithio am llwyddiant pellach. Yn ogystal â'r

### Promoting Wales

**Q3 David Lloyd:** What discussions has the Minister had with Visit Wales to use what was a remarkable year in Welsh sport as a means of promoting Wales to the world? OAQ(3)0379(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** The Visit Wales team will continue to use sporting successes and Wales's other successes as a platform for public relations and media coverage wherever possible to help attract more events and visitors to Wales.

**David Lloyd:** Following the success of our national rugby team in winning the Grand Slam this year, the Ospreys winning the EDF Cup, Swansea City Football Club winning their promotion and, let us be fair and keep everyone happy, Cardiff City Football Club reaching the FA Cup final, do you agree that we should grasp this opportunity with both hands to promote Wales as an energetic, successful nation that can contribute a great deal more than it should be able to, given its size?

**Rhodri Glyn Thomas:** This current year has been extremely successful in the sporting arena. The under-20s Rugby World Cup gets under way this weekend, and we wish the Welsh team all the best in that particular competition, while hoping for further success. As well as the successes already

llwyddiannau y soniwyd amdanynt eisoes, cafodd Joe Calzaghe flwyddyn arbennig arall, ac mae tîm pêl-droed dan-21 Cymru wedi bod yn hynod lwyddiannus.

Mae'r cyfan yn ategu'r hyn a ddywedasoeh, Dai, sef ein bod yn llwyddo i raddau mwy nag y gellid ei ddisgwyl ym myd chwaraeon, ac mae hynny'n adlewyrchu'n gadarnhaol ar Gymru. Byddwn yn manteisio ar hynny drwy'r uned sydd wedi'i sefydlu ar gyfer digwyddiadau mawr. Y flwyddyn nesaf, cynhelir gêm brawf yng nghyfes y Llundw yng Nghymru, a'r flwyddyn ganlynol, cynhelir Cwpan Ryder yng Nghasnewydd. Cwpan Ryder yw ein Gemau Olympaidd ni yng Nghymru, ac mae cyfleoedd i Gymru gyfan elwa o'r digwyddiadau hynny.

**Alun Cairns:** Will the Minister also recognise that sporting events provide a fantastic opportunity for the Assembly and for Wales to sell itself, not only in the UK, but across Europe and beyond? The Ashes coming to Cardiff and the redevelopment of the stadium is a coup for Wales. However, does the Minister share my concern that some people have not shown full support for the Ashes coming to Cardiff, because the team playing is called 'England', although it represents the cricketing teams of both England and Wales? Do you share my fear that this could overshadow a fantastic event where we can celebrate Wales during a five-day cricket match? The FA Cup in the past was to be welcomed but it only lasted one day. This time people will be coming here for a considerable period of time, giving us a better opportunity to sell Wales for longer, not only in Cardiff, but far beyond. Will you pledge your full support for the England cricket team? It is a team that covers England and Wales, and will you ensure that we are selling a positive message of Wales on the back of this fantastic tournament?

**Rhodri Glyn Thomas:** That was an interesting question. You started by saying that the fact that the team would be referred to as the England cricket team, rather than the England and Wales cricket team, could create a reaction. At the end of your question, you were emphasising the fact that it was called the England cricket team. I sincerely hope

mentioned, Joe Calzaghe has had another amazing year, and the Wales under-21 football team has also been enormously successful.

All that endorses what you said Dai, that we are punching way above our weight in sporting terms and that that reflects positively on Wales. We will take advantage of that through the unit established to deal with major events. Next year, there will be an Ashes test match in Wales, and, in the following year, the Ryder Cup will be held in Newport. The Ryder Cup is certainly our Olympic Games here in Wales, and there are opportunities for the whole of Wales to benefit from those events.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog hefyd gydnabod bod digwyddiadau chwaraeon yn darparu cyfle gwych i'r Cynulliad ac i Gymru werthu ei hun, nid yn unig yn y DU, ond ar draws Ewrop a thu hwnt? Mae'r ffaith bod Cyfes y Llundw yn dod i Gaerdydd a bod y stadiwm yn cael ei ailddatblygu yn gamp i Gymru. Fodd bynnag, a yw'r Gweinidog yn rhannu fy mhryder nad yw rhai pobl yn llwyr gefnogol i ddod â Chyfes y Llundw i Gaerdydd, oherwydd mai 'Lloegr' yw enw'r tîm sy'n chwarae, er ei fod yn cynrychioli tîmau criced Cymru a Lloegr? A ydych yn rhannu fy mhryder y gallai hyn daflu cysgod dros ddigwyddiad ffantastig lle gallwn ddathlu Cymru yn ystod gêm griced pum niwrnod o hyd? Croesawyd Cwpan FA Lloegr yn y gorffennol ond dim ond diwrnod o hyd oedd hwnnw. Y tro hwn bydd pobl yn dod yma am gyfnod sylweddol, sy'n rhoi cyfle gwell inni werthu Cymru am gyfnod hwy, nid yn unig yng Nghaerdydd, ond tu hwnt. A wnewch addo cefnogi tîm criced Lloegr yn llawn? Mae'n dîm sy'n cynrychioli Cymru a Lloegr, ac a wnewch sicrhau ein bod yn gwerthu neges gadarnhaol o Gymru yn sgil y twrnamaint ffantastig hwn?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr oedd hwnnw'n cwestiwn difyr. Dechreuasoch drwy ddweud y gallai'r ffaith y cyfeirir at y tîm fel tîm criced Lloegr, yn hytrach na thîm criced Cymru a Lloegr, greu adwaith. Ar ddiwedd eich cwestiwn, yr oeddech yn pwysleisio'r ffaith mai tîm criced Lloegr oedd ei enw. Mawr obeithiaf y bydd Simon Jones yn ôl yn

that Simon Jones will be back fit and firing on all cylinders so that he can play an important part in that test match. I and countless others will take advantage of the opportunity to see part of that game in that wonderful new stadium, and many more will share that experience through the media.

### Tourism

**Q4 Sandy Mewies:** What is the Welsh Assembly Government doing to encourage tourism into Wales for people of all ages? OAQ(3)0386(HER)

**Q7 Christine Chapman:** What is the Welsh Assembly Government doing to support and promote sustainable tourism in Wales? OAQ(3)0355(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** We have a diverse range of tourism products with something for all ages, from the leisure market, covering the arts, heritage and the wonderful castles and gardens of Wales, along with many attractions and events, coastal and national park views and walks, through to the more adventurous activities market.

**Sandy Mewies:** Thank you, Minister. Most, if not all, of those activities go on in my constituency of Delyn. You will be aware that Holywell, in my constituency, is a very attractive area for tourists. There are, however, two new projects, which I have mentioned to you, that could do with your support and would really place us on the tourist map. One is a sustainable energy project, which will be set up in the Greenfield Valley Heritage Park and will be educational but will also appeal to tourists of all ages. The second project is a four-star guest house, run by the Brigittine order, in Greenfield itself, which is an attraction for pilgrims and tourists. Minister, I invite you join me in a visit to the area, so that you can see these projects for yourself. Will you consider giving them any support that the Government can provide?

**Rhodri Glyn Thomas:** If you contact my office, I will be more than happy to visit those two projects in your constituency. I

iach ac yn heini ac ar ei orau er mwyn iddo allu chwarae rhan bwysig yn y gêm brawf honno. Byddaf i a llu o bobl eraill yn manteisio ar y cyfle i weld rhan o'r gêm honno yn y stadiwm newydd fendigedig honno, a bydd llawer mwy yn rhannu'r profiad hwnnw drwy'r cyfryngau.

### Twristiaeth

**C4 Sandy Mewies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i hybu twristiaeth i Gymru ar gyfer pobl o bob oed? OAQ(3)0386(HER)

**C7 Christine Chapman:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i gefnogi a hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru? OAQ(3)0355(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** O ran twristiaeth, mae gennym amrywiaeth o bethau i'w cynnig ar gyfer pob oed, o'r farchnad hamdden, sy'n cynnwys y celfyddydau, treftadaeth a chestyll a gerddi rhyfeddol Cymru, ynghyd â llawer o atyniadau a digwyddiadau, golygfeydd a llwybrau cerdded y parciau cenedlaethol ac ar hyd yr arfordir, yn ogystal â'r farchnad sy'n cynnig gweithgareddau mwy anturus.

**Sandy Mewies:** Diolch ichi, Weinidog. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau hynny, os nad pob un ohonynt, i'w gweld yn fy etholaeth i, sef Delyn. Byddwch yn gwybod bod Treffynnon, yn fy etholaeth, yn ardal ddeniadol iawn i dwristiaid. Fodd bynnag, ceir dau brosiect newydd, yr wyf wedi sôn amdanynt wrthy, a fyddai'n falch o'ch cefnogaeth ac a fyddai'n sicr yn ein rhoi ar y map twristiaeth. Prosiect ynni cynaliadwy yw un, a fydd yn cael ei sefydlu ym Mharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas ac a fydd nid yn unig yn addysgol ond hefyd yn apelio at dwristiaid o bob oed. Tŷ llety pedair seren yw'r ail brosiect, ac fe'i rhedir gan urdd y Brigitin, ym Maes Glas ei hun, sy'n atyniad i bererinion a thwristiaid. Weinidog, fe'ch gwahoddaf i ymuno â mi i ymweld â'r ardal, er mwyn ichi allu gweld y prosiectau hyn eich hun. A ystyriwch roi iddynt unrhyw gymorth y gall y Llywodraeth ei roi?

**Rhodri Glyn Thomas:** Os cysylltwch â'm swyddfa, byddaf yn fwy na pharod i ymweld â'r ddau brosiect hynny yn eich etholaeth.



congratulate you on having so many varied activities going on in your constituency.

**Christine Chapman:** On sustainable tourism, I was delighted, Minister, to officially open the new section on the Celtic trail cycle route in my constituency recently. This route is a valuable addition to the other cycle trails that run throughout Cynon Valley and the rest of Wales. While cycling is a valuable way of improving the fitness of people of all ages, our cycle trails also have a big part to play in encouraging tourists to enjoy the beautiful countryside, particularly in the Heads of the Valleys area. It challenges the stereotypes of Valleys areas. What is the Welsh Assembly Government doing to promote cycling as part of its tourism strategy, particularly in the Valleys or the Heads of the Valleys areas?

**Rhodri Glyn Thomas:** The marketing core budget for 2008-09 is £7.38 million. In recent years, that budget has been significantly boosted by Objective 1 funding and we are now ensuring that these budgets will be further boosted by tourism bids for convergence funding. As part of that, we will be promoting our sustainable tourism strategy, and activities such as cycling, which have a low-carbon impact on the environment, are important to that sustainable tourism strategy. Next week, Jane Davidson and I will be meeting Sustrans officials to discuss the national cycle network in Wales.

**Paul Davies:** Yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog yn cytuno ei bod yn hanfodol i'r Llywodraeth gefnogi busnesau sy'n hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy dros Gymru. Mae twristiaeth yn un o'r prif ddiwydiannau yn fy ardal, ac mae economi sir Benfro yn dibynnu'n helaeth arno. Mae cwmni Bluestone yn enghraifft arbennig o dda o fusnes sy'n hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, ac yr wyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog eisiau ymuno â mi i longyfarch y cwmni ar ei lwyddiant. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi busnesau fel hyn, mae'n hanfodol sicrhau bod cyllideb dwristiaeth y

Fe'ch llongyfarchaf ar gael cynifer o weithgareddau amrywiol yn eich etholaeth.

**Christine Chapman:** O ran twristiaeth gynaliadwy, yr oedd yn bleser gennyf, Weinidog, agor yn swyddogol ran newydd taith seiclo'r llwybr Celtaidd yn fy etholaeth yn ddiweddar. Mae'r llwybr hwn yn ychwanegiad gwerthfawr at y llwybrau seiclo sy'n mynd drwy Gwm Cynon a gweddill Cymru. Er bod seiclo'n ffordd werthfawr o wella ffitrwydd pobl o bob oed, mae gan ein llwybrau seiclo ran fawr i'w chwarae hefyd wrth annog twristiaid i fwynhau ein cefn gwlad godidog, yn enwedig yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Mae'n herio'r ystrydebau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd y Cymoedd. Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hybu seiclo fel rhan o'i strategaeth twristiaeth, yn arbennig yn y Cymoedd neu yn ardaloedd Blaenau'r Cymoedd?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'r gyllideb graidd ar gyfer marchnata yn £7.38 miliwn ar gyfer 2008-09. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r gyllideb honno wedi cael cryn hwb gan arian Amcan 1 ac yr ydym yn awr yn sicrhau y rhoddir hwb eto i'r cyllidebau hyn gan gynigion o fyd twristiaeth am gyllid cydgyfeirio. Fel rhan o hynny, byddwn yn hyrwyddo ein strategaeth twristiaeth gynaliadwy, ac mae gweithgareddau megis seiclo, sy'n cael effaith sy'n isel mewn carbon ar yr amgylchedd, yn bwysig i'r strategaeth honno ar gyfer twristiaeth gynaliadwy. Yr wythnos nesaf, bydd Jane Davidson a minnau'n cwrdd â swyddogion Sustrans i drafod rhwydwaith seiclo cenedlaethol Cymru.

**Paul Davies:** I am sure that the Minister agrees that it is vital for the Government to support businesses that promote sustainable tourism throughout Wales. Tourism is one of the main industries in my area, and the economy of Pembrokeshire is substantially dependent upon it. The Bluestone company is a particularly good example of a business that promotes sustainable tourism, and I am sure that the Minister would like to join me in congratulating the company on its success. However, in order to support such companies, it is essential to ensure that the Government's tourism budget promotes a

Llywodraeth yn hyrwyddo strategaeth farchnata hirdymor sy'n gysylltiedig ag atyniadau allweddol, megis chwaraeon antur, a hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer gwyliau cerdded ac ati. Beth yw strategaeth hirdymor y Llywodraeth?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr ydym eisoes wedi gwneud ceisiadau ar gyfer cyllid cydgyfeiriant er mwyn hyrwyddo ein strategaeth farchnata i'r dyfodol. Byddwn yn pwysleisio'r strategaeth o ran twristiaeth ddiwylliannol a thwristiaeth gynaliadwy. Mae Bluestone yn enghraifft dda iawn o ddatblygiad a fydd yn hyrwyddo twristiaeth yn fawr yn sir Benfro.

1.20 p.m.

Yr wyf eisoes wedi ymweld â Bluestone. Yr hyn sy'n bwysig am y fenter honno yw ei bod yn ceisio cysylltu ag atyniadau twristiaid eraill, nid yn unig yn sir Benfro ond drwy'r de orllewin. Mae bobl sy'n aros yn Bluestone yn cael eu hannog i ymweld â'r atyniadau eraill. Mae'r math hwnnw o strategaeth integredig yn eithriadol o bwysig i'r dyfodol. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ein strategaethau marchnata yn arddangos ac yn hyrwyddo hyn.

**Paul Davies:** Rhaid gofyn a yw strategaeth bresennol y Llywodraeth yn gweithio oherwydd, yn ddiweddar, yr ydym wedi gweld ffigurau sy'n dangos bod ymwelwyr i Gymru wedi gwario £159 miliwn yn llai y llynedd nag yn 2000. Mae hwn yn newyddion drwg iawn i fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yng Nghymru. Mae'n amlwg y bu diddymu Bwrdd Croeso Cymru yn gamgymeriad aruthrol gyda chanlyniadau difrifol i'n diwydiant twristiaeth. Mae gwaredu bwrdd a oedd yn adnabyddus fel brand rhyngwladol yn amlwg wedi cael effaith enfawr. A all y Gweinidog ddweud wrthym sut mae'r Llywodraeth yn golygu ailganolbwyntio ar dwristiaeth yn sgîl diddymu'r bwrdd croeso? Mae'n amlwg bod hwnnw wedi cael effaith enfawr ar economi Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Credaf eich bod yn dod i gasgliadau carlamus iawn ar sail un adroddiad ac un tymor, sef tymor gwyliau y llynedd. Derbyniaf fod y ffigurau yn

long-term marketing strategy that is linked to key attractions, such as adventure sports, and to promote Wales as a venue for walking holidays and so on. What is the Government's long-term strategy?

**Rhodri Glyn Thomas:** We have already made bids for convergence funding in order to promote our marketing strategy for the future. We will place an emphasis in the strategy in terms of cultural tourism and sustainable tourism. Bluestone is a very good example of a development that will promote tourism greatly in Pembrokeshire.

I have already visited Bluestone. What is important about Bluestone is that that initiative tries to link up with other tourist attractions, not only in Pembrokeshire, but throughout south-west Wales. People staying at Bluestone are encouraged to visit other attractions. That kind of integrated strategy is extremely important for the future. We will make every effort to ensure that our marketing strategy demonstrates and promotes this.

**Paul Davies:** We must ask whether the Government's present strategy is working because, recently, we have seen figures that show that visitors to Wales spent £159 million less last year than in 2000. This is bad news for companies associated with tourism in Wales. It is obvious that abolishing the Wales Tourist Board has been a huge mistake that has led to serious consequences for our tourism industry. Getting rid of a board that was well-known as an international brand has obviously had an enormous impact. Could the Minister tell us how the Government intends to refocus on tourism following the abolition of the tourist board? It is obvious that that has had an enormous impact on the economy of Wales.

**Rhodri Glyn Thomas:** I believe that you have come to some rather hasty conclusions on the basis of one report and one season, namely last year's holiday season. I accept

siomedig iawn. Cyfrannodd sawl ffactor at hynny: yr oedd y tywydd yn wael iawn ym mis Mehefin a mis Gorffennaf—y ddau fis gwlypaf erioed ar gofnod—ac yr oedd y bunt yn arbennig o gryf yn erbyn yr ewro yn ystod yr haf hwnnw, felly, yn naturiol, yr oedd pobl yn hedfan i chwilio am yr haul ym mannau eraill yn Ewrop. Yr wyf wedi sicrhau ein bod yn cynnal arolwg cynhwysfawr o dwristiaeth yng Nghymru, ac yn gwneud hynny ar y cyd â'r sector. Mae Cynghair Twristiaeth Cymru yn cyfrannu'n llawn at yr adolygiad. Yn wir, bu'n rhan o'r broses o drefnu'r adolygiad. Felly, yr ydym yn gweithio ar y cyd, ac yn gweithio gyda chydweithrediad llawn y diwydiant i sicrhau ein bod yn edrych ar bob agwedd o dwristiaeth ac ar yr hyn y gallwn ei wneud i gynyddu twristiaeth a'i hyrwyddo yng Nghymru. Mae'n bwysig nodi bod twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth iawn at economi Cymru a bod y cyfraniad hwnnw yn cynyddu.

**Chris Franks:** Many tourists appreciate the footpaths and cycleways in Wales. Therefore, are you as disappointed as I am that the Conservatives in the Vale of Glamorgan Council seem to be backtracking on the proposed footpath over the river Ely linking Penarth and Cardiff? *[Interruption.]* Obviously, I have touched a raw nerve. Cardiff County Council has already committed £1.3 million, but Sustrans is finding it extremely difficult to get clarity from the new Tory administration in the Vale of Glamorgan on this landmark project.

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you, Chris, for drawing my attention to this matter. I assure you that I will look very carefully at the situation. If there is anything I can do to ensure rapid activity on this matter, then I am more than happy to do it.

**Kirsty Williams:** Last November, the Wern Horse and Rider bed-and-breakfast facility in Llanfihangel Tal-y-Llyn in my constituency won a Wales Business and Sustainability Award for its work in promoting horse riding tourism in Wales. However, many in my constituency were concerned that the potential for horse riding tourism is being held back because of your Government's failure to invest in infrastructure. We

that the figures are very disappointing. There were several contributory factors: the weather in June and July was very poor—they were the two wettest months ever recorded—and the pound was particularly strong against the euro during that summer so, naturally, people were flying to other parts of Europe in search of the sun. I have ensured that we are undertaking a comprehensive review of tourism in Wales, and that we are doing so in conjunction with the sector. The Wales Tourism Alliance is contributing fully to the review. In fact, it has been part of the process of arranging the review. Therefore, we are working together, and working with the full co-operation of the industry to ensure that we look at every aspect of tourism and at what we can do to increase tourism and promote the industry in Wales. It is important to note that tourism makes a substantial contribution to the economy of Wales and that that contribution is increasing.

**Chris Franks:** Mae llawer o dwristiaid yn gwerthfawrogi'r llwybrau troed a'r llwybrau seiclo yng Nghymru. Felly, a ydych yr un mor siomedig â mi bod y Ceidwadwyr yng Nghyngor Bro Morgannwg i bob golwg yn cymryd cam yn ôl yng nghyswllt y llwybr troed y bwriadwyd ei gael dros afon Elai i gysylltu Penarth a Chaerdydd? *[Torri ar draws.]* Yn amlwg, yr wyf wedi taro man gwan. Mae Cyngor Sir Caerdydd eisoes wedi ymrwymo £1.3 miliwn, ond mae Sustrans yn ei chael yn anodd iawn cael gwybodaeth eglur gan weinyddiaeth Doriaidd newydd Bro Morgannwg am y prosiect pwysig hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch ichi, Cris, am dynnu fy sylw at y mater hwn. Fe'ch sicrhaf yr edrychaf yn ofalus ar y sefyllfa. Os oes unrhyw beth y gallaf ei wneud i sicrhau y gwneir rhywbeth am hyn yn fuan, yr wyf yn fwy na pharod i wneud hynny.

**Kirsty Williams:** Fis Tachwedd diwethaf, enillodd cyfleuster gwely a brecwast ar gyfer Marchogwyr a'u Ceffylau yn y Wern yn Llanfihangel Tal-y-Llyn yn fy etholaeth Wobr Busnes a Chynaliadwyedd Cymru am ei waith yn hyrwyddo twristiaeth marchogaeth ceffylau yng Nghymru. Fodd bynnag, yr oedd llawer yn fy etholaeth yn bryderus bod y potensial ar gyfer twristiaeth marchogaeth ceffylau yn cael ei ddal yn ôl

desperately need a multi-user track alongside the A40 that would connect the Brecon Beacons to the Black Mountains, thus allowing pedestrians, walkers, horse-riders, and cyclists to cross between the two mountain ranges without having to use the busy trunk road. The trunk road agency has agreed that this should go ahead, but your Government says that it is not a priority. Will you discuss this issue with Ieuan Wyn Jones so that we have the infrastructure that we need to develop sustainable tourism, not just in Brecon and Radnorshire, but across Wales?

**Rhodri Glyn Thomas:** I am happy to discuss that matter with the Deputy First Minister, and I will get back to you when I have had those discussions.

**Jeff Cuthbert:** A few weeks ago, I attended the opening of a museum and exhibition in Senghennydd to commemorate the great mining disasters of the earlier part of the last century. Can you tell us what steps the Welsh Assembly Government is taking to help to promote our industrial heritage as an important aspect of modern tourism?

**Rhodri Glyn Thomas:** I am working with the Deputy Minister for Regeneration, and we are looking carefully at the possibilities for celebrating our industrial heritage. A great deal of work has already been done on the Blaenavon site, and we are looking actively at other areas. The Deputy Minister for Regeneration made a statement recently about the money that he is investing in that area, so we are looking carefully at what can be done. We have an important story to tell about our industrial heritage in coal, steel and iron, and it is a story that we should be telling with a great deal of pride, given the contribution of working men and women in Wales to those industries worldwide.

**Andrew R.T. Davies:** Sadly, Wales has failed to attract many international visitors. I

oherwydd methiant eich Llywodraeth i fuddsoddi mewn seilwaith. Mae dirfawr angen llwybr i ddefnyddwyr gwahanol arnom ar hyd yr A40 a fyddai'n cysylltu Bannau Brycheiniog â'r Mynyddoedd Du, er mwyn caniatáu i gerddwyr, seiclwyr a phobl sy'n marchogaeth ceffylau groesi rhwng y mynyddoedd heb orfod defnyddio'r gefnffordd brysur. Mae'r asiantaeth cefnffyrdd wedi cytuno y dylai hyn fynd rhagddo, ond dywed eich Llywodraeth nad yw'n flaenoriaeth. A drafodwch y mater hwn gydag Ieuan Wyn Jones er mwyn inni gael y seilwaith y mae ei angen arnom i ddatblygu twristiaeth gynaliadwy, nid ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yn unig, ond drwy Gymru gyfan?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn fodlon trafod y mater hwnnw gyda'r Dirprwy Brif Weinidog, a chysylltaf â chi pan fyddaf wedi cael y trafodaethau hynny.

**Jeff Cuthbert:** Ychydig wythnosau'n ôl, bûm mewn agoriad amgueddfa ac arddangosfa yn Senghennydd i goffáu'r trychinebau mawr a fu yn y pyllau glo ddechrau'r ganrif ddiwethaf. A allwch ddweud wrthym pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i'n helpu i hyrwyddo ein treftadaeth ddiwydiannol fel rhan bwysig o dwristiaeth fodern?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn gweithio gyda'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio, ac yr ydym yn edrych yn ofalus ar y posibilïadau ar gyfer dathlu ein treftadaeth ddiwydiannol. Mae llawer iawn o waith eisoes wedi'i wneud ar safle Blaenafon, ac yr ydym yn edrych yn frwd ar ardaloedd eraill. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog dros Adfywio ddatganiad yn ddiweddar am yr arian y mae'n ei fuddsoddi yn yr ardal honno, felly yr ydym yn edrych yn ofalus ar yr hyn y gellir ei wneud. Mae gennym stori bwysig i'w hadrodd am ein treftadaeth ddiwydiannol o ran glo, dur a haearn, ac mae'n stori y dylem fod yn ei hadrodd â chryn falchder, a chofio am gyfraniad y dynion a'r menywod a fu'n gweithio yn y diwydiant yng Nghymru i'r diwydiannau hynny ledled y byd.

**Andrew R.T. Davies:** Yn anffodus, mae Cymru wedi methu denu llawer o ymwelwyr

appreciate that this has not happened on your watch, Minister, but according to the last reported figures, international tourism dropped by 8 per cent. What are you doing to improve the activities on offer in Wales to try to reverse that decline? Nationally, across the UK, inward tourism has gone up by 2 per cent. Therefore, we need to refocus our efforts to halt the decline in Wales, and offer alternative tourism for all age groups so that tourists see Wales as an attractive proposition.

**Rhodri Glyn Thomas:** The important thing is that we give people who come to Wales an experience that they cannot get anywhere else in the world. That is what we are working towards, with the sustainable tourism strategy and the cultural tourism strategy. However, over and above that we have established the major events unit, and I was pleased to see that, together with the teams visiting Wales for the under-20s World Cup, there were literally hundreds of members of the press and media coming to cover that particular event, together with supporters of the teams from 16 different countries. These major events, together with the Ashes next year, which was mentioned earlier, and the Ryder Cup, will bring people to Wales—and if we can give them an enjoyable experience that is unique to Wales, then not only will they have enjoyed their visit, but they will return. That is the strategy that we are following.

### Football

**Q5 Ann Jones:** What assessment has the Minister made of the former Culture, Welsh Language and Sport Committee's review of football in Wales? OAQ(3)0391(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** The Culture, Welsh Language and Sport Committee made a series of recommendations following its review of football in Wales. Ultimately it is, of course, for the Football Association of Wales, the governing body of football in Wales, to consider those recommendations.

rhyngwladol. Sylweddolaf nad yw hyn wedi digwydd dan eich gofal chi, Weinidog, ond yn ôl y ffigurau diwethaf a gofnodwyd, disgynnodd twristiaeth ryngwladol 8 y cant. Beth yr ydych yn ei wneud i wella'r gweithgareddau a gynigir yng Nghymru i geisio gwrthdroi'r gostyngiad hwnnw? Yn genedlaethol, ar draws y DU, mae twristiaeth ryngwladol wedi codi 2 y cant. Felly, mae angen inni ganolbwyntio o'r newydd ar ein hymdrechion i atal y gostyngiad yng Nghymru, a chynnig twristiaeth amgen i bob grŵp oed er mwyn i dwristiaid allu gweld Cymru fel cynnig deniadol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn rhoi i bobl sy'n dod i Gymru brofiad na allant ei gael yn unrhyw le arall yn y byd. At hynny yr ydym yn gweithio, gyda'r strategaeth twristiaeth gynaliadwy a'r strategaeth twristiaeth ddiwylliannol. Fodd bynnag, ar ben hynny, yr ydym wedi sefydlu'r uned prif ddigwyddiadau, ac yr oeddwn yn falch o weld, ynghyd â'r timau sy'n ymweld â Chymru ar gyfer Cwpan y Byd ar gyfer rhai dan 20 oed, bod cannoedd, yng ngwir ystyr y gair, o aelodau'r wasg a'r cyfryngau yn dod i roi sylw i'r digwyddiad arbennig hwnnw, yn ogystal â chefnogwyr y timau o 16 o wahanol wledydd. Bydd y digwyddiadau pwysig hyn, ynghyd â Chyffres y Llundw y flwyddyn nesaf, fel y crybwyllwyd yn gynharach, a Chwpan Ryder, yn dod â phobl i Gymru—ac os gallwn roi profiad pleserus iddynt sy'n unigryw i Gymru, yna yn ogystal â mwynhau eu hymweliad, byddant hefyd yn dychwelyd. Dyna'r strategaeth yr ydym yn ei dilyn.

### Pêl-droed

**C5 Ann Jones:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o adolygiad y cyn Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon o bêl-droed yng Nghymru? OAQ(3)0391(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn dilyn ei adolygiad o bêl-droed yng Nghymru, gwnaeth y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon gyfres o argymhellion. Yn y pen draw, swyddogaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru, y corff llywodraethu ym maes pêl-droed yng Nghymru, yw ystyried yr argymhellion hynny.

**Ann Jones:** The review of football in Wales made many key recommendations. One was that the FAW should modernise its governance structure, and look at its responsibilities for football development. Another was that if the FAW did not take the recommendations seriously, then the Welsh Assembly Government and the Sports Council for Wales should look at the future public investment. There was also a commitment to review the decisions after 12 months.

It is important that the FAW concentrates on all aspects of football, not just on the national team, and we need to ensure that these reports are dealt with in a professional manner. Will you undertake to meet the FAW and report back to the relevant committee on the action points from the report, so that we can be confident that football in Wales can be celebrated? Important examples were raised of Welsh football teams that, unfortunately, play in the English system, and we have to ask why that is.

**Rhodri Glyn Thomas:** I have had several meetings with the FAW, and I assure you that, as a Government, we have a close working relationship with the FAW. It is now working on its strategy, and it will set out its policies and objectives up until 2011-12. I am looking forward to receiving a copy of the strategy, and seeing how we, as a Government, can work with the FAW to promote football at all levels. I was encouraged by the fact that the FAW has agreed to increase funding to the Welsh Football Trust from £130,000 to £230,000 for four years up to 2009-10.

1.30 p.m.

**David Melding:** When I was at secondary school, quite a long time ago now, no soccer was played; only rugby was played, and it is still the case that, in the designated time for physical education, there is not enough choice for children of secondary school age. Many of them prefer playing soccer. Is it not

**Ann Jones:** Gwnaeth yr adolygiad o bêl-droed yng Nghymru lawer o argymhellion allweddol. Yr oedd un ohonynt yn dweud y dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru foderneiddio ei strwythur llywodraethu, ac edrych ar ei chyfrifoldebau dros ddatblygu pêl-droed. Yr oedd un arall yn dweud pe na bai'r Gymdeithas yn edrych o ddifrif ar yr argymhellion, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru ystyried buddsoddiad cyhoeddus ar gyfer y dyfodol. Cafwyd hefyd ymrwymiad i adolygu'r penderfyniadau ar ôl 12 mis.

Mae'n bwysig bod y gymdeithas yn canolbwyntio ar bob agwedd ar bêl-droed, nid ar y tîm cenedlaethol yn unig, ac mae angen inni sicrhau yr ymdrinnir â'r adroddiadau hyn mewn ffordd broffesiynol. A ymrwymwch i gyfarfod â'r gymdeithas ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor perthnasol ar y pwyntiau gweithredu yn yr adroddiad, er mwyn inni allu bod yn hyderus y gellir dathlu pêl-droed yng Nghymru? Codwyd enghreifftiau pwysig o dimau pêl-droed o Gymru sydd, yn anffodus, yn chwarae yn system Lloegr, ac mae'n rhaid inni holi pam mae hynny'n digwydd.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf wedi cael amryw o gyfarfodydd â'r gymdeithas, ac fe'ch sicrhaf fod gennym, fel Llywodraeth, berthynas waith agos â'r gymdeithas. Mae'n awr yn gweithio ar ei strategaeth, a bydd yn gosod allan ei pholisïau a'i hamcanion hyd 2011-12. Yr wyf yn edrych ymlaen at gael copi o'r strategaeth, a gweld sut y gallwn, fel Llywodraeth, weithio gyda'r gymdeithas i hyrwyddo pêl-droed ar bob lefel. Fe'm hanogwyd gan y ffaith bod y gymdeithas wedi cytuno i gynyddu'r arian a roddir i Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru o £130,000 i £230,000 am bedair blynedd hyd 2009-10.

**David Melding:** Pan oeddwn yn yr ysgol uwchradd, amser maith yn ôl erbyn hyn, ni chwaraeid dim soccer; dim ond rygbi a chwaraeid, ac mae'n dal yn wir nad oes digon o ddewis, o fewn yr amser penodedig ar gyfer addysg gorfforol, i blant o oed ysgol uwchradd. Mae'n well gan lawer ohonynt

about time that we sent the message out that these games are of equal parity and that it should not be the case that only rugby is played and that there is no other choice?

**Rhodri Glyn Thomas:** You say that no soccer was played in your school; are you sure that no football was played there either? [*Laughter.*] I certainly agree that both boys and girls in schools should have the opportunity to play all sports, and we are actively encouraging that through Dragon Sport, and through the 5x60 schemes in secondary schools. Both those schemes have been very popular, and more importantly, in terms of secondary schools, we have seen that the people who have opted out of competitive sport are joining in the 5x60 scheme and it is having a beneficial effect on their health and education.

**David Lloyd:** O gofio fy Mesur i geisio diogelu meysydd chwarae sy'n troedio'n araf drwy weithgareddau'r senedd hwn ar hyn o bryd, a gytunwch, er mwyn diogelu a datblygu pêl-droed yng Nghymru, y dylid cadw caeau pêl-droed sydd ym mherchenogaeth cynghorau sir yn lle eu colli?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae hyn yn fater o'r pwys mwyaf, ac yr wyf wedi cyfarfod â'r mudiad sy'n ceisio gwarchod caeau chwarae yng Nghymru. Ar sail y cyfarfod hwnnw, cefais gyfarfod hefyd â Sebastian Coe a threfnwyr Gemau Olympaidd 2012. Awgrymais wrth Sebastian Coe mai un peth y gallai trefnwyr y Gemau Olympaidd ei wneud i ddangos eu bod am hyrwyddo chwaraeon a gweithgareddau awyr agored yng Nghymru fyddai sicrhau bod peth o'r arian a fydd yn waddol ar ôl y Gemau Olympaidd yn mynd tuag at ddiogelu caeau chwarae yng Nghymru, a sicrhau hefyd eu bod yn aros mewn perchenogaeth gyhoeddus. Mae hynny'n bwysig iawn, a phe bai'n digwydd, byddai pobl yn teimlo bod y Gemau Olympaidd yn gwneud rhywbeth cadarnhaol i Gymru. Mae wedi addo rhoi ystyriaeth i hynny.

#### Cultural Events

**Q6 Nick Bourne:** Will the Minister make a

chwarae soccer. Onid yw'n hen bryd inni anfon y neges ar led fod y chwaraeon hyn yn gydradd ac na ddylid chwarae rygbi'n unig heb roi unrhyw ddewis arall?

**Rhodri Glyn Thomas:** Ni chwaraeid soccer yn eich ysgol, myntech chi; a ydych yn siŵr na chwaraeid pêl-droed yno chwaith? [*Chwerthin.*] Yn sicr, cytunaf y dylai bechgyn a merched mewn ysgolion gael y cyfle i chwarae'r holl gampau, ac yr ydym yn gweithio i annog hynny drwy Gampau'r Ddraig, a thrwy'r cynlluniau 5x60 mewn ysgolion uwchradd. Mae'r ddau gynllun hyn wedi bod yn boblogaidd iawn, ac yn bwysicach, o ran ysgolion uwchradd, yr ydym wedi gweld bod y bobl sydd wedi dewis peidio cymryd rhan mewn chwaraeon cystadleuol yn ymuno â'r cynllun 5x60 a'i fod yn cael effaith lesol ar eu hiechyd a'u haddysg.

**David Lloyd:** Bearing in mind my Measure that attempts to safeguard playing fields, which is slowly making its way through the activities of this senedd at the moment, do you agree that, to safeguard and develop football in Wales, we should keep football fields that are in the ownership of county councils, rather than lose them?

**Rhodri Glyn Thomas:** This issue is of the utmost importance, and I have met with the organisation that seeks to protect playing fields in Wales. On the basis of that meeting, I also met with Sebastian Coe and the organisers of the 2012 Olympic Games. I suggested to Sebastian Coe that one thing the organisers of the Olympic Games could do to demonstrate their desire to promote sports and outdoor activities in Wales would be to ensure that some of the funding left over from the Olympic Games goes towards safeguarding playing fields in Wales, and also ensuring that they stay in public ownership. That is very important, and, if it were to happen, people would feel that the Olympic Games were doing something positive for Wales. He has promised to consider that.

#### Digwyddiadau Diwylliannol

**C6 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog

statement on what he is doing to support and develop cultural events throughout Wales?  
OAQ(3)0350(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** As outlined in 'One Wales', our aim is to offer high-quality cultural experiences to all people in Wales, irrespective of where they live or their background. The Welsh Assembly Government, through sponsorship, supports and develops cultural events and activities throughout Wales.

**Nick Bourne:** I am grateful for that response from the Minister. The Minister will be aware of the Victorian festival that takes place in August every year in Llandrindod Wells. It is the prime Victorian festival in the whole of the United Kingdom and it is immensely successful. It needs financial and marketing assistance. I am writing to the Minister in more detail, but will he give some thought to how the Assembly Government might help, with regard to his tourism as well as his cultural portfolio?

**Rhodri Glyn Thomas:** I look forward to receiving that correspondence. It is interesting that the Conservative Party is supporting a Victorian festival.

**Bethan Jenkins:** Mae gweithredu nod ymgyrch dotCYM yn rhan elfennol o 'Cymru'n Un'. Cydnabyddaf fod hwn yn rhan o bortffolio Ieuan Wyn Jones, ond a ydych yn credu y gallai cyflwyno parth lefel uchaf '.cym' ar wefannau hybu diwylliannau a digwyddiadau Cymreig ac amlygu'r ffaith, ar y we a'r rhyngwlad, fod Cymru ar y map ac yn wahanol i Brydain? Pa drafodaethau yr ydych yn bwriadu eu cael gydag Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog, ynghlŷn a gweithredu nod yr ymgyrch bositif hon?

**Rhodri Glyn Thomas:** Fel y dywedasoch, ceir ymrwymiad i edrych yn gadarnhaol ar y mater hwn yn 'Cymru'n Un', a bu'r Dirprwy Brif Weinidog a minnau yn trafod y mater. Yr wyf hefyd wedi cael trafodaethau gyda'r ymgyrchwyr sy'n hyrwyddo hyn, ac maent wedi gwneud achos cryf ynghylch yr effaith y gallai hyn ei chael mewn sawl maes yng

ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i gefnogi a datblygu digwyddiadau diwylliannol ledled Cymru?  
OAQ(3)0350(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Fel yr amlinellir yn 'Cymru'n Un', ein nod yw cynnig profiadau diwylliannol o safon i bawb yng Nghymru, waeth ble maent yn byw a beth yw eu cefndir. Drwy roi nawdd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ac yn datblygu digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol ledled Cymru.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar am yr ymateb hwnnw gan y Gweinidog. Bydd y Gweinidog yn gwybod am yr ŵyl Fictoraidd a gynhelir ym mis Awst bob blwyddyn yn Llandrindod. Dyma'r brif ŵyl Fictoraidd yn y Deyrnas Unedig gyfan ac mae'n hynod o lwyddiannus. Mae angen cymorth ariannol a marchnata arni. Yr wyf am ysgrifennu at y Gweinidog mewn mwy o fanylder, ond a wnaiff roi ychydig o ystyriaeth i sut y gallai Llywodraeth y Cynulliad helpu, gan gofio bod ei bortffolio'n cynnwys twristiaeth yn ogystal â diwylliant?

**Rhodri Glyn Thomas:** Edrychaf ymlaen at dderbyn yr ohebiaeth honno. Mae'n ddiddorol bod y Blaid Geidwadol yn cefnogi gŵyl Fictoraidd.

**Bethan Jenkins:** Implementing the aim of the dotCYM campaign is fundamental to 'One Wales'. I accept that this comes within the portfolio of Ieuan Wyn Jones, but do you believe that introducing the top-level domain '.cym' on websites could promote Welsh culture and Welsh events by expressing, on the web and internet, that Wales is on the map and is different from Britain? What discussions do you intend to hold with Ieuan Wyn Jones, the Deputy First Minister, about implementing the aim of this positive campaign?

**Rhodri Glyn Thomas:** As you said, there is a commitment in 'One Wales' to look positively at this campaign, and the Deputy First Minister and I have discussed the issue. I have also had discussions with the campaigners who are promoting this, who made a very strong case about the impact that this could have in a number of areas in



Nghymru, ac yr ydym yn ystyried y mater ar hyn o bryd. Cysylltaf â chi pan fydd datblygiadau pellach ar y mater.

Wales, and we are currently considering the matter. I will contact you when there are further developments in this area.

### Arts and Music Festivals

**Q8 Alun Davies:** How is the Minister working with local authorities in Wales to support arts and music festivals in Wales? OAQ(3)0393(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Welsh Assembly Government funding for the arts is channelled via the Arts Council of Wales. In 2007-08, the arts council allocated almost £358,000 in grant in aid to arts and music festivals across Wales, many of which were jointly funded with local authorities.

**Alun Davies:** I am sure that you agree with me that arts and cultural events and activities of all sorts contribute to the vitality of communities up and down the country while bringing together several different policy threads, from tourism in terms of economic development, to personal development in terms of enriching individuals and communities, and wider social and community development issues too. While I would not wish you to develop a strategy for every element of your portfolio and every element of activity, will you consider looking at different ways of supporting individual, small-scale festivals as well as the larger festivals, to bring people together and to enable them to learn from each other, while enriching their culture experiences and those of their families and the wider Welsh community?

**Rhodri Glyn Thomas:** I share your view about the importance of these festivals. The Arts Council of Wales is currently conducting a review of its support for festivals. That review will report later this year.

**William Graham:** You will know of the great benefit that arts and crafts festivals bring to a local community, none more so perhaps than flower festivals, which brighten many churches and chapels throughout

### Gwyliau Cerddorol a Chelfyddydol

**C8 Alun Davies:** Sut y mae'r Gweinidog yn gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i gefnogi gwyliau cerddorol a chelfyddydol yng Nghymru? OAQ(3)0393(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Caiff cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y celfyddydau ei sianelu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Yn 2007-08, rhoddodd cyngor y celfyddydau bron £358,000 o gymorth grant i wyliau'r celfyddydau a cherddoriaeth ledled Cymru—cafodd llawer ohonynt eu hariannu ar y cyd gydag awdurdodau lleol.

**Alun Davies:** Yr wyf yn siŵr y cytunwch â mi fod digwyddiadau a gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol o bob math yn cyfrannu at fwrlwm cymunedau ar hyd a lled y wlad gan ddod â sawl gwahanol edefyn polisi ynghyd, o dwristiaeth yn nhermau datblygu economaidd, i ddatblygiad personol yn nhermau cyfoethogi unigolion a chymunedau, a materion datblygu cymdeithasol a chymunedol ehangach hefyd. Er na ddymunwn ichi ddatblygu strategaeth ar gyfer pob elfen o'ch portffolio a phob elfen o weithgaredd, a wnewch chi ystyried edrych ar wahanol ffyrdd o gefnogi gwyliau bach unigol yn ogystal â'r gwyliau mwy, i ddod â phobl at ei gilydd ac i'w galluogi i ddyysgu oddi wrth ei gilydd, tra'n cyfoethogi eu profiadau diwylliannol a phrofiadau eu teuluoedd a'r gymuned Gymreig ehangach?

**Rhodri Glyn Thomas:** Rhannaf eich barn am bwysigrwydd y gwyliau hyn. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'i gefnogaeth i wyliau. Cawn adroddiad yr adolygiad hwnnw yn ddiweddarach eleni.

**William Graham:** Gwyddoch am y budd mawr a rydd gwyliau celf a chreffft i gymuned leol, yn enwedig gwyliau blodau efallai, sy'n siriolli aml i eglwys a chapel ledled Cymru. Un enghraifft arbennig yw

Wales. A particular example is the Joy to the World festival that is to be held in November at St Woolos cathedral in Newport, with the aim of raising money towards the £2.5 million needed for urgent repairs. Will you join me in paying tribute to the dean and chapter of the cathedral and the volunteers? Perhaps you will attend the event yourself.

**Rhodri Glyn Thomas:** I am happy to commend the work that they have done, and I congratulate them. If at all possible, I would be happy to attend the event. Please contact my office with the details, William.

**Gareth Jones:** Yn gynharach eleni, bu i gyn-arweinydd cyngor Conwy fwgwth peidio â chyfrannu swm o £300,000 yr oedd y cyngor wedi'i addo i helpu ariannu eisteddfod yr Urdd sir Conwy, a gynhaliwyd yn llwyddiannus iawn, fel y gwyddoch, yr wythnos diwethaf. Yr adeg honno, defnyddiwyd yr eisteddfod fel pêl droed wleidyddol i adweithio i'r setliad ariannol llai na'r disgwyl a gafodd ein hawdurdodau lleol. A ydych yn barod i ystyried cyflwyno strategaeth a fyddai'n osgoi sefyllfaoedd diflas megis hon i'r dyfodol?

**Rhodri Glyn Thomas:** Hwyrach ei bod yn arwyddocaol mai cyn-arweinydd ydyw, wedi iddo wneud bygythiad o'r fath. Ni chredaf y byddai neb yn y Siambr am weld unrhyw fygythiad i'r eisteddfod na mudiad yr Urdd. Bu nifer fawr ohonom yng Nghonwy yr wythnos diwethaf, a gwelsom y llwyddiant enfawr. Cynhelir eisteddfodau lleol a sir hefyd drwy Gymru, ac mae mwy o blant a phobl ifanc yn cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd nag athletwyr sy'n cystadlu yn y Gemau Olympaidd. Eisteddfod yr Urdd yw'r wyl ieuenctid fwyaf yn y byd. Felly, mae'n bwysig ein bod yn edrych ar system gynaliadwy i'r dyfodol. Mae cytundeb gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yng nghyd-destun ariannu'r eisteddfod genedlaethol, ac yr wyf eisoes wedi codi'r mater hwn gyda'r gymdeithas, gan fawr obeithio y gallwn symud tuag at system debyg ar gyfer eisteddfod yr Urdd. Gwn y byddai nifer o gynghorau sir a'u harweinwyr yn falch o weld hynny'n digwydd.

gŵyl "Joy to the World" sydd i'w chynnal ym mis Tachwedd yn eglwys gadeiriol Sant Gwynllyw yng Nghasnewydd, gyda'r nod o godi arian tuag at y £2.5 miliwn sydd ei angen ar gyfer gwaith atgyweirio brys. A wnewch chi ymuno â mi i roi teyrnged i ddeon a chabidwl y gadeirlan a'r gwirfoddolwyr? Efallai y dewch i'r digwyddiad eich hun, hyd yn oed.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn hapus i gymeradwyo'r gwaith y maent wedi'i gyflawni, ac fe'u llongyfarchaf. Os bydd modd o gwbl, byddwn yn falch o fynd i'r digwyddiad. Cysylltwch â'm swyddfa gyda'r manylion, os gwelwch yn dda, William.

**Gareth Jones:** Earlier this year, the former leader of Conwy council threatened not to contribute a sum of £300,000 that the council had pledged to help to fund the Urdd eisteddfod in the county of Conwy, which was held very successfully, as you know, last week. At that time, the eisteddfod was used as a political football to react to the lower than expected financial settlement that our local authorities received. Would you be prepared to consider introducing a strategy that would avoid that kind of sorry situation in the future?

**Rhodri Glyn Thomas:** It may be significant that he is a former leader, given that he has made such a threat. I do not think that anyone in the Chamber would wish to see any threat to the eisteddfod or the Urdd movement. A large number of us visited Conwy last week, and witnessed its great success. Local and county eisteddfodau are also held throughout Wales, and more children and young people compete at the Urdd eisteddfodau than there are athletes who compete in the Olympic Games. The Urdd eisteddfod is the largest youth festival in the world. It is important, therefore, that we look for a sustainable system for the future. The Welsh Local Government Association has an agreement in the context of funding the national eisteddfod, and I have already raised this issue with the association in the hope of moving to a similar system for the Urdd eisteddfod. I know that a number of county councils and their leaders would be very pleased to see that happening.

**Cultural Sites**

**Q9 Nick Bourne:** Will the Minister outline his policies for protecting and enhancing cultural sites across Wales?  
OAQ(3)0351(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** The Assembly Government's policies for protecting and enhancing the historic environment are focused on proposed heritage protection legislative reforms, grant initiatives and programmes to conserve, promote and interpret the monuments in our care. Additionally, next year, I will produce a strategic statement on the historic environment of Wales.

1.40 p.m.

**Nick Bourne:** Not only is the Welsh Conservative Party committed to our Victorian past, we are also committed to the Owain Glyndŵr Parliament House in Machynlleth, which, I am sure, the Minister is aware of. In fact, the Parliament House is not the actual parliament building because, as the Minister will know, it was tested dendrochronologically by Oxford experts, and it was found that it probably dates back to 1470. The Minister will no doubt share my view that it is a historically significant building, but it needs investment to enhance the tourist experience. I am a frequent visitor as I am sure the Minister is. If I submit all of the figures to him, will he look seriously at providing help to what is a first class and important part of our history?

**Rhodri Glyn Thomas:** I have already met the group that is supporting this cause, and I would be glad to have further discussions with Nick about this issue. It is an important building—it is of important significance to the history of Wales, and we should promote it as part of our cultural history and as part of the cultural tourism strategy. I was also glad to be in Corwen last year at the unveiling of the statue of Owain Glyndŵr.

**The Tourism Industry in South Wales  
Central**

**Safleoedd Diwylliannol**

**C9 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisiau ar gyfer gwarchod a gwella safleoedd diwylliannol ledled Cymru?  
OAQ(3)0351(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae polisiau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol yn canolbwyntio ar ddiwygiadau deddfwriaethol arfaethedig i ddiogelu'n trefnadaeth, mentrau grant a rhaglenni i ddiogelu, hyrwyddo a dehongli'r henebion sydd yn ein gofal. Ar ben hynny, flwyddyn nesaf byddaf yn llunio datganiad strategol ar amgylchedd hanesyddol Cymru.

**Nick Bourne:** Nid yn unig y mae Plaid Geidwadol Cymru wedi ymrwymo i'n gorffennol Fictoriaidd, yr ydym hefyd wedi ymrwymo i Senedd-dy Owain Glyndŵr ym Machynlleth, sydd, mae'n siŵr, yn hysbys i'r Gweinidog. Mewn gwirionedd, nid y Senedd-dy yw gwir adeilad y senedd oherwydd, fel y bydd y Gweinidog yn gwybod, cafodd ei brofi'n ddendrocronolegol gan arbenigwyr o Rydychen, a chanfuwyd ei fod yn dyddio'n ôl i 1470 yn ôl pob tebyg. Mae'n siŵr y bydd y Gweinidog yn rhannu fy marn ei fod yn adeilad hanesyddol arwyddocaol, ond mae angen buddsoddi ynddo i gyfoethogi profiad yr ymwelydd. Yr wyf fi'n ymwelydd cyson, a'r Gweinidog yntau, mae'n siŵr. Os cyflwynaf yr holl ffigurau iddo, a wnaiff edrych o ddifrif ar ddarparu cymorth i ddam arbennig a phwysig o'n hanes?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf eisoes wedi cyfarfod â'r grŵp sydd yn cefnogi'r achos hwn, a byddwn yn falch o gael trafodaethau pellach gyda Nick am y mater hwn. Mae'n adeilad pwysig—mae o arwyddocâd pwysig i hanes Cymru, a dylem ei hyrwyddo fel rhan o'n hanes diwylliannol ac fel rhan o'r strategaeth dwristiaeth ddiwylliannol. Yr oeddwn yn falch hefyd o fod yng Nghorwen y llynedd pan ddadorchuddiwyd cerflun Owain Glyndŵr.

**Diwydiant Twristiaeth yng Nghanol De  
Cymru**

**Q10 David Melding:** Will the Minister make a statement on measures taken to support the tourism industry in South Wales Central? OAQ(3)0372(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** We have allocated £686,000 to Capital Region Tourism this year to help promote and develop tourism in south-east Wales, including the South Wales Central area, according to its needs and priorities, while supporting and implementing the national tourism strategy ‘Achieving Our Potential’.

**David Melding:** Minister, reference has already been made to the decline in tourist figures, according to the latest data published. I do not wish to place too much emphasis on one particular year, but the decline is worrying, certainly if it indicates a trend. Do you agree that an area that we need to examine carefully is marketing? There is less money available in general to the public purse because we cannot use European money so freely in this area. Do you agree that we need to put marketing highest in our order of priorities to get tourists from around Britain and abroad to visit Wales?

**Rhodri Glyn Thomas:** It is important that we ensure that our marketing strategies effectively promote Wales and the various attractions that we have in Wales that will appeal to a wide variety of people who may choose to spend their holidays in Wales. In the past, we have depended heavily on structural funding for our marketing strategies, and we are now considering what can be done to ensure that there is sufficient money for marketing in the budget, by applying for convergence funding. I take this opportunity—and I am sure that others would support me in this—to compliment our marketing team in Visit Wales, which has been successful and inventive in its marketing. That is acknowledged throughout the UK. I recently had discussions with VisitBritain, and it was complimentary about Visit Wales’s marketing strategies.

#### Priorities

**Q11 Nick Ramsay:** Will the Minister outline

**C10 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau a gymerwyd i gefnogi'r diwydiant twristiaeth yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)0372(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr ydym wedi dyrannu £686,000 i'r Uwch Ranbarth Twristiaeth eleni i helpu hyrwyddo a datblygu twristiaeth yn y de-ddwyrain, gan gynnwys ardal Canol De Cymru, yn ôl ei hanghenion a'i blaenoriaethau, gan gefnogi a gweithredu'r strategaeth dwristiaeth genedlaethol ‘Cyflawni ein Potensial’.

**David Melding:** Weinidog, cyfeiriwyd eisoes at y dirywiad yn niferoedd twristiaid, yn ôl y data diweddaraf a gyhoeddwyd. Nid oes arnaf eisiau rhoi gormod o bwyslais ar un flwyddyn arbennig, ond mae'r gostyngiad yn peri pryder, yn sicr os yw'n arwydd o duedd. A ydych yn cytuno bod marchnata'n faes y mae angen inni edrych arno'n ofalus? Mae llai o arian ar gael yn gyffredinol i'r pwrs cyhoeddus oherwydd na allwn ddefnyddio arian Ewropeaidd mor ddilyffethair yn y maes hwn. A ydych yn cytuno bod angen inni roi marchnata yn flaenaf yn ein rhestr flaenoriaethau i gael twristiaid o weddill Prydain a thramor i ymweld â Chymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'n bwysig inni sicrhau bod ein strategaethau marchnata'n effeithiol o ran hyrwyddo Cymru a'r amryfal atyniadau sydd gennym a fydd yn apelio at amrywiaeth eang o bobl a allai ddewis treulio'u gwyliau yng Nghymru. Yn y gorffennol, yr ydym wedi dibynnu'n drwm ar arian strwythurol ar gyfer ein strategaethau marchnata, ac yn awr yr ydym yn ystyried beth y gellir ei wneud i sicrhau bod digon o arian ar gyfer marchnata yn y gyllideb, drwy wneud cais am arian cydgyfeirio. Cymeraf y cyfle hwn—ac yr wyf yn siŵr y byddai eraill yn ategu hyn—i ganmol ein tîm marchnata yn Croeso Cymru, sydd wedi bod yn llwyddiannus ac yn ddyfeisgar wrth farchnata. Cydnabyddir hynny drwy'r Deyrnas Unedig. Cefais drafodaethau'n ddiweddar gyda VisitBritain, ac yr oedd yn canmol strategaethau marchnata Croeso Cymru.

#### Blaenoriaethau

**C11 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog

his priorities for the next 12 months?  
OAQ(3)0353(HER)

amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis  
nesaf? OAQ(3)0353(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** I outlined my priorities in my statement to Plenary on 2 October 2007, and they have not changed. I remain committed to delivering the objectives set out in the 'One Wales' agreement, including the introduction of a Welsh language LCO and providing Welsh pensioners and children with free entry to Assembly-Government-funded heritage sites.

**Rhodri Glyn Thomas:** Amlinellais fy mlaenoriaethau yn fy natganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 2 Hydref 2007, ac nid ydynt wedi newid. Yr wyf yn dal wedi ymrwymo i gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y cytundeb 'Cymru'n Un', gan gynnwys cyflwyno Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar yr iaith Gymraeg a sicrhau y caiff pensiynwyr a phlant Cymru fynediad am ddim i safleoedd treftadaeth a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

**Nick Ramsay:** Within that broad answer, what are you doing specifically to support tourist information offices? I am aware that you recently attended the reopening of the tourist information centre in Monmouth in my constituency. We were impressed by what we saw there—not only the quality of the surroundings but also the hard-working staff. I am aware that more staff have just been taken on, so that is good. We found that that tourist information centre is not just the gateway to Wales but that it also draws tourists from across the border into other parts of Wales, and I am aware that there was a brochure there for your constituency of Carmarthenshire and also for Ceredigion. It is clear that those information centres along the border do far more than normal tourist information centres. Will you pledge to give more funding specifically to those types of centres that draw people from far away into Wales and into the heart of Wales, and not just to the boundaries?

**Nick Ramsay:** O fewn yr ateb cyffredinol hwnnw, beth yr ydych yn ei wneud yn benodol i gefnogi canolfannau croeso? Gwn y buoch yn bresennol yn seremoni ailagor y ganolfan groeso yn Nhrefynwy yn fy etholaeth yn ddiweddar. Gwnaeth yr hyn a welsom yno argraff dda arnom—nid yn unig ansawdd y fangre ond hefyd y staff dyfal. Yr wyf yn ymwybodol fod mwy o staff wedi'u cyflogi'n awr, felly mae hynny'n beth da. Cawsom wybod bod y ganolfan groeso honno'n fwy na'r porth i Gymru'n unig ond ei bod yn tynnu ymwelwyr hefyd o dros y ffin i rannau eraill o Gymru, ac yr wyf yn ymwybodol fod yno daflen ar gyfer eich etholaeth chi, sir Gaerfyrddin, ac un ar gyfer Ceredigion. Mae'n amlwg fod y canolfannau croeso hynny ar hyd y ffin yn gwneud llawer mwy na chanolfannau croeso arferol. A wnewch chi addo rhoi mwy o gyllid yn benodol i'r mathau hynny o ganolfannau sy'n tynnu pobl o bell i mewn i Gymru ac i galon Cymru, ac nid dim ond i'r gororau?

**Rhodri Glyn Thomas:** I agree with the account that you gave of our visit to the tourist information centre in Monmouth and the work carried out there by staff, and the fact that they introduce people to attractions throughout Wales. A number of other tourist information centres throughout Wales are doing a similar job.

**Rhodri Glyn Thomas:** Cytunaf â'ch disgrifiad o'n hymweliad â'r ganolfan groeso yn Nhrefynwy a'r gwaith a wneir yno gan y staff, a'r ffaith eu bod yn cyflwyno pobl i atyniadau drwy Gymru gyfan. Mae nifer o ganolfannau croeso eraill ledled Cymru yn gwneud gwaith tebyg.

As we seek to attract more people to Wales, and to draw more international sporting events to Wales, the role of tourist information centres will be more important. People coming to sporting events will want to spend some time in Wales, in addition to attending the events themselves. We have to

Wrth inni geisio denu mwy o bobl i Gymru, a cheisio denu mwy o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol i Gymru, bydd swyddogaeth canolfannau croeso yn dod yn bwysicach. Bydd pobl sy'n dod i ddigwyddiadau chwaraeon am dreulio rhywfaint o amser yng Nghymru, yn ogystal

ensure that we have the information to hand, that it is accessible, and that the people who give that information to visitors in Wales encourage them to spend more time in Wales and to return. That was certainly true of the staff in Monmouth, who did everything within their ability to do that. I can assure you of my total support for tourist information centres throughout Wales.

**Alun Ffred Jones:** Byddwch yn ymwybodol bod Theatr Gwynedd wedi gwneud cyfraniad enfawr i'r ddrama Gymraeg ers y 1970au, ond bydd y theatr yn cau ym mis Hydref. O gofio bod dros hanner cynulleidfa cwmni Theatr Genedlaethol Cymru yn mynd i Theatr Gwynedd i weld ei berfformiadau, beth a wnewch chi i sicrhau nad yw'r gweithgarwch hwnnw a'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i Theatr Gwynedd yn cael eu colli o'r gogledd orllewin, gan gofio'i bwysigrwydd strategol?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf eisoes wedi cael cyfarfod gyda chynrychiolwyr cwmni Theatr Gwynedd ac wedi trafod dyfodol y cwmni pan fydd y theatr yn cau ym mis Hydref. Mae hynny'n anorfod oherwydd cyflwr yr adeilad, a chredaf fod pawb yn derbyn hynny. Serch hynny, mae gweithgaredd Theatr Gwynedd yn eithriadol o bwysig, a gwn fod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo tua £100,000 i sicrhau rhaglen o weithgareddau yn ystod y flwyddyn gyfredol. Rhoddir ystyriaeth i'r blynyddoedd sydd i ddilyn. Yr wyf yn hapus i gydnabod y gwaith da y mae Theatr Gwynedd wedi'i wneud, ac i roi'r ymrwymiad ein bod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y gweithgareddau hynny yn parhau ac yn cynyddu, os yw'n bosibl, i'r dyfodol.

**Peter Black:** You will be aware of the evidence given to the Broadcasting Committee about community radio, particularly that about the system of granting licences for community radio not necessarily being fit for Wales. The licence periods are not long enough, and the process of applying does not fit the particular circumstances in Wales. Would you be willing to take this matter up with Ofcom and consider whether

â mynychu'r digwyddiadau eu hunain. Rhaid inni sicrhau bod y wybodaeth gennym wrth law, ei bod yn hawdd cael gafael arni, a bod y bobl sy'n rhoi'r wybodaeth honno i ymwelwyr yng Nghymru yn eu hannog i dreulio mwy o amser yma ac i ddychwelyd i Gymru. Yr oedd hynny'n wir iawn am y staff yn Nhrefynwy, a wnaeth popeth o fewn eu gallu i wneud hynny. Gallaf eich sicrhau fy mod yn cefnogi canolfannau croeso yn llwyr ledled Cymru.

**Alun Ffred Jones:** You will be aware that Theatr Gwynedd has made an enormous contribution to Welsh-language drama since the 1970s, but the theatre is to close in October. Given that more than half of the audience of the Theatr Genedlaethol Cymru company goes to Theatr Gwynedd to see it perform, what will you do to ensure that that activity and the financial support available to Theatr Gwynedd are not lost from the north west, bearing in mind its strategic importance?

**Rhodri Glyn Thomas:** I have already held meetings with representatives of Theatr Gwynedd's company and have discussed the future of the company when the theatre closes in October. That is inevitable because of the condition of the building, and I think that everyone accepts that. However, the activity of Theatr Gwynedd is exceptionally important, and I know that the Arts Council of Wales has committed some £100,000 to ensure a programme of activities for it during the current year. Consideration is also being given to its activity for the coming years. I am happy to recognise the good work that Theatr Gwynedd has accomplished, and to give a commitment that we are aware of the need to ensure that those activities continue and increase in number, if possible, for the future.

**Peter Black:** Byddwch yn ymwybodol o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Darlledu am radio cymunedol, yn benodol nad yw'r system sy'n rhoi trwyddedau ar gyfer radio cymunedol yn addas i Gymru fel y cyfryw. Nid yw cyfnodau'r drwydded yn ddigon hir, ac nid yw'r broses gwneud cais yn addas at yr amgylchiadau penodol yng Nghymru. A fydddech yn fodlon codi'r mater hwn gydag Ofcom ac ystyried a ddylech

you should make representations to that body to have a particular Welsh input to this activity?

**Rhodri Glyn Thomas:** I am glad that you appreciate the quality of evidence given to the Broadcasting Committee last Monday, Peter. As part of my evidence, I undertook to take that matter up with Ofcom if you ensured that I had the information about your concerns about licensing in Wales. Therefore, I await that information from you, but I can give you that undertaking again, as I did at the committee meeting, that I will take that matter up with Ofcom to see what can be done.

gyflwyno sylwadau i'r corff hwnnw er mwyn rhoi mewnbwn penodol o Gymru i'r gweithgaredd hwn?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn falch eich bod yn gwerthfawrogi ansawdd y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Darlledu ddydd Llun diwethaf, Peter. Fel rhan o'm tystiolaeth, ymrwymais i godi'r mater hwnnw gydag Ofcom petaech yn sicrhau bod gennyf y wybodaeth am eich pryderon ynghylch trwyddedu yng Nghymru. Felly, yr wyf yn disgwyl y wybodaeth honno gennych, ond gallaf roi'r ymrwymiad hwnnw eto, fel y gwneuthum yng nghyfarfod y pwyllgor, y byddaf yn codi'r mater gydag Ofcom i weld beth y gellir ei wneud.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to Minister for Social Justice and Local Government**

### **Youth Volunteering**

**Q1 Val Lloyd:** What is the Assembly Government doing to encourage youth volunteering in Swansea? OAQ(3)0361(SJL)

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** During this Volunteers' Week, the Welsh Assembly Government plays its part in recognising, rewarding and recruiting volunteers in Wales. Complementing the existing funding for millennium volunteers, the Russell commission implementation programme provides grants and advice in Swansea and throughout Wales. That helps to provide young people with new and more diverse volunteering opportunities.

**Val Lloyd:** I spent some time on Monday at the volunteering information trailer in Swansea as part of Volunteers' Week. The trailer was situated in the city centre and the intention was to raise awareness of volunteering, of what it has to offer, how people can share their skills with others, and which opportunities are available. While I was there, I talked to the people running the stall and asked particularly about the general profile of young people who do or do not

### **Gwirfoddoli ymysg Pobl Ifanc**

**C1 Val Lloyd:** Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i annog gwirfoddoli ymysg pobl ifanc yn Abertawe? OAQ(3)0361(SJL)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Yn ystod yr Wythnos Gwirfoddolwyr hon, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwarae ei rhan drwy gydnabod, gwobrwyo a recriwtio gwirfoddolwyr yng Nghymru. Gan ategu'r cyllid presennol ar gyfer gwirfoddolwyr y mileniwm, mae rhaglen weithredu'r comisiwn Russell yn darparu grantiau a chynghor yn Abertawe a ledled Cymru. Mae hynny'n helpu i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli newydd a mwy amrywiol i bobl ifanc.

**Val Lloyd:** Treuliais amser ddydd Llun yn y garfan wybodaeth am wirfoddoli yn Abertawe fel rhan o Wythnos y Gwirfoddolwyr. Lleolwyd y garfan yng nghanol y ddinas a'r bwriad oedd codi ymwybyddiaeth o wirfoddoli, beth sydd ganddo i'w gynnig, sut y gall pobl rannu eu sgiliau gydag eraill, a pha gyfleoedd sydd ar gael. Pan oeddwn yno, siaradais â'r bobl a oedd yn rhedeg y stondin a gofynnais yn benodol am broffil cyffredinol y bobl ifanc

volunteer. What is the Welsh Assembly Government doing to reach out to those young people from disadvantaged communities, particularly young people from Communities First areas, and black, Asian and minority ethnic communities, as well as young people with physical or learning disabilities?

1.50 p.m.

**Brian Gibbons:** The point of the Russell commission report and the implementation programme is to tackle youth volunteering in particular. With that in mind, we have funded 22 part-time youth volunteer co-ordinators or advisers across Wales to allow them to do the work on the ground to promote volunteering opportunities. Linked to that, we are providing something in the order of £500,000 through the Russell commission to provide enhanced volunteering opportunities. That does not take into account the £300,000 that we routinely make available through the millennium volunteers scheme. That is also targeted at young people.

**Alun Cairns:** Do you recognise that volunteering can offer a great deal of personal development for the individual who volunteers as well as a great deal of aid to the group or cause that the volunteer is supporting? What consideration have you given to discussing with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills what support schools can give in encouraging individuals to volunteer for their personal development, so that children see their peers volunteering to support good causes as well as their teachers and headteachers?

**Brian Gibbons:** That will be a key task for the youth volunteer advisers in Wales, and we are funding them so that every county voluntary council has a youth adviser. Programmes such as the Duke of Edinburgh's Award scheme are also excellent ways of promoting volunteering. In those parts of Wales where the Duke of Edinburgh's Award scheme is expanding, it works regularly with schools to promote the approach that you talked about.

sy'n gwirfoddoli a'r rhai nad ydynt yn gwirfoddoli. Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i estyn allan at y bobl ifanc hynny o gymunedau difreintiedig, yn enwedig pobl ifanc o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, a chymunedau pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â phobl ifanc gydag anabledau corfforol neu anabledau dysgu?

**Brian Gibbons:** Diben adroddiad y comisiwn Russell a'r rhaglen weithredu yw mynd i'r afael â gwirfoddoli ymysg pobl ifanc yn benodol. A chofio hynny, yr ydym wedi cyllido 22 cydlynnydd neu gynghorydd gwirfoddoli pobl ifanc rhan amser ledled Cymru i'w galluogi i weithio ar lawr gwlad i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli. Yn gysylltiedig â hynny, yr ydym yn darparu oddeutu £500,000 drwy comisiwn Russell i ddarparu gwell cyfleoedd gwirfoddoli. Ar ben hynny, ceir y £300,000 yr ydym yn ei ddarparu'n rheolaidd drwy'r cynllun gwirfoddolwyr y mileniwm. Mae hwnnw hefyd wedi'i dargedu at bobl ifanc.

**Alun Cairns:** A ydych yn cydnabod y gall gwirfoddoli gynnig llawer o ddatblygiad personol i'r unigolyn sy'n gwirfoddoli yn ogystal â rhoi cryn dipyn o gymorth i'r grŵp neu'r achos da y mae'r gwirfoddolwr yn ei gefnogi? Pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i drafod gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i weld pa gefnogaeth y gall ysgolion ei rhoi i annog unigolion i wirfoddoli er budd eu datblygiad personol, er mwyn i blant weld eu cyddisgyblion yn gwirfoddoli, yn ogystal â'u hathrawon a'u penaethiaid, i gefnogi achosion da?

**Brian Gibbons:** Bydd hwnnw'n dasg allweddol i'r cynghorwyr gwirfoddolwyr ifanc yng Nghymru, ac yr ydym yn eu cyllido fel y bydd gan bob cyngor gwirfoddol sirol gynghorydd pobl ifanc. Mae rhaglenni megis Gwobr Dug Caeredin hefyd yn ffyrdd ardderchog o hybu gwirfoddoli. Yn y rhannau hynny o Gymru lle mae Gwobr Dug Caeredin yn tyfu, mae'n gweithio gydag ysgolion yn rheolaidd i hyrwyddo'r dull y soniasoch amdano.



**Bethan Jenkins:** Before recess, I visited the Foyer in Swansea, which houses young homeless people, and learned that they have been volunteering on allotments in the Mumbles area. Will you join me in congratulating them on their work and on learning life skills in this way? They emphasised the fact that volunteering is part of a skills credit-based system but that they are finding it hard to find money for those accredited courses of which volunteering is a part. Could you hold a meeting with those involved in the Foyer in Swansea and me to discuss the future funding problems?

**Brian Gibbons:** I would be happy to do that. You are right that many people who are disengaged from society—whether they are young people, such as those who use the Foyer, homeless people, people with substance misuse problems or offenders—the way back into mainstream society is to avail themselves of volunteering opportunities. Indeed, I heard of a case this morning of a person who had been to prison volunteering, and who is now on a management course through their current employer. The gateway to that was working with the employer on a voluntary basis initially.

**Peter Black:** Will you join me in congratulating the work of the Swansea University volunteers group, Discovery? Are you aware that the group gets funding from Swansea University of about £40,000 a year for its core activities? However, if the group were in an English university, core funding would be provided as earmarked grant from the Higher Education Funding Council for England, and it would receive around £150,000 a year. Are you willing to take this matter up with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills to see whether a similar arrangement could apply to such student volunteer groups in Wales?

**Brian Gibbons:** I would be grateful if you could develop the question a bit further. I visited the volunteer group at Swansea University last autumn and was very

**Bethan Jenkins:** Cyn y toriad, ymwelais â'r Foyer yn Abertawe, sy'n rhoi cartref i bobl ifanc ddigartref, a dysgais eu bod wedi bod yn gwirfoddoli ar randiroedd yn ardal y Mwmbwls. A wnewch ymuno â mi i'w llongyfarch ar eu gwaith ac am ddysgu sgiliau bywyd drwy'r dull hwn? Gwnaethant bwysleisio'r ffaith bod gwirfoddoli yn rhan o system sgiliau sy'n seiliedig ar gredyd ond eu bod yn wynebu talcen caled i ganfod arian ar gyfer y cyrsiau achrededig hynny y mae gwirfoddoli yn rhan ohonynt. A allech gynnal cyfarfod gyda'r rheini sydd ynghlwm wrth y Foyer yn Abertawe a finnau i drafod y problemau cyllido i'r dyfodol?

**Brian Gibbons:** Byddwn yn fwy na bodlon gwneud hynny. Yr ydych yn llygad eich lle bod llawer o bobl sydd wedi ymddieithrio o gymdeithas—pa un ai a ydynt yn bobl ifanc, megis y rheini sy'n defnyddio'r Foyer, yn bobl ddigartref, yn bobl gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau neu'n droseddwyr—y ffordd yn ôl i mewn i gymdeithas prif ffrwd yw drwy ymgymryd â chyfleoedd gwirfoddoli. Yn wir, clywais am achos y bore yma am unigolyn a aeth i wirfoddoli mewn carchar, ac mae bellach yn dilyn cwrs rheoli drwy ei gyflogwr presennol. Agorwyd y drws i hynny drwy weithio gyda'r cyflogwr ar sail wirfoddol yn y lle cyntaf.

**Peter Black:** A wnewch ymuno â mi i longyfarch grŵp gwirfoddolwyr Prifysgol Abertawe, sef Discovery? A ydych yn ymwybodol bod y grŵp yn cael gwerth oddeutu £40,000 o gyllid gan Brifysgol Abertawe bob blwyddyn ar gyfer ei weithgareddau craidd? Fodd bynnag, petai'r grŵp mewn prifysgol yn Lloegr, byddai'r cyllid craidd yn dod o grant a neilltuwyd gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch ar gyfer Lloegr, ac y byddent yn cael oddeutu £150,000 y flwyddyn. A ydych yn fodlon codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau er mwyn gweld a ellid rhoi trefn debyg ar waith ar gyfer grwpiau gwirfoddolwyr myfyrwyr yng Nghymru?

**Brian Gibbons:** Byddwn yn ddiolchgar petaech yn gallu ymhelaethu ar y cwestiwn ychydig. Ymwelais â'r grŵp gwirfoddolwyr ym Mhrifysgol Abertawe yr hydref diwethaf

impressed with the activities going on. However, a great deal of the funding was provided through the Russell grant initiative. Therefore, I am not sure whether the figures that you are giving us include the Russell money or whether it is core funding made available from the university. If we are to look at this in the whole, we would need to include money from the Russell implementation programme as well as other sources, such as private companies and the millennium volunteer scheme.

### Best Value

**Q2 Angela Burns:** What steps is the Minister taking to ensure Best Value in local authorities? OAQ(3)0371(SJL)

**Brian Gibbons:** Under the Wales programme for improvement, local authorities must have regard to economy, efficiency and effectiveness in improving their service. I am also working with local government to develop improvement agreements, to improve minimum standards for a defined number of services, to support local service boards, and to promote Value Wales and a wide range of other collaborative programmes.

**Angela Burns:** May I remind you of your Government's pledge at budget time to get more bang for the Welsh buck? One area that you could look at in your portfolio is administrative savings. I am sure that you are aware that councils such as Pembrokeshire can access more than 57 grants just in education; if you multiply that out over all its remit, you find that there are many more grants. What plans do you have to streamline the provision of grants to cut the administrative burden for the Welsh Assembly Government, to cut the red tape for the applicant, and to save money for the country, which could then be redeployed into the front-line services that are so desperately short of cash?

**Brian Gibbons:** I am actively engaged in a discussion with the Welsh Local Government Association to see what mechanisms are

a chafodd yr hyn sy'n mynd ymlaen yno gryn argraff arnaf. Fodd bynnag, darparwyd cyfran helaeth o'r cyllid gan gynllun grant Russell. Felly, nid wyf yn siŵr a yw'r ffigurau yr ydych yn eu rhoi yn cynnwys arian Russell ynteu ai cyllid craidd ydyw a roddir gan y brifysgol ydyw. Petaem yn edrych ar hyn yn ei gyfanrwydd, byddai angen inni gynnwys yr arian o raglen weithredu Russell yn ogystal ag arian o ffynonellau eraill, megis cwmnïau preifat a'r cynllun gwirfoddolwyr y mileniwm.

### Gwerth Gorau

**C2 Angela Burns:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau Gwerth Gorau mewn awdurdodau lleol? OAQ(3)0371(SJL)

**Brian Gibbons:** Dan raglen Cymru ar gyfer gwella, rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran gwella eu gwasanaethau. Yr wyf hefyd yn gweithio gyda llywodraeth leol i lunio cytundebau gwella, er mwyn gwella safonau gofynnol ar gyfer nifer penodol o wasanaethau, i gefnogi byrddau gwasanaethau lleol, ac i hyrwyddo Gwerth Cymru ac amrywiaeth eang o raglenni cydweithredol eraill.

**Angela Burns:** A gaf eich atgoffa am addewid eich Llywodraeth adeg y gyllideb i gael llawer mwy o werth am y bunt yng Nghymru? Un maes y gallech daro golwg arno yn eich portffolio yw arbedion gweinyddol. Yr wyf yn sicrhau bod yn ymwybodol bod cynghorau megis sir Benfro yn gallu cael gafael ar dros 57 o grantiau ym maes addysg yn unig; os ydych yn lluosio hynny gyda'i holl gylech gorchwyl, byddwch yn sylweddoli bod llawer iawn mwy o grantiau. Pa gynlluniau sydd gennych i symleiddio'r broses grantiau i leihau'r baich gweinyddol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, i dorri trwy'r fiwrocratiaeth sy'n wynebu'r ymgeisydd, ac i arbed arian i'r wlad, er mwyn ail-fuddsoddi'r arian hwnnw mewn gwasanaethau rheng flaen sydd mor brin o arian?

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau ar hyn o bryd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

available to us to revisit the special grant programme, particularly those special grants where the bureaucracy and administrative costs involved are disproportionate to the amount of money and benefits flowing from the grants.

**Alun Ffred Jones:** Cawsoch gyfle yr wythnos diwethaf i ymweld â Chanolfan Blant Integredig Plas Pawb yng Nghaernarfon, a gwn eich bod wedi cael ymweliad diddorol yno. A fuasech yn ystyried bod Plas Pawb wedi cyfrannu at wella ansawdd bywyd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ardaloedd Maesincla a Pheblig yng Nghaernarfon? A oes unrhyw wersi i ardaloedd eraill eu dysgu o'r profiadau yno?

**Brian Gibbons:** It was nice to see you during that visit, Alun Ffred. I congratulate everyone who was involved at Plas Pawb. I was genuinely impressed, and it was an excellent visit. It was encouraging to what we can deliver on the ground as an Assembly Government, working with local government and other voluntary sector organisations, to make a real difference to children's lives. It was an excellent example of good practice, and I would like to see that example perpetuated elsewhere across Wales.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 3, OAQ(3)0391(SJL), i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### Priorities

**C4 Paul Davies:** Will the Minister outline his priorities for the next 12 months? OAQ(3)0386(SJL)

**Brian Gibbons:** As well as promoting safe and sustainable communities, promoting greater social cohesion based on equality of opportunity, and tackling child poverty, the Assembly Government will be working with the Welsh Local Government Association to promote a major programme of service improvement based on better performance management and improved governance.

**Paul Davies:** I am sure that one of the Minister's other priorities as the Minister for

i weld pa fecanweithiau sydd ar gael inni i daro golwg arall ar y rhaglen grantiau arbennig, yn enwedig y grantiau arbennig hynny lle mae costau biwrocraidd a gweinyddol yn anghymesur i'r symiau arian a'r manteision sy'n deillio o'r grantiau.

**Alun Ffred Jones:** Last week, you had the opportunity to visit the Plas Pawb Integrated Children's Centre in Caernarfon, and I know that you had an interesting visit there. Would you say that Plas Pawb has made a contribution to improving the quality of life of children, young people and families in the Maesincla and Peblig areas of Caernarfon? Can any lessons be learned by other areas from the experiences there?

**Brian Gibbons:** Yr oedd yn braf eich gweld yn ystod yr ymweliad hwnnw, Alun Ffred. Yr wyf yn llongyfarch pawb a fu ynghlwm wrth Plas Pawb. Cafodd gryn argraff arnaf ac yr oedd yn ymweliad rhagorol. Yr oedd yn galonid gweld beth y gallwn ei gyflawni ar lawr gwlad fel Llywodraeth y Cynulliad, gan weithio gyda llywodraeth leol a mudiadau eraill o'r sector gwirfoddol, i wneud gwir wahaniaeth i fywydau plant. Yr oedd yn enghraifft ardderchog o arfer da, a hoffwn weld yr enghraifft honno'n cael ei lledaenu ledled Cymru.

**The Presiding Officer:** Question 3, OAQ(3)0391(SJL), has been transferred for written answer by the Minister for Health and Social Services.

### Blaenoriaethau

**Q4 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ(3)0386(SJL)

**Brian Gibbons:** Yn ogystal â hyrwyddo cymunedau diogel a chynaliadwy, hyrwyddo mwy o gydlyniant cymdeithasol yn seiliedig ar gyfle cyfartal, a mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hyrwyddo rhaglen fawr i wella gwasanaethau yn seiliedig ar reoli perfformiad yn well a gwell llywodraethu.

**Paul Davies:** Yr wyf yn siŵr mai un o flaenoriaethau eraill y Gweinidog dros

social justice is to protect essential public services in our communities. One such service is the post office, which lies at the heart of our communities. As he is well aware, yesterday, Post Office Ltd announced the branches that it intends to close in my constituency. Some of these are in rural areas, and I am sure that the Minister would agree that they are a lifeline to the people who live there. Can the Minister tell us what discussions he has had with UK Ministers on the post office closure programme, and what the Welsh Assembly Government intends to do to help those communities that will no longer have a post office?

**Brian Gibbons:** My predecessor, my deputy, and I have had many discussions with UK Ministers, Post Office Ltd, the Post Office here in Wales, as well as Postwatch, to voice fully our concerns on several aspects relating to these proposals. On promoting the sustainability of the post office network, our business rate relief scheme provides assistance to just fewer than 1,000 post offices throughout Wales, and the post office development fund, when it was in operation, provided assistance to just fewer than 100 post offices in Wales. My colleague, Leighton Andrews, announced that, in January, we hope to relaunch the post office development fund. As part of that, we will be developing a consultation exercise and we hope to be able to have a constructive engagement in which people will be able to put forward a wide range of proposals to enhance the post office network.

2.00 p.m.

**David Lloyd:** Weinidog, a ydych yn bwriadu cynnal unrhyw drafodaethau ynglŷn â chynlluniau posibl i ddatganoli pwerau dros yr heddlu a'r system gyfiawnder troseddol i'r Cynulliad dros y 12 mis nesaf?

**Brian Gibbons:** One of the commitments in the 'One Wales' agreement is to explore the possibility, the logistics and the financial implications of devolving the criminal justice system to Wales. I hope to be able to present

gyfiawnder cymdeithasol yw gwarchod gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yn ein cymunedau. Un gwasanaeth o'r fath yw swyddfa'r post, sydd wrth galon ein cymunedau. Fel y gŵyr yn iawn, ddoe, cyhoeddodd Swyddfa'r Post Cyf enwau'r canghennau y maent yn bwriadu eu cau yn fy etholaeth. Mae rhai o'r rhain mewn ardaloedd gwledig, ac yr wyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno eu bod o gymorth mawr i'r bobl sy'n byw yno. A all y Gweinidog ddweud wrthym ba drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidogion y DU am y rhaglen cau swyddfeydd post, a beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ei wneud i helpu'r cymunedau hynny heb swyddfa bost mwyach?

**Brian Gibbons:** Mae fy rhagflaenydd, fy nirprwy, a finnau wedi cael trafodaethau lu gyda Gweinidogion y DU, Swyddfa'r Post Cyf, Swyddfa'r Post yng Nghymru, yn ogystal â Golwg ar Bost Cymru, er mwyn lleisio'n pryderon yn llawn ar lawer o agweddau sy'n ymwneud â'r cynigion hyn. Wrth hyrwyddo cynaliadwyedd y rhwydwaith o swyddfeydd post, mae ein cynllun rhyddhad ardrethi busnes yn darparu cymorth i bron 1,000 o swyddfeydd post ledled Cymru, a darparwyd cymorth i bron 100 o swyddfeydd post ledled Cymru gan y gronfa datblygu swyddfeydd post, pan oedd ar gael. Cyhoeddodd Leighton Andrews, fy nghyd-Aelod, ein bod yn bwriadu ail-lansio'r gronfa datblygu swyddfeydd post ym mis Ionawr. Fel rhan o hynny, byddwn yn datblygu ymarfer ymgynghori a'n gobaith yw y gallwn feithrin cysylltiad adeiladol er mwyn i bobl allu cyflwyno ystod eang o gynigion i wella rhwydwaith y swyddfeydd post.

**David Lloyd:** Minister, do you intend to have any discussions about possible plans to devolve powers over the police and the criminal justice system to the Assembly in the next 12 months?

**Brian Gibbons:** Un o'r ymrwymadau yng nghytundeb 'Cymru'n Un' yw archwilio posibilrwydd, ymarferoldeb a goblygiadau ariannol datganoli'r system cyfiawnder troseddol i Gymru. Gobeithiaf allu cyflwyno

some preliminary outcomes of that work to Cabinet before the summer recess and then it will be for Cabinet to reflect on the evidence that is presented.

**Kirsty Williams:** Minister, I noted that you said in your answer to Paul Davies that you would be working closely with Welsh local government to improve services for local residents. Many children in my constituency would like the opportunity to have a playground, yet Powys County Council has to remove inadequate and dangerous play equipment in many communities, but does not have the resources to put new play equipment in its place. What discussions will you be having with councils to impress upon them the importance of providing playgrounds for children, given that they will be concentrating on the services that they are required by law to provide and, of course, playgrounds are not one of those services?

**Brian Gibbons:** All local authorities have a statutory duty to produce a single children and young people's plan, which is about promoting the overall wellbeing of children in their areas. I would not regard those plans as being holistic if they did not take sport and recreation opportunities into account.

### Council Tax Levels

**Q5 Nick Ramsay:** Will the Minister make a statement on council tax levels in Wales? OAQ(3)0351(SJL)

**Brian Gibbons:** For 2008-09, the average band D council tax increase was 3.9 per cent. For the years 2005-06 through to 2008-09, council tax increases in Wales were the lowest since council tax was introduced in 1993-94.

**Nick Ramsay:** I thank you for those statistics with regard to this year, although you will be aware that, since 1997, council tax has increased by over 100 per cent within Wales. In fact, council tax for band D properties has shot up this year to a budget-busting £1,044. That is a huge figure. At this time, with the credit crunch, when we are seeing rising fuel prices and the loss of the 10p income tax rate,

rhywfaint o ganlyniadau rhagarweiniol y gwaith hwnnw i'r Cabinet cyn toriad yr haf, ac yna gwaith y Cabinet fydd ystyried y dystiolaeth a gyflwynir.

**Kirsty Williams:** Weinidog, sylwais ichi ddweud yn eich ateb i Paul Davies y byddech yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol yng Nghymru i wella gwasanaethau i drigolion lleol. Byddai llawer o blant yn fy etholaeth i'n hoffi cael y cyfle i gael maes chwarae. Eto i gyd, rhaid i Gyngor Sir Powys symud offer chwarae annigonol a pheryglus o'u meysydd mewn llawer cymuned, ond nid oes ganddo'r adnoddau i roi offer chwarae newydd yn ei le. Pa drafodaethau y byddwch yn eu cael gyda chynghorau i bwysleisio wrthynt mor bwysig yw darparu meysydd chwarae i blant, o gofio y byddant yn canolbwyntio ar y gwasanaethau y mae gofyn iddynt eu darparu yn ôl y gyfraith, ac, wrth gwrs, nid yw meysydd chwarae'n un o'r gwasanaethau hynny?

**Brian Gibbons:** Mae'n ddyletsywydd ar bob awdurdod lleol i lunio un cynllun i blant a phobl ifanc, a phwrpas hynny yw hyrwyddo lles cyffredinol plant yn eu hardaloedd. Ni fyddwn yn ystyried bod y cynlluniau hynny'n gynlluniau cyflawn pe na byddent yn rhoi sylw i gyfleoedd ym maes chwaraeon a hamdden.

### Lefelau'r Dreth Gyngor

**C5 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau'r dreth gyngor yng Nghymru? OAQ(3)0351(SJL)

**Brian Gibbons:** Ar gyfer 2008-09, y cynnydd ym mand D y dreth gyngor ar gyfartaledd oedd 3.9 y cant. Ar gyfer 2006-06 drwodd i 2008-09, yr oedd y codiadau yn y dreth gyngor yng Nghymru yr isaf ers cyflwyno'r dreth gyngor yn 1993-94.

**Nick Ramsay:** Diolch ichi am yr ystadegau hynny ar gyfer eleni, er y byddwch yn gwybod bod y dreth gyngor wedi cynyddu dros 100 y cant yng Nghymru er 1997. A dweud y gwir, mae'r dreth gyngor ar gyfer eiddo band D wedi saethu i'r entrychion eleni gan gyrraedd £1,044, sy'n ddigon i chwalu cyllideb. Mae'r ffigur hwnnw'n anferth. A ninnau ar hyn o bryd yn wynebu'r wasgfa

this is affecting people particularly hard. I know that we often talk about council tax when the bills are hitting the doorsteps, but it is something that affects people throughout the year and, at the moment, there are people out there who are suffering, Minister. What do you propose to do to alleviate the burden that is falling on some of the most vulnerable people in our society?

**Brian Gibbons:** First, we need to remember that the Conservative Party has a track record on this issue and that if council tax had continued to increase in Wales at the rate at which it was increasing when the Conservatives left office, it would now be closer to £1,700 for a band D property. It is all very easy for Welsh Conservatives to come in here and talk the talk, but people in Wales know of their record when they had the opportunity to walk the walk.

**Mohammad Asghar:** Minister, I am concerned to hear reports that Monmouthshire County Council has underspent by nearly £4 million in the last financial year, yet it has increased council tax and complained about the amount of money that it gets from the Assembly Government. Does the Minister agree that this is a regrettable state of affairs and that the council has had a fair settlement from the Assembly Government?

**Brian Gibbons:** Yes. Indeed, if we take into account that the purpose of central Government support is to address public service provision through local government and to address particular issues such as deprivation and to recognise the demographics of the population, I certainly would agree that Monmouthshire has had a fair settlement. The big challenge for local government in Wales is the variability in performance and I do not think that it can be explained by the resource allocation. It is about the internal process of self-governance and self improvement.

**Jenny Randerson:** From the tone of your reply to Nick Ramsay, I am sure that you will join me in expressing surprise that the

gredyd ac yn gweld prisiau tanwydd yn codi a'r gyfradd dreth incwm 10c yn diflannu, mae hyn yn ergyd arbennig o drwm i bobl. Gwn ein bod yn sôn yn aml am y dreth gyngor pan fydd y biliau'n glanio ar y trothwy, ond mae'n rhywbeth sy'n effeithio ar bobl drwy gydol y flwyddyn, ac ar hyn o bryd mae yna bobl mewn cymdeithas sy'n dioddef, Weinidog. Beth y bwriadwch ei wneud i liniaru'r baich sy'n disgyn ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas?

**Brian Gibbons:** Yn gyntaf, mae angen inni gofio bod gan y Blaid Geidwadol hanes yn y cyswllt hwn, a phetai'r dreth gyngor wedi parhau i godi yng Nghymru ar yr un gyfradd â phan ddaeth cyfnod llywodraethu'r Ceidwadwyr i ben, byddai'n nes at £1,700 ar gyfer eiddo band D erbyn hyn. Digon rhwydd i'r Ceidwadwyr Cymreig ddod yma a dweud eu dweud, ond mae pobl Cymru'n gwybod am eu hanes pan oedd cyfle iddynt wneud rhywbeth.

**Mohammad Asghar:** Weinidog, yr wyf yn poeni o glywed adroddiadau bod Cyngor Sir Fynwy wedi tanwario bron i £4 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, er iddo gynyddu'r dreth gyngor a chwyno am faint o arian y mae'n ei gael gan Lywodraeth y Cynulliad. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod y sefyllfa hon yn un i resynu wrthi, a bod y cyngor wedi cael setliad teg gan Lywodraeth y Cynulliad?

**Brian Gibbons:** Ydwyf. Yn wir, os ystyriwn mai pwrpas cymorth Llywodraeth ganolol yw delio â darparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng llywodraeth leol a delio â materion penodol megis amddifadedd a chydabod demograffeg y boblogaeth, yn sicr, byddwn yn cytuno bod sir Fynwy wedi cael setliad teg. Yr her fawr i lywodraeth leol yng Nghymru yw'r anghysondeb yn ei pherfformiad, ac ni chredaf fod modd ei egluro drwy gyfeirio at yr adnoddau a ddyrannwyd. Mae a wnelo â phroses fewnol hunan-lywodraethu a hunan-wella.

**Jenny Randerson:** Ar wynt eich ymateb i Nick Ramsay, yr wyf yn siŵr yr ymunwch â mi i fynegi syndod bod y Ceidwadwyr yn

Conservatives complain about council tax, in view of the fact that they introduced it in the first place and considering that, over the last four years, Conservative-run councils have had average council tax increases of 4.6 per cent, compared with the slightly lower 4.4 per cent among Labour-run councils and the very much lower 3.5 per cent among Liberal-Democrat-run councils.

However, I do agree with him that council tax impacts unfairly and disproportionately on the poor. Are you aware of the Joseph Rowntree Foundation research that shows that one in four band A households, and one in seven band B households, receive a court summons for non-payment of council tax? Are you aware that council tax equates to 4.9 per cent of household income for those in the bottom income quintile and only 1.7 per cent for those in the top income quintile?

Given those salutary statistics, do you agree with the Lyons committee recommendation on changing the council tax benefits system to a rebate system? Do you share my disappointment that the UK Government has done nothing so far in relation to this and is showing no signs of doing so? Will you put pressure on it to introduce, at the very least, some kind of change to the council tax benefits system?

**Brian Gibbons:** I did not know of the figures that you mentioned from the Joseph Rowntree Foundation research. I will look at them with great interest, since the people in band A and band B are on low incomes. That certainly needs to be looked at.

Regarding the Lyons review recommendation on council tax rebate, this is something that we as a Government already support. The other major recommendation from the Lyons review in this area was for greater automaticity in the provision of council tax benefits as a result of the information already collected. I am pleased to say that the UK Government is taking this on board and that some steps will be taken in this direction in the autumn. I was equally interested in the recent statement by the UK Government in

cwyno am y dreth gyngor, o ystyried mai hwy a'i cyflwynodd yn y lle cyntaf, ac wrth gofio, dros y pedair blynedd diwethaf, fod cynghorau sydd dan reolaeth y Ceidwadwyr wedi cynyddu eu treth gyngor 4.6 y cant ar gyfartaledd, o'i gymharu â'r 4.4 y cant, sydd fymryn is, yn y cynghorau sydd dan reolaeth Llafur a'r 3.5 y cant is o lawer yn y cynghorau sydd dan reolaeth y Democratiaid Rhyddfrydol.

Fodd bynnag, cytunaf ag ef fod y dreth gyngor yn cael effaith annheg a mwy anghymesur ar y tlawd. A wyddoch am ymchwil Sefydliad Joseph Rowntree sy'n dangos bod un o bob pedair aelwyd ym Mand A ac un o bob saith aelwyd ym Mand B yn cael eu gwysio i'r llys am beidio â thalu eu treth gyngor? A wyddoch fod y dreth gyngor yn cyfateb i 4.9 y cant o incwm aelwydydd y rheini sydd yn y cwintel incwm isaf, ac 1.7 y cant yn unig ar gyfer pobl sydd yn y cwintel incwm uchaf?

O ystyried yr ystadegau ysgytwol hynny, a ydych yn cytuno ag argymhelliad pwyllgor Lyons ynglŷn â newid y system budd-daliadau treth gyngor a chael system ad-dalu yn ei lle? A ydych mor siomedig ag ydwyf fi nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud dim ynglŷn â hyn eto ac nad oes unrhyw arwydd o gwbl y bydd yn gwneud hynny? A wnewch chi roi pwysau arni i gyflwyno o leiaf ryw fath o newid yn y system budd-daliadau treth gyngor?

**Brian Gibbons:** Nid oeddwn yn gwybod am y ffigurau a grybwylllech o ymchwil Sefydliad Joseph Rowntree. Edrychaf arnynt gyda diddordeb mawr, gan fod incwm y bobl ym mand A ac ym mand B yn isel. Mae angen edrych ar hynny'n sicr.

O ran argymhelliad adolygiad Lyons ynglŷn ag ad-daliad treth gyngor, mae hyn yn rhywbeth yr ydym fel Llywodraeth eisoes yn ei gefnogi. Yr argymhelliad mawr arall yn adolygiad Lyons yn y maes hwn oedd y dylid cael trefn fwy awtomatig wrth ddarparu budd-daliadau treth gyngor yn sgil y wybodaeth sydd wedi'i chasglu eisoes. Yr wyf yn falch dweud bod Llywodraeth y DU yn rhoi sylw i hyn ac y cymerir rhai camau i'r cyfeiriad hwn yn yr hydref. Yr oedd gennyf ddiddordeb hefyd yn y datganiad yn

relation to fuel poverty, which states that there should be a greater degree of flexibility so that the various agencies can communicate more effectively in instances where people are at particular financial risk. These are welcome developments by the UK Government, which we have been encouraging it to take and I am glad that it is listening to our suggestions.

**Jenny Randerson:** Minister, I welcome any steps, however small, taken by the Government to improve the availability of assistance to the poorest in society with their council tax. However, do you agree with me, and with your Plaid Cymru colleagues in Government, that a much fairer system, from start to finish, would be a local income tax? If introduced, it would do away with the startling figures that I mentioned earlier of a 1.7 per cent take from the richest in society and a 4.9 per cent take in council tax from the poorest in society.

**Brian Gibbons:** You can quote Sir Michael Lyons in support of some of your arguments, but he was also of the view that, in the round, council tax is a fairly resilient means of financing local government. However, as local taxation, on its own, it was not adequate. This was precisely the point that we made in our submission to Sir Michael Lyons's review. Again, I am pleased that Michael Lyons accepted the logic of our position and incorporated it into his final report.

2.10 p.m.

**The Presiding Officer:** I understand that Nick Ramsay now feels able to take up his option, as a party spokesperson, of asking additional supplementaries.

**Nick Ramsay:** I appreciated the earlier history lecture from the Minister so much that I was eager to come back to have a second go. Rather than look back, Minister, can we look forward? The fact is that, outside the Chamber, there are people across Wales who are paying far more council tax today than they were 10 years ago, in which they have seen above-inflation increases. I

ddiweddar gan Lywodraeth y DU ynglŷn â thlodi tanwydd, sy'n dweud y dylid cael mwy o hyblygrwydd er mwyn i'r gwahanol asiantaethau allu cyfathrebu'n fwy effeithiol pan fydd pobl yn wynebu risg ariannol penodol. Mae'r rhain yn ddatblygiadau i'w croesawu gan Lywodraeth y DU, datblygiadau yr ydym wedi bod yn ei hannog i fynd ar eu trywydd, ac yr wyf yn falch ei bod yn gwrando ar ein hawgrymiadau.

**Jenny Randerson:** Weinidog, croesawaf unrhyw gamau, pa mor fychan bynnag, a gymerir gan y Llywodraeth i wella'r cymorth sydd ar gael i'r tlotaf yn ein cymdeithas gyda'u treth gyngor. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno â mi, ac â'ch cyd-Aelodau o Blaid Cymru yn y Llywodraeth, mai system decach o lawer, o'i chwyr, fyddai treth incwm leol? O'i chyflwyno, byddai hynny'n cael gwared â'r ffigurau ysgytwol y soniais amdanynt gynnu, sef mai 1.7 y cant a godir ar y cyfoethocaf yn ein cymdeithas ac mai 4.9 y cant yw'r dreth gyngor a godir ar y tlotaf yn ein cymdeithas.

**Brian Gibbons:** Gallwch ddyfynnu Syr Michael Lyons i gefnogi rhai o'ch dadleuon, ond yr oedd o'r farn hefyd, drwyddi draw, fod y dreth gyngor yn ddull gweddol gadarn o ariannu llywodraeth leol. Fodd bynnag, fel trethiant lleol, ar ei ben ei hun, nid oedd yn ddigonol. Dyma'r union bwynt a wnaethom yn ein cyflwyniad i adolygiad Syr Michael Lyons. Unwaith eto, yr wyf yn falch fod Michael Lyons wedi derbyn rhesymeg ein safbwynt a'i gynnwys yn ei adroddiad terfynol.

**Y Llywydd:** Deallaf fod Nick Ramsay bellach yn teimlo y gall fanteisio ar ei hawl, ac yntau'n llefarydd ar ran ei blaid, i ofyn cwestiynau atodol ychwanegol.

**Nick Ramsay:** Yr oeddwn yn gwerthfawrogi'r ddarlith hanes gynnu gan y Gweinidog gymaint nes imi deimlo awydd dod yn ôl a rhoi cynnig arall arni. Yn hytrach nag edrych yn ôl, Weinidog, a gawn ni edrych ymlaen? Y gwir yw, y tu allan i'r Siambr, fod pobl ledled Cymru sy'n talu mwy o dreth gyngor o lawer heddiw nag oeddent 10 mlynedd yn ôl, a'u bod wedi



mentioned vulnerable people earlier: pensioners are part of that vulnerable sector. You have put aside a certain amount of money for next year, under the 'One Wales' agreement, to assist with pensioners' bills. We did not think that that was enough, but some of that money is there. Bearing in mind that there has been a £39 increase in the average band D tax this year, this money will basically be a case of running to keep still, will it not, Minister? I think that you would agree with that. Will you revisit the amount that you have allocated to help pensioners and do something that will really help people with these enormous tax increases? It is not just council tax increases; at the moment, people are paying a fair whack for petrol, food and everything that you look at, and they are looking to the Assembly Government to get something back for it.

**Brian Gibbons:** We have indicated that, in the next financial year, we will bring forth proposals that will be specifically targeted at the most vulnerable pensioners. We are equally committed to continuing our benefit uptake scheme. For the people who use that scheme, it produces an extra £12 a week of extra income, which is way in excess of anything that the Conservatives proposed in their local government manifesto.

### Responsible Lending

**Q6 Sandy Mewies:** What measures is the Welsh Assembly Government taking to ensure the provision of responsible lending? OAQ(3)0353(SJL)

**Q11 Sandy Mewies:** What measures is the Welsh Assembly Government taking to promote responsible lending? OAQ(3)0385(SJL)

**The Deputy Minister for Regeneration (Leighton Andrews):** Our financial inclusion strategy will build on the 2005 review of overindebtedness, which found that the best way of addressing irresponsible lending is through UK Government consumer

gweld cynnydd sy'n uwch na chwyddiant. Soniais gynnu am bobl sy'n agored i niwed: mae pensiynwyr yn rhan o'r sector hwnnw sy'n agored i niwed. Yr ydych wedi neilltuo rhywfaint o arian ar gyfer y flwyddyn nesaf, dan gytundeb 'Cymru'n Un', i gynorthwyo pensiynwyr gyda'u biliau. Nid oeddem yn credu bod hynny'n ddigon, ond mae rhywfaint o'r arian hwnnw yno. O gofio bod treth band D wedi cynyddu £39 ar gyfartaledd eleni, yn y bôn onid yw'n wir mai rhedeg i aros yn ein hunfan y byddwn ni, Weinidog? Credaf y byddech yn cytuno â hynny. A wnewch chi ailystyried y swm yr ydych wedi'i ddyrannu i helpu pensiynwyr, a gwneud rhywbeth a fydd yn cynorthwyo pobl o ddifrif gyda'r cynnydd anferth hwn yn y dreth? Nid cynnydd yn y dreth gyngor yn unig sydd dan sylw: ar hyn o bryd mae pobl yn talu crochris am betrol, am fwyd ac am bopeth a welwch chi, ac maent yn edrych at Llywodraeth y Cynulliad i gael rhywbeth yn ôl ar gyfer hynny.

**Brian Gibbons:** Yr ydym wedi dweud y byddwn, yn y flwyddyn ariannol nesaf, yn cyflwyno cynigion yn targedu'n benodol y pensiynwyr sydd fwyaf agored i niwed. Yr ydym wedi ymrwymo yn yr un modd i barhau ein cynllun manteisio ar fudd-daliadau. I'r rhai sy'n defnyddio'r cynllun hwnnw, mae'n darparu £12 o incwm ychwanegol bob wythnos, sydd ymhell y tu hwnt i ddim byd a gynigiwyd gan y Ceidwadwyr yn eu maniffesto llywodraeth leol.

### Benthyciadau Cyfrifol

**C6 Sandy Mewies:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod benthyciadau'n cael eu rhoi'n gyfrifol? OAQ(3)0353(SJL)

**C11 Sandy Mewies:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo rhoi benthyciadau'n gyfrifol? OAQ(3)0385(SJL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Bydd ein strategaeth cynhwysiant ariannol yn adeiladu ar yr adolygiad o orddyled yn 2005. Gwelodd hwnnw mai'r ffordd orau i fynd i'r afael â benthycia anghyfrifol yw drwy gyfrwng

credit regulations, better financial education and continued support for the credit union movement.

**Sandy Mewies:** I am sure that you would agree that there is a lot of responsibility on an individual to borrow sensibly. However, it is equally important that lenders not only lend sensibly, but also within the legislative guidelines provided for them. I am aware that this is not a devolved matter, Deputy Minister, but I hope that you will be able to discuss it at some stage with colleagues in Westminster, as a recent case was brought to my attention in which an individual had been awarded three loans by the same financial institution, with a combined monthly repayment schedule equal to that client's monthly income. Under the Consumer Credit Act 2006, lenders have a duty not to lend irresponsibly. Therefore, will you take any action that you can to ensure that lenders lend responsibly in Wales?

**Leighton Andrews:** I am grateful to you for raising that with us. You cited a case that would alarm all of us if we were to encounter it in our constituencies. As you will be aware, the Consumer Credit Act came in in 2006, replacing the extortionate credit test with a test based on the concept of unfairness, and it also strengthened the licensing regime. There is currently a review being held by the Department for Business, Enterprise and Regulatory Reform in London of consumer law, which is looking at the levels of protection available for consumers, and all aspects of the regime, including enforcement of the law and ways to help consumers to gain redress. I am certain that we will want to take forward the points that you have raised in dialogue with UK Government Ministers. If you would like to write to us about the details of the particular case that you mentioned, we will be pleased to pass them on.

**Mark Isherwood:** Most lending is secured on mortgages, and we know from court records that sub-prime lenders account for 10 times their share of the market in terms of

rheoliadau credyd defnyddwyr gam Lywodraeth y DU, gwell addysg ariannol, a pharhau i gefnogi'r mudiad undebau credyd.

**Sandy Mewies:** Yr wyf yn siŵr y cytunech fod cryn gyfrifoldeb ar unigolyn i fenthycu'n gall. Fodd bynnag, mae hi lawn mor bwysig i bobl sy'n rhoi benthyciadau nid yn unig i wneud hynny'n gall, ond hefyd i gadw o fewn y canllawiau cyfreithiol a ddarperir ar eu cyfer. Yr wyf yn sylweddoli nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, Ddirprwy Weinidog, ond gobeithio y gallwch ei drafod rywbryd gyda'ch cyd-Aelodau yn San Steffan, gan fod achos wedi dod i'm sylw yn ddiweddar lle'r oedd unigolyn wedi cael tri benthyciad gan yr un sefydliad ariannol, a'r bod yr amserlen ad-dalu misol ar gyfer y tri gyda'i gilydd gymaint ag incwm misol y cleient hwnnw. Dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 2006, mae'n ddyletswydd ar bobl sy'n rhoi benthyc arian i beidio â gwneud hynny mewn modd anghyfrifol. Felly, a wnewch chi gymryd unrhyw gamau posibl i sicrhau bod y sawl sy'n rhoi benthyc arian yn gwneud hynny mewn modd cyfrifol yng Nghymru?

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am godi hynny gyda ni. Byddai'r achos y cyfeiriwyd ato yn ein dychryn i gyd petaem yn dod ar ei draws yn ein hetholaethau. Fel y gwyddoch, daeth Deddf Credyd Defnyddwyr i rym yn 2006, gan ddisodli'r prawf credyd gormodol gan brawf yn seiliedig ar y cysyniad o annhegwch. Yr oedd y ddeddf hon hefyd yn cryfhau'r drefn drwyddedu. Ar hyn o bryd, mae'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio yn Llundain wrthi'n adolygu cyfraith defnyddwyr. Mae'n edrych ar lefelau'r warchodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr, ac ar bob agwedd ar y drefn, gan gynnwys gorfodi'r gyfraith a ffyrdd i helpu defnyddwyr i gael iawn. Yr wyf yn sicr y byddwn am fwrw ymlaen â'r pwyntiau yr ydych wedi'u codi wrth drafod gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU. Petaech gystal ag ysgrifennu atom ynglŷn â manylion yr achos penodol a grybwyllwyd gennych, byddwn yn falch o'u trosglwyddo.

**Mark Isherwood:** Mae'r rhan fwyaf o fenthyciadau'n cael eu sicrhau drwy forgeisi, a gwyddom wrth edrych ar gofnodion y llysoedd fod benthycwyr mentrus yn gyfrifol

repossession court activity. You will know that the mortgage industry is regulated by a statutory mortgage code, which is regulated by the Financial Services Authority, and mortgage lenders must show that they have assessed their customers' circumstances and ability to pay before accepting any business or making any recommendations. However, only two months ago, the Financial Services Authority admitted that it had failed to act on signals that Northern Rock was acting recklessly, which raises concerns that that may also have arisen with others in the sub-prime market. What discussions are you holding or have you held with colleagues in Westminster to ensure that the regulatory powers of the Financial Services Authority are enforced in this respect, so that home owners in Wales need not continue to suffer the highest proportion of repossessions in the United Kingdom?

**Leighton Andrews:** The issues that you raise in relation to mortgage indebtedness are serious. We have had a number of conversations with the UK Government about a series of issues relating to indebtedness. However, as you will appreciate, the Financial Services Authority is not a devolved regulator and the issues that you have raised are a matter for the UK Government.

**The Presiding Officer:** My apologies to Sandy Mewies. You are entitled to a second supplementary on your second question, Sandy.

**Sandy Mewies:** I will return to the issue of financial literacy. The mental health charity, Mind, has said that people with mental health problems are almost three times more likely to be in debt than others. Of course, this adversely affects them. Can you discuss with your ministerial colleagues how the Government can assist such people to stay out of debt and to get support through advocacy should problems occur?

**Leighton Andrews:** That is an important

am 10 gwaith yn fwy o achosion adfeddiannu yn y llysoedd na'u cyfran o'r farchnad. Gwyddoch fod y diwydiant morgeisi'n cael ei reoli gan god morgeisi statudol, a bod hwnnw'n cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Rhaid i bobl sy'n rhoi benthygiad ar sail morgais ddangos eu bod wedi asesu amgylchiadau eu cwsmeriaid a'u gallu i dalu cyn derbyn unrhyw fusnes nac argymell dim. Fodd bynnag, prin ddau fis yn ôl cyfaddefodd yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol iddo fetu â gweithredu ar sail arwyddion bod Northern Rock yn gweithredu'n ddi-hid. Mae hyn yn gwneud i rywun boeni y gallai'r un peth fod wedi digwydd hefyd gyda chwmmiau eraill yn y farchnad fentrus. Pa drafodaethau yr ydych yn eu cael neu wedi'u cael gyda'ch cyd-Aelodau yn San Steffan i sicrhau bod pwerau rheoleiddio'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn cael eu gorfodi yn y cyswllt hwn, fel nad oes angen i berchenogion tai yng Nghymru ddal i ddiodef y gyfran adfeddiannu uchaf yn y Deyrnas Unedig?

**Leighton Andrews:** Mae'r materion a godwch yng nghyswllt dyledion morgeisi yn rhai difrifol. Yr ydym wedi cael amryw o sgysiau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyfres o faterion yn ymwneud â dyledion. Fodd bynnag, fel y sylweddolwch, nid yw'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn rheoleiddiwr sydd wedi ei ddatganoli, a mater i Lywodraeth y DU yw'r anawsterau yr ydych wedi'u codi.

**Y Llywydd:** Ymddiheuraf i Sandy Mewies. Mae gennych hawl i ail gwestiwn atodol am eich ail gwestiwn, Sandy.

**Sandy Mewies:** Dof yn ôl at fater llythrennedd ariannol. Mae'r elusen iechyd meddwl, Mind, wedi dweud bod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl bron dair gwaith yn fwy tebygol o fod mewn dyled na phobl eraill. Wrth gwrs, mae hyn yn effeithio'n andwyol arnynt. A allwch drafod gyda'ch cyd-Weinidogion sut y gall y Llywodraeth helpu pobl o'r fath i barhau heb ddyled ac i gael cymorth drwy eiriolaeth petai problemau'n codi?

**Leighton Andrews:** Mae hwnnw'n fater

issue. We are working on the development of a financial inclusion strategy for Wales. It will give us the opportunity to take the lead in tackling financial exclusion with partners across Wales. There has been an informal consultation on that, and the points that you raise will have been noted by the Minister as we draw up the financial inclusion strategy.

**Leanne Wood:** Following on from Sandy Mewies's questions, can you tell us whether the One Wales Government would support the introduction of a reasonable lending Bill, which would make illegal lending a criminal offence?

**Leighton Andrews:** As I said earlier, the regulation of consumer credit is a matter for the UK Government. The important development at present is the UK Government's review of the operation of the consumer credit law. Any proposals relating to that will be considered in that context.

**Brynle Williams:** Given the high levels of personal debt in Wales, those with poor credit histories in deprived communities are often at risk from loan sharks and disreputable lenders. We have heard about that in the Chamber previously. There is a clear case, therefore, for improving the financial literacy of schoolchildren. Regrettably, many of them do not get the opportunity to learn financial literacy from their parents. What work are you carrying out with the Minister for education to improve the financial awareness of students and to give them the skills to manage their own finances in adulthood?

**Leighton Andrews:** The Government is committed under the 'One Wales' agreement to work on financial literacy. In fact, the Minister for education has already announced proposals for an expansion of the teaching of financial literacy within schools, which will begin this autumn. We are also looking at the establishment of a financial education unit, and we have been working to expand the role of credit unions, including their role within schools. I am pleased to see that many credit unions in Wales are engaging with pupils in schools and are making an important contribution to helping people to understand

pwysig. Yr ydym yn gweithio ar ddatblygu strategaeth cynhwysiant ariannol i Gymru. Bydd yn gyfle inni arwain wrth fynd i'r afael ag allgáu ariannol gyda phartneriaid ar draws Cymru. Bu ymgynghori anffurfiol ynglŷn â hynny, a bydd y pwyntiau a godwch wedi eu nodi gan y Gweinidog wrth inni lunio'r strategaeth ar gyfer cynhwysiant ariannol.

**Leanne Wood:** Yn dilyn o gwestiynau Sandy Mewies, a allwch ddweud wrthym a fyddai Llywodraeth Cymru'n Un yn cefnogi cyflwyno Mesur benthycya rhesymol, a fyddai'n gwneud benthycya anghyfreithlon yn dramgwydd troseddol?

**Leighton Andrews:** Fel y dywedais yn gynharach, mater i Lywodraeth y DU yw rheoleiddio credyd defnyddwyr. Y datblygiad pwysig ar hyn o bryd yw adolygiad Llywodraeth y DU o'r ffordd y mae'r gyfraith ar gredyd defnyddwyr yn gweithio. Caiff unrhyw gynigion sy'n ymwneud â hynny eu hystyried yn y cyd-destun hwnnw.

**Brynle Williams:** O ystyried y lefelau uchel o ddyled bersonol yng Nghymru, mae'r rheini sydd â hanes credyd gwael mewn cymunedau difreintiedig yn aml mewn perygl oddi wrth fenthycwyr arian didrwydded a benthycwyr diegwyddor. Clywsom am hynny yn y Siambr cyn hyn. Mae achos clir, felly, dros wella llythrennedd ariannol plant ysgol. Yn anffodus, nid yw llawer ohonynt yn cael y cyfle i ddysgu llythrennedd ariannol gan eu rhieni. Pa waith yr ydych yn ei wneud gyda'r Gweinidog dros addysg i wella ymwybyddiaeth ariannol myfyrwyr ac i roi iddynt y sgiliau i reoli eu harian eu hunain pan fyddant yn oedolion?

**Leighton Andrews:** Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo o dan gytundeb 'Cymru'n Un' i weithio ar lythrennedd ariannol. Yn wir, mae'r Gweinidog dros addysg eisoes wedi cyhoeddi cynigion i ehangu'r ddarpariaeth addysgu llythrennedd ariannol mewn ysgolion, a fydd yn dechrau yn yr hydref eleni. Yr ydym hefyd yn ystyried sefydlu uned addysg ariannol, ac yr ydym wedi bod yn gweithio i ehangu rôl undebau credyd, gan gynnwys eu rôl mewn ysgolion. Yr wyf yn falch fod nifer o undebau credyd yng Nghymru yn cysylltu â disgyblion mewn ysgolion ac yn gwneud cyfraniad pwysig i

the importance of saving.

### Reforming Local Government

**Q7 Lesley Griffiths:** What plans does the Minister have to reform local government in Wales? OAQ(3)0392(SJL)

**Brian Gibbons:** I am engaged in an extensive partnership programme of reform with Welsh local government to improve services for citizens, provide better value for money for taxpayers, and tackle the variability in performance across the country.

**Lesley Griffiths:** Despite the anticipated knee-jerk reaction from those with a vested interest, do you agree that the moment has arrived to have a serious look at the structure and form of local government in Wales? The current system remains broadly based on the old UK-wide, pre-devolution model. Is it not time that we had a considered look at a more modern and appropriate system of delivering local governance, in order to reflect a modern, progressive and forward-looking Wales?

**Brian Gibbons:** The Beecham review looked at this when it reported recently. Its view was that structural reorganisation is not the immediate best answer. However, the clear message from the Beecham review, and from the Welsh Assembly Government, is that that should not mean that we are promoting a policy of business as usual. There are major challenges to local government and other public service bodies to change and reform the way in which they work, and there has to be greater cross-organisational and cross-boundary co-operation. There has to be greater pooling of budgets and more activity and initiatives to learn from each other. Only if the central thesis of the Beecham review has been found wanting should we get involved in a structural review. Any change that needs to happen should be on an organic basis—rather than a big bang—or should be in consequence to clearly demonstrated failure.

2.20 p.m.

**Michael German:** I note your answer,

helpu pobl i ddeall pwysigrwydd cynilo.

### Diwygio Llywodraeth Leol

**C7 Lesley Griffiths:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(3)0392(SJL)

**Brian Gibbons:** Yr wyf wrthi'n ymwneud â rhaglen ddiwygio helaeth mewn partneriaeth â llywodraeth leol yng Nghymru i wella gwasanaethau i ddinasyddion, i ddarparu gwell gwerth am arian i drethdalwyr, ac i fynd i'r afael a'r amrywiant mewn perfformiad ar draws y wlad.

**Lesley Griffiths:** Er gwaethaf yr ymateb ystrydebol disgwylidig gan bobl sydd â buddiant personol, a ydych yn cytuno bod yr amser wedi dod i edrych o ddifrif ar strwythur a ffurf llywodraeth leol yng Nghymru? Mae'r system gyfredol yn dal wedi'i seilio'n fras ar hen fodel y DU, cyn datganoli. Onid yw hi'n bryd inni edrych yn bwyllog ar system fwy modern a phriodol i ddarparu llywodraeth leol, er mwyn adlewyrchu Cymru fodern, flaengar sy'n edrych tua'r dyfodol?

**Brian Gibbons:** Edrychodd adolygiad Beecham ar hyn pan gyflwynodd ei adroddiad yn ddiweddar. Y farn oedd nad ad-drefnu strwythurol yw'r ateb gorau ar unwaith. Fodd bynnag, y neges glir o adolygiad Beecham, ac oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, yw na ddylai hynny olygu ein bod yn hyrwyddo polisi o barhau yn ôl yr busnes fel arfer. Mae sialensiau mawr i lywodraeth leol a chyrrff gwasanaethau cyhoeddus eraill i newid a diwygio'r ffordd y maent yn gweithio, a rhaid cael mwy o gydweithredu ar draws sefydliadau a ffiniau. Rhaid cael mwy o gronni cyllidebau a mwy o weithgarwch a chynlluniau i ddysgu gan ein gilydd. Dim ond os gwelir bod thesis canolog adolygiad Beecham yn ddiffygiol y dylem fynd ati i wneud adolygiad strwythurol. Dylai unrhyw newid angenrheidiol fod ar sail organig—yn hytrach na chlec fawr—neu dylai ddeillio o fethiant sydd wedi ei ddangos yn glir.

**Michael German:** Nodaf eich ateb,

Minister, and I welcome your suggested organic approach. However, can you indicate the criteria by which you will judge whether the Beecham review has been successful and whether local government has taken heed of it? What would be your top three headlines in judging whether or not we need to move down this route?

**Brian Gibbons:** I do not think that it would be appropriate to single out three litmus-test areas, because failure in local government could be much wider than that. It would be inappropriate to give an indication in that regard. However, a demonstrable failure to have effective governance in place and to lead on self-improvement, and a continuing failure to deliver local and Welsh Assembly Government priorities are the areas that we would be looking at. You may be aware that we have consulted on the Wales programme for improvement and on governance with local government, and a big challenge for local government is to demonstrate its capacity to recognise service failure and to drive improvement forward. Hopefully, the proposals that we are putting forward for improvement agreements with local government, for example, and establishing minimum standards for certain service areas, will provide a performance benchmark by which some of those points can be effectively demonstrated.

**Janet Ryder:** In your response to Sandy you talked about clearly demonstrated failure. The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills has highlighted the lack of responses from some councils as being partly to blame for the incorrect funding levels for the foundation phase. What discussions have you had in your role as Minister for Social Justice and Local Government with those specific councils and councils in general to ensure that they work with the Assembly in delivering the Welsh Assembly Government's policies?

**Brian Gibbons:** I have not had individual discussions with those particular councils because the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills is the lead Minister in that regard, and, as she has reported to this Chamber on many occasions,

Weinidog, a chroesawaf y dull gweithredu organig yr ydych yn ei awgrymu. Fodd bynnag, a allwch roi awgrym ar sail pa feini prawf y byddwch yn barnu a yw adolygiad Beecham wedi bod yn llwyddiant ac a yw llywodraeth leol wedi gwranddo arno? Beth fyddai eich tri phrif bennawd wrth farnu a oes angen inni ddilyn y llwybr hwn ai peidio?

**Brian Gibbons:** Ni chredaf y byddai'n briodol dethol tri maes prawf litmws, oherwydd gallai methiant mewn llywodraeth leol fod lawer yn ehangach na hynny. Byddai'n amhriodol rhoi awgrym yn y cyswllt hwnnw. Fodd bynnag, methiant amlwg i gael trefn lywodraethu effeithiol ar waith ac i arwain hunanwelliant, a methiant parhaus i gyflawni blaenoriaethau lleol a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r meysydd y byddem yn edrych arnynt. Efallai eich bod yn ymwybodol ein bod wedi ymgynghori â llywodraeth leol ynghylch rhaglen Cymru ar gyfer gwella ac ynghylch llywodraethu, ac mae dangos y gallu i gydnabod methiant gwasanaethau ac i yrru gwelliant yn ei flaen yn her fawr i lywodraeth leol. Gobeithio y bydd y cynigion yr ydym yn eu cyflwyno o ran cytundebau gwella gyda llywodraeth leol, er enghraifft, a sefydlu safonau gofynnol mewn rhai meysydd gwasanaeth, yn darparu meincnod perfformiad a fydd yn fodd i arddangos rhai o'r pwyntiau hynny'n effeithiol.

**Janet Ryder:** Yn eich ymateb i Sandy soniech am fethiant y gellir ei ddangos yn glir. Mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi dweud mai'r diffyg ymatebion gan rai cynghorau sydd i'w feio'n rhannol am y lefelau cyllido anghywir ar gyfer y cyfnod sylfaen. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael yn eich rôl fel Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol gyda'r cynghorau penodol hynny, a chynghorau'n gyffredinol, i sicrhau eu bod yn gweithio gyda'r Cynulliad i roi polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waith?

**Brian Gibbons:** Nid wyf wedi cael trafodaethau unigol gyda'r cynghorau neilltuol hynny gan mai'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yw'r Gweinidog sy'n arwain yn y cyswllt hwnnw. Fel y mae hi wedi dweud yn y

she has had direct discussions with them. However, once we have the new regimes in place in local government across Wales, I hope to resume my bilateral visits with all local authorities. There will also be the opportunity to meet with local government more formally through the local government partnership forum.

### Budget Priorities

**Q8 David Melding:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's budget priorities for local government in Wales? OAQ(3)0380(SJL)

**Brian Gibbons:** The Welsh Assembly Government's budget priorities for local government include providing the necessary three-year investment to deliver the 'One Wales' agreement and locally-identified priorities, as well as securing improvement in performance and value for money.

**David Melding:** One area where I think that joint work would be fruitful is in improving the procurement process, which is a long-standing objective of the Government and an aspiration shared by all political parties here. If local authorities are to be drivers of economic change and leaders in their communities, as we would wish, then they should be doing more to promote procurement from the small and medium-sized enterprise sectors in their own economies.

**Brian Gibbons:** I think that you are right, and that is why we as an Assembly Government have established Value Wales. The good work that Value Wales has been doing since its establishment is driving this forward. Public sector bodies in Wales are forecasting the achievement of around £127 million-worth in efficiency savings through better procurement between 2005-06 and 2007-08. A good start has been made, and, indeed, over £33 million of those £127 million savings has been secured by Welsh local government itself.

**Alun Ffred Jones:** The social services

Siambur hon droeon, mae wedi cael trafodaethau uniongyrchol gyda hwy. Fodd bynnag, cyn gynted ag y bydd y cyfundrefnau newydd wedi eu sefydlu mewn llywodraeth leol ar draws Cymru, gobeithiaf aildechrau fy ymweliadau dwyochrol â'r holl awdurdodau lleol. Bydd cyfle hefyd i gwrdd â llywodraeth leol yn fwy ffurfiol drwy fforwm partneriaeth llywodraeth leol.

### Blaenoriaethau Cyllideb

**C8 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(3)0380(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae blaenoriaethau cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer llywodraeth leol yn cynnwys darparu'r buddsoddiad tair blynedd angenrheidiol i roi cytundeb 'Cymru'n Un' ar waith, ynghyd â blaenoriaethau a nodir yn lleol, yn ogystal â sicrhau gwelliant mewn perfformiad a gwerth am arian.

**David Melding:** Un maes lle credaf y byddai cydweithio'n dwyn ffrwyth yw gwella'r broses gaffael, a fu'n amcan gan y Llywodraeth ers amser maith, ac mae'n ddyhead a rennir gan yr holl bleidiau gwleidyddol yma. Os yw awdurdodau lleol i yrru newid economaidd ac i fod yn arweinwyr yn eu cymunedau, fel y byddem yn ei ddymuno, yna dylent fod yn gwneud mwy i hyrwyddo caffael oddi wrth y sectorau busnesau bach a chanolig eu maint yn eu heconomiâu eu hunain.

**Brian Gibbons:** Credaf eich bod yn iawn, a dyna pam yr ydym ni fel Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Gwerth Cymru. Mae'r gwaith da y mae Gwerth Cymru wedi'i wneud ers ei sefydlu yn gyrru hyn ymlaen. Mae cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru yn rhagweld y byddant wedi sicrhau gwerth tuag £127 miliwn o arbedion effeithlonrwydd drwy well caffael rhwng 2005-06 a 2007-08. Cafwyd dechrau da, ac yn wir mae dros £33 miliwn o'r £127 miliwn hynny wedi eu sicrhau gan lywodraeth leol Cymru ei hun.

**Alun Ffred Jones:** Mae'r fformiwla i gyllido

funding formula has been a source of great difficulty in many rural areas, because it does not recognise the effects of the long distances that are travelled by social workers, and the cost of the travel itself. Will this formula be reviewed in the near future?

**Brian Gibbons:** I am not sure that the premise of your question is entirely correct. You will be aware that around 6 per cent of the revenue support grant is distributed according to sparsity factors, and in some local authorities those account for as much as 10 per cent of the allocation. Certain sparsity factors are built into the formula, as well as settlement factors, which take into account the fact that, even in the most rural parts of Wales, there are large villages and towns with populations as big as 10,000 people. Therefore, rurality and distance factors are already built into the local government formula.

All of these things are looked at by the distribution sub-group regularly, and if there is clear empirical evidence that the existing set of arrangements is not fit for purpose, then the sub-group will discuss that. However, the current view is that the sparsity factors that are built into the local government settlement reflect the proportion that rurality or distance contributes to the cost of local service delivery.

### Council Tax

**Q9 Andrew R.T. Davies:** Will the Minister explain why council tax bills are increasing in South Wales Central? OAQ(3)0377(SJL)

**Brian Gibbons:** Local authorities are responsible for setting their own budgets and council tax according to their own priorities. Local government received a 3.3 per cent revenue uplift in 2008-09 to fund its key priorities and services, and that is in addition to the £648 million in capital funding that is available to local government.

**Andrew R.T. Davies:** One of the increased costs that councils are facing is the increased

gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn destun anhawster mawr mewn llawer ardal wledig, oherwydd nid yw'n cydnabod effeithiau'r pellteroedd maith y bydd gweithwyr cymdeithasol yn eu teithio, a chost y teithio ei hun. A gaiff y fformiwla hon ei hadolygu yn y dyfodol agos?

**Brian Gibbons:** Nid wyf yn siŵr a yw'r dybiaeth yn eich cwestiwn yn hollol gywir. Byddwch yn ymwybodol fod tua 6 y cant o'r grant cynnal refeniw yn cael ei ddsbarthu yn ôl ffactorau teneurwydd poblogaeth, ac mewn rhai awdurdodau mae'r rhain yn cyfrif am gymaint â 10 y cant o'r dyraniad. Caiff rhai ffactorau teneurwydd poblogaeth eu cynnwys yn y fformiwla, yn ogystal â ffactorau aneddiadau, sy'n ystyried y ffaith, hyd yn oed yn y rhannau mwyaf gwledig o Gymru, fod yna bentrefi mawr a threfi sydd â phoblogaeth o gymaint â 10,000 o bobl. Felly, mae natur wledig a ffactorau pellter eisoes wedi eu cynnwys yn y fformiwla llywodraeth leol.

Bydd yr is-grŵp dosbarthu yn edrych ar y pethau hyn i gyd yn rheolaidd, ac os oes tystiolaeth empirig glir nad yw'r set bresennol o drefniadau yn addas i'r diben, bydd yr is-grŵp yn trafod hynny. Fodd bynnag, y farn gyfredol yw bod y ffactorau teneurwydd poblogaeth sy'n rhan o setliad llywodraeth leol yn adlewyrchu'r gyfran y mae natur wledig neu bellter yn ei chyfrannu at gost darparu gwasanaethau lleol.

### Y Dreth Gyngor

**C9 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog egluro pam y mae biliau treth gyngor yn codi yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)0377(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am bennu eu cyllidebau a'u treth gyngor eu hunain yn unol â'u blaenoriaethau. Cafodd llywodraeth leol gynnydd refeniw o 3.3 y cant yn 2008-09 i gyllido ei blaenoriaethau a'i gwasanaethau allweddol, ac mae hynny'n ychwanegol at y £648 miliwn o gyllid cyfalaf sydd ar gael i lywodraeth leol.

**Andrew R.T. Davies:** Un o'r costau uwch y mae cynghorau'n ei hwynebu yw'r cynnydd



cost of fuel. As councils run large estates and large pools of motor vehicles, I would suggest that this has a disproportionate effect on their budgets. Have you engaged in negotiations, or been approached by the Welsh Local Government Association to start negotiations, on how the Welsh Assembly Government might be able to alleviate some of this build-up in pressure? Otherwise, come next spring, there will be an enormous increase in council tax bills that will have to be borne by council tax payers. It would not be unreasonable for council tax payers to expect the Welsh Assembly Government, along with local government, to mitigate that in some way through a request to the Minister for Finance and Public Service Delivery.

**Brian Gibbons:** As we move into the budget process, all public services will be putting forward their bids for further financial assistance from the Minister for finance, and there is no doubt that the cost of fuel and transport is a factor that will have to be borne in mind. However, given the particular cost of fuel and energy in general, there are opportunities for local authorities, as major users of transport, and bodies with massive estates consuming a vast amount of energy, to look for efficiencies in their energy bills. For example, are lights left on in public buildings? Are computers turned off in the evening, rather than being left on standby? I do not think that the answer is just to look at the linear increase in the bill—we need to look for efficiencies and better performance in how we use energy across the public sector in Wales.

**Chris Franks:** Minister, are you surprised at the Tories raising the issue of council tax levels, considering their record in the Vale of Glamorgan over the years? Are you further aware that, on four occasions, they raised council tax levels by almost double-digit percentages? You will be surprised to hear that the increases almost reached 12 per cent in one year under a Conservative administration. Do you deplore their attempts to hide these significant increases? This is the same administration that allowed social

ying nghost tanwydd. Gan fod cynghorau'n rhedeg ystadau mawr a nifer fawr o gerbydau, byddwn yn awgrymu bod hyn yn effeithio'n anghymesur ar eu cyllidebau. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau, neu a yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cysylltu â chi i agor trafodaethau, am y ffordd y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru liniaru rhywfaint ar y pwysau hyn sy'n cronni? Fel arall, pan ddaw'r gwanwyn nesaf, bydd cynnydd enfawr mewn biliau treth gyngor y bydd yn rhaid i bobl sy'n talu treth gyngor ei ysgwyddo. Ni fyddai'n afresymol i dalwyr y dreth gyngor ddisgwyl i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â llywodraeth leol, liniaru hynny mewn rhyw ffordd drwy gais i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Brian Gibbons:** Wrth inni symud at broses y gyllideb, bydd gwasanaethau cyhoeddus i gyd yn cyflwyno'u ceisiadau am gymorth ariannol pellach gan y Gweinidog dros gyllid, ac nid oes amheuaeth nad yw cost tanwydd a chludiant yn ffactor y bydd yn rhaid ei gadw mewn cof. Fodd bynnag, o ystyried cost neilltuol tanwydd ac ynni'n gyffredinol, mae cyfleoedd i awdurdodau lleol, fel cyrff sy'n defnyddio llawer iawn o gludiant, a chyrrff sydd ag ystadau enfawr sy'n defnyddio swm aruthrol o ynni, i chwilio am arbedion effeithlonrwydd yn eu biliau ynni. Er enghraifft, a yw goleuadau'n cael eu gadael ynghynn mewn adeiladau cyhoeddus? A yw cyfrifiaduron yn cael eu diffodd gyda'r nos, yn hytrach na'u gadael yn y modd gorffwys? Ni chredaf mai'r ateb yw edrych ar ddim ond y cynnydd yn y bil—mae angen inni chwilio am arbedion effeithlonrwydd a gwell perfformiad yn y ffordd yr ydym yn defnyddio ynni ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Chris Franks:** Weinidog, a ydych yn synnu bod y Torïaid yn codi mater lefelau treth gyngor, o gofio'u record ym Mro Morgannwg dros y blynyddoedd? A ydych yn ymwybodol hefyd eu bod, ar bedwar achlysur, wedi codi lefelau treth gyngor o ganrannau a oedd bron â chyrraedd dau ddigid? Byddwch yn synnu clywed bod y codiadau wedi cyrradd 12 y cant bron mewn un flwyddyn o dan weinyddiaeth Geidwadol. A ydych yn gresynu at eu hymdrechion i guddio'r codiadau sylweddol hyn? Dyma'r

service budgets to spiral out of control—

un weinyddiaeth a ganiataodd i gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol fynd allan o bob rheolaeth—

2.30 p.m.

**The Presiding Officer:** Order. I have, on several occasions, indicated that the decisions of local authorities are for local authorities. The Minister has no responsibility for the current or previous administrations in the Vale of Glamorgan Council.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr wyf wedi dweud droeon mai mater i awdurdodau lleol yw penderfyniadau awdurdodau lleol. Nid oes gan y Gweinidog gyfrifoldeb dros weinyddiaeth bresennol Cyngor Bro Morgannwg na'i gweinyddiaethau blaenorol.

**Chris Franks:** Thank you for that guidance. [*Laughter.*]

**Chris Franks:** Diolch ichi am yr arweiniad hwnnw. [*Chwerthin.*]

**The Presiding Officer:** Order. That was not guidance; it was a ruling. The reason for the ruling, which I have stuck to throughout my period of presidency so far, is to ensure the independence of local government. Ministers can answer questions on their relationship with local authorities, but we should not be second-guessing what local authorities do any more than MPs in Westminster should try to second-guess what we do.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid arweiniad oedd hynny, ond dyfarniad. Y rheswm dros fy nyfarniad, ac yr wyf wedi cadw ato drwy gydol fy llywyddiaeth hyd yma, yw sicrhau annibyniaeth llywodraeth leol. Gall Gweinidogion ateb cwestiynau am eu perthynas ag awdurdodau lleol, ond ni ddylem fod yn ceisio rhagfynegi'r hyn y mae awdurdodau lleol yn ei wneud ddim mwy nag y dylai ASau yn San Steffan geisio rhagfynegi'r hyn a wnawn ni.

**Chris Franks:** Can you tell me how such large increases will help the elderly? [*Laughter.*]

**Chris Franks:** A allwch ddweud wrthyf sut y bydd codiadau mor fawr yn helpu'r henoed? [*Chwerthin.*]

**Brian Gibbons:** It is a matter of record, as the Presiding Officer has wisely said, that I have no responsibility for what goes on in the Vale of Glamorgan Council. However, since 1999, the overall increase in council tax in Wales has been of the order of 79 per cent, and in the Vale of Glamorgan it has been 103 per cent. The record certainly demonstrates the large increases that have taken place. It also bears out the point that I made earlier, namely that high council taxes and high spend is not always commensurate with good performance. We know that certain areas of provision in individual local authorities can be poor even when a lot of money is being spent. Resources are important, but the capacity to monitor their own performance and deliver self-improvement has got to be a key message that we as an Assembly Government send out to all public service bodies in Wales.

**Brian Gibbons:** Mae wedi ei gofnodi, fel y dywedodd y Llywydd yn ddoeth, nad oes gennyf ddim cyfrifoldeb dros yr hyn sy'n digwydd yng Nghyngor Bro Morgannwg. Fodd bynnag, er 1999 mae'r cynnydd cyffredinol yn y dreth gyngor yng Nghymru wedi bod oddeutu 79 y cant, ac ym Mro Morgannwg mae wedi bod yn 103 y cant. Mae'r record yn sicr yn dangos bod cynnydd mawr wedi bod. Mae hefyd yn ategu'r pwynt a wneuthum yn gynharach, sef nad yw trethi cyngor uchel a gwariant uchel bob amser yn gymesur â pherfformiad da. Gwyddom y gall rhai darpariaethau mewn awdurdodau lleol unigol fod yn wael hyd yn oed pan werir llawer o arian. Mae adnoddau'n bwysig, ond rhaid i'r gallu i fonitro'u perfformiad eu hunain a sicrhau gwelliannau eu hunain fod yn un o'r prif negeseuon yr ydym ni fel Llywodraeth y Cynulliad yn eu rhoi i bob corff gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 10,

**The Presiding Officer:** Question 10,

OAQ(3)0388(SJL), yn ôl.

### Communities Next

**Q12 Eleanor Burnham:** Will the Deputy Minister make a statement on the 'next' phase of the Communities programme? OAQ(3)0376(SJL)

**Leighton Andrews:** Llywydd, or perhaps I should say 'El Presidente'—[*Laughter.*]

**The Presiding Officer:** Order. For the avoidance of doubt, I meant to say 'during my presiding period'. The Welsh word *Llywyddu* covers both.

**Leighton Andrews:** And 'El Presidente' is a translation of *Llywydd* into Spanish, I think.

The consultation on Communities Next ended on 30 April. We received over 180 responses, which are being analysed. We will publish a summary of the key issues raised in response to the consultation and announce to the Assembly how we propose to move forward before the summer recess.

**Eleanor Burnham:** We are all in agreement, I am sure, that it is a very worthwhile project, but there are concerns around the scope of the EU funding for the scheme. Some areas, for instance, Wrexham, might not be able to access the European funding because there are different criteria there, which means that that area could be left high and dry. Do you have any concrete plans to help areas such as Wrexham which might be in deficit when the roll-out continues?

**Leighton Andrews:** The Communities First programme is wholly funded by the Welsh Assembly Government, so I do not understand your point about the EU funding.

**Nerys Evans:** Last week, I visited Cuba as part of a Plaid Cymru study trip and was impressed with a national scheme to reduce energy consumption. It included a scheme where workers went into every household to change the light bulbs into energy-saving light bulbs. Consequently, an enormous

OAQ(3)0388(SJL), is withdrawn.

### Cymunedau Nesaf

**C12 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Dirprwy Gweinidog ddatganiad am y cam 'nesaf' yn y rhaglen Cymunedau? OAQ(3)0376(SJL)

**Leighton Andrews:** Lywydd, neu efallai y dylwn ddweud 'El Presidente'—[*Chwerthin.*]

**Y Llywydd:** Trefn. I osgoi amheuaeth, bwriadwn ddweud 'yn ystod fy nghyfnod llywyddu'. Mae'r gair Cymraeg *Llywyddu* yn cwmpasu'r ddau.

**Leighton Andrews:** Ac mae 'El Presidente' yn gyfieithiad Sbaeneg o 'Llywydd', mi gredaf.

Daeth yr ymgynghori ar Cymunedau Nesaf i ben ar 30 Ebrill. Cawsom dros 180 o ymatebion, sy'n cael eu dadansoddi. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r prif faterion a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghori ac yn cyhoeddi i'r Cynulliad sut y bwriadwn symud ymlaen cyn toriad yr haf.

**Eleanor Burnham:** Mae'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno'i fod yn brosiect buddiol iawn, ond mae yna bryderon ynghylch cwmpas yr arian UE ar gyfer y cynllun. Efallai na fydd rhai ardaloedd, er enghraifft, Wrecsam, yn gallu cael arian Ewropeaidd oherwydd bod meini prawf gwahanol yno, sy'n golygu y gallai'r ardal honno gael ei gadael heb ddim. A oes gennych gynlluniau pendant i helpu ardaloedd fel Wrecsam, a all fod ar eu colled pan fydd y broses o gyflwyno'r rhaglen yn parhau?

**Leighton Andrews:** Caiff y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei hariannu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, felly, nid wyf yn deall eich pwynt ynghylch arian UE.

**Nerys Evans:** Yr wythnos diwethaf, bûm yn Cuba fel rhan o daith astudio Plaid Cymru, a gwnaed argraff arnaf gan gynllun cenedlaethol i ddefnyddio llai o ynni. Yr oedd yn cynnwys cynllun lle yr oedd gweithwyr yn mynd i bob cartref i newid y bylbiau golau am fylbiau golau sy'n arbed

amount of energy was saved nationally, which is to be applauded. I am aware that Communities First teams in some areas give out energy-saving light bulbs, but I am sure that you would agree that, in many cases, they are left unused. Do you agree that there is potential within Communities Next to extend this scheme to make a big effort to save energy?

**Leighton Andrews:** Within the proposed vision framework for the next phase of Communities First there is a specific theme on the environment, which will include sustainability issues. Within the vision framework, we are also creating a new theme of child poverty, so there will be opportunities for Communities First partnerships to develop schemes within the programme that would undertake precisely the kinds of projects that you are suggesting. I would hope that that would be one of the schemes that Communities First partnerships would consider.

**Mark Isherwood:** Previously, we have highlighted—and, I think, agreed—the fact that European convergence funding will be a key component of project delivery during the Communities Next phase to achieve outcomes, particularly in terms of skills and accessing the workplace. However, as you are aware, concern has been expressed by the voluntary sector across Wales about delays in that convergence funding. What assurances can you give the voluntary sector organisations working in Communities First areas that those moneys will be released so that they can be bid for at the earliest opportunity?

**Leighton Andrews:** Let me stress again that the next phase of the Communities First programme is not dependent upon EU convergence funding. If we are going to stray into the area of questions on convergence funding, I should say that when the Objective 1 programme was being undertaken, there were no guarantees that projects funded under the Objective 1 programme would then be supported under the convergence programme. Several projects have been extended under the existing Objective 1 programmes this year, including, for

ygni. O ganlyniad, arbedwyd llawer iawn o ygni yn genedlaethol, ac mae hyn i'w ganmol. Gwn fod timau Cymunedau yn Gyntaf mewn rhai ardaloedd yn dosbarthu bylbiau golau sy'n arbed ygni, ond yr wyf yn siŵr y cytunwch fod llawer ohonynt nad ydynt yn cael eu defnyddio. A gytunwch fod potensial yn Cymunedau Nesaf i ymestyn y cynllun hwn i wneud ymdrech fawr i arbed ygni?

**Leighton Andrews:** O fewn y fframwaith gweledigaeth a fwriedir ar gyfer cam nesaf Cymunedau yn Gyntaf, mae yna thema benodol ar yr amgylchedd, a fydd yn cynnwys materion cynaliadwyedd. O fewn y fframwaith gweledigaeth, yr ydym hefyd yn creu thema newydd, sef tlodi plant, felly, bydd cyfleoedd i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ddatblygu cynlluniau o fewn y rhaglen a fyddai'n cyflwyno'r union brosiectau a awgrymwch. Gobeithio y byddai hynny'n un o'r cynlluniau y byddai partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn eu hystyried.

**Mark Isherwood:** Yn y gorffennol, yr ydym wedi tynnu sylw—ac wedi cytuno arni, mi gredaf—at y ffaith y bydd arian cydgyfeirio Ewropeaidd yn elfen allweddol yn y prosiect yn ystod y cam Cymunedau Nesaf i sicrhau canlyniadau, yn arbennig o ran sgiliau a mynediad i'r gweithle. Fodd bynnag, fel y gwyrddoch, mae'r sector gwirfoddol ledled Cymru wedi mynegi pryder am yr oedi gyda chyllid cydgyfeirio. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i fudiadau'r sector gwirfoddol sy'n gweithio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf y caiff yr arian hwnnw ei ryddhau er mwyn iddynt allu gwneud cais amdano ar y cyfle cyntaf posibl?

**Leighton Andrews:** Gadewch imi bwysleisio eto nad yw'r cam nesaf yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dibynnu ar gyllid cydgyfeirio'r UE. Os ydym i grwydro i ofyn cwestiynau am gyllid cydgyfeirio, dylwn ddweud, pan oedd y rhaglen Amcan 1 yn cael ei chynnal, nad oedd sicrwydd y byddai prosiectau a ariannwyd dan y rhaglen Amcan 1 yn cael eu cefnogi wedyn gan y rhaglen cydgyfeirio. Mae nifer o brosiectau wedi eu hymestyn dan y rhaglenni Amcan 1 presennol eleni gan gynnwys, er enghraifft, Cymunedau@EiGilydd, sy'n dod o fewn fy

example, the Communities@One programme, which falls within my portfolio and for which we have already announced an extension until the end of September. Therefore, where we have specific examples that we are able to address, we are doing that within the context of our own resources in conjunction with European funding.

mhorthffolio i, ac yr wyf eisoes wedi cyhoeddi y caiff ei ymestyn tan ddiwedd mis Medi. Felly, lle mae gennym enghreifftiau penodol y gallwn fynd i'r afael â hwy, gwnawn hynny yng nghyd-destun ein hadnoddau ein hunain ar y cyd ag arian Ewropeaidd.

### **Ethol Aelod i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal Election of a Member to the Committee on Equality of Opportunity**

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigial fod

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Nick Ramsay (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn lle Angela Burns (Ceidwadwyr). (NDM3945)*

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Nick Ramsay (Conservative) in place of Angela Burns (Conservative) as a member of the Committee on Equality of Opportunity. (NDM3945)*

**Y Llywydd:** Gwelaf fod cytundeb. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** I see that there is agreement. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

### **Ethol Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Election of Trustees of the National Assembly for Wales Members' Pension Scheme**

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigial fod

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 1.10, yn ethol Carwyn Jones AC, Mohammad Asghar AC a Rosemary Butler AC, yn ymddiriedolwyr i gynllun pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn lle Edwina Hart AC, Dr John Marek ac Owen John Thomas. (NDM3946)*

*the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 1.10, elects Carwyn Jones AM, Mohammad Asghar AM, and Rosemary Butler AM, as Trustees of the National Assembly for Wales Members' pension scheme in place of Edwina Hart AM, Dr John Marek and Owen John Thomas. (NDM3946)*

**Michael German:** I would like to raise a question about the election of pensioner members of the trust. The commission minutes of 24 January 2008—and we are now in June—reported that the pensioner members of the trust would be written to to invite nominations for a pensioner panel member and to conduct a ballot. Could the commissioner responsible tell me when such a ballot will be held?

**Michael German:** Hoffwn godi cwestiwn am ethol aelodau o'r ymddiriedolaeth sy'n bensiywyr. Yn ôl cofnodion y comisiwn dyddiedig 24 Ionawr 2008—ac mae hi bellach yn fis Mehefin—bwriadwyd ysgrifennu at aelodau o'r ymddiriedolaeth sy'n bensiywyr i wahodd enwebiadau ar gyfer panel aelodau sy'n bensiywyr ac i gynnal pleidlais. A all y comisiynydd sy'n gyfrifol ddweud wrthyf pryd y caiff pleidlais

felly ei chynnal?

**The Commissioner for Assembly Resources (William Graham):** The ballot will be put in hand once the new members of the pension body are elected today and have had the opportunity to meet to consider the evidence and the recommendation put forward by officers. It has been agreed in principle by the commission. That ballot will take place as soon as is practicable.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

**Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad (William Graham):** Caiff y bleidlais ei threfnu ar ôl i aelodau newydd y corff pensiwn gael eu hethol heddiw ac ar ôl iddynt gael y cyfle i gyfarfod i ystyried y dystiolaeth a'r argymhelliad a gyflwynir gan swyddogion. Mae'r comisiwn wedi cytuno i egwyddor hynny. Cynhelir y bleidlais honno cyn gynted ag y bydd yn ymarferol.

**The Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### **Cwestiynau i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad Questions to the Representative of the Assembly Commission**

#### **Art in the Senedd**

**Q1 Alun Davies:** What is the policy of the Assembly Commission on the display and exhibition of art in the Senedd? OAQ(3)0010(AC)

**The Commissioner for Assembly Resources (William Graham):** All art exhibitions must be sponsored by an Assembly Member and comply with the events guidance. When organising art exhibitions, we try to ensure that the exhibition is complementary to other events and will not interfere with business taking place in the Senedd at the same time.

**Alun Davies:** There has clearly been a great deal of interest recently in the current display in the Senedd, but my question refers to the more general policy of the commission in respect of art exhibitions. You will agree that this is a flagship building, and it is one of the most visited places in Wales. It is an absolute tragedy that there is so little art on display in this building. In fact, the only art that is displayed on the estate is—and I can see that you are pointing to the middle of the Chamber floor, Presiding Officer—in the Tŷ Hywel building, where there is limited public

#### **Celf yn y Senedd**

**C1 Alun Davies:** Beth yw polisi Comisiwn y Cynulliad ar arddangos celf yn y Senedd? OAQ(3)0010(AC)

**Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad (William Graham):** Rhaid i bob arddangosfa gelf gael ei noddi gan Aelod o'r Cynulliad a chydymffurfio â'r cyfarwyddyd ar ddigwyddiadau. Wrth drefnu arddangosfeydd celf, ceisiwn sicrhau bod yr arddangosfa'n ategu digwyddiadau eraill ac na fydd yn ymyrryd â'r busnes sy'n cael ei drafod yn y Senedd ar yr un pryd.

**Alun Davies:** Yn amlwg bu cryn ddiddordeb yn ddiweddar yn arddangosfa bresennol y Senedd, ond cyfeiria fy nghwestiwn at bolisi mwy cyffredinol y comisiwn o ran arddangosfeydd celf. Fe gytunwch fod hwn yn adeilad nodedig, ac mae'n un o'r lleoedd yr ymwelir ag ef amlaf yng Nghymru. Mae'n drasiedi pur fod cyn lleied o waith celf yn cael ei arddangos yn yr adeilad hwn. Yn wir, mae'r unig waith celf sy'n cael ei arddangos ar yr ystâd—a gallaf weld eich bod yn amneidio at ganol llawr y Siambr, Lywydd—yn adeilad Tŷ Hywel, lle nad oes fawr o

access.

You will know that the National Library of Wales has an enormous collection of art, which is mainly kept in storage. Would there not be an opportunity for us to exhibit that art in the Senedd, where the public can appreciate it more fully?

2.40 p.m.

**William Graham:** The Member will know that the Senedd successfully hosts a wide range of temporary art installations. We hope to add to this experience in the Senedd and promote the work of Welsh artists as well as stimulate interest and debate in a range of topics. Some areas of the Senedd do not lend themselves to displays because the open sides of the Oriel are not suitable as the rear of the displays and exhibitions would detract from the open aesthetics of the Senedd. Following a discussion with the commissioner with responsibility for the estate, we have recently restricted the display of art exhibitions to the rear glass wall in the Oriel. We hope to adapt the Pierhead building, which will provide the Assembly with a flexible conference, event and exhibition space that will be much more suited to art displays and exhibitions. A number of successful exhibitions have already been held in the Pierhead, and we have received positive feedback on those exhibitions from visitors.

All the artwork in Tŷ Hywel—the paintings and photographic displays—are on loan from the National Library of Wales. A representative of the national library is due to visit soon to discuss new artwork displays.

**Jeff Cuthbert:** It is clear that the image of the iron lady is rusting badly—

**David Melding:** You have had a couple of weeks to think of something better. [*Laughter.*]

**Jeff Cuthbert:** It has obviously got the message across.

I am opposed to such an image being

fynediad i'r cyhoedd.

Gwyddoch fod gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru gasgliad enfawr o weithiau celf, sy'n cael eu cadw mewn storfa'n bennaf. Oni fyddai cyfle inni arddangos y gweithiau celf hynny yn y Senedd, lle gall y cyhoedd eu gwerthfawrogi'n llawnach?

**William Graham:** Gŵyr yr Aelod fod y Senedd yn arddangos ystod eang o osodiadau celf dros dro yn llwyddiannus. Gobeithiwn ychwanegu at y profiad hwn yn y Senedd a hybu gwaith artistiaid Cymreig yn ogystal ag ysgogi diddordeb mewn ystod eang o bynciau ac ysgogi dadl ar y pynciau hynny. Nid yw rhai rhannau o'r Senedd yn briodol ar gyfer arddangosfeydd gan nad yw ochrau agored yr Oriel yn addas, oherwydd byddai cefn yr arddangosfeydd yn cael effaith andwyol ar estheteg agored y Senedd. Yn dilyn trafodaeth gyda'r comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros yr ystâd, yr ydym wedi cyfyngu'r arddangosfa gelf ar fur gwydr cefn yr Oriel yn ddiweddar. Gobeithiwn addasu adeilad Pierhead, a fydd yn rhoi i'r Cynulliad le hyblyg ar gyfer cynnal cynadleddau, digwyddiadau ac arddangosfeydd a fydd yn fwy addas o lawer ar gyfer arddangosfeydd celf. Mae nifer o arddangosfeydd llwyddiannus eisoes wedi eu cynnal yn adeilad Pierhead, a chawsom adborth cadarnhaol gan ymwelwyr ar yr arddangosfeydd hynny.

Mae'r holl waith celf yn Nhŷ Hywel—y paentiadau a'r ffotograffau—ar fenthyg o Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd cynrychiolydd o'r llyfrgell genedlaethol yn ymweld â ni yn fuan i drafod gweithiau celf newydd.

**Jeff Cuthbert:** Mae'n amlwg fod delwedd y fenyw haearn wedi hen rydu—

**David Melding:** Yr ydych wedi cael wythnos neu ddwy i feddwl am rywbeth gwell. [*Chwerthin.*]

**Jeff Cuthbert:** Mae wedi llwyddo i gyfleu'r neges, yn amlwg.

Yr wyf yn gwrthwynebu'r ffaith fod delwedd

displayed in the principal building of Wales. Now that the corrosive nature of Margaret Thatcher is coming through in the image on public display, will it be allowed to remain hanging there for the full 12 weeks?

**William Graham:** Though not a connoisseur of that art myself, I understand that the impression that you see is what was intended by the artist. The current installation by Dylan Hammond has resulted in extensive press coverage, as the Member will be aware.

### Polion Baneri

**C2 David Lloyd:** A wnaiff y comisiynydd ystyried darparu polion baneri y tu allan i'r Senedd? OAQ(3)0009(AC)

**William Graham:** Flagpoles are provided at the entrance to the estate outside Tŷ Hywel. However, we will certainly give consideration to the feasibility and costs of installing flagpoles outside the Senedd, in consultation with the architects to ensure the design integrity of the building and its surrounding public space.

**David Lloyd:** Fe'ch diolchaf am yr ateb cadarnhaol hwnnw, achos, wedi'r cwbl, y Senedd yw'r brif fynedfa i'r Cynulliad i'r cyhoedd. Mae dros 0.5 miliwn o bobl wedi ymweld â'r Senedd ers mis Mawrth 2006. Credaf ei bod yn briodol felly ystyried cael polion baneri, ar gyfer Y Ddraig Goch yn benodol, wrth risiau'r adeilad i groesawu pobl i'r Senedd.

**William Graham:** I concur with the Member's suggestions. In the past, the architect was not opposed to the installation of flagpoles, but the preferred location was originally at the side of the Senedd, in Pierhead street, where they would not detract from the open aspect of the building. I have had regard to the suggestion today, and a feasibility and costing exercise will be undertaken to review the installation of flagpoles.

### The Record of Proceedings

**Q3 Lesley Griffiths:** Will the commissioner

o'r fath yn cael ei harddangos ym mhrif adeilad Cymru. Gan fod natur haearnaidd Margaret Thatcher bellach yn dod i'r amlwg yn y ddelwedd sydd i'w gweld gan y cyhoedd, a yw i barhau i hongian yno drwy gydol y 12 wythnos?

**William Graham:** Er nad wyf yn arbenigwr fy hun ar y math hwnnw o gelf, deallaf mai'r darlun a welwch yw'r hyn a fwriadwyd gan yr artist. Mae'r gosodiad presennol gan Dylan Hammond wedi cael cryn sylw yn y wasg, fel y gŵyr yr Aelod.

### Flagpoles

**Q2 David Lloyd:** Will the commissioner give consideration to the provision of flagpoles outside the Senedd? OAQ(3)0009(AC)

**William Graham:** Darperir polion baneri ger y fynedfa i'r ystâd y tu allan i Dŷ Hywel. Fodd bynnag, byddwn yn sicr yn rhoi ystyriaeth i ymarferoldeb a chost codi polion baneri y tu allan i'r Senedd, drwy ymgynghori â'r penseiri er mwyn sicrhau integreidd yr adeilad o safbwynt dylunio a'r man cyhoeddus o'i amgylch.

**David Lloyd:** Thank you for that positive response. After all, the Senedd is the main entrance for the public to the Assembly. Over 0.5 million people have visited the Senedd since March 2006. I believe it is appropriate, therefore, to consider having flagpoles, for Y Ddraig Goch in particular, on the steps of the building to welcome people to the Senedd.

**William Graham:** Cytunaf ag awgrymiadau'r Aelod. Yn y gorffennol, nid oedd y pensaer yn gwrthwynebu codi polion baneri, ond y lleoliad a ffafriwyd yn wreiddiol oedd ar ochr y Senedd, yn stryd Pierhead, lle na fyddent yn tynnu oddi ar agwedd agored yr adeilad. Cytunaf â'r awgrym heddiw, a chynhelir ymarfer i ymarferoldeb a chost i adolygu'r broses o godi polion baneri.

### Cofnod y Trafodion

**C3 Lesley Griffiths:** A wnaiff y



make a statement on the provision of the Assembly's Record of Proceedings? OAQ(3)0008(AC)

**William Graham:** The Record is published electronically in Welsh and English within 24 hours of the conclusion of Plenary. Committee proceedings are reported in the language in which they were spoken, and an English translation of Welsh speeches is provided. Staff of the Record edit the verbatim and interpreted speech of Members, and an external contractor provides the Welsh translation of the English.

**Lesley Griffiths:** I have no doubt that the commission looks periodically at the turnaround time of the Record of Proceedings. When did the commission last look at the issue?

As of yesterday, the Northern Ireland Assembly introduced a new, dynamic process by which its Hansard produces a verbatim record on the same day as the proceedings take place. The online version of the previous day's proceedings was available at 8.50 a.m. this morning. The online version of the Scottish Parliament's Official Report is available at 8 a.m. the following morning. While I appreciate that, here at the Assembly, we produce a bilingual Record, do you agree that, in a fast-moving world, particularly when it comes to media coverage of our work, the time may have come for us to consider revising, and investing considerably more in, the processes that deliver our Record of Proceedings so that it can be published more swiftly?

**William Graham:** I am grateful to the Member for her suggestions. Certainly, from time to time, officials look at how our Record is produced. If better systems are now available that would allow us to publish it as soon as possible, I am sure that they will be investigated, and I undertake to report further by letter if necessary.

comisiynydd ddatganiad am ddarparu Cofnod Trafodion y Cynulliad? OAQ(3)0008(AC)

**William Graham:** Cyhoeddir y Cofnod yn electronig yn Gymraeg ac yn Saesneg cyn pen 24 awr ar ôl diwedd y Cyfarfod Llawn. Caiff trafodion pwyllgorau eu cofnodi yn yr iaith y cânt eu llefaru, a darperir cyfieithiad Saesneg o areithiau Cymraeg. Bydd staff y Cofnod yn golygu areithiau gair am air gan yr Aelodau a'r cyfieithiadau, a bydd contractwr allanol yn darparu'r cyfieithiad o'r Saesneg i'r Gymraeg.

**Lesley Griffiths:** Nid wyf yn amau nad yw'r comisiwn yn edrych ar amser cyhoeddi Cofnod y Trafodion o bryd i'w gilydd. Pa bryd yr edrychodd y comisiwn ar y mater hwn ddiwethaf?

Gan ddechrau ddoe, cyflwynodd Cynulliad Gogledd Iwerddon broses newydd, ddynamig lle mae ei Hansard yn cynhyrchu cofnod gair am air ar yr un diwrnod â'r trafodion. Yr oedd fersiwn o drafodaethau'r diwrnod blaenorol ar gael ar lein am 8.50 a.m. y bore yma. Mae fersiwn ar-lein o Adroddiad Swyddogol Senedd yr Alban ar gael am 8 a.m. y bore canlynol. Er fy mod yn gwerthfawrogaf ein bod ni yma, yn y Cynulliad, yn cynhyrchu Cofnod dwyieithog, a gytunwch, mewn byd sy'n symud yn gyflym, yn arbennig o ran sicrhau sylw i'n gwaith yn y cyfryngau, ei bod hi'n bryd inni ystyried adolygu, a buddsoddi cryn dipyn yn fwy yn y prosesau sy'n paratoi Cofnod y Trafodion er mwyn iddo gael ei gyhoeddi'n gyflymach?

**William Graham:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ei hawgrymiadau. Yn sicr, o bryd i'w gilydd bydd swyddogion yn edrych ar y ffordd y caiff ein Cofnod ei gynhyrchu. Os oes systemau gwell ar gael bellach a fyddai'n eingalluogi i'w gyhoeddi cyn gynted â bo modd, yr wyf yn siŵr yr ymchwilir iddynt, ac addawaf ymateb pellach drwy lythyr os bydd angen.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 2.44 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 2.44 p.m.*

**Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd: ‘Lleihau Allyriadau Carbon  
Trafnidiaeth yng Nghymru’  
The Sustainability Committee’s Report ‘Carbon Reduction by Transport in  
Wales’**

**Michael German:** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*notes the report of the Sustainability Committee, ‘Carbon Reduction by Transport in Wales: 2nd Report of the Sustainability Committee’s Inquiry into Carbon Reduction in Wales’, which was laid in the Table Office on 13 March 2008. (NDM3947)*

People in Wales, throughout the UK, and beyond are now beginning to realise how important it is to tackle climate change, while Governments across the western world demonstrate their commitment to reducing carbon emissions by introducing green policies. The UK Government has introduced its first piece of legislation—the first to do so in the world—to set legally binding targets for reducing greenhouse gas emissions, and the Welsh Assembly Government has given a commitment to reduce carbon emissions in those areas over which it has legislative competence.

It was against that background that the committee lent importance to the setting up of this examination of how Wales is performing at reducing its carbon emissions in the context of national and international targets. Given the broad scope of the inquiry and its importance, the committee agreed to split it into a series of sub-topics to give more focus to the evidence sessions and reporting. Two weeks ago, we debated the first report on residential carbon reduction. This is the second report of the committee, on transport emissions, which is the focus of this debate. There will be subsequent reports to the Assembly on industry and public bodies, energy production, land use, and planning, all of which will follow in later months.

**Michael German:** Cynigaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd, ‘Lleihau allyriadau carbon trafnidiaeth yng Nghymru: ail adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i leihau allyriadau carbon yng Nghymru’, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2008. (NDM3947)*

Mae pobl yng Nghymru, ledled y DU, a’r tu hwnt yn dechrau sylweddoli’n awr mor bwysig yw mynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd, tra mae Llywodraethau ar draws y byd gorllewinol yn dangos eu hymrwymiad i leihau allyriadau carbon drwy gyflwyno polisiau gwyrdd. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno’i heitem gyntaf o ddeddfwriaeth—y cyntaf yn y byd i wneud hynny—i bennu targedau sy’n rhwymo’n gyfreithiol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i leihau allyriadau carbon yn y meysydd hynny lle mae ganddi gymhwysedd cyfreithiol.

Yn y cefndir hwnnw y teimlai’r pwyllgor ei bod yn bwysig dechrau’r archwiliad hwn o berfformiad Cymru ar leihau ei hallyriadau carbon yng nghyd-destun targedau cenedlaethol a rhyngwladol. Oherwydd cwmpas eang yr ymchwiliad a’i bwysigrwydd, cytunodd y pwyllgor i’w rannu’n gyfres o is-destunau er mwyn diffinio pwrpas y sesiynau tystiolaeth a’r adroddiadau yn well. Bythefnos yn ôl, cawsom ddadl ar yr adroddiad cyntaf ar leihau allyriadau carbon preswyl. Hwn yw ail adroddiad y pwyllgor, am allyriadau trafnidiaeth, sef yr hyn sydd dan sylw yn y ddadl hon. Rhoddir adroddiadau i’r Cynulliad ar ôl hyn am ddiwydiant a chyrrff cyhoeddus, cynhyrchu ynni, defnyddio tir, a chynllunio, a bydd pob un ohonynt yn dilyn yn y misoedd i ddod.

Transport contributes to around 15 per cent of global carbon dioxide emissions and 23 per cent, by source, of UK domestic emissions. Transport is the most rapidly growing source of emissions and it is a sector where emissions have risen consistently since 1990. Regional and local transport consumption statistics show that road transport accounts for approximately 16 per cent of the total carbon dioxide emissions in Wales. The Department of the Environment, Transport and the Regions forecast that road traffic would grow by 17 per cent between 2000 and 2010. The House of Commons Environmental Audit Committee suggests that air transport is undergoing the most rapid increase of any transport sector, and it is widely recognised that the climate impacts associated with air transport are more severe than those associated with emissions at ground level. The Stern review argued that transport was one of the more expensive sectors from which to cut emissions, and that it will be among the last sectors to bring its emissions below current levels. However, the Sustainability Committee believes that this must not be used by Government as an excuse not to act in this area.

While the Welsh Assembly Government does not have wide-ranging powers to influence carbon reduction in the transport sector, the committee believes that, by changing the focus of its transport policies, changing behaviours and improving public transport, the Welsh Assembly Government can make a significant impact on its target of reducing carbon emissions by 3 per cent in this sector. The committee's report focuses only on those areas in which the Welsh Assembly Government has legislative competence. Other issues, such as improving the technical efficiency of vehicles, reducing the carbon content of fuels, and reducing speed limits, were touched upon during evidence sessions but, as they are largely reserved areas, are not discussed in any detail in the report.

The committee makes four headline recommendations. A consistent theme in the evidence heard by the committee was that carbon reduction was not given sufficient

Mae trafndiaeth yn cyfrannu tua 15 y cant o allyriadau carbon deuocsid y byd a 23 y cant, yn ôl eu ffynhonnell, o allyriadau domestig y DU. Trafndiaeth yw'r ffynhonnell allyriadau sy'n tyfu gyflymaf ac mae'n sector lle mae allyriadau wedi codi'n gyson er 1990. Mae ystadegau ar ddefnyddio gan drafndiaeth ranbarthol a lleol yn dangos bod trafndiaeth ffyrdd yn gyfrifol am oddeutu 16 y cant o'r holl allyriadau carbon deuocsid yng Nghymru. Rhagwelodd Adran yr Amgylchedd, Trafndiaeth a'r Rhanbarthau y byddai traffig ffyrdd yn cynyddu 17 y cant rhwng 2000 a 2010. Mae Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin yn awgrymu mai trafndiaeth awyr sy'n tyfu gyflymaf o'r holl sectorau trafndiaeth, a derbynnir yn gyffredinol fod yr effeithiau hinsawdd sy'n gysylltiedig â thrafndiaeth awyr yn fwy difrifol na'r rheini sy'n gysylltiedig ag allyriadau ar lefel y ddaear. Dadleuodd adolygiad Stern mai trafndiaeth oedd un o'r sectorau lle y byddai camau i dorri allyriadau ar eu drutaf. Bydd ymhlith y sectorau olaf i ostwng eu hallyriadau dan y lefelau presennol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn credu na ddylai Llywodraeth ddefnyddio hyn fel esgus i beidio â gweithredu yn y maes hwn.

Er nad oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bwerau cynhwysfawr i ddylanwadu mewn cysylltiad â lleihau allyriadau carbon yn y sector trafndiaeth, mae'r pwyllgor yn credu y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfrannu'n sylweddol at gyrraedd ei tharged o leihau allyriadau carbon 3 y cant yn y sector hwn drwy newid pwyslais ei pholisïau cludiant, newid ymddygiad a gwella cludiant cyhoeddus. Mae adroddiad y pwyllgor yn canolbwyntio'n llwyr ar y meysydd hynny lle mae cymhwysedd deddfwriaethol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyfeiriwyd at faterion eraill, fel gwella effeithlonrwydd technegol cerbydau, lleihau'r carbon sydd mewn tanwydd, a gostwng terfynau cyflymder, yn ystod sesiynau tystiolaeth. Ond gan eu bod yn feysydd sydd wedi'u neilltuo gan mwyaf, nid ymdrinnir â hwy'n fanwl yn yr adroddiad.

Mae'r pwyllgor yn gwneud pedwar prif argymhelliad. Un thema gyson yn y dystiolaeth a glywodd y pwyllgor oedd nad oedd digon o bwyslais ar leihau allyriadau

emphasis in the transport agenda of the Welsh Assembly Government. Therefore, the committee's first headline recommendation is that the Welsh Assembly Government take a much stronger lead by placing carbon reduction at the heart of the Wales transport strategy. Increasing funding for sustainable transport from around 50 per cent to around 70 per cent of the transport budget would place it in line with what is happening in Scotland. I am pleased to see that the Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport has reflected the committee's recommendation in the final Wales transport strategy document, by placing a greater emphasis on carbon reduction. However, I note from the Deputy First Minister's response that there are no immediate plans to increase spending on sustainable transport, and we would welcome clarification from the Deputy First Minister in his response as to how he intends to ensure that the carbon reduction priorities within the strategy will be met within existing budgets.

2.50 p.m.

The second headline recommendation concerns the evidence that we received that the present regional transport plans concentrate too heavily on economic development, and that a reduction in funding for the four regional transport consortia had contributed to a delay in their production. That is why our second headline recommendation is that the Welsh Assembly Government ensures that the national transport plan and regional transport plans include specific and measurable objectives to cut carbon emissions, and that sufficient funding be provided to the regional transport consortia to enable them to deliver these objectives.

Although I note that the Deputy First Minister has accepted this recommendation, the committee was concerned about the apparent protracted delay in the production of the national transport plan and regional transport plans, while the Government waits for the development of a specific target for carbon-equivalent transport emissions. I therefore urge the Deputy First Minister to ensure that the national transport plan is

carbon yn agenda trafndiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, prif argymhelliad cyntaf y pwyllgor yw y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad cryfach o lawer drwy roi lle canolog i gamau i leihau allyriadau yn strategaeth drafndiaeth Cymru. Drwy gynyddu'r cyllid ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy o tua 50 y cant i tua 70 y cant o'r gyllideb drafndiaeth, byddai'n gyson â'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban. Yr wyf yn falch gweld bod y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafndiaeth wedi adlewyrchu argymhelliad y pwyllgor yn y ddogfen derfynol ar strategaeth drafndiaeth Cymru, drwy roi mwy o bwyslais ar leihau allyriadau carbon. Er hynny, sylwaf o ymateb y Dirprwy Brif Weinidog nad oes bwriad ar hyn o bryd i gynyddu'r gwariant ar drafndiaeth gynaliadwy, a byddem yn falch cael eglurhad gan y Dirprwy Brif Weinidog yn ei ymateb ynghylch sut y mae'n bwriadu sicrhau y bydd y blaenoriaethau o ran lleihau allyriadau carbon sydd yn y strategaeth yn cael eu bodloni o fewn y cyllidebau presennol.

Mae'r ail brif argymhelliad yn ymwneud â'r dystiolaeth a gawsom i'r perwyl bod y cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol presennol yn canolbwyntio'n ormodol ar ddatblygu economaidd, a bod gostyngiad yn y cyllid i'r pedwar consortiwm trafndiaeth rhanbarthol wedi cyfrannu at oedi wrth eu cynhyrchu. Oherwydd hynny, ein hail brif argymhelliad yw y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y cynllun trafndiaeth cenedlaethol a'r cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol yn cynnwys amcanion penodol a mesuradwy i ostwng allyriadau carbon, ac y darperir cyllid digonol i'r consortia trafndiaeth rhanbarthol i'w galluogi i gyflawni'r amcanion hyn.

Er fy mod yn sylwi bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn, yr oedd y pwyllgor yn bryderus ynghylch yr hyn sy'n ymddangos yn oedi hir wrth gynhyrchu'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol a'r cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol, tra mae'r Llywodraeth yn aros am ddatblygu targed penodol ar gyfer allyriadau trafndiaeth sy'n gyfwerth â charbon. Yr wyf felly'n annog y Dirprwy Brif Weinidog i

progressed very swiftly, and I would welcome a timetable for action on that matter from him in his response.

Moving on to the third headline recommendation, although the committee recognises that the Welsh transport appraisal guidance, WelTAG, provides an important mechanism by which the carbon impact of potential projects can be assessed, it was felt that, on the basis of evidence gathered, carbon reduction was, again, too far down the list of priorities. The committee therefore recommended that the Welsh Assembly Government review the use of WelTAG as a matter of urgency to ensure that carbon reduction is the main objective when assessing projects.

I note that the Deputy First Minister has not given an undertaking to review WelTAG, and I ask him to explain the rationale behind that decision in his response, particularly in light of the evidence from Sustrans that argued that,

‘WelTAG favours large expensive schemes in excess of £5 million that very often increase carbon emissions’.

**The Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** I realise that I will be given an opportunity to respond to the debate, but, on WelTAG, will Mike not accept that what I said in my response was that I would keep WelTAG under regular review and that I envisaged that it would be updated and enhanced from time to time to ensure that it was consistent with the environmental and carbon targets set out in ‘One Wales’? What else does he expect?

**Michael German:** It was urgency that we wanted, and, when he responds to the debate, I ask the Deputy First Minister to address the issue of how urgently that will be done. I am sure that other members of the committee will wish to question the Deputy First Minister on the issue.

On headline recommendation four, witnesses to the committee suggested that, for 40 per

sicrhau symud ymlaen yn gyflym iawn ar y cynllun trafndiaeth cenedlaethol, a byddwn yn falch o gael amserlen ganddo yn ei ymateb ar gyfer gweithredu ar y mater hwnnw.

I symud ymlaen at y trydydd prif argymhelliad, er bod y pwyllgor yn derbyn bod yr arweiniad ar arfarnu trafndiaeth Cymru, WelTAG, yn ddull pwysig y gellir ei ddefnyddio i asesu effaith prosiectau dichonol o ran allyriadau carbon, ar sail tystiolaeth a gasglwyd teimlwyd fod camau i leihau allyriadau carbon unwaith eto'n rhy isel ar y rhestr flaenoriaethau. Oherwydd hynny, argymhellodd y pwyllgor y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ar frys adolygu'r modd y defnyddir WelTAG er mwyn sicrhau mai gostwng allyriadau carbon yw'r prif amcan wrth asesu prosiectau.

Sylwaf nad yw'r Dirprwy Brif Weinidog wedi addo adolygu WelTAG, a gofynnaf iddo egluro yn ei ymateb sail resymegol y penderfyniad hwnnw, yn enwedig o gofio'r dystiolaeth gan Sustrans a ddadleuodd fod,

WelTAG yn ffafrio cynlluniau drud mawr o fwy na £5 miliwn sy'n aml iawn yn cynyddu allyriadau carbon.

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Sylweddolaf y byddaf yn cael cyfle i ymateb i'r ddadl, ond ynghylch WelTAG, oni wnaiff Mike dderbyn mai'r hyn a ddywedais yn fy ymateb oedd y byddwn yn adolygu WelTAG yn rheolaidd, a'm bod yn rhagweld y byddai'n cael ei ddiweddarau a'i wella o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn gyson â'r targedau amgylcheddol a'r targedau ar gyfer carbon a nodwyd yn ‘Cymru'n Un’? Beth arall y mae'n ei ddisgwyl?

**Michael German:** Brys oedd yr hyn yr oeddem am ei gael, a gofynnaf i'r Dirprwy Brif Weinidog roi sylw, pan fydd yn ymateb i'r ddadl, i'r cwestiwn pa mor fuan y gwneir hynny. Yr wyf yn siŵr y bydd aelodau eraill o'r pwyllgor yn dymuno holi'r Dirprwy Brif Weinidog am y mater.

Ynghylch y pedwerydd prif argymhelliad, awgrymodd tystion i'r pwyllgor fod dewis

cent of journeys, a good 'smart' alternative already exists and that the marketing of these smarter choices is one of the keys to changing behaviour. The committee noted that there are only five travel co-ordinators in Wales charged with providing tailored information to individuals on existing alternatives to the private car. Sustrans proposed that, for £15 million, which it argues is less than the cost of building half a mile of motorway, its TravelSmart behavioural change programme could be rolled out across large towns and cities in Wales and achieve a 1 per cent reduction of 81,000 tonnes of carbon dioxide emissions per annum from all transport. That is why the committee recommends that the Welsh Assembly Government conduct a pilot scheme in Wales based on Sustrans's TravelSmart programme, to assess its impact.

I note from the Deputy First Minister's response that he plans to incorporate personalised travel information in the Sustainable Travel Towns initiative. I take this opportunity to remind the Deputy First Minister of the overwhelming evidence gathered by the committee that there was no need for any more pilot projects, as the success of Sustainable Travel Towns has already been widely proved in England. There were also significant concerns that the funding would be spread too thinly or would not be new money. On behalf of the committee, I therefore urge the Deputy First Minister to reconsider his position on the initiative remaining as a pilot, and on funding for the initiative coming from existing budgets. I am sure that members of the committee may wish to consider the issue further during the debate.

I want to touch on a number of other recommendations in the report aside from the four headline issues. In chapter 3, the committee recommends that the Welsh Assembly Government, local authorities and public bodies lead by example. I note from the Deputy First Minister's response that work is already under way in relation to a number of recommendations in this chapter, and I would welcome information from him on what progress has been made.

arall eisoes ar gael sy'n dda ac yn 'gall' ar gyfer 40 y cant o deithiau, ac mai marchnata'r dewisiadau callach hyn yw un o'r allweddi i newid ymddygiad. Nododd y pwyllgor nad oes ond pum cydgysylltydd teithio yng Nghymru sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth benodol i unigolion am ddewisiadau sydd eisoes ar gael yn lle'r car preifat. Cynigiodd Sustrans y gellid rhoi ei raglen newid ymddygiad TravelSmart ar waith mewn trefi mawr a dinasoedd yng Nghymru am £15 miliwn, sy'n llai, mae'n dadlau, na chost adeiladu hanner milltir o draffordd, a sicrhau gostyngiad o 1 y cant, sef 81,000 o dunelli metrig o allyriadau carbon deuocsid y flwyddyn, gan bob math o drafnidiaeth. Dyna pam y mae'r pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal cynllun peilot yng Nghymru ar sail rhaglen TravelSmart Sustrans, er mwyn asesu ei heffaith.

Sylwaf o ymateb y Dirprwy Brif Weinidog ei fod yn bwriadu cynnwys gwybodaeth am deithio bersonol yn y cynllun Trefi Teithio Cynaliadwy. Daliaf ar y cyfle hwn i atgoffa'r Dirprwy Brif Weinidog am y dystiolaeth ddiymwad a gasglodd y pwyllgor ac a oedd yn dangos nad oedd angen rhagor o brosiectau treialu, gan fod llwyddiant Trefi Teithio Cynaliadwy eisoes wedi'i ddangos yn gyffredinol yn Lloegr. Yr oedd pryderon sylweddol hefyd y byddai'r cyllid yn cael ei daenu'n rhy denau neu na fyddai'n arian newydd. Felly, ar ran y pwyllgor, yr wyf yn annog y Dirprwy Brif Weinidog i ailystyried ei safbwynt ar barhau i dreialu'r cynllun, ac ar gymryd cyllid ar gyfer y cynllun o'r cyllidebau presennol. Yr wyf yn siŵr y bydd aelodau'r pwyllgor efallai'n dymuno ystyried y mater ymhellach yn ystod y ddadl.

Dymunaf gyfeirio at nifer o'r argymhellion eraill sydd yn yr adroddiad heblaw'r pedwar prif fater. Ym mhennod 3, mae'r pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus arwain drwy osod esiampl. Sylwaf o ymateb y Dirprwy Brif Weinidog fod gwaith yn mynd ymlaen eisoes mewn cysylltiad â nifer o argymhellion sydd yn y bennod hon, a byddwn yn falch cael gwybodaeth ganddo am y cynnydd a gafwyd.

On recommendation 7, the committee felt strongly that better integration of land use and transport planning was required at regional and local levels to reduce the need to travel and to encourage the use of public transport wherever possible. I note from the Deputy First Minister's response that he intends to discuss this recommendation in detail with the Minister for Environment, Sustainability and Housing. I urge him to hold these discussions as early as possible, and I hope that he can commit today to informing the committee of the outcome of those discussions.

The majority of witnesses agreed that the promotion of wider travel choices could encourage people to change their behaviour. We are surprised, therefore, that the Deputy First Minister rejected recommendation 10, in which the committee asked the Welsh Assembly Government to introduce a pilot scheme—despite my earlier remarks on pilot schemes—under which all public sector employees for whom driving is part of their job should undertake an eco-driving course. While I am sure that the committee would welcome the Deputy First Minister's commitment to encouraging public sector organisations to consider the potential for training their employees, given that the Netherlands has achieved savings in fuel use of 20 per cent over the past eight years through an eco-driving programme, I hope that the Deputy First Minister could review this decision if the provision of eco-driving training for local authority employees remains at a low level.

I welcome the Deputy First Minister's intention to consider introducing green fleet reviews in Wales, which have proven so successful in England and Scotland.

In chapter 6, the report discusses road pricing. We welcome the Deputy First Minister's acceptance of the recommendation and his response that Welsh Ministers would approve a local road-pricing scheme only if a range of public transport improvements were in place. We are pleased with the Deputy First Minister's response to that.

Ynghylch argymhelliad 7, teimlai'r pwyllgor yn gryf fod angen gwell integreiddio rhwng cynllunio defnyddio tir a chynllunio trafniadaeth ar lefelau rhanbarthol a lleol, er mwyn lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo defnyddio cludiant cyhoeddus lle bynnag y bo modd. Sylwaf o ymateb y Dirprwy Brif Weinidog ei fod yn bwriadu trafod yr argymhelliad hwn yn fanwl gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Anogaf ef i gael y trafodaethau hyn cyn gynted ag y bo modd, a gobeithio y bydd yn gallu ymrwymo heddiw i roi gwybod i'r pwyllgor am ganlyniad y trafodaethau hynny.

Cytunai'r rhan fwyaf o'r tystion y gallai camau i gynnig mwy o ddewisiadau teithio fod yn fodd i gymell pobl i newid eu hymddygiad. Yr ydym yn synnu, felly, fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi gwrthod argymhelliad 10, lle gofynnai'r pwyllgor i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno cynllun peilot—er gwaethaf fy sylwadau cynharach am gynlluniau peilot—lle y dylai'r holl weithwyr yn y sector cyhoeddus y mae gyrru'n rhan o'u gwaith ymgymryd â chwrs gyrru eco-gyfeillgar. Er fy mod yn sicr y byddai'r pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Brif Weinidog i annog cyrff yn y sector cyhoeddus i ystyried posibilrwydd hyfforddi eu gweithwyr, o gofio bod yr Iseldiroedd wedi sicrhau arbedion o 20 y cant ar ddefnyddio tanwydd dros yr wyth mlynedd diwethaf drwy raglen gyrru eco-gyfeillgar, gobeithio y gallai'r Dirprwy Brif Weinidog adolygu'r penderfyniad hwn os bydd darparu hyfforddiant gyrru eco-gyfeillgar i weithwyr awdurdodau lleol yn dal yn isel.

Croesawaf fwriad y Dirprwy Brif Weinidog i ystyried cyflwyno adolygiadau o fflydoedd gwyrdd yng Nghymru, sydd wedi bod mor llwyddiannus yn Lloegr a'r Alban.

Ym mhennod 6, mae'r adroddiad yn ymdrin â phrisio ffyrdd. Croesawn y ffaith fod y Dirprwy Brif Weinidog yn derbyn yr argymhelliad, a'i ymateb i'r perwyl y byddai Gweinidogion Cymru'n ystyried cymeradwyo cynllun prisio ffyrdd lleol dim ons pe bai amryw o welliannau'n digwydd mewn cludiant cyhoeddus. Yr ydym yn fodlon ar ymateb y Dirprwy Brif Weinidog i hynny.

In closing, I thank committee members for their efforts on this report. All committee members put in a considerable amount of work while taking evidence. I thank them for their consensual approach, and I also thank all of the witnesses and written respondents to the inquiry, who gave such a broad range of evidence on which to base our recommendations. I think that I speak on behalf of the committee when thanking the clerking team who supported us in our evidence-taking and in preparation of the report. While the committee welcomes the Deputy First Minister's positive response to a number of important recommendations, we have concerns that the response is lacking in substance and detail in some areas, particularly on how he intends to implement the committee's recommendations within the existing budgets. I look forward to hearing more from the Deputy First Minister on these issues and to responding later in the debate.

**The Deputy First Minister:** I thank Mike German for presenting the report. We all know that the current Chair, for whom Mike is currently substituting, is Mick Bates. I appeared before the committee when Mick was in the Chair. We wish him well in his recovery. Today, I thank Mike for the way in which he has presented the committee's report and for the positive way in which, by and large, he accepted the Government's response.

Fel y mae'r pwyllgor yn ei nodi, mae sawl her yn ein hwynebu wrth geisio lleihau allyriadau carbon trafniadaeth. Ers yn rhy hir, yr ydym wedi methu datgysylltu allyriadau carbon trafniadaeth oddi wrth dwf economaidd. Serch hynny, dyna'n union yr hyn sydd yn rhaid i ni ei wneud er mwyn mynd ati'n ystyrllon i leihau allyriadau carbon. Fel y clywsom eisoes, Llywodraeth y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd sy'n gyfrifol am lawer o'r polisiau sy'n ein galluogi i wneud hynny. Bydd angen cytundeb rhyngwladol cyffredinol er mwyn mynd i'r afael â rhai agweddau ar y materion hyn.

Er hynny, yr wyf i a Llywodraeth y Cynulliad yn benderfynol o fynd i'r afael â'r her sy'n

Wrth gloi, diolchaf i aelodau'r pwyllgor am eu hymdrechion ar yr adroddiad hwn. Gwnaeth holl aelodau'r pwyllgor lawer iawn o waith wrth gymryd tystiolaeth. Diolchaf iddynt am eu hymagwedd gyfûn, a diolchaf hefyd i'r holl dystion a phawb a roddodd ymateb ysgrifenedig i'r ymchwiliad ac a roddodd y fath amrywiaeth o dystiolaeth i fod yn sail i'n hargymhellion. Credaf fy mod yn siarad ar ran y pwyllgor wrth ddiolch i'r tîm clericio a roddodd gymorth i ni wrth inni gymryd tystiolaeth ac wrth baratoi'r adroddiad. Er bod y pwyllgor yn croesawu ymateb cadarnhaol y Dirprwy Brif Weinidog i nifer o argymhellion pwysig, yr ydym yn pryderu bod diffyg sylwedd a manylder mewn rhai rhannau o'r ymateb, yn enwedig ynghylch y modd y mae'n bwriadu rhoi argymhellion y pwyllgor ar waith o fewn y cyllidebau presennol. Edrychaf ymlaen at glywed rhagor gan y Dirprwy Brif Weinidog am y materion hyn ac at ymateb yn ddiweddarach yn y ddadl.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch i Mike German am gyflwyno'r adroddiad. Yr ydym i gyd yn gwybod mai'r Cadeirydd presennol, y mae Mike yn dirprwyo drosto ar hyn o bryd, yw Mick Bates. Deuthum gerbron y pwyllgor pan oedd Mick yn y Gadair. Dymunwn yn dda iddo yn ei adferiad. Heddiw, yr wyf yn diolch i Mike am y modd y mae wedi cyflwyno adroddiad y pwyllgor ac am y modd cadarnhaol, at ei gilydd, y derbyniodd ymateb y Llywodraeth.

As the committee has noted, there are several genuine challenges facing us in our attempts to reduce carbon emissions by the transport sector. For far too long we have been unable to decouple transport carbon emissions from economic growth. However, that is precisely what is required if we are to address carbon reduction in a meaningful way. As we have heard, the UK Government or even the European Union control many of the relevant policy levers to achieve this aim. If we are to get to grips with some aspects of these issues, we will need to broker more general international agreement.

Nevertheless, the Assembly Government and I are determined to tackle these challenges



ein hwynebu fel bod trafndiaeth yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Bu gwaith y pwyllgor yn arbennig o ddefnyddiol wrth imi gwblhau strategaeth drafndiaeth Cymru dros y misoedd diwethaf. Bûm yn adolygu cydbwysedd y gwariant yn y gyllideb drafndiaeth yn unol â blaenoriaethau'r strategaeth ac amcanion y Llywodraeth o ran lleihau allyriadau carbon.

3.00 p.m.

I believe that you asked, Mike, how quickly one can look at the changing nature of investment in transport. The issue here is that we have introduced the national transport strategy, and we have indicated that we wish to look at that. However, I am sure that you will accept that, in transport, there is a considerable lead-in time, particularly, for example, on new road schemes, and it takes a while for you to shift that in any meaningful way. However, I give the Assembly, and the committee, my commitment that that work is in hand.

O ystyried y gwaith hwn, felly, bu'n werthfawr tu hwnt i gael barn y pwyllgor ynghylch sut i fynd i'r afael â'r agenda garbon ym maes trafndiaeth. Fel yr wyf wedi ei nodi yn fy ymateb ysgrifenedig, yr wyf yn falch o ddweud bod y Llywodraeth wedi derbyn, neu dderbyn yn rhannol, bron i bob un o argymhellion y pwyllgor. Yn wir, dim ond un argymhelliad yr ydym wedi ei wrthod yn llwyr.

Mae strategaeth drafndiaeth Cymru yn sicrhau bod yr angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau carbon yn un o gonglfeini polisiau Llywodraeth y Cynulliad. Adlewyrchir hyn yn y gyfres o bolisiau sydd wedi eu nodi yn y strategaeth. Diben y rhain yw gwneud trafndiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol i bobl, a'u helpu i wneud dewisiadau doethach, fel y clywsom eisoes. Mae hynny'n golygu annog mwy o ddefnydd o gynllunio taith, mwy o rannu ceir, a gwell darpariaeth ar gyfer cerddwyr a seiclwyr. Yr ydym hefyd yn cefnogi mentrau i ddarparu gwybodaeth am drafndiaeth gyhoeddus, yn ogystal â mentrau

that face us so that transport plays its full part in the task of combating climate change. The committee's work has been particularly useful as I have been working on finalising the Wales transport strategy in the past months. I have also reviewed the balance of spending in the transport budget in line with the priorities set out in the strategy and the Government's carbon reduction aims.

Credaf ichi ofyn, Mike, pa mor gyflym y gall rhywun edrych ar natur newidiol buddsoddi mewn trafndiaeth. Y broblem yma yw ein bod wedi cyflwyno'r strategaeth drafndiaeth genedlaethol, ac yr ydym wedi dangos ein bod yn dymuno edrych ar honno. Fodd bynnag, yr wyf yn sicr y derbyniwch bod amser rhagarweiniol sylweddol ym maes trafndiaeth, amser rhagarweiniol sylweddol, yn enwedig, er enghraifft, ar gynlluniau ffyrdd newydd, a'i bod yn cymryd amser ichi symud hwnnw mewn unrhyw ffordd ystyrllon. Fodd bynnag, rhoddaf i'r Cynulliad, a'r pwyllgor, fy addewid fod y gwaith hwnnw ar y gweill.

Against this background, it has been invaluable to have the committee's views on how to tackle the carbon agenda in transport. As I have indicated in my written response, I am pleased to say that the Government has accepted, or partly accepted, nearly all of the committee's recommendations. In fact, we have rejected only one recommendation outright.

The Wales transport strategy ensures that the need to address climate change and to reduce carbon emissions is a cornerstone in the Assembly Government's transport policies. This is reflected in the raft of policies set out in the strategy. These are designed to make public transport a more attractive option and to help people make smarter choices, as we have already heard. This means encouraging the greater use of travel planning, car sharing and enhanced provision for pedestrians and cyclists. We also support initiatives that provide public transport information as well as integrated ticketing initiatives.

i gynnig tocynnau integredig.

We will also shortly be launching a major communications campaign, which will encourage low carbon modes of transport, as well as eco-driving. We are developing a Sustainable Travel Towns initiative, which will seek to transform travel behaviour in one town in each region.

Although the committee focused mainly on passenger transport, I should mention that we are also working to reduce carbon emissions from freight. The Wales freight strategy, which I published recently, will help to develop sustainable distribution throughout Wales, with more reliable and efficient freight networks. This includes the transfer of freight from road to rail, and making more use of coastal and short-sea shipping.

We will be developing these policies and setting out a detailed plan of action, and I am pleased to say, because this question was asked during the oral presentation of the report, that the national transport plan will be published next year. I heard what the Chair had to say, but the reality is that the national transport plan can only be developed in the light of what is contained in the strategy, and therefore the strategy will inform the contents of the plan. I assure the Assembly, and the committee, that I will implement as many of the accepted recommendations as I can in the interim.

As I have indicated, there is only one of the committee report's 27 recommendations that I did not feel able to accept at all, namely the development of an eco-driving pilot scheme in one local authority area. The benefits of eco-driving, which is driving in a fuel-efficient and safe manner, are already well established, and I do not believe that anything would be gained from a further pilot scheme. Instead, I intend to encourage all local authorities, as well as other public sector bodies, to explore the potential for eco-driving as part of the development of their workplace travel plans.

I commend the committee's work, but I note

Yn fuan, byddwn hefyd yn lansio ymgyrch gyfathrebu fawr, a fydd yn annog trafniadaeth rhad-ar-garbon, yn ogystal ag eco-yrru. Yr ydym yn sefydlu cynllun Trefi Teithio Cynaliadwy, cynllun a fydd yn ceisio trawsnewid ymddygiad trafniadaeth mewn un dref ym mhob rhanbarth.

Er i'r pwyllgor ganolbwyntio'n bennaf ar gludiant teithwyr, dylwn grybwyll ein bod hefyd yn gweithio i leihau allyriadau carbon o gludo nwyddau. Bydd Strategaeth Cymru ar gludo nwyddau, a gyhoeddais yn ddiweddar, yn helpu datblygu dosbarthu cynaliadwy ledled Cymru, gyda rhwydweithiau cludo nwyddau mwy dibynadwy ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo cludo nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd, a defnyddio rhagor ar forgludo ar hyd yr arfordir a mordeithiau byr.

Byddwn yn llunio'r polisiau hyn ac yn gosod allan gynllun gweithredu manwl, ac mae'n bleser gennyf ddweud, gan fod y cwestiwn hwn wedi ei ofyn wrth gyflwyno'r adroddiad yn llafar, y cyhoeddir y cynllun trafniadaeth cenedlaethol flwyddyn nesaf. Clywais yr hyn oedd gan y Cadeirydd i'w ddweud, ond y realiti yw y gellir datblygu'r cynllun trafniadaeth cenedlaethol dim ond yng ngoleuni'r hyn a gynhwysir yn y strategaeth, ac felly bydd y strategaeth yn dylanwadu ar gynnwys y cynllun. Yr wyf yn sicrhau'r Cynulliad, a'r pwyllgor, y byddaf yn y cyfamser yn gweithredu cynifer ag y gallaf o'r argymhellion a dderbyniwyd.

Fel y crybwyllais, un yn unig o 27 o argymhellion yn adroddiad y pwyllgor y teimlaf na allaf ei dderbyn o gwbl, sef sefydlu cynllun peilot eco-yrru mewn un ardal awdurdod lleol. Mae manteision eco-yrru, sef gyrru mewn modd diogel sy'n defnyddio tanwydd yn effeithlon, eisoes wedi'u hen sefydlu, ac ni chredaf y ceid dim budd o gynllun peilot pellach. Yn hytrach, bwriadaf annog pob awdurdod lleol, yn ogystal â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, i archwilio potensial eco-yrru fel rhan o'r gwaith o lunio cynlluniau teithio'u gweithleoedd.

Cymeradwyaf waith y pwyllgor, ond sylwaf

with some sadness that elsewhere today both opposition parties are seeking to either oppose or reduce our nation's development of renewable energy. One has to ask why, with such general acceptance now of the need to do all that we can to reduce carbon emissions, we have a policy that intends to reverse some of the things that we would like to do.

I will mention three points briefly—I will not have an opportunity to deal with all the points that Mike raised. However, I have answered the question on the national transport plan—that will be published next year, following consultation. On WelTAG, I was rather surprised at Mike's comments, which is why I intervened during his speech; I believe that the response that I gave was more or less what the committee asked for. I will be undertaking a review of WelTAG as appropriate. Perhaps the only word that I did not put in that Mike wanted was 'urgent'. Let me tell him that the work is in hand and I am sure that that matter will be acceptable.

On the issue of the relationship between planning and out-of-town shopping centres and those kinds of developments, that is not a matter that is within my portfolio. It is necessary for me to consult on that with Jane Davidson, who is responsible for planning, and, of course, we will be taking that forward on a bilateral basis. It is very important that we work together across Government to deliver what we can in that area. I have already mentioned the issue of the eco-driving initiative and the fact that I was not able to accept recommendation 10.

Another point that perhaps I ought to stress again, very briefly, is that I am looking for ways in which I can shift investment in particular areas. One of the important things in the Wales transport strategy that may have been overlooked is that I was saying that when new road schemes are looked at, I will now need to consider alternatives before making a decision in favour of a new road programme. In some cases, that will mean that I will need to look at public transport initiatives rather than at building new roads; on other occasions, the case for the new road

gyda chryn dristwch fod y ddwy wrthblaid, mewn man arall heddiw, yn ceisio naill ai wrthwynebu neu leihau faint o ynni adnewyddadwy y bydd ein cenedl yn ei ddatblygu. Rhaid i rywun ofyn, gyda chynifer yn derbyn yn gyffredinol yn awr fod angen gwneud popeth a allwn i leihau allyriadau carbon, pam mae gennym bolisi sydd â'r bwriad o wyrdroi rhai o'r pethau y byddem yn hoffi'u gwneud.

Crybwyllaf dri phwynt yn fyr—ni chaf gyfle i ddelio â phob pwynt a gododd Mike. Er hynny, yr wyf wedi ateb y cwestiwn ar y cynllun trafndiaeth cenedlaethol—caiff ei gyhoeddi flwyddyn nesaf, ar ôl ymgynghori. O safbwynt WelTAG, fe'm synnwyd braidd gan sylwadau Mike, a dyna paham y torrais ar ei draws yn ystod ei araith; credaf mai'r ateb a roddais oedd yr hyn y gofynnodd y pwyllgor amdano fwy neu lai. Byddaf yn cynnal adolygiad o WelTAG fel sy'n briodol. Efallai mai'r unig air na chynhwysais ac yr hoffai Mike ei glywedfoedd 'brys'. Gadewch imi ddweud wrtho bod y gwaith ar y gweill, ac yr wyf yn sicr y bydd y mater hwnnw'n dderbyniol.

O ran y berthynas rhwng cynllunio a chanolfannau siopa ar gyrion trefi a'r mathau hynny o ddatblygiadau, nid yw hwnnw fater sydd yn fy mhortffolio. Mae angen imi gysylltu â Jane Davidson, sy'n gyfrifol am gynllunio, ac, wrth gwrs, byddwn yn mynd â hynny ymlaen yn ddwyochrog. Mae'n bwysig iawn inni weithio gyda'n gilydd ar draws y Llywodraeth i gyflawni'r hyn a allwn yn y maes hwnnw. Yr wyf eisoes wedi crybwyll y cynllun eco-yrru a'r ffaith nad oeddwn yn gallu derbyn argymhelliad 10.

Pwynt arall y dylwn efallai ei bwysleisio eto, yn fyr iawn, yw fy mod yn edrych am ffyrdd i symud buddsoddiadau mewn meysydd penodol. Un o'r pethau pwysicaf yn strategaeth drafndiaeth Cymru sydd efallai wedi ei anwybyddu yw fy mod yn dweud, pan edrychir ar gynlluniau ffyrdd newydd, y bydd angen imi'n awr ystyried dewisiadau amgen cyn gwneud penderfyniad o blaid rhaglen ffordd newydd. Mewn rhai achosion, bydd yn golygu y bydd angen imi edrych ar gynlluniau cludiant cyhoeddus yn hytrach nag ar adeiladu ffyrdd newydd; droeon eraill,

may be overwhelming. There will be occasions when we will need to do that, but because of the lead-in time, it is not always easy to shift those kinds of resources in a matter of months. I do, however, give an assurance that that is being looked at.

To sum up, therefore, the Government believes that transport must play its full part in tackling climate change and I look forward to working with the committee and the Assembly to deliver that programme.

**Alun Davies:** Like others this afternoon, I thank and congratulate the Chair of the committee, who led this inquiry, and wish him well in his recovery following recent surgery. In many ways, the review that we are considering at the moment in terms of carbon reduction has focused our minds, energies and time on some very significant areas of policy. It has certainly opened my eyes to the extent and size of the task that faces us, if we are to achieve the ambitions that we have set ourselves as individual political parties, as a Government, and as individual Members.

One of my priorities and one of the issues that came to my mind during this inquiry has been how we can focus Government policy and efforts on individual areas of policy. Speaking personally, I came to the conclusion very early on during the inquiry that it is absolutely essential that, if the Government is to achieve its targets as set out in 'One Wales', it will have to focus very tightly on energy and transport in terms of changing attitudes and the approach that we need to take to achieve our ambitions. I would like to see the Assembly Government focusing tightly on these two areas of policy over the term of the present Assembly.

In saying that, I must say that I welcome, very much, the contribution of the Deputy First Minister this afternoon—he certainly answered many of the questions that I had as a result of the inquiry and I think that he has answered many of the questions that

efallai y bydd yr achos dros ffordd newydd yn llethol. Bydd adegau pan fydd angen inni wneud hynny, ond oherwydd yr amser rhagarweiniol, nid yw bob amser yn hawdd symud y mathau hynny o adnoddau ymhen misoedd yn unig. Rhoddaf sicrwydd, er hynny, fod hynny'n cael sylw.

I grynhoi, felly, cred y Llywodraeth ei bod yn rhaid i drafnidiaeth wneud ei rhan yn llawn wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r pwyllgor a'r Cynulliad i ddarparu'r rhaglen honno.

**Alun Davies:** Fel eraill y prynhawn hwn, diolchaf i Gadeirydd y pwyllgor, a arweiniodd yr ymchwiliad hwn, a'i longyfarch gan ddymuno adferiad buan iddo yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Ar lawer ystyr, mae'r adolygiad yr ydym yn ei ystyried ar y funud o ran lleihau carbon wedi hoelio'n meddyliau, ein hegri a'n hamser ar rai meysydd polisi arwyddocaol iawn. Mae'n bendant wedi agor fy llygaid i faint a mesur y dasg sy'n ein hwynebu, os ydym am gyflawni'r uchelgeisiau yr ydym wedi'u gosod i ni ein hunain fel pleidiau gwleidyddol unigol, fel Llywodraeth, ac fel Aelodau unigol.

Un o'm blaenoriaethau ac un o'r materion a ddaeth i'm meddwl yn ystod yr ymchwiliad hwn oedd sut y gallwn ganolbwyntio polisiau ac ymdrechion y Llywodraeth ar feysydd polisi unigol. A siarad yn bersonol, deuthum i'r casgliad yn fuan iawn yn ystod yr ymchwiliad ei bod yn gwbl hanfodol, os yw'r Llywodraeth am gyrraedd ei thargedau fel y'u gosodir allan yn 'Cymru'n Un', y bydd yn rhaid iddi ganolbwyntio'n agos iawn ar ynni a thrafnidiaeth o ran agweddau newidiol a'r modd y mae angen inni weithredu ynddo er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau. Hoffwn weld Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio'n agos iawn ar y ddau faes polisi hwn yn ystod tymor y Cynulliad presennol.

Wrth ddweud hynny, rhaid imi ddweud fy mod yn croesawu'n fawr iawn gyfraniad y Dirprwy Brif Weinidog y prynhawn hwn—yn sicr, atebodd nifer o gwestiynau a oedd gennyf o ganlyniad i'r ymchwiliad hwn, a chredaf ei fod wedi ateb llawer o'r

remained in our minds, following the Government's formal written response to the report. I would like to ask you, Deputy First Minister, to ensure that the purpose of the transport strategy is to achieve carbon reduction as a positive objective. I believe that that is important in both political and philosophical terms. It is important politically because we send a message from this place. All too often, we talk about the powers that we have here and the legislative ability to achieve our objectives, but very rarely do we speak about the Assembly's power in terms of being a catalyst and a leader.

One thing that came out powerfully in the discussions that we had was the ability of the Assembly Government to set an example to not only the whole of the public sector in Wales, but to the rest of society and to our communities as well. By acting as an exemplar of best practice and sending out a very clear political message from this place through to other decision-making organisations and structures in Wales, both within the Assembly Government and among the local authorities and others, we are setting out a very clear and different direction of policy. That is something that is absolutely central to what we are trying to achieve here. I say that it is important philosophically because it should underpin the whole approach of the Government, its policies, and, perhaps most importantly, its actions in this matter.

3.10 p.m.

Deputy First Minister, when we, as a committee, were being critical of the approach that you were taking, what we were seeking was urgency. You have spoken this afternoon of your review of WelTAG, and it was that word 'urgency' that we were looking for. I am glad that you have used it this afternoon.

In terms of taking this forward, we are anxious that we have consistency in decision making. All too often—we all know that this is true—we hear statements, ambitions and visions from Ministers only for them to be undermined by subsequent decisions. It is important to have consistency in decision

cwestiynau a oedd ar ôl yn ein meddyliau, yn dilyn ymateb ysgrifenedig ffurfiol y Llywodraeth i'r adroddiad. Hoffwn ofyn ichi sicrhau, Ddirprwy Brif Weinidog, mai diben y strategaeth drafnidiaeth yw sicrhau gostyngiad mewn carbon fel un o'r amcanion cadarnhaol. Credaf fod hynny'n bwysig yn wleidyddol ac yn athronyddol. Mae'n bwysig yn wleidyddol oherwydd ein bod yn anfon neges o'r lle hwn. Yn rhy aml o lawer, yr ydym yn siarad am bwerau sydd gennym yma ac am y gallu deddfwriaethol i gyflawni ein hamcanion, ond anaml iawn y byddwn yn siarad am bŵer y Cynulliad i fod yn gatalydd ac yn arweinydd.

Un peth a ddaeth allan yn gryf yn y trafodaethau a gawsom oedd gallu Llywodraeth y Cynulliad i osod esiampl nid yn unig i'r sector cyhoeddus yn gyfan yng Nghymru, ond i weddill cymdeithas ac i'n cymunedau hefyd. Drwy ymddwyn fel esiampl o'r arfer gorau a rhoi neges wleidyddol glir iawn o'r man hwn i strwythurau a sefydliadau eraill yng Nghymru sy'n gwneud penderfyniadau, yn Llywodraeth y Cynulliad ac ymhlith awdurdodau lleol ac eraill, yr ydym yn gosod allan gyfeiriad polisi gwahanol a chlir iawn. Mae hynny'n rhywbeth sy'n gwbl ganolog i'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni yma. Dywedaf ei bod yn bwysig yn athronyddol oherwydd dylai fod yn sylfaen i holl ddull gweithredu'r Llywodraeth, i'w pholisïau, ac, yn bwysicach efallai, i'w gweithredoedd yn y mater hwn.

Ddirprwy Brif Weinidog, pan yr oeddem, fel pwyllgor, yn bod yn feirniadol o'ch dull gweithredu, yr hyn yr oeddem yn ceisio'i gael oedd brys. Yr ydych wedi siarad y prynhawn hwn am eich adolygiad o WelTAG, a'r gair 'brys' yr oeddem yn chwilio amdano. Yr wyf yn falch eich bod wedi'i ddefnyddio'r prynhawn hwn.

O ran rhoi hwn ar waith, yr ydym yn awyddus inni fod yn gyson wrth wneud penderfyniadau. Yn rhy aml o lawer—gwyddom i gyd fod hyn yn wir—clywn ddatganiadau, uchelgeisiau a gweledigaethau gan Weinidogion a'r rheini wedyn yn cael eu tanseilio gan benderfyniadau dilynol. Mae'n

making between now and the end of this Assembly, to ensure that we have measurable objectives. In that way we will see the impact and outcomes of policy—not simply the actions of Government but the impact that it has in changing behaviour and policies across Wales.

As a committee, we were pleased with the positive approach that you have taken to our recommendations. The 27 recommendations were all closely argued and were meant to build upon each other. The fact that you have accepted, either in full or in part, 26 of those recommendations demonstrates seriousness on your part. That is something that the whole committee will appreciate.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Can you wind up, please?

**Alun Davies:** In implementing these policies, I hope that you will also prioritise the importance of changing people's behaviour and enabling that to take place. Enabling people to change the way they act will cumulatively, I hope, change the nature of the transport system that we have in Wales.

**Brynle Williams:** First, I commend the committee's work in producing this report and recommendations, which provide, overall, an effective way of reducing the carbon footprint of transport in Wales.

I will, however, highlight a few of the issues that I would have liked to have seen receiving stronger emphasis. The first of these is the importance of improving north-south rail links. Everyone who regularly travels between north and south Wales—Assembly Members included—knows that this journey takes an unacceptably long time. Rail is one of the most sustainable forms of transport and—unlike the air service from Anglesey—it is also one of the most accessible.

An improved service, better connecting north and south Wales, could also go a little way towards drawing the regions closer, countering the impression that the Welsh

bwysig cael cysondeb wrth wneud penderfyniadau rhwng hyn a diwedd y Cynulliad hwn, er mwyn sicrhau bod gennym amcanion mesuradwy. Fel hynny byddwn yn gweld effaith a chanlyniadau polisiau—nid yn unig gweithredoedd Llywodraeth ond yr effaith a gaiff wrth newid ymddygiad a pholisiau ledled Cymru.

Fel pwyllgor, yr oeddem yn falch o'ch agwedd gadarnhaol at ein hargymhellion. Cafodd pob un o'r 27 argymhelliad ei drafod yn fanwl a bwriadwyd iddynt adeiladu ar ei gilydd. Mae'r ffaith eich bod wedi derbyn, naill ai'n llawn neu'n rhannol, 26 o'r argymhellion hynny yn dangos eich bod o ddifrif. Mae hwnnw'n rhywbeth y bydd y pwyllgor cyfan yn ei werthfawrogi.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A allwch ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

**Alun Davies:** Wrth weithredu'r polisiau hyn, gobeithio y byddwch hefyd yn blaenoriaethu pwysigrwydd newid ymddygiad pobl ac yn galluogi hynny i ddigwydd. Bydd galluogi pobl i newid y modd y maent yn ymddwyn yn gynyddol, gobeithio, yn newid natur y system drafnidiaeth sydd gennym yng Nghymru.

**Brynle Williams:** I ddechrau, cymeradwyaf waith y pwyllgor yn cynhyrchu'r adroddiad hwn a'r argymhellion, sy'n darparu, drwyddi draw, ffordd effeithiol i leihau ôl-troed carbon trafnidiaeth yng Nghymru.

Er hynny, yr wyf am dynnu sylw at rai o'r materion y byddwn wedi hoffi gweld pwyslais cryfach arnynt. Y cyntaf o'r rhain yw pwysigrwydd gwella'r cysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a'r de. Mae pawb sy'n teithio'n rheolaidd rhwng y gogledd a'r de—gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad—yn gwybod bod y siwrnai hon yn cymryd amser annerbyniol o faith. Mae'r rheilffyrdd yn un o'r dulliau teithio mwyaf cynaliadwy ac—yn wahanol i'r gwasanaeth awyr o Ynys Môn—mae hefyd yn un o'r rhai mwyaf cyfleus.

Gallai gwell gwasanaeth, gan gysylltu'r gogledd a'r de yn well, hefyd gyfrannu ychydig at ddod â'r rhanbarthau'n agosach, gan wrthsefyll yr argraff nad oes gan

Assembly Government is not interested in the majority of Wales outside Cardiff and the Valleys. I am sorry to bring that up, but it is a view that is truly held in north Wales.

It is also worth stressing the impact of the Cardiff-Anglesey air link that the Assembly Government is subsidising. When the public could expect to look to Government for leadership on sustainability, the Government's actions give the impression that it is prepared to pay little more than lip-service to it. How the Minister for transport intends to change public opinion against unsustainable means of transport, when he himself is such a high-profile user of this short-haul route, is another question.

There is also the question of priorities in the Assembly Government's transport policies, regarding how seriously it really treats sustainability. For the cost of just one mile of motorway, the Assembly Government could give everyone in Wales a personal travel plan. Yet, there appears to be little willingness by this Assembly Government to seriously tackle congestion in a smart way. There is plenty of evidence of best practice from Sustrans's work with Peterborough City Council. Early results show that car travel is down by 13 per cent in one year, with big increases in walking and cycling—with all the added health benefits. I could personally benefit from such best practice. This is clearly a cost-effective option, but so far it is one that is being ignored by this Assembly Government.

Finally, I commend the Minister for transport for accepting so many of the committee's recommendations, but the Assembly Government has a long way to go to back up its rhetoric on sustainability with action.

**Leanne Wood:** I am sure that most Assembly Members will be aware by now that the Sustainability Committee has, for the past year, been conducting a detailed and in-depth inquiry to see what steps the Government in Wales can take to reduce our carbon emissions. I am sure that many

Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiddordeb yn y rhan fwyaf o Gymru y tu allan i Gaerdydd a'r Cymoedd. Ymddiheuraf am grybwyll hynny, ond mae'n farn wirioneddol yn y gogledd.

Mae hefyd yn werth pwysleisio effaith y cyswllt awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn sy'n cael cymhorthdal gan Lywodraeth y Cynulliad. Pan allai'r cyhoedd ddisgwyl edrych i gyfeiriad y Llywodraeth am arweiniad ar gynaliadwyedd, mae gweithredoedd y Llywodraeth yn rhoi'r argraff nad yw'n barod i wneud llawer mwy nag esgus ei gefnogi. Cwestiwn arall yw sut y mae'r Gweinidog dros drafnidiaeth yn bwriadu newid barn y cyhoedd yn erbyn trafnidiaeth anghynaliadwy, ac yntau'n ddefnyddiwr mor amlwg ar y siwrnai fer hon.

Mae yn hefyd gwestiwn blaenoriaethau ym mhollisiau trafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad, o ran pa mor ddifrifol y mae'n delio â chynaliadwyedd mewn gwirionedd. Am gost un filltir o draffordd yn unig, gallai Llywodraeth y Cynulliad roi i bawb yng Nghymru gynllun teithio personol. Er hynny, mae'n ymddangos nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn barod iawn i fynd i'r afael yn wirioneddol â thagfeydd mewn ffordd graff. Mae digonedd o dystiolaeth o'r arferion gorau yng ngwaith Sustrans gyda Chyngor Dinas Peterborough. Dengys y canlyniadau cynnar fod siwrneiau ceir i lawr 13 y cant mewn blwyddyn, a chynnydd mawr mewn cerdded a beicio—gyda'r holl fanteision iechyd ychwanegol. Gallwn i'n bersonol elwa o'r arferion gorau hyn. Mae hwn yn ddewis cost-ffeithiol, ond hyd yn hyn mae'n ddewis sy'n cael ei anwybyddu gan y Llywodraeth hon yn y Cynulliad.

Yn olaf, canmolaf y Gweinidog dros drafnidiaeth am dderbyn cynifer o argymhellion y pwyllgor, ond mae gan Lywodraeth y Cynulliad gryn ffordd i fynd i weithredu ei rhethreg ar gynaliadwyedd.

**Leanne Wood:** Yr wyf yn siŵr y bydd y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad yn gwybod erbyn hyn fod y Pwyllgor Cynaliadwyedd, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi gwneud ymchwiliad manwl a thrylwyr i weld pa gamau y gall y Llywodraeth yng Nghymru eu cymryd i leihau ein hallyriadau carbon. Yr

Assembly Members will also be aware of the recent report from the WWF, which states that Welsh consumption of natural resources is proportionally equivalent to the use of three planets. Clearly, that level of consumption is unsustainable.

As well as the clear and undisputed issues around climate change, at the forefront of my mind in the committee's scrutiny sessions has been the question of peak oil. If scientists are correct, we are undoubtedly under threat because of climate change, but we also face huge threats if predictions about the future availability of oil are correct. Travel by car, for example, could become an extreme luxury. According to DEFRA, transport is the most rapidly growing source of emissions, and currently accounts for 23 per cent of all of the UK's domestic emissions. Stern has acknowledged, however, that transport is one of the most expensive sectors to tackle, because the technological alternatives are not yet available and also because reducing demand for travel is difficult.

I want to focus my contribution on headline recommendations 1 and 3, both of which have been accepted by the Government, but only in part. Both recommendations aim to place the goal of carbon reduction at the heart of the Welsh Assembly Government's transport strategy, and I welcome the Deputy First Minister's support for this in principle and the recent revision of the strategy, which has given carbon reduction a greater priority. The Deputy First Minister has also agreed to keep the Welsh transport planning and appraisal guidance under review to ensure that it keeps in line with the 'One Wales' carbon reduction targets. The committee has recommended that carbon reduction become the main objective when assessing projects, and we all know that the demand for personal transport continues to grow. New roads, which are often built to reduce congestion, will mostly result in even greater traffic growth and hence greater carbon emissions. If we also take into account the need to plan for peak oil, investment in roads, as opposed to public transport, could be argued to be

wyf yn siŵr y bydd llawer o Aelodau'r Cynulliad hefyd yn ymwybodol o adroddiad WWF yn ddiweddar, sy'n dweud bod yr adnoddau naturiol a ddefnyddir yng Nghymru, o ystyried ei maint, yn cyfateb i'r defnydd gan dair planed. Mae'n amlwg nad yw lefelau defnyddio felly yn gynaliadwy.

Yn ogystal â'r problemau eglur a diamwys sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, mater arall sydd wedi bod yn flaenoriaeth yn fy meddwl yn ystod sesiynau craffu'r pwyllgor oedd y brig olew. Os yw gwyddonwyr yn gywir, yr ydym yn bendant yn wynebu bygythiad oherwydd newid yn yr hinsawdd. Ond yr ydym hefyd yn wynebu bygythiadau enfawr os yw'r proffwydoliaethau ynghylch faint o olew a fydd ar gael yn y dyfodol yn gywir. Gallai teithio mewn car, er enghraifft, fod yn foethusrwydd mawr. Yn ôl DEFRA, trafnidiaeth yw'r ffynhonnell allyriadau sy'n tyfu gyflymaf, ac ar hyn o bryd mae'n cyfrif am 23 y cant o holl allyriadau domestig y DU. Mae Stern wedi cydnabod, fodd bynnag, mai trafnidiaeth yw un o'r sectorau mwyaf costus i fynd i'r afael ag ef, oherwydd nid oes dewisiadau technolegol eraill ar gael eto, ac mae lleihau'r galw am deithio mor anodd.

Yr wyf am ganolbwyntio fy nghyfraniad ar brif argymhellion 1 a 3, sydd ill dau wedi eu derbyn gan y Llywodraeth, ond yn rhannol yn unig. Nod y ddau argymhelliad yw gwneud yr amcan o leihau carbon yn elfen ganolog yn strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chroesawaf gefnogaeth y Dirprwy Brif Weinidog i egwyddor hyn a diwygio'r strategaeth yn ddiweddar, sy'n wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i leihau carbon. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog hefyd wedi cytuno i barhau i adolygu'r canllaw ar gynllunio a gwerthuso trafnidiaeth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn dal o fewn y targedau lleihau carbon yn 'Cymru'n Un'. Mae'r pwyllgor wedi argymhell y dylai lleihau carbon fod yn brif amcan wrth asesu prosiectau, a gwyddom i gyd fod y galw am gludiant personol yn dal i dyfu. Mae ffyrdd newydd, sy'n aml yn cael eu hadeiladu i leihau tagfeydd, gan amlaf yn arwain at fwy fyth o draffig a mwy o allyriadau carbon felly. Os ystyriwn yr angen i gynllunio ar gyfer y brig olew, buddsoddi mewn ffyrdd, yn hytrach na chludiant cyhoeddus, gellid



misplaced. Therefore, while I welcome the One Wales Government's acceptance that carbon reduction should be at the heart of its transport strategy in the future, I am left wondering how this will affect the transport projects that are already in the pipeline. I would be grateful if the Deputy First Minister would indicate whether the projects that are already in progress will be revised in the light of the new strategy, in recognition of the need to place carbon reduction at the heart of everything.

**Andrew R.T. Davies:** I am speaking as the transport spokesman for the Conservative Party, rather than as a member of the committee. I congratulate the committee on preparing such an in-depth report. A report that has 27 recommendations has obviously taken its subject matter seriously, and we all appreciate the important impact that improving transport and transport patterns will have on our environmental footprint and making it what we would want. I will pick out a few issues from the report, and focus in particular on recommendation 7, regarding planning issues. As a regional Member for a constituency with a large urban sprawl, I know that we only need to go a stone's throw from this institution to see how, sadly, there is currently no joined-up thinking with regard to sustainable transport and public transport models in new developments. I am referring to Cardiff Gate, which is a mixed development of residential, industrial and leisure facilities that has no regular public transport connection. Nothing was built into the plans to provide for that.

3.20 p.m.

On the other side of the coin, we must await the guidance from the Welsh Assembly Government—I very much hope that the Minister, in dialogue with his colleague, will realise how important it is that you do not have a one-size-fits-all approach. Sadly, in rural areas, there is not enough population to make the public transport network that might fit into an urban context viable. I am aware of planning projects that have fallen by the wayside in rural areas because they have not fitted with the transport model that planners

dadlau bod hynny'n gamgymeriad. Felly, er fy mod yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru'n Un i dderbyn y dylai lleihau carbon fod yn elfen ganolog yn ei strategaeth drafndiaeth yn y dyfodol, yr wyf yn dyfalu sut y bydd hyn yn effeithio ar y prosiectau trafndiaeth sydd eisoes yn yr arfaeth. Byddwn yn ddiolchgar petai'r Dirprwy Brif Weinidog yn dweud a fydd y prosiectau sydd eisoes ar waith yn cael eu hadolygu yng ngoleuni'r strategaeth newydd, i gydnabod bod angen gosod lleihau'r carbon a gynhrychir yn ganolog ym mhopeth.

**Andrew R.T. Davies:** Yr wyf yn siarad fel llefarydd y Blaid Geidwladol ar drafndiaeth, yn hytrach nag fel aelod o'r pwyllgor. Yr wyf yn llongyfarch y pwyllgor ar baratoi adroddiad mor drylwyr. Mae'n amlwg fod adroddiad sy'n cynnwys 27 o argymhellion wedi cymryd ei bwnc o ddifrif, ac yr ydym i gyd yn sylweddoli effaith bwysig gwella trafndiaeth a phatrymau trafndiaeth ar ein hôl troed amgylcheddol a'i wneud yr hyn y dymunem iddo fod. Yr wyf am ddewis ychydig bwyntiau o'r adroddiad, a chanolbwyntio'n fwyaf arbennig ar argymhelliad 7, sy'n ymwneud â materion cynllunio. Fel Aelod rhanbarthol dros etholaeth gydag ardaloedd trefol mawr, gwn nad oes rhaid inni fynd ymhellach na thafliad carreg o'r sefydliad hwn, yn anffodus, i weld nad oes dim meddwl cydgysylltiedig ar hyn o bryd o ran trafndiaeth gynaliadwy a modelau cludiant cyhoeddus mewn datblygiadau newydd. Cyfeiriai at Borth Caerdydd, datblygiad cymysg o gyfleusterau preswyl, diwydiannol a hamdden sydd heb gysylltiad cludiant cyhoeddus rheolaidd. Nid oedd dim yn y cynlluniau i ddarparu ar gyfer hynny.

Ar y llaw arall, rhaid inni aros am y canllaw gan Lywodraeth Cynulliad Cymru—gobeithio'n fawr y bydd y Gweinidog, wrth drafod gyda'i gyd-Aelod, yn sylweddoli mor bwysig yw peidio â mabwysiadu ymagwedd lle mae'n rhaid i bopeth fod yn gymwys i bawb. Yn anffodus, mewn ardaloedd gwledig nid oes digon o boblogaeth i wneud y rhwydwaith cludiant cyhoeddus a fyddai'n gweithio mewn cyd-destun trefol yn ymarferol. Gwn am brosiectau cynllunio sydd wedi syrthio ar fin y ffordd am nad oeddent

have chosen to interpret as sustainable in that particular authority. I hope that the Ministers will take an overview of planning to ensure a joined-up approach so that new developments benefit from sustainable transport, and that the fragility of the rural economy is borne in mind.

Regarding the various recommendations on public transport, people will require incentives to use public transport. We need quality buses and quality rolling stock to ensure that people aspire to use public transport rather than to travel in the comfort of their own car. There was a telling figure in the report, gathered from a witness to the committee, that the UK motor industry spends £500 million a year on promoting the car as an aspirational product, as well as an essential product for everyday life. I presume that that is the figure for the UK. However, public authorities in the UK spend only £60 million a year on promoting the virtues and accessibility of public transport. It is almost like pushing water uphill when you are fighting against that level of funding. London alone contributes £30 million to the Oyster card scheme and the accessibility of public transport. We need to look at how we fund our public information programme, so that people look at public transport as a first choice rather than a second choice.

There were also recommendations about road pricing. I am pleased to see that those recommendations state that we need to take a UK-wide approach to road pricing, rather than an individual Welsh approach. We are in a competitive economy, and, above all else, we must ensure that people have good quality jobs, and that we do not dissuade people from investing in Wales. We as a party accept the need to analyse road pricing, and perhaps to take an overview of the whole transport taxation system and look at how road pricing can be brought into the sustainability argument, but we do not believe that Wales should go it alone with its own road pricing model.

The report graphically highlights the need for

yn cyd-fynd â'r model trafniadaeth y mae cynllunwyr wedi dewis ei ddehongli fel un cynaliadwy yn yr awdurdod penodol hwnnw. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn edrych ar gynllunio'n gyffredinol i sicrhau dull cydgyssylltiedig fel y bydd datblygiadau newydd yn elwa o drafniadaeth gynaliadwy, ac y bydd yn cadw cyflwr bregus yr economi wledig mewn cof.

O ran yr amrywiol argymhellion ar gludiant cyhoeddus, bydd angen cymell pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Mae angen bysiau a cherbydau trên o safon i sicrhau bod pobl yn dewis defnyddio cludiant cyhoeddus yn hytrach na theithio yng nghlydwch eu car eu hunain. Yn yr adroddiad datgelwyd ffigur arwyddocaol a gafwyd gan un o dystion y pwyllgor, sef bod y diwydiant ceir yn y DU yn gwario £500 miliwn y flwyddyn ar hyrwyddo ceir fel nwyddau y mae pobl yn eu deisyfu, yn ogystal â rhywbeth sy'n hanfodol i fywyd pob dydd. Tybiaf mai'r ffigur ar gyfer y DU yw hwn. Fodd bynnag, dim ond £60 miliwn y flwyddyn y mae awdurdodau cyhoeddus yn y DU yn ei wario ar hyrwyddo rhinweddau a hwylustod cludiant cyhoeddus. Mae fel ceisio gwrthio dŵr i fyny rhiw pan fyddwch yn brwydro yn erbyn y fath arian. Mae Llundain yn unig yn cyfrannu £30 miliwn at gynllun y cerdyn Oyster a hwylustod cludiant cyhoeddus. Mae angen inni edrych ar y ffordd yr ydym yn ariannu ein rhaglen gwybodaeth gyhoeddus, i wneud i bobl edrych ar gludiant cyhoeddus fel dewis cyntaf yn hytrach nag ail ddewis.

Cafwyd argymhellion hefyd ar brisio ffyrdd. Yr wyf yn falch gweld bod yr argymhellion hynny'n dweud y dylem fabwysiadu ymagwedd DU gyfan at brisio ffyrdd, yn hytrach nag ymagwedd unigol i Gymru. Yr ydym yn byw mewn economi gystadleuol, ac yn anad dim rhaid inni sicrhau bod gan bobl swyddi o safon ac nad ydym yn troi pobl oddi wrth eu bwriad i fuddsoddi yng Nghymru. Yr ydym fel plaid yn derbyn bod angen edrych ar brisio ffyrdd, ac efallai gymryd trosolwg o'r holl system trethu trafniadaeth ac edrych ar ddull i allu gwneud prisio ffyrdd yn rhan o'r ddadl dros gynaliadwyedd. Ond ni chredaf y dylai Cymru dorri ei chŵys ei hun gyda'i model prisio ffyrdd ei hun.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i

bus operators to play their part in providing joined-up services with rail operators. However, in its recent actions, the Welsh Assembly Government has shown a great lack of faith in the bus industry. First, it got rid of the bus service operators grant, which supports bus operators should fuel duty go up. English bus operators benefit from that grant, and the Minister unilaterally cut it.

Secondly, we are still waiting for information on the local transport services grant. It was delivered in February, but we are still waiting for that information. How can people plan, and how can service operators be confident, if the Welsh Assembly Government is prepared to cut the level of investment in those services? While its words are warm and welcoming, the Government is, sadly, not supporting them in terms of the services that need to be put in place.

I also welcome the reference to Sustrans, and the excellent work it has been doing and the models under which it has been operating. That is demonstrated by the sustainable towns initiative, and I wish that the Minister would bring forward those proposals and take on board the recommendations of the report, rather than piloting the initiative. We have information from the English model, in Peterborough and Doncaster, and so I urge the Minister to deliver this as soon as possible.

**Kirsty Williams:** We have already been told in graphic terms this afternoon of the contribution that transport makes to Wales's carbon footprint, and that it is an expensive area in which to take action. However, not taking action is equally expensive. Cost cannot be used as an excuse not to tackle the issues that we face.

The committee's main recommendation is that sustainable transport should be at the heart of the Government's strategy, and the Minister says that he has taken that on board. In the recently published transport strategy

weithredwyr bysiau wneud eu rhan drwy ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig gyda gweithredwyr trenau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn y camau a gymerwyd ganddi'n ddiweddar, wedi dangos diffyg ffydd yn y diwydiant bysiau. Yn gyntaf, dileodd y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau, a fyddai'n cefnogi gweithredwyr bysiau petai'r dreth ar danwydd yn codi. Mae gweithredwyr bysiau yn Lloegr yn elwa o'r grant hwnnw, a gwnaeth y Gweinidog benderfyniad unochrog i'w ddileu.

Yn ail, yr ydym yn dal i aros am wybodaeth am y grant gwasanaethau trafniadaeth leol. Cafodd ei gyflwyno ym mis Chwefror, ond yr ydym yn dal i ddisgwyl y wybodaeth honno. Sut y gall pobl gynllunio, a sut y gall gweithredwyr gwasanaethau fod yn hyderus os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barod i gwtogi lefel y buddsoddi yn y gwasanaethau hynny? Er bod ei geiriau'n gynnes ac i'w croesawu, nid yw'r Llywodraeth, yn anffodus, yn eu cefnogi o ran y gwasanaethau y mae angen eu cyflwyno.

Croesawaf hefyd y cyfeiriad at Sustrans, a'r gwaith rhagorol y mae wedi ei wneud a'r modelau y mae ei waith yn seiliedig arnynt. Gwelir hyn yn y cynllun trefi cynaliadwy, a hoffwn petai'r Gweinidog yn cyflwyno'r cynigion hynny ac yn derbyn argymhellion yr adroddiad, yn hytrach na chyflwyno'r cynllun fel prosiect peilot. Mae gennym wybodaeth o'r model yn Lloegr, yn Peterborough a Doncaster, felly, anogaf y Gweinidog i'w gyflwyno cyn gynted â phosibl.

**Kirsty Williams:** Clywsom eisoes y prynhawn yma am gyfraniad trafniadaeth at ôl-troed carbon Cymru, a hynny mewn ffordd fyw iawn, a'i fod hefyd yn faes costus iawn i'w weithredu. Fodd bynnag, byddai peidio â gweithredu lawn mor gostus. Ni ellir defnyddio cost fel esgus dros beidio â mynd i'r afael â'r problemau sy'n ein hwynebu.

Prif argymhelliad y pwyllgor yw y dylai trafniadaeth gynaliadwy fod yn elfen ganolog yn strategaeth y Llywodraeth, a dywed y Gweinidog ei fod wedi derbyn hynny. Yn nogfen y strategaeth drafniadaeth a

document, there were copious references to the need to put sustainability at the core of policy. That is the easy bit—talking the talk. What we now need from the Government is dynamic action that leads the debate in the way that Alun Davies is calling for, and makes a difference on the ground.

The points that the committee made regarding WelTAG and the resourcing of the local transport consortia are ones that I have raised consistently over the past year in the Chamber. The Minister constantly says that he is doing something about them, yet these issues come up in report after report.

What we are seeing in terms of Government action flies in the face of what this report is trying to get the Government to do. The Government is currently considering sanctioning the opening of an airport in the Snowdonia national park, the bus service operators grant is under review, as we have just heard, and local councils are still waiting for their local transport services grant. The consequences of that are quite stark. I have a village in my constituency where there is a demand for a bus service. To get to Abergavenny, the residents of Llangattock have to drive—there is no alternative—and they would like a bus service. The council has done a feasibility study for a bus to run through that village, and it can be done, but the council cannot invest in that service until it knows what is going to happen with the local transport services grant. The same is true for extending the bus service to Nevill Hall Hospital. We want the bus to go into the hospital grounds so that people can take the bus to visit relatives in hospital. However, again, the council dare not take action because, until it gets the information from the Government, it does not know whether that bus service can continue to run at all, let alone go into the hospital grounds.

As we have seen, for many people who are taking journeys by car, there is a smart alternative readily available. Evidence from England and across the water shows that behaviour can be changed. We simply need to give individuals the information and the confidence to make changes in their choice of

gyhoeddwyd yn ddiweddar, yr oedd cyfeiriadau lu at yr angen i roi lle canolog i gynaliadwyedd yn y polisi. Dyna'r rhan hawdd—y dweud. Yr hyn y mae ei angen gan y Llywodraeth yn awr yw gweithredu dynamig sy'n arwain y ddadl yn y ffordd y mae Alun Davies am ei gweld, ac sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Y pwyntiau a godwyd gan y pwyllgor o ran WelTAG ac adnoddau i'r consortia trafniadaeth leol yw'r rhai yr wyf wedi bod yn eu codi'n gyson yn y Siambr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywed y Gweinidog dro ar ôl tro ei fod yn gwneud rhywbeth yn eu cylch, ond eto caiff y materion hyn eu codi mewn adroddiad ar ôl adroddiad.

Mae'r hyn a welwn o ran gweithredu gan y Llywodraeth yn mynd yn gwbl groes i'r hyn y mae'r adroddiad hwn yn ceisio cael y Llywodraeth i'w wneud. Mae'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn ystyried caniatáu agor maes awyr ym mharc cenedlaethol Eryri, mae'r grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau'n cael ei adolygu, fel y clywsom, ac mae cynghorau lleol yn dal i aros am eu grant gwasanaethau trafniadaeth leol. Mae goblygiadau'n hynny'n rhai difrifol. Mae pentref yn fy etholaeth i lle mae galw am wasanaeth bws. I fynd i'r Fenni, rhaid i drigolion Llangatwg yrru—nid oes dewis arall—a hoffent gael gwasanaeth bws. Mae'r cyngor wedi gwneud astudiaeth ddichonoldeb i gael bws i'r pentref, ac mae modd gwneud hynny, ond ni all y cyngor fuddsoddi yn y gwasanaeth nes bydd yn gwybod beth fydd yn digwydd i'r grant gwasanaethau trafniadaeth leol. Mae'r un peth yn wir o ran ymestyn y gwasanaeth bws i Ysbyty Nevill Hall. Yr ydym am i'r bws allu mynd i dir yr ysbyty er mwyn i bobl allu defnyddio'r bws i ymweld â pherthnasau yn yr ysbyty. Fodd bynnag, unwaith eto, nes bydd y wybodaeth ar gael gan y Llywodraeth, nid yw'n gwybod a all y gwasanaeth bws barhau o gwbl, heb sôn am ei ymestyn i dir yr ysbyty.

Fel y gwelwyd, i lawer o bobl sy'n teithio mewn car mae dewis arall ymarferol ar gael. Dengys tystiolaeth o Loegr a dros y dŵr bod modd newid ymddygiad pobl. Yr unig beth y mae angen ei wneud yw rhoi gwybodaeth i unigolion a'r hyder i'w galluogi i newid eu dewisiadau teithio. Gwelwyd newidiadau

transport. Big differences have already been achieved in Europe and England for relatively small amounts of money—this will not cost the Government a lot of money. When you compare the spend with the overall transport budget, and consider the impact that it has, you can see that we really are talking about the delivery of big differences for relatively small amounts of money.

I do not know whether we all need an individual travel plan in Wales. I do not know what Brynle Williams, for example, would do with it if he had one—we can only speculate. However, if we give people the information and the choices, they will change their behaviour. We do not need another pilot scheme; I cannot believe that the psyche of the Welsh people is any different from the psyche of people elsewhere, where this has worked. Let us get on and do it. We have to be realistic; people will not abandon their cars. There will always be people who want and need to drive, and individual travel plans and the best bus service in the world will not change that. Therefore, we have to help them to make smart choices in the types of cars that they buy, for example. Even though we have more ecologically-friendly cars coming onto the market, purchasing trends have not changed and we are not seeing people making the choices to buy more environmentally-friendly cars—they are still buying more traditionally engineered models. We must recognise that. In this respect, Ecodrive and the GreenFleet proposals could make a big difference. With fuel prices as high as they are, there has never been a better opportunity to convince people of the need to change, and that is what we need to do.

**The Deputy Presiding Officer:** Please wind up, Kirsty.

**Kirsty Williams:** Finally, Deputy Presiding Officer, I note the remarks made about planning, but it is not only future developments that we have to worry about. In my constituency, the people of Trecastle used to be able to walk their children to school; they cannot do so any more because the school has closed. The removal of vital

mawr eisoes yn Ewrop ac yn Lloegr drwy wario symiau cymharol fach o arian—ni fyddai hyn yn costio llawer i'r Llywodraeth. Pan gymharwch y gwariant â'r gyllideb drafnidiaeth yn ei chyfanrwydd, ac ystyried yr effaith y mae hyn yn ei chael arnom, gallwch weld ein bod mewn gwirionedd yn sôn am wneud gwahaniaethau mawr am symiau cymharol fach o arian.

Wn i ddim a oes angen cynllun teithio unigol ar bob un ohonom yng Nghymru. Wn i ddim beth fyddai Brynle Williams, er enghraifft, yn ei wneud ag ef petai'n cael un—ni allwn ond dyfalu. Fodd bynnag, os rhoddwn y wybodaeth a'r dewisiadau i bobl, byddant yn newid eu hymddygiad. Nid oes arnom angen cynllun peilot arall; ni allaf gredu bod meddylfryd pobl Cymru wahanol i feddylfryd pobl mewn mannau eraill, lle mae hyn wedi llwyddo. Gadewch inni fynd ati a gwneud hyn. Rhaid inni fod yn realistig; ni fydd pobl yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'u ceir. Bydd pobl yn dymuno gyrru bob amser a bydd angen iddynt wneud hynny, ac ni fyddai cynlluniau teithio unigol na'r gwasanaeth bws gorau yn y byd yn newid hynny. Felly, rhaid inni eu cynorthwyo i wneud dewisiadau doeth o ran y ceir maent yn eu prynu, er enghraifft. Er bod ceir yn dod ar y farchnad sy'n fwy caredig yn ecolegol, nid yw tueddiadau prynu pobl wedi newid ac nid ydym yn gweld pobl yn dewis prynu ceir sy'n fwy caredig i'r amgylchedd—maent yn dal i brynu modelau mwy traddodiadol o ran eu peirianwaith. Rhaid inni gydnabod hynny. Yn hyn o beth, gallai cynigion Ecodrive a GreenFleet wneud gwahaniaeth mawr. Gyda phrisiau tanwydd mor uchel ar hyn o bryd, ni fu erioed well cyfle i argyhoeddi pobl fod angen newid, a dyna y mae angen inni ei wneud.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'n amser dirwyn i ben, Kirsty.

**Kirsty Williams:** Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, sylwaf ar y sylwadau a wnaethpwyd ar gynllunio, ond nid am ddatblygiadau'r dyfodol yn unig y dylem fod yn poeni. Yn fy etholaeth i, arferai pobl Trecastell gerdded gyda'u plant i'r ysgol; ni allant wneud hynny bellach gan fod yr ysgol wedi'i chau. Nid yw colli gwasanaethau hanfodol, megis

services, such as post offices, schools and hospitals do not add to this agenda—they take away from it.

**Alun Ffred Jones:** Ni fyddaf yn siarad yn hir; bu digon o siarad y prynhawn yma, efallai.

Cychwynnaf â'r hyn a ddywedodd Stern, sef y bydd newid ymddygiad ym maes trafndiaeth yn anoddach nag mewn unrhyw faes arall, efallai. Yr ydym wedi clywed sôn y prynhawn yma am newid ymddygiad a phamor hanfodol yw hynny, ac yr wyf yn falch iawn o glywed bod Brynle Williams—ac mae'n ddrwg gennyf ei fod wedi gadael y Siambr—am ddechrau beicio; yr wyf yn siŵr y bydd yn elwa'n fawr o hynny. Mae gennyf gwestiwn syml iawn i bawb ohonom sydd yma heddiw: faint ohonom sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus? Faint ohonom sy'n dod yma ar drên, ar fws neu ar gefn beic? Y gwir amdani yw mai ychydig iawn ohonom sy'n gwneud hynny.

3.30 p.m.

Yr ydym yn sôn o hyd am gael pobl eraill i newid eu ffordd, ond yn y bôn, yr ydym yn ei ffeindio hi'n anodd. O ran newid i drafnidiaeth gyhoeddus, yr ydym i gyd yn gwybod bod rhaid iddo fod yn lan, yn ddibynadwy, yn gyflym ac yn gyfleus, ac mae honno'n her eithriadol. Yr oeddwn mewn cyfarfod gyda Trenau Arriva y bore yma—fi oedd un o'r ychydig Aelodau a oedd yno; yr oedd Kirsty a Mike yno, mi wn—ac un ffaith syfrdanol a ddysgais o'r cyfarfod hwnnw oedd bod 60 y cant o incwm Trenau Arriva Cymru yn gymhorthdal. Mae hynny'n dangos pa mor ddibynnol yw trafndiaeth gyhoeddus ar grantiau, ac mae'n cyfyngu ar yr hyn sy'n bosibl i'w gyflawni o fewn y maes. Felly, mae'r her sy'n ein hwynebu o ran newid arferion pobl yn un eithriadol.

Soniaf am ddau beth sydd yn yr adroddiad. Mae sôn ynglŷn â chael cyrff cyhoeddus a sefydliadau i geisio arbed ynni a newid eu ffordd o drefnu trafndiaeth. Mae cynllun rhannu ceir yn cael ei hyrwyddo gan gynghorau yn sicr, ac efallai gan fudiadau eraill. Mae gwefan ynglŷn â hynny ar gael, ac mae patrwm ohoni eisoes yn cael ei defnyddio yn Lloegr, ond nid yw ar gael yn

swyddfeydd post, ysgolion ac ysbytai yn ychwanegu at yr agenda hon—maent yn tynnu oddi arni.

**Alun Ffred Jones:** I will not speak for long; there has been enough talk this afternoon, perhaps.

I will begin with what Stern said, namely that changing behaviour in relation to transport will perhaps be more difficult than in any other area. We have heard talk this afternoon about changing behaviour and how crucial it is, and I am very pleased to hear that Brynle Williams—I am sorry that he has left the Chamber—will take up cycling; I am sure he will benefit a great deal from that. I have a very simple question for every one of us here today: how many of us use public transport? How many of us travel here by train, bus, or bike? The truth is that very few of us do so.

We are always talking about getting other people to change their ways, but in fact we are finding it difficult. In terms of the shift to public transport, we all know that it has to be clean, reliable, fast and convenient, and that is a huge challenge. I was at a meeting with Arriva Trains this morning—I was one of the few Members there; I know that Kirsty and Mike were also there—and one startling fact which I learned from that meeting was that 60 per cent of Arriva Trains Wales's income is subsidy. That shows how dependent public transport is on grants, and it limits what can be achieved in the field. Therefore, the challenge we face in trying to change people's habits is huge.

I will mention two things that are in the report. There is mention of getting public bodies and institutions to try to save energy and change the way they organise transport. A car-sharing scheme is being promoted, certainly by councils and perhaps by other organisations. There is a website for that, following a pattern already in use in England, but it is not available bilingually. I urge the

ddwyieithog. Yr wyf yn pwysu ar y Llywodraeth i sicrhau y bydd hynny ar gael yn fuan.

Cyfeiriaf at fater sydd eisoes wedi cael sylw, sef yr awgrym hwn ynglŷn â chynllunio, a'r angen i fod yn ofalus rhag hyrwyddo rhagor o ddatblygiadau masnachol ar gyrion trefi a thu allan iddynt. Mae hwn yn eithriadol o bwysig am bob math o resymau. Mae'r effaith y mae hynny'n ei gael ar ganol trefi yn un rheswm, ond mae hefyd yn annog yr arferiad o ddefnyddio'r car i fynd i siopa. Gwn fod y Gweinidog wedi dweud mai mater o drafodaeth rhyngddo ef a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yw hyn ond credaf y dylem naill ai wneud rhywbeth ynghylch yr argymhelliad hwn neu ddylem roi'r gorau i siarad amdano, ac mae hynny'n wir am lawer o'r argymhellion yn yr adroddiad. Mae hwn yn her eithriadol i'r Gweinidog a'r Llywodraeth, ond os nad ydym yn mynd i wneud rhywbeth ynglŷn â rhai o'r argymhellion hyn, byddai'n well gennyf roi'r gorau i siarad amdanynt. Ni ddylem siarad yn ddiidiwedd amdanynt heb gyflawni yr hyn yr ydym am weld yn digwydd yn y maes hwn.

**Lorraine Barrett:** I agree with Alun Ffred that it is put-up-or-shut-up time. My credentials are that I have a train ticket here; the Health and Social Services Committee is travelling by train to Wrexham this evening, so we are doing it the right way. I had a vision of the Deputy Presiding Officer cycling here from Caerleon every morning when Alun Ffred asked how many of us cycle or walk here. I must confess that I drive here, at a distance of four miles from door to door. I am sorry to bang on about it again but, once the barrage road is open, I will be walking or cycling, as will—

**David Melding:** I think that we both ought to get on our bikes and, as soon as the inner harbour walkway and cycleway is open, come down in tandem and in political agreement and consensus. I extend that invitation to the Member.

Government to ensure that that is available as soon as possible.

I refer to a matter that has already been covered, namely this suggestion about planning, and the need to be careful not to encourage more commercial developments on the outskirts of towns and outside towns. That is crucial for all sorts of reasons, one of which is the effect it has on town centres, but it also encourages the practice of using the car to do one's shopping. I know the Minister has said that this is a matter of discussion between him and the Minister for Environment, Sustainability and Housing, but I believe, as with many of the recommendations in the report, that we should either do something about this recommendation or stop talking about it. This is a huge challenge for the Minister and for the Government, but if we do not do something about some of these recommendations, I would rather we stopped talking about them. We should not endlessly talk about them without achieving what we want to see happening in this area.

**Lorraine Barrett:** Yr wyf yn cytuno ag Alun Ffred ei bod yn bryd un ai i weithredu neu i roi'r gorau i siarad am hyn. Gallaf brofi fy mod o ddifrif oherwydd mae gennyf docyn trê'n i ddod yma; bydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd ar y trê'n i Wrecsam heno, felly, yr ydym yn gwneud hyn yn iawn. Dychmygais y Dirprwy Lywydd yn dod yma ar gefn beic o Gaerllion bob bore pan ofynnodd Alun Ffred faint ohonom sy'n dod yma ar feic neu ar droed. Rhaid imi gyfaddef fy mod yn gyrru yma, pellter o bedair milltir o ddrws i ddrws. Mae'n ddrwg gennyf rygnu ymlaen ar hyn eto, ond ar ôl agor ffordd y morglawdd, byddaf yn cerdded neu'n dod ar gefn beic, fel y bydd—

**David Melding:** Credaf y dylem ein dau fynd ar ein beiciau, a chyn gynted ag yr agorir rhodfa a llwybr seiclo'r harbwr mewnlol, dylem ddod i lawr gyda'n gilydd ac yn wleidyddol gytûn. Estynnaf y gwahoddiad hwnnw i'r Aelod.

**Lorraine Barrett:** Thank you, neighbour; I will knock your door as I am passing of a morning.

It has all been said. We must find ways of encouraging less reliance on the car. It is all too easy to jump in our cars to get to places or to sit for hours in traffic jams. However, depending on where you live, it is not always that easy to get a train or a bus to work.

I am particularly enthusiastic about recommendation 4, which the Government has accepted in part. The Sustrans TravelSmart programme looks at working with regional transport consortia to develop plans for individual towns to become exemplars in terms of their sustainable travel. I know that my colleague, the Member for the Rhondda, will not mind my using this as an example: if you try to get to Pontyclun or Llantrisant, where there is a critical mass of job opportunities at the retail parks and various factories, by train by 8 a.m. from the Rhondda Fach—somewhere like Ynyshir, for instance—you have to walk to Porth, get a train to Cardiff, and then a train from Cardiff back up to Pontyclun. It takes about an hour and a half to complete a 10-mile journey. That is ridiculous. If you take a bus, you have to walk part of the way and change buses, and you might be 10 minutes late or half an hour early. It is not easy, and that is the key: we need to make it easy for people to use public transport, and we need joined-up thinking on this.

I welcome this debate. The inquiry has been interesting and enjoyable. It is not yet over; there is a long way to go.

**The Deputy First Minister:** Kirsty's words about the Government being good at talking the talk struck me when I saw the Liberal Democrat amendment to the Tory motion on windfarms. Frankly, those two parties are doing no more than talking the talk. When there is an opportunity to vote to improve energy reduction by using wind power, they want to vote against it. Here they are, talking to us about carbon reduction in transport and giving us these lectures, but when it comes to

**Lorraine Barrett:** Diolch i chi, gymydog; byddaf yn curo ar eich drws wrth fynd heibio yn y bore.

Mae'r cyfan wedi ei ddweud. Rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd i gymell llai o ddibyniaeth ar y car. Mae'n rhy hawdd neidio i'n ceir i gyrraedd lleoedd neu eistedd am oriau mewn tagfeydd traffig. Fodd bynnag, yn ôl ble yr ydych yn byw, nid yw bob amser mor hawdd dal trê neu fws i fynd â chi i'r gwaith.

Yr wyf yn arbennig o frwd ynghylch argymhelliad 4, sydd wedi ei dderbyn yn rhannol gan y Llywodraeth. Mae rhaglen TravelSmart Sustrans yn edrych ar gydweithio â chonsortia trafndiaeth rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau fel y gall trefi penodol ddod yn batrymau o ran teithio cynaliadwy. Gwn na fydd gwahaniaeth gan fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Rhondda, os defnyddiaf hyn fel enghraifft: os ceisiwch gyrraedd Pont-y-clun neu Lantrisant, lle mae nifer mawr o gyfleoedd gwaith yn y parciau manwerthu a'r gwahanol ffatrioedd, ar y trê erbyn 8 a.m. o Rondda Fach—rhywle fel Ynys-hir, er enghraifft—rhaid ichi gerdded i'r Porth, dal trê i Gaerdydd, a thrê o Gaerdydd wedyn yn ôl i Bont-y-clun. Mae'n cymryd tuag awr a hanner i gwblhau taith o 10 milltir. Mae hynny'n chwerthinlyd. Os ewch mewn bws, rhaid ichi gerdded rhan o'r ffordd a newid bws, a gallech fod 10 munud yn hwyr neu hanner awr yn fuan. Nid yw'n hawdd, a dyna'r allwedd; mae angen inni ei gwneud yn hawdd i bobl ddefnyddio cludiant cyhoeddus, ac mae arnom angen syniadau cydgysylltiedig am hyn.

Croesawaf y ddadl hon. Mae'r ymchwiliad wedi bod yn ddiddorol ac yn bleserus. Nid yw ar ben eto; mae llawer i'w wneud.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Fe'm trawyd gan eiriau Kirsty fod y Llywodraeth yn dda am wag-siarad pan welais welliant y Democratiaid Rhyddfrydol i gynnig y Torïaid ar ffermydd gwynt. A dweud y gwir, nid yw'r ddwy blaid hynny'n gwneud mwy na gwag-siarad. Pan fydd cyfle i bleidleisio i wella defnyddio ynni drwy ddefnyddio ynni'r gwynt, maent am bleidleisio yn ei erbyn. A dyma hwy, yn sôn wrthym am leihau allyriadau carbon gan drafndiaeth a



the vote, they will support a motion that calls on the Welsh Assembly Government to,

‘abandon its plans to build Wind Turbines on Forestry Commission Wales land.’

Frankly, I am not taking any lessons from the Conservative Party on this issue.

Going back to the points that were made in the debate—[*Interruption.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Please do not interrupt, Kirsty.

**The Deputy First Minister:** Going back to the points that were made in debate, Leanne mentioned that there were transport projects in the pipeline that we could amend in relation to our targets. I made it clear in the Wales transport strategy that there will be occasions when I will be called upon to consider alternatives to road schemes, and there will be occasions, I am sure, when that alternative will be public transport. That is not to say that in certain other cases, where the evidence is overwhelming, new road programmes will not be necessary. However, there will definitely be a change in the way that we adopt such programmes.

Coming to the issue of recommendation 7, which Andrew R.T. Davies mentioned, I was not sure what he was trying to say about the issue of planning. The point that Alun Ffred made is crucial here. He said that out-of-town developments, particularly in rural areas, tend to be designed around the car as the main mode of transport, and such developments take business away from the town centres. We need to create a more level playing field, so that people can use public transport to travel to the town centre or to out-of-town shopping centres. I do not see that there is any difference between that being in a rural area or in an urban area.

On the issue of bus operators, the Government is committed to maintaining support for the bus industry, and I will shortly be announcing a review on the transport grant for buses. It is important for

phregethu wrthym fel hyn, ond pan ddaw i'r bleidlais, byddant o blaid cynnig sy'n galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i,

‘rhoi'r gorau i'w chynlluniau i adeiladu Tyrbinau Gwynt ar dir Comisiwn Coedwigaeth Cymru.’

A dweud y gwir, nid wyf am wrando ar unrhyw wersi gan y Blaid Geidwadol ar y mater hwn.

I fynd yn ôl at y pwyntiau a wnaethpwyd yn y ddadl—[*Torri ar draws.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Peidiwch â thorri ar draws, Kirsty, os gwelwch yn dda.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** I fynd yn ôl at y pwyntiau a wnaethpwyd yn y ddadl, dywedodd Leanne fod yna brosiectau trafniadaeth ar y gweill y gallem eu newid mewn cysylltiad â'n targedau. Eglurais yn strategaeth drafniadaeth Cymru y bydd adegau pan elwir arnaf i ystyried dewisiadau yn lle cynlluniau ffyrdd, a bydd adegau, mae'n siŵr, pan fydd cludiant cyhoeddus yn ddewis o'r fath. Nid yw hynny'n gyfystyr â dweud, mewn rhai achosion eraill, pan fydd y dystiolaeth yn ddiymwad, na fydd rhaglenni ffyrdd newydd yn angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'n sicr y bydd newid yn y modd yr ydym yn mabwysiadu rhaglenni o'r fath.

I ddod at fater argymhelliad 7 y cyfeiriodd Andrew R.T. Davies ato, nid oeddwn yn sicr beth yr oedd yn ceisio'i ei ddweud ar fater cynllunio. Mae'r pwynt a wnaeth Alun Ffred yn hanfodol yn hyn. Dywedodd fod tuedd i ddylunio datblygiadau y tu allan i drefi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, o gwmpas y car fel y prif ddull trafniadaeth, ac mae datblygiadau o'r fath yn mynd â busnes oddi wrth ganol trefi. Mae angen inni sicrhau mwy o chwarae teg, fel y gall pobl ddefnyddio cludiant cyhoeddus i deithio i ganol y dref neu i ganolfannau siopa y tu allan i drefi. Ni welaf fod dim gwahaniaeth a yw hynny mewn ardal wledig ynte ardal drefol.

Ar fater gweithredwyr bysiau, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i barhau'r cymorth i'r diwydiant bysiau, a byddaf yn cyhoeddi adolygiad cyn hir o'r grant trafniadaeth i fysiau. Mae'n bwysig inni

us to continue with the idea of having a pilot scheme for the sustainable towns initiative; the Government is committed to that and will continue to pursue it. I have also made it clear that there will be, as appropriate, a review of the Welsh transport planning and appraisal guidance, or WelTAG.

I was not quite sure what the issue was regarding the airport in Snowdonia national park—it has been used by the Ministry of Defence for a considerable time, I believe. However, we will put that to one side for the moment.

**Kirsty Williams:** Will you take an intervention?

**The Deputy First Minister:** No—I have just a couple of minutes left.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You do not have that long, Deputy First Minister.

**The Deputy First Minister:** Lorraine made an important point—and I must finish on this, because I am taxing the Deputy Presiding Officer's patience—about integrating public transport provision. That is one of the ways in which we have to make progress if we are to give people good choices.

3.40 p.m.

**Michael German:** I am replying on behalf of the committee, so I will not invite the Deputy First Minister to look at the Liberal Democrat amendment, which does not do what he said—I will do that later. On the face of it, what we have seen today is a response from the Minister that appears to be positive. However, the question 'Where is the action?' has been asked in various ways by Members on all sides of the Chamber—on the Government side and on the opposition side. I suspect that what the members of the committee feel in their hearts is that if you dig a little deeper into the Government's response, you find that it is lacking substance. I will remind the Minister what he said about WelTAG. Does this response carry the sense of urgency that we were looking for?

barhau'r syniad o gael cynllun peilot ar gyfer y cynllun trefi cynaliadwy; mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i hynny a bydd yn dal i fynd ar ôl y mater. Yr wyf wedi egluro hefyd y bydd adolygiad, fel sy'n briodol, o'r Arweiniad ar Gynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, neu WelTAG.

Nid oeddwn yn hollol sicr beth oedd y gwrthwynebiad mewn cysylltiad â'r maes awyr ym mharc cenedlaethol Eryri—mae wedi'i ddefnyddio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ers cryn amser, mi gredaf. Fodd bynnag, rhoddwn hynny o'r neilltu am y tro.

**Kirsty Williams:** A dderbyniwch chi ymyriad?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Na wnaf—dim ond ychydig funudau sydd gennyf ar ôl.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid oes gennych gymaint â hynny, Ddirprwy Brif Weinidog.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gwnaeth Lorraine bwynt pwysig—a rhaid imi orffen ar hyn, gan fy mod yn trethu amynedd y Dirprwy Lywydd—am integreiddio darparu cludiant cyhoeddus. Mae hwnnw'n un o'r meysydd lle mae'n rhaid inni wneud cynnydd os ydym i roi dewisiadau da i bobl.

**Michael German:** Yr wyf yn ymateb ar ran y pwyllgor, felly, ni wahoddaf y Dirprwy Brif Weinidog i edrych ar welliant y Democratiaid Rhyddfrydol, nad yw'n golygu'r hyn a ddywedodd—gwnaf hynny'n ddiweddarach. Ar yr olwg gyntaf, mae'r ymateb a welsom heddiw gan y Gweinidog yn ymddangos yn gadarnhaol. Er hynny, gofynnwyd y cwestiwn 'Ym mhle y mae'r gweithredu?' mewn gwahanol ffyrdd gan Aelodau ar bob ochr i'r Siambr—ar ochr y Llywodraeth ac ar ochr y gwrthbleidiau. Yr wyf yn amau mai'r hyn y mae aelodau'r pwyllgor yn ei deimlo yn eu calonau yw, os tyrchwch ychydig yn ddyfnach i ymateb y Llywodraeth, y gwelwch ei fod yn ddisylwedd. Atgoffaf y Gweinidog am yr hyn a ddywedodd am WelTAG. A yw'r ymateb hwn yn dangos yr ymdeimlad o frys yr oeddem yn chwilio amdano?

'I will keep the WelTAG guidance under regular review and envisage that it will be updated and enhanced from time to time to ensure that it is consistent with the environmental and carbon targets set out in the 'One Wales' agreement.'

The committee's recommendation was as follows:

'The committee recommends that the Welsh Assembly Government reviews the use of WelTAG as a matter of urgency to ensure that carbon reduction is the main objective when assessing projects.'

The last part of that recommendation is important and, indeed, this point was made by Leanne: carbon reduction should be the main objective when assessing projects. That was the reason for that recommendation being made and why we have pursued this issue. It is important that the Minister recognises that that is an important need.

The second area in which we are looking for substance is that of budget shifting. I know that the Minister has said that it will take some time but that he will move some money around, but I refer Members to the transport budget for 2007-11 and some of the evidence about shifting money and the recommendations on transport. In 2007-08, roads made up more than 65 per cent of the total transport budget. The roads budget for 2010-11 has decreased by only 1 per cent to 64 per cent. It is difficult to see how the committee's recommendation in relation to changing behaviours and improving public transport can be achieved within an existing budget that remains so heavily focused on roads. Again, members of the committee made that point.

I would like to highlight a couple of areas of good practice that the committee saw during its visit to Freiberg in Germany. Freiberg is a solar city and an exemplar of sustainable planning and transport provision. One in three journeys in Freiberg is made by bicycle. Residents in Vauban, a suburb of Freiberg, have decided to have car-free zones and there

Byddaf yn adolygu arweiniad WelTAG yn rheolaidd, a rhagwelaf y caiff ei ddiweddarau a'i wella o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn gyson â'r targedau amgylcheddol a'r targedau carbon sydd wedi'u gosod allan yng nghytundeb 'Cymru'n Un'.

Yr oedd argymhelliad y pwyllgor fel a ganlyn:

'Mae'r Pwyllgor yn argymhell, felly, fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n adolygu'r modd y defnyddir WelTAG ar frys er mwyn sicrhau mai lleihau allyriadau carbon yw'r prif amcan wrth asesu prosiectau.'

Mae rhan olaf yr argymhelliad hwnnw'n bwysig ac, yn wir, gwnaethpwyd y pwynt hwn gan Leanne: dylai lleihau allyriadau carbon fod yn brif amcan wrth asesu prosiectau. Dyna pam y gwnaethpwyd yr argymhelliad hwnnw a dyna pam yr ydym wedi mynd ar ôl y mater hwn. Mae'n bwysig i'r Gweinidog gydnabod bod hynny'n angen pwysig.

Yr ail faes lle'r ydym yn chwilio am sylwedd yw newid mewn cyllidebau. Gwn fod y Gweinidog wedi dweud y bydd yn cymryd cryn amser ond y bydd yn symud rhywfaint o arian o gwmpas, ond cyfeiriaf sylw Aelodau at y gyllideb drafnidiaeth ar gyfer 2007-11 a rhywfaint o'r dystiolaeth ar symud arian a'r argymhellion ar drafnidiaeth. Yn 2007-08, yr oedd dros 65 y cant o gyfanswm y gyllideb drafnidiaeth ar gyfer ffyrdd. Nid yw'r gyllideb ffyrdd ar gyfer 2010-11 wedi gostwng ond 1 y cant i 64 y cant. Mae'n anodd gweld sut y gellir gwireddu argymhelliad y pwyllgor mewn cysylltiad â newid ymddygiad a gwella cludiant cyhoeddus o fewn cyllideb sydd, fel y mae, yn dal i roi cymaint o bwyslais ar ffyrdd. Unwaith eto, aelodau o'r pwyllgor a wnaeth y pwynt hwnnw.

Hoffwn dynnu sylw at ddau faes o arfer da a welodd y pwyllgor yn ystod ei ymweliad â Freiberg yn yr Almaen. Mae Freiberg yn ddinas solar ac yn esiampl o ran cynllunio cynaliadwy a darparu trafndiaeth. Mae un daith o bob tair yn Freiberg yn digwydd ar gefn beic. Mae preswylwyr yn Vauban, un o faestrefi Freiberg, wedi penderfynu cael

are annual charges for those who want to park their cars near their homes. There are 8.5 cars per 100 people. If that is the benchmark, we have a long way to go. The committee has provided a clear programme of action for the Welsh Assembly Government to achieve real results on tackling carbon emissions by transport.

I hope that the Minister will make every effort to implement effectively those recommendations that he has accepted. For those that he has accepted only in part, I hope that the Minister takes on board Members' comments today and keeps them under review. The committee will continue to monitor the Government's progress on achieving its recommendations and we await with interest the outcome of discussions between the Minister and the Minister for Environment, Sustainability and Housing on recommendation 7.

In conclusion, I thank everyone who has participated in this debate. I also thank, once again, the members of the committee and the clerks for a very substantive report.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to note the committee's report. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### **Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru The Enterprise and Learning Committee's Report on Skills That Work for Wales**

**Gareth Jones:** Cynig iaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar strategaeth sgiliau a chyflogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ebrill 2008. (NDM3948)*

parthau heb geir, a chodir ffioedd blynyddol ar y rheini sy'n dymuno parcio'u ceir ger eu cartrefi. Mae 8.5 o geir am bob 100 o bobl. Os hwnnw yw'r meincnod, mae gennym lawer i'w wneud. Mae'r pwyllgor wedi darparu rhaglen weithredu glir i Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau canlyniadau pendant wrth fynd i'r afael ag allyriadau carbon gan drafnidiaeth.

Gobeithio y bydd y Gweinidog yn gwneud pob ymdrech i weithredu'n effeithiol yr argymhellion hynny y mae wedi'u derbyn. O ran y rheini y mae wedi'u derbyn yn rhannol yn unig, gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried sylwadau a wnaeth Aelodau heddiw ac yn dal i roi sylw iddynt. Bydd y pwyllgor yn dal i fonitro cynnydd y Llywodraeth ar gyflawni ei argymhellion, ac yr ydym yn disgwyl yn eiddgar am ganlyniad trafodaethau rhwng y Gweinidog a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar argymhelliad 7.

I gloi, diolchaf i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon. Yr wyf hefyd yn diolch, unwaith eto, i aelodau'r pwyllgor ac i'r clerod am adroddiad sylweddol iawn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw nodi adroddiad y pwyllgor. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

**Gareth Jones:** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*notes the report of the Enterprise and Learning Committee on the Welsh Assembly Government's skills and employment strategy 'Skills That Work for Wales', which was laid in the Table Office on 14 April 2008. (NDM3948)*

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu, mae'n bleser gennyf gynnig bod y Cynulliad yn nodi adroddiad y pwyllgor ar strategaeth sgiliau a chyflogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ebrill. Cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar ei strategaeth sgiliau a chyflogaeth ar 17 Ionawr. Yr oedd hynny'n fuan wedi i Syr Adrian Webb gyhoeddi canlyniadau ei adolygiad o'r sector addysg bellach yng Nghymru, 'Addewid a Chyflawniad'. Fodd bynnag, amcan pennaf 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yw ymateb i adroddiad yr Arglwydd Leitch, 'Prosperity for all in the global economy—world class skills'.

Yn y cyd-destun hwn felly, a chan gofio pwysigrwydd yr agenda sgiliau ar gyfer creu gwlad ffyniannus a all gystadlu yn yr economi fyd eang, yr oedd aelodau'r pwyllgor yn unfryd o'r farn fod angen inni ymateb i'r ymgynghoriad. Bu i'r pwyllgor graffu ar waith y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a chynrychiolydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i John ac i Stephen Martin am eu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, ac i'r Dirprwy Weinidog yn arbennig am ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gais y pwyllgor, a hynny mewn pryd inni ei chynnwys yn yr adroddiad.

Heddiw, felly, cawn y cyfle i drafod adroddiad ac argymhellion y pwyllgor ac ymateb y Dirprwy Weinidog iddynt. Yr ydym yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am roi ystyriaeth ofalus i ddymuniadau'r pwyllgor, ond yr ydym yn siomedig na welodd yn dda i dderbyn rhagor o'n hargymhellion. Yn ôl yr ymateb a osodwyd gerbron y Cynulliad i'r argymhellion a oedd yn cyfeirio'n benodol at y Llywodraeth, nid yw'n derbyn ond un ohonynt, gan nodi pedwar, cynnig ymateb sydd, ar y gorau, yn amwys i dri arall, a gwrthod dau. Gobeithiaf y bydd ei araith ymhen ychydig funudau yn ein goleuo ymhellach ynghylch ei resymau am hyn.

Trof yn awr at argymhellion y pwyllgor. Ceisiaf eu cyflwyno ochr yn ochr ag ymateb y Dirprwy Weinidog, gan grynhoi ein

As Chair of the Enterprise and Learning Committee, it is my pleasure to propose that the Assembly notes the committee's report on the Welsh Assembly Government's skills strategy, 'Skills That Work for Wales', which was laid in the Table Office on 14 April. The Government announced a consultation on its skills and employment strategy on 17 January. That was soon after Sir Adrian Webb announced the results of his review of the further education sector in Wales, 'Promise and Performance'. However, the main aim of 'Skills That Work for Wales' is to respond to Lord Leitch's report, 'Prosperity for all in the global economy—world class skills'.

In that context, therefore, and bearing in mind the importance of the skills agenda to creating a prosperous nation that can compete in the global economy, the committee members were of the unanimous view that we needed to respond to the consultation. The committee scrutinised the work of the Deputy Minister for Skills and a representative of the Department for Work and Pensions in its meeting on 27 February. The committee is grateful to John and to Stephen Martin for their oral and written evidence, and particularly to the Deputy Minister for providing additional information, at the committee's request, in time to include it in our report.

Therefore, today, we have the opportunity to discuss the committee's report and recommendations and the Deputy Minister's response. We are grateful to the Deputy Minister for giving careful consideration to the committee's wishes, but we are disappointed that he did not see fit to accept more of our recommendations. According to the response to the recommendation laid before the Assembly, which referred specifically to the Government, he will accept just one of them, will note four, provides a response that is ambiguous at best to another three, and rejects two. I hope that his speech in a few minutes' time will enlighten us further on his reasons for that.

I now turn to the committee's recommendations. I will try to present them alongside the Deputy Minister's response,

safbwynt fel Aelodau ar y materion hollbwysig sydd gerbron.

The Deputy Minister has noted our recommendation that, in principle, the benchmark for intermediate skills should be raised from level 2 to level 3. There was much discussion in the committee about improving the esteem, quantity and quality of intermediate skills. We are glad that the Deputy Minister will take the views of consultees into account, but we will follow developments closely to ascertain whether a demand-led supply of learning, which is current Government policy, will best meet our needs in Wales.

The two recommendations that the Deputy Minister has not accepted concern Wales's representation on the UK Commission for Employment and Skills, which began its work on 1 April, and the Government's response to the Webb review. We noted inconsistencies between 'Skills That Work for Wales' and key proposals in the Webb review, especially with regard to the sector priorities fund. The Deputy Minister has stated in his response that his final strategy will contain those proposals that are being carried forward from the Webb review. We maintain, however, that the Webb review—with its analysis of developments in 14 to 19 education, its responsiveness to the skills needs of employers and the economy, adult learning, social justice and community engagement, the interface with higher education provision, and the needs of, and responsiveness to, post-14 learners in Wales—merits a full response now, six months after its publication.

We are glad that the Deputy Minister accepts the value of the further education sector in its contribution to the delivery of vocational higher level skills. We are, however, concerned that the Government did not seek powers to permit further education colleges to award foundation degrees, and we recommend that it seeks these powers as soon as possible. As such, we look forward to the announcement of the Government's legislative programme next month.

On employment targets, we were interested

giving a summary of our stance as Members on these vital matters before us.

Mae'r Dirprwy Weinidog wedi nodi ein hargymhelliad y dylid, mewn egwyddor, godi'r meincnod ar gyfer sgiliau canolradd o lefel 2 i lefel 3. Bu llawer o drafod yn y pwyllgor ynglŷn â gwella bri, nifer ac ansawdd sgiliau canolradd. Yr ydym yn falch y bydd y Dirprwy Weinidog yn ystyried safbwyntiau'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy, ond byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau er mwyn gweld ai darparu dysgu yn ôl y galw, sef polisi'r Llywodraeth ar hyn o bryd, yw'r ffordd orau o ddiwallu ein hanghenion yng Nghymru.

Mae'r ddau argymhelliad nad yw'r Dirprwy Weinidog wedi'u derbyn yn ymwneud â chynrychiolaeth Cymru ar Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, a ddechreuodd ei waith ar 1 Ebrill, ac ymateb y Llywodraeth i adolygiad Webb. Nodwyd anghysonderau gennym rhwng 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' a chynigion allweddol yn adolygiad Webb, yn enwedig o ran cronfa flaenoriaethau'r sector. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cyhoeddi yn ei ymateb y bydd ei strategaeth derfynol yn cynnwys y cynigion hynny sy'n cael eu dwyn ymlaen o adolygiad Webb. Yr ydym yn dal i fynnu, fodd bynnag, fod adolygiad Webb—a'i ddadansoddiad o ddatblygiadau ym maes addysg 14 i 19, ei ymateb i anghenion sgiliau cyflogwyr a'r economi, dysgu ar gyfer oedolion, cyfiawnder cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned, y cyd-gysylltiad â'r ddarpariaeth addysg uwch, ac anghenion dysgwyr ôl-14 yng Nghymru a'r ymateb i hynny—yn haeddu ymateb llawn yn awr, chwe mis ar ôl i'r adolygiad gael ei gyhoeddi.

Yr ydym yn falch fod y Dirprwy Weinidog yn derbyn gwerth y sector addysg bellach o safbwynt ei gyfraniad at ddarparu sgiliau galwedigaethol uwch. Yr ydym, fodd bynnag, yn bryderus na ofynnodd y Llywodraeth am bwerau i ganiatáu i golegau addysg bellach ddyfarnu graddau sylfaen, ac yr ydym yn argymhell y dylai ofyn am y bwerau hyn cyn gynted â phosibl. Yn hynny o beth, edrychwn ymlaen at weld cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth fis nesaf.

O ran targedau cyflogaeth, yr oedd gennym

to explore whether the Welsh Assembly Government and the Department for Work and Pensions would commit to a definite timescale on the long-term goal of achieving full employment or an employment rate of 80 per cent of the working-age population. We are glad that the Deputy Minister is reconsidering his position on that.

Economic inactivity remains a major challenge. We have recorded our deep concern that Wales has high levels of inactivity and low levels of skills. Since the publication of our report, the Deputy Minister has published his consultation on NEETs: people who are not in employment, education and training. We are concerned that his approach to this problem appears to acknowledge that NEETs will be a permanent feature of the workforce. We therefore urge him to think again and to give additional emphasis to the need to reform the curriculum for key stages 2 and 3, since, as his consultation acknowledges, disaffection does not begin at age 16.

3.50 p.m.

When he appeared before the committee, the Deputy Minister agreed that there was currently a variety of attitudes among employers towards training and developing the workforce. We had evidence of a number of employers who were disinterested in upskilling their employees, preferring to keep them on low wages than pay for their training and development. For that reason, we were concerned with the way in which the Careers Ladders Wales concept was presented in the consultation. The emphasis appears to be on back-to-work training, which we believe will not meet the needs of the current workforce. There is overwhelming evidence to show that many, having entered employment, are trapped in low-paid, low-skilled jobs. We urge the Deputy Minister to reconfigure his proposals for Careers Ladders Wales, so that the initiative is implemented as an in-work advancement programme.

On reconfiguration of the learning network, the Deputy Minister, in line with the Webb review, acknowledged the need to improve

ddiddordeb mewn archwilio a fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymrwymo i amserlen bendant ar y nod hirdymor o sicrhau cyflogaeth lawn neu gyfradd cyflogaeth o 80 y cant o bobl oed gweithio. Yr ydym yn falch fod y Dirprwy Weinidog yn ailystyried ei safbwynt ar hynny.

Erys anweithgarwch economaidd yn her fawr. Yr ydym wedi cofnodi ein pryderon dybryd fod yng Nghymru lefelau uchel o anweithgarwch a lefelau isel o sgiliau. Ers cyhoeddi ein hadroddiad, mae'r Dirprwy Weinidog wedi cyhoeddi ei ymgynghoriad ar NEETs: pobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Yr ydym yn bryderus fod ei agwedd at y broblem hon yn ymddangos fel petai'n cydnabod y bydd y bobl hyn yn nodwedd barhaol yn y gweithlu. Felly, anogwn ef i ailystyried ac i roi rhagor o bwyslais ar yr angen i ddiwygio'r cwricwlwm ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3, oherwydd, fel y mae ei ymgynghoriad yn cydnabod, nid pan fydd plant yn 16 oed y byddant yn dechrau ymddieithrio.

Pan ymddangosodd y Dirprwy Weinidog gerbron y pwyllgor, cytunodd fod amrywiaeth o agweddau at hyfforddi a datblygu'r gweithlu ymhlith cyflogwyr ar hyn o bryd. Cawsom dystiolaeth am nifer o gyflogwyr a oedd yn ddifater ynghylch codi lefel sgiliau eu gweithwyr, ac yr oedd yn well ganddynt eu cadw ar gyflogau isel na thalu i'w hyfforddi a'u datblygu. O'r herwydd, yr oeddem yn bryderus am y modd y cafodd cysyniad Grisïau Gyrfa Cymru ei gyflwyno yn yr ymgynghoriad. Ymddengys fod y pwyslais ar hyfforddiant i ddychwelyd i'r gwaith, ac ni chredwn y bydd hyn yn diwallu anghenion y gweithlu presennol. Mae yna dystiolaeth anferth sy'n dangos bod llawer o bobl, ar ôl gael gwaith, yn gaeth mewn swyddi sy'n talu cyflog isel lle nad oes angen llawer o sgiliau. Pwyswn ar y Dirprwy Weinidog i ad-drefnu ei gynlluniau ar gyfer Grisïau Gyrfa Cymru er mwyn gweithredu'r cynllun gael fel rhaglen ddatblygu i bobl sydd mewn gwaith.

O ran ad-drefnu'r rhwydwaith dysgu, yr oedd y Dirprwy Weinidog, yn unol ag adolygiad Webb, yn cydnabod bod angen gwella

the capacity, scale and quality of provision to deliver the skills of the future. We saw the need for the Welsh Assembly Government to clarify its position on reconfiguration, to enable fuller scrutiny of future policy direction. We are glad that the Deputy Minister has accepted our recommendation, and trust that his final strategy will provide the clarity that we seek.

Our scrutiny of the Deputy Minister for Skills on the draft report, 'Skills That Work for Wales', coincided with the committee's inquiry into the economic contribution of higher education. A number of issues informed our work on both inquiries. The performance of the sector skills councils in Wales is a prime example. We had heard that the support provided by the SSCs was, at best, patchy and that some did not have a well developed presence in Wales. We welcome the Deputy Minister's undertaking to build the capacity of the SSCs, and we now urge him to use his dedicated unit to work with the new Wales board of the UK Commission for Employment and Skills to ensure that the SSCs are fit for purpose.

Given that employment policy is a reserved matter, the committee felt it appropriate to scrutinise a representative of the Department for Work and Pensions. As I have mentioned, we were pleased that Stephen Martin, director of Welfare to Work at the DWP, attended our hearing. We were encouraged to hear him say that he considered the relationship between the Welsh Assembly Government and the DWP to be a good one. However, there will be major reform in welfare and employment policies over the coming year, and it is clear to us that it will have far-reaching consequences. We therefore consider an early evaluation of the new work capability assessment for new claimants of the employment and support allowances to be essential. Members were also concerned that support for lone parents, high costs of childcare in the UK and training courses not providing crèche facilities could hinder the employment prospects and skills acquisition of a substantial proportion of the

capasiti, cwmpas ac ansawdd y ddarpariaeth er mwyn sicrhau sgiliau i'r dyfodol. Gwelsom fod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru egluro'i safbwynt ar ad-drefnu, er mwyn gallu craffu'n llawnach ar gyfeiriad polisiau'r dyfodol. Yr ydym yn falch fod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn ein hargymhelliad, a hyderwn y bydd ei strategaeth derfynol yn cynnwys yr eglurder yr hoffem ei weld.

Yr oedd ein craffu ar waith y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ar yr adroddiad drafft, 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru', yn cydfynd ag ymchwiliad y pwyllgor i gyfraniad economaidd addysg uwch. Yr oedd nifer o faterion yn sail i'n gwaith ar y ddau ymchwiliad. Mae perfformiad y cynghorau sgiliau sector yng Nghymru yn enghraifft amlwg. Yr oeddem wedi clywed bod y gefnogaeth yr oedd y cynghorau sgiliau sector yn ei darparu yn dameidiog ar y gorau, ac nad oedd presenoldeb rhai ohonynt yng Nghymru wedi'i ddatblygu'n llawn. Yr ydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i gynyddu capasiti'r cynghorau sgiliau sector, ac yr ydym yn ei annog yn awr i ddefnyddio'i uned arbennig i weithio gyda bwrdd newydd Cymru ar gyfer Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau i sicrhau bod y cynghorau sgiliau sector yn addas at y diben.

Gan nad yw polisi cyflogaeth yn fater wedi'i ddatganoli, teimlai'r Pwyllgor ei bod yn addas craffu ar waith cynrychiolydd o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Fel yr wyf wedi crybwyll, yr oeddem yn falch fod Stephen Martin, cyfarwyddwr O Fudd-dâl i Waith yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, wedi dod i'n gwrandawriad. Cawsom ein calonogi o'i glywed yn dweud ei fod yn ystyried bod y berthynas rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn un dda. Fodd bynnag, bydd polisiau lles a chyflogaeth yn cael eu diwygio'n sylweddol yn ystod y flwyddyn nesaf, ac mae'n amlwg inni y daw canlyniadau pellgyrhaeddol yn sgil hynny. Yr ydym felly'n ystyried ei bod yn hanfodol cael arfarniad asesiad cynnar o'r asesiad newydd o allu gweithio i bobl sy'n hawlio'r lwfansau cyflogaeth a chymorth o'r newydd. Yr oedd yr Aelodau'n bryderus hefyd y gallai cefnogaeth i rieni unigol, costau uchel gofal plant yn y DU a chyrisiau hyfforddi nad ydynt yn cynnig cyfleusterau



workforce. We are grateful to the Deputy Minister for accepting our recommendations in this regard, and for taking them forward with the DWP. We look forward to receiving the DWP's response, through the Deputy Minister, in due course.

The Deputy Minister has indicated in his response that he will make a statement on 18 June following his consideration of the consultation responses. Members will scrutinise his statement carefully. In particular, we await the publication of the final strategy and action plan, which we believe should include robust targets and a detailed timescale, so that progress may be quantified and monitored.

The scrutiny session with the Deputy Minister, the DWP and the committee's subsequent discussion on its draft report, illustrated that, in the area of skills and employment, the Welsh Assembly Government faces real challenges over the coming years if Wales is to have a prosperous future. I am glad to say that the committee agreed its recommendations unanimously, but I wish to make the Assembly aware of the strength of feeling on all sides in reaching this consensus.

Ar ran y pwyllgor, edrychaf ymlaen at ddadl fywiog ac adeiladol am ein hadroddiad ac am y materion hyn, sydd o bwys allweddol i ddyfodol Cymru.

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Hoffwn ddiolch i Gareth a'r pwyllgor am y drafodaeth am ein strategaeth ddrafft, 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'.

Cynigiodd ymgynghoriad 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' agenda glir o ran diwygio addysg a hyfforddiant ar bob lefel. Y strategaeth fydd ein hymateb i adolygiad yr Arglwydd Leitch, 'Skills in the UK', ac adolygiad Syr Adrian Webb o bwrpas ac amcan addysg bellach yr wyf eisoes wedi derbyn ei brif bwyntiau.

Mae sgiliau yn rhan bwysig iawn o bolisi 'Cymru'n Un' o greu economi gref gyda chyflogaeth lawn a swyddi o ansawdd uchel.

crèche amharu ar ragolygon cyfran helaeth o'r gweithlu o ran cyflogaeth a dysgu sgiliau. Yr ydym yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am dderbyn ein hargymhellion ar hynny, ac am eu crybwyll wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Edrychwn ymlaen at gael ymateb yr Adran honno, drwy law'r Dirprwy Weinidog, maes o law.

Mae'r Dirprwy Weinidog wedi nodi yn ei ymateb y bydd yn gwneud datganiad ar 18 Mehefin wedi iddo ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd yr Aelodau'n craffu ar ei ddatganiad yn ofalus. Edrychwn ymlaen yn enwedig at weld cyhoeddi'r strategaeth derfynol a'r cynllun gweithredu, a chredwn y dylai hwnnw gynnwys targedau cadarn ac amserlen fanwl er mwyn gallu mesur a monitro cynnydd.

Dangosodd y sesiwn graffu gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Adran Gwaith a Phensiynau, a thrafodaeth y pwyllgor ar ei adroddiad drafft wedi hynny, fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn wynebu heriau gwirioneddol dros y blynyddoedd nesaf ym maes sgiliau a chyflogaeth, os yw Cymru am ffynnu yn y dyfodol. Mae'n bleser gennyf ddweud bod y pwyllgor wedi cytuno'n unfryd ar ei argymhellion, ond hoffwn i'r Cynulliad fod yn ymwybodol o gryfder y teimladau ar bob ochr wrth gyrraedd y consensws hwn.

On behalf of the committee, I look forward to a lively and constructive debate on our report and on these issues, which are vital to the future of Wales.

**The Deputy Minister for Skills (John Griffiths):** I thank Gareth and the committee for considering our draft strategy, 'Skills That Work for Wales'.

Our 'Skills That Work for Wales' consultation set out a coherent reform agenda for education and training at all levels. The strategy will provide our response to Lord Leitch's review, 'Skills in the UK' and Sir Adrian Webb's review of the mission and purpose of further education, the key messages of which I have already accepted.

Skills are vital to delivering our 'One Wales' policy of a strong economy with full employment and high-quality jobs. This is a

Strategaeth sgiliau a chyflogaeth yw hon. Yr wyf yn cydnabod nad yw polisi cyflogaeth wedi'i ddatganoli, ond hoffwn bwysleisio ein bod yn ymgynghori'n llawn â'n partneriaid, megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, wrth ei pharatoi. Mae Adran yr Economi a Thrafnidiaeth hefyd wedi cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth hon, ac yr wyf yn falch o'r ffaith y bydd y strategaeth yn ein helpu i weithio mewn ffordd integredig.

Mae holl gynigion y strategaeth i ddiwygio ac i ariannu'r fframwaith i helpu pobl i weithio a buddsoddi mewn busnesau a sectorau allweddol wedi'u llunio i sicrhau newidiadau go iawn. Edrychaf ymlaen at y ddatl ac at ymateb ar ran y Llywodraeth i Gareth ac Aelodau eraill.

**David Melding:** I commend the work of Gareth Jones, the Chair, who has led the committee admirably in the last year and produced an outstanding report, which is assertive and points the Government in the right direction in some areas, where it is beginning to lose its sense of purpose.

I am grateful that we have achieved a political consensus on the committee, because I think that those Members who support the governing parties have a duty to point out to the Government where their policies can be improved. I do not think that that comes at a great political cost; I think that it shows maturity if you can point these issues out. Let us face facts: we all know that to improve the productivity of our workforce and to see more robust economic growth, we must have better skills, especially at the lower end, in the first instance, but then building on that so that as many people as possible have access to the opportunities that are brought about by economic growth. There is no division in the Assembly on this basic point, so I hope that the Government will take this committee's report in the constructive way in which it should, and improve this policy, because it is in the interests of everyone. There will be a high level of political agreement and endorsement of the Government's eventual strategy if this happens.

skills and employment strategy and, while I acknowledge that employment policy is not devolved, I wish to stress that the strategy is being prepared in full consultation with our partners, such as the Department for Work and Pensions. The Department for Economy and Transport has also been directly engaged throughout the development of the strategy, and I am pleased that this strategy will help us to work in an integrated way.

All the strategy's proposals to reform and to finance the framework to help people to engage in work and to invest in key sectors and businesses are designed to ensure real change. I look forward to the discussion and to responding on behalf of the Government to Gareth and other Members.

**David Melding:** Cymeradwyaf waith Gareth Jones, y Cadeirydd, sydd wedi arwain y pwyllgor yn gampus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac wedi paratoi adroddiad rhagorol. Mae'n bendant ac yn cyfeirio'r Llywodraeth i'r cyfeiriad cywir mewn rhai meysydd lle mae'n dechrau colli golwg ar yr hyn y mae'n ceisio'i gyflawni.

Yr wyf yn ddiolchgar ein bod wedi cael consensws gwleidyddol ar y pwyllgor, oherwydd credaf fod dyletswydd ar yr Aelodau hynny sy'n cefnogi'r pleidiau sydd mewn grym i dynnu sylw'r Llywodraeth at y manau hynny lle gallai wella'i pholisïau. Ni chredaf fod angen talu pris gwleidyddol mawr wrth wneud hynny; credaf fod gallu tynnu sylw at y materion hyn yn dangos aeddfedrwydd. Gadewch inni fod yn onest: gwyddom i gyd, er mwyn gwella cynhyrchiant ein gweithlu ac i sicrhau twf economaidd cadarnach, ei bod yn rhaid inni yn gyntaf gael gwell sgiliau, yn enwedig ar y lefelau isaf, ond ei bod yn rhaid inni wedyn adeiladu ar sail hynny fel y bydd cynifer o bobl â phosibl yn gallu manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil twf economaidd. Nid oes rhaniad o gwbl yn y Cynulliad ar y pwynt sylfaenol hwn, felly, gobeithio y bydd y Llywodraeth yn derbyn adroddiad y pwyllgor hwn mewn modd adeiladol, fel y dylai, ac y bydd yn gwella'r polisi hwn, oherwydd mae hynny er budd pawb. Os digwydd hyn, bydd lefel uchel o gytundeb gwleidyddol a chymeradwyo ar strategaeth y Llywodraeth yn y pen draw.

4.00 p.m.

It is essential that we set the longer term goal, as Lord Leitch recommends, as setting the benchmark for intermediate skills at level 3.

There is a bit of a hint that the Government is now shifting. At first, when the Deputy Minister gave evidence, the Government seemed quite reluctant, but there are now indications that he is being responsive. I hope that he now has the guts to take this on and not just leave it to some sort of employer-led vision, which is apparently what he has at the moment. In this area, there really is a need for leadership, and it is the Government that must set the agenda for leadership.

On the UK Commission for Employment and Skills, provided that the Welsh presence is an effective one, perhaps we do not need to get bogged down by how many people should be on the commission. However, we need to ensure that the interests of Welsh workers are protected and enhanced and that we see the effective support that we need from the commission to help the Welsh board to deliver much of this agenda. The board must show strong evidence that it has a strong employers' voice. Sir Adrian Webb is a man of great distinction who has had very important jobs. Where he is slightly weaker, I would say, is in his knowledge of the private sector, and that is a skills gap in itself that the board will need to rectify. However, I look forward to his leadership, and I have every confidence that he will do a great job.

On sector skills councils, Lord Leitch recently remarked that about one third of them are good, about one third of them are okay, and about one third of them are poor. I think that we must take that message from someone as eminent as Lord Leitch and work to improve those councils that are perhaps average, so that their performance matches the best, and start to engage with the councils that have not as yet fully grasped the challenge ahead and improve them. The committee has given some valuable advice on

Mae'n hanfodol inni osod y nod ar gyfer y tymor hwy, fel y mae'r Arglwydd Leitch yn ei argymhell, sef gosod y meincnod ar gyfer sgiliau canolraddol ar lefel 3.

Mae rhyw awgrym fod y Llywodraeth yn symud erbyn hyn. Yn y dechrau, pan roddodd y Dirprwy Weinidog dystiolaeth, ymddangosai'r Llywodraeth yn ddigon cyndyn, ond mae arwyddion bellach ei fod yn ymateb. Gobeithio y bydd yn ddigon dewr yn awr i fynd i'r afael â hyn, nid ei adael i ryw fath o weledigaeth a arweinir gan gyflogwyr, sef yr hyn sydd ganddo ar hyn o bryd, yn ôl pob tebyg. Yn y maes hwn, mae gwir angen arweinyddiaeth, a'r Llywodraeth ddylai osod yr agenda ar gyfer arweinyddiaeth.

Ynglŷn â Chomisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau, ar yr amod fod presenoldeb Cymru yn un effeithiol, efallai nad oes angen inni fynd i gors dadlau faint o bobl a ddylai fod ar y comisiwn. Fodd bynnag, mae angen inni sicrhau y caiff buddiannau gweithwyr Cymru eu gwarchod a'u hybu ac y gwelwn y gefnogaeth effeithiol y mae arnom ei hangen gan y comisiwn i helpu'r bwrdd Cymreig i gyflawni llawer o'r agenda hwn. Rhaid i'r bwrdd ddangos dystiolaeth gref fod ganddo lais cryf ar ran cyflogwyr. Mae Syr Adrian Webb yn ddyn nodedig iawn sydd wedi dal swyddi pwysig dros ben. Lle mae fymryn yn wannach, ddywedwn i, yw yn ei adnabyddiaeth o'r sector preifat, ac mae hynny'n fwlch sgiliau ynddo'i hun y bydd angen i'r bwrdd ei gywiro. Fodd bynnag, edrychaf ymlaen at ei arweinyddiaeth, ac yr wyf yn hollol hyderus y gwnaiff waith ardderchog.

O ran cynghorau sgiliau sector, dywedodd yr Arglwydd Leitch yn ddiweddar fod tua thraean ohonynt yn dda, tua thraean yn o lew, a thua thraean yn wael. Credaf ei bod yn rhaid inni dderbyn y neges honno gan rywun mor flaenllaw â'r Arglwydd Leitch a gweithio i wella'r cynghorau hynny sydd efallai'n ddiddrwg-ddidda, nes i'w perfformiad hwy fod crystal â'r goreuon, a dechrau gweithio gyda'r cynghorau sydd heb ddirnad yn llawn beth yw'r her sydd o'u blaenau, a'u gwella hwythau. Mae'r pwyllgor

how to improve the sector skills councils.

wedi rhoi cyngor gwerthfawr ynglŷn â'r ffordd i wella'r cynghorau sgiliau sector.

With regard to general employment issues, we should remember that, in areas of high economic inactivity, there is a high demand for workers for unskilled jobs. Sometimes it is a case of getting people to have the confidence to move from some form of benefits or their care responsibilities to see whether they could also take a job. It is not about calling people workshy; that is absolutely not the challenge here, but we need an element of confidence-building. It is sometimes quite daunting to realise that we cannot fill many of the jobs in those areas with the highest levels of economic inactivity.

O ran materion cyflogaeth cyffredinol, dylem gofio bod galw mawr am weithwyr mewn swyddi di-grefft mewn ardaloedd o segurdd economaidd. Weithiau mae'n fater o gael pobl i fagu'r hyder i symud o ryw fath ar fudd-daliadau neu eu cyfrifoldebau gofal i weld a allent gymryd swydd hefyd. Nid mater o alw pobl yn ddiog yw hyn; yn bendant nid dyna'r her yma, ond mae angen elfen o adeiladu hyder. Mae weithiau'n eithaf brawychus sylweddoli na allwn lenwi llawer o'r swyddi yn yr ardaloedd hynny lle mae'r lefelau uchaf o segurdd economaidd.

I endorse fully what the Chair said about our need for a timetable to achieve full employment. I accept that we need to be realistic about this. If the Government comes back with a realistic target with milestones along the way, it will have addressed this significant recommendation.

Ategaf yn llawn yr hyn a ddywedodd y Cadeirydd fod arnom angen amserlen i sicrhau cyflogaeth lawn. Derbyniaf fod angen inni fod yn realistig ynglŷn â hyn. Os daw'r Llywodraeth yn ôl â tharged realistig gyda cherrig milltir ar hyd y ffordd, bydd wedi ateb yr argymhelliad arwyddocaol hwn.

To conclude, I have a quotation from a recent Government report. This is from the Welsh Assembly Government's own research:

I gloi, mae gennyf ddyfyniad o adroddiad yn ddiweddar gan y Llywodraeth. Daw hyn o ymchwil Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun:

'Labour productivity in Wales is well below the UK average.'

'Mae cynhyrchiant llafur yng Nghymru ymhell o dan gyfartaledd y Deyrnas Unedig.'

That is the situation we are in today. We need to catch up, because, at the moment, we are growing more slowly in this area, so we are falling further and further behind. I think that, with goodwill and political consensus, this job can be done, but we need rigour and movement now as you progress to your final strategy.

Dyna'r sefyllfa yr ydym ynnddi heddiw. Mae angen inni ddal i fyny, oherwydd ar hyn o bryd yr ydym yn tyfu'n arafach yn y maes hwn, nes inni fod yn mynd ymhellach ac ymhellach ar ôl. Credaf y gellir cyflawni'r gwaith hwn, gydag ewyllys da a chonsensws gwleidyddol, ond mae angen llymder a symudiad yn awr wrth ichi symud ymlaen at eich strategaeth derfynol.

**The Deputy Presiding Officer:** I call the birthday boy, Jeff Cuthbert.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar yr Aelod sy'n cael ei ben-blwydd, Jeff Cuthbert.

**Jeff Cuthbert:** Thank you. You have completely thrown me.

**Jeff Cuthbert:** Diolch. Yr ydych wedi fy nhaflu oddi ar fy echel yn llwyr.

**Jonathan Morgan:** How old are you Jeff?

**Jonathan Morgan:** Faint yw eich oed, Jeff?

**Jeff Cuthbert:** Let us say that I am collecting my bus pass today.

**Jeff Cuthbert:** Gadewch i fi ddweud y byddaf yn cael fy mhàs bws heddiw.

Turning to the matter in hand, it will not come as a surprise to many in the Chamber that the delivery and improvement of education and skills for the people of Wales is an issue very close to my heart. I have made the point before that education and training are probably the greatest weapons that we have to break the link between where you are born and what you can become. With that in mind, I read the Leitch and Webb reviews with great interest. On the whole, they tackle the major issues and challenges raised by the global status of competition for skills so aptly illustrated in the Gothenburg and Lisbon agendas. On the whole, I welcome the Skills That Work for Wales consultation, and I await the final strategy and subsequent Plenary statement on 18 June. Unlocking the potential of the people of Wales is vital if we are to ensure the future competitiveness of the Welsh economy, and our commitment to this cause was reiterated in the 'One Wales' agreement.

As Gareth and David have mentioned, an important factor for developing skills is a demand-led focus. I am glad to see that relevant importance has been given to the sector skills councils, and the important work that they do in bridging the gap between further education providers and employers. One of the committee's recommendations was to ensure that sector skills councils are able to deliver the role set out for them in the consultation strategy, and I am pleased that the Deputy Minister was able to broadly support the aim of this recommendation, with the sector skills councils being reformed and re-licensed with a more focused role.

However, as I have stressed several times—in Plenary, and in committee—it is crucial that the sector skills councils are adequately resourced in Wales. Some, such as ConstructionSkills, the Sector Skills Council for Science, Engineering and Manufacturing Technologies, and SummitSkills, for example, are running in a professional and well-organised fashion, and are doing the business for their occupational sectors. I am yet to be convinced that that is the case for a significant number of other sector skills councils, but I am confident that the goodwill is there to make them work.

I droi at y mater mewn llaw, ni fydd yn syndod i lawer yn y Siambr fod cyflwyno a gwella addysg a sgiliau i bobl Cymru yn fater sy'n agos iawn at fy nghalon. Yr wyf wedi gwneud y pwynt o'r blaen mai addysg a hyfforddiant yw'r arfau gorau sydd gennym, mae'n debyg, i dorri'r ddolen rhwng lle ceuwch eich geni a'r hyn y gallwch fod. Gyda hynny mewn golwg, darllenas adolygiadau Leitch a Webb gyda diddordeb mawr. Ar y cyfan, maent yn mynd i'r afael â'r prif gwestiynau a'r heriau a godir gan statws bydeang y gystadleuaeth am sgiliau a ddarlunnir mor gymwys yn agendâu Gothenburg a Lisbon. Ar y cyfan, croesawaf yr ymgynghoriad Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, ac edrychaf ymlaen at y strategaeth derfynol a'r datganiad wedyn yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Mehefin. Mae dat-gloi potensial pobl Cymru yn hanfodol os ydym am sicrhau y gall economi Cymru gystadlu yn y dyfodol, ac ailadroddwyd ein hymrwymiad i'r achos hwn yn y cytundeb 'Cymru'n Un'.

Fel y soniodd Gareth a David, ffactor pwysig wrth ddatblygu sgiliau yw canolbwyntio ar ateb y galw. Mae'n dda gennyf weld bod pwysigrwydd perthnasol wedi'i roi i'r cynghorau sgiliau sector, a'r gwaith pwysig a wnânt yn pontio'r bwlch rhwng darparwyr addysg bellach a chyflogwyr. Un o argymhellion y pwyllgor oedd y dylid sicrhau y gall cynghorau sgiliau sector gyflawni'r rôl a bennwyd iddynt yn y strategaeth ymgynghorol, ac yr wyf yn falch fod y Dirprwy Weinidog wedi gallu cefnogi nod yr argymhelliad hwn yn gyffredinol, gan ailffurfio'r cynghorau sgiliau sector a'u hail-drwyddedu gyda rôl sy'n canolbwyntio mwy.

Fodd bynnag, fel yr wyf wedi ei bwysleisio droeon—mewn Cyfarfod Llawn ac mewn pwyllgorau—mae'n hollbwysig i'r cynghorau sgiliau sector gael adnoddau digonol yng Nghymru. Mae rhai, fel Sgiliau Adeiladu, y Cyngor Sgiliau Sector dros Wyddoniaeth, Peirianeg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu, a SummitSkills, er enghraifft, yn rhedeg mewn ffordd broffesiynol a threfnus, ac yn gwneud eu gwaith ar ran eu sectorau galwedigaethol. Nid wyf wedi fy narbwylllo eto fod hynny'n wir am nifer sylweddol o gynghorau sgiliau sector eraill, ond yr wyf yn hyderus fod yr

ewylllys da yno i wneud iddynt weithio.

We need to look not only to those coming through the education system now, or in the immediate future; we also need to incorporate those who have already passed through the education system. Initiatives such as the Wales union learning fund, and the proposed union modernisation fund, are helping to engage with, and develop the skills of, those already in employment. They also go a substantial way in helping employers to realise the benefits of unlocking their workforce's potential.

There is also a clear commitment in the strategy to developing Careers Ladders Wales, as has been mentioned, which will help to integrate skills and employment services in Wales. This will offer vital support to those who need it the most, to guide them into employment, and beyond into their first few months in employment. As has been mentioned, however, the committee's recommendation was to have Careers Ladders Wales more as an in work advancement scheme; this is mainly based on the evidence that many people, on entering employment, can get trapped in low-paid, low-skilled jobs. Once more, I was pleased to hear that this will be considered when finalising the consultation, and I trust that it will be considered seriously.

I understand the call for level 3 as a target for intermediate skills, which I agree with in principle. However, I also understand the wish to profile skills achievement more closely to employment needs; as this rolls out, I hope that they will turn out to be the same thing. Finally, the roll-out of the foundation phase, the reforming of the seven to 14 curriculum, and the continuing take-up of the Welsh baccalaureate will hopefully help to close the circle, to ensure that the next generation of school leavers are adequately equipped with the skills needed to meet the needs of future employment.

**Alun Cairns:** I wish to underline the comments that have been made about the Chair of the committee, and about how this report has been conducted and published. I also wish to place on record my thanks to the committee's clerk and deputy clerk for their

Mae angen inni droi nid yn unig at y rhai sy'n dod drwy'r gyfundrefn addysg yn awr, neu yn y dyfodol agos; mae angen inni gynnwys hefyd y rhai sydd eisoes wedi mynd drwy'r gyfundrefn addysg. Mae mentrau fel cronfa ddysgu undebau Cymru, a'r gronfa moderneiddio undebau arfaethedig, yn helpu ymgysylltu â phobl sydd eisoes mewn gwaith a datblygu eu sgiliau. Maent yn mynd cryn bellter hefyd i helpu cyflogwyr i sylweddoli manteision dat-gloi potensial eu gweithlu.

Mae ymrwymiad clir hefyd yn y strategaeth i ddatblygu Grisïau Gyrfa Cymru, fel y dywedwyd, a fydd yn helpu integreiddio gwasanaethau cyflogaeth a sgiliau yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnig cefnogaeth hollbwysig i'r rhai sydd â'i hangen fwyaf, i'w harwain i mewn i gyflogaeth, ac wedyn i mewn i'w misoedd cyntaf mewn gwaith. Fel y crybwyllwyd, fodd bynnag, argymhelliad y pwyllgor oedd cael Grisïau Gyrfa Cymru yn fwy fel cynllun symud i fyny mewn gwaith; mae hyn yn seiliedig yn bennaf ar y dystiolaeth fod llawer o bobl, ar ôl cael gwaith, yn gallu cael eu dal mewn swyddi cyflog isel, sgiliau isel. Unwaith eto, yr oeddwn yn falch clywed yr ystyrir hyn yn yr ymgynghori terfynol, a hyderaf y caiff ei ystyried o ddifrif.

Yr wyf yn deall yr alwad am lefel 3 fel targed ar gyfer sgiliau canolraddol, a chytunaf â hi mewn egwyddor. Fodd bynnag, yr wyf hefyd yn deall y dymuniad i broffilio magu sgiliau yn nes at anghenion cyflogaeth; wrth i hyn symud yn ei flaen, gobeithio y byddant yr un peth yn y diwedd. Yn olaf, bydd cyflwyno'r cyfnod sylfaen, diwygio'r cwricwlwm saith i 14, a derbyn bagloriaeth Cymru'n gynyddol, gobeithio, yn helpu cau'r cylch, i sicrhau y bydd y to nesaf o blant sy'n gadael yr ysgol yn meddu ar y sgiliau digonol sy'n angenrheidiol i ateb anghenion cyflogaeth y dyfodol.

**Alun Cairns:** Hoffwn danlinellu'r sylwadau sydd wedi'u gwneud am Gadeirydd y pwyllgor, ac am y modd y cafodd yr adroddiad hwn ei gynnal a'i gyhoeddi. Hoffwn gofnodi fy niolch hefyd i glerc a dirprwy glerc y pwyllgor am eu cefnogaeth

support in considering this matter, and for the strength of the reports that have been published, which are obviously the committee's reports, but have been supported by those who I have mentioned.

I believe that it is fair to say that, at best, the committee report questions the strategy of the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, and the Deputy Minister for Skills, and at worst it is highly critical of the so-called strategy that they are pursuing. This is a very important area of policy, and I believe that we can broadly get agreement on this across the Chamber, in terms of reaching the goals. If we are to lift ourselves from being the poorest part of the United Kingdom, the skills agenda can help us, because we are, sadly, at the bottom of the existing league table.

4.10 p.m.

On reading the Deputy Minister's reports, it appears that he has reacted to the various reports that have been published—Leitch, Webb and the other strategies and action plans of the Assembly Government—but each reaction has been inconsistent and, therefore, when you bring them together, they do not establish the strategy that we would all like to see. This is underlined in the report, which is quite explicit when it talks about the lack of detail that the Deputy Minister offered when he came to the committee and subsequently in terms of the questions that were posed. That was agreed by this all-party committee.

There is confusion over Leitch. It is a UK policy or a UK review that even the hardened isolationists cannot ignore and would choose to pay a lot of attention to. I think that we have made progress since the Deputy Minister came to the committee, but to hear that it might cause difficulties in some sectors without that commitment, but that the Government is determined to achieve them, will clearly question the Deputy Minister's commitment to achieving and meeting the level 3 qualification that Leitch underlines as being so important.

In relation to the skills commission, I have no

wrth inni ystyried y mater hwn, ac am gryfder yr adroddiadau a gyhoeddwyd, sef adroddiadau'r pwyllgor, wrth reswm, ond rhai a gefnogwyd gan y rhai yr wyf wedi'u henwi.

Credaf ei bod yn deg dweud bod adroddiad y pwyllgor, ar y gorau, yn amau strategaeth y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, ac ar y gwaethaf mae'n feirniadol dros ben o'r strategaeth fondigrybwyll y maent yn ei dilyn. Maes polisi pwysig iawn yw hwn, a chredaf y gallwn gael cytundeb yn fras ar hyn ar draws y Siambr, o ran cyrraedd yr amcanion. Os ydym am ein codi'n hunain o fod y rhan dlotaf yn y Deyrnas Unedig, gall yr agenda sgiliau ein helpu, oherwydd yr ydym, ysywaeth, ar waelod y tabl cynghrair presennol.

O ddarllen adroddiadau'r Dirprwy Weinidog, mae'n ymddangos ei fod wedi adweithio i'r amryfal adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi—Leitch, Webb a'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu eraill gan Lywodraeth y Cynulliad—ond mae pob adwaith wedi bod yn anghyson, ac felly, pan ddewch â hwy at ei gilydd, nid ydynt yn sefydlu'r strategaeth yr hoffem i gyd ei gweld. Tanlinellir hyn yn yr adroddiad, sy'n eithaf pendant wrth sôn am y diffyg manylder a gynigiodd y Dirprwy Weinidog pan ddaeth i'r pwyllgor ac wedi hynny wrth o ran y cwestiynau a ofynnwyd. Cytunwyd ar hynny gan y pwyllgor hollbleidiol hwn.

Mae dryswch ynglŷn â Leitch. Polisi Prydeinig neu adolygiad Prydeinig ydyw na all hyd yn oed yr ymynyswyr rhonc ei anwybyddu, ac un y dewisent roi llawer o sylw iddo. Credaf ein bod wedi gwneud cynnydd ers i'r Dirprwy Weinidog ddod i'r pwyllgor, ond bydd clywed y gallai achosi anawsterau mewn rhai sectorau heb yr ymrwymiad hwnnw, ond bod y Llywodraeth yn benderfynol o'u cyflawni, yn codi cwestiwn clir am ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i sicrhau a chyflawni'r cymhwyster lefel 3 y mae Leitch yn tanlinellu ei bwysigrwydd.

Ynglŷn â'r comisiwn sgiliau, nid wyf yn

doubt that Sir Adrian Webb will do an admirable job. However, I think that we also need to recognise the concern that has been expressed of late—I mean not only very recently, but in the period since the training and enterprise councils were abandoned—that the influence of the private sector is now much reduced in comparison with what it was at that time. I am not saying that that time was perfect, just that the influence that the private sector had then was far greater than it is now. I think that Sir Adrian Webb will do an admirable job, but a high-profile private-sector individual in whom the Government and private sector could have had confidence, in terms of meeting the sector's goals and needs at a time when there is such a grave shortage of skills across most sectors, would have given encouragement and support and shown commitment to business. It would have shown that the coalition Welsh Assembly Government is determined to meet the agenda of the private sector that, after all, really raises the level of prosperity in Wales, rather than shuffling money or paper around as other organisations might do.

Similarly, the approach that the Assembly Government has to basic skills is still not clear in terms of its ambitions and strategy, as noted in the report. It talks about pilot schemes for GCSEs and the skills agenda that it wants to introduce within that, but I am not sure that it is explicit. Again, the report talks about the lack of detail. The Welsh baccalaureate has been mentioned and I think that it is fair to say that there are probably lessons to be learned at this stage in terms of how the Welsh baccalaureate has developed over recent times. This would be a great opportunity to look at those lessons and introduce the improvements that many people are calling for. I am advised that the Welsh baccalaureate can be achieved, for example, without a science element, when there is such a huge shortage of science, technology, engineering and mathematical students. That, again, is a lesson that we might be able to learn in terms of developing the Welsh baccalaureate or looking at alternatives.

Again, on basic skills, 4 per cent of school leavers do not have any qualifications and I am not convinced that we have a clear

amau o gwbl na wnaiff Syr Adrian Webb waith clodwiw. Fodd bynnag, credaf fod angen inni gydnabod hefyd y pryder sydd wedi'i fynegi'n ddiweddar—nid yn unig yn ddiweddar iawn, ond yn y cyfnod ers rhoi heibio'r cynghorau hyfforddiant a menter—fod dylanwad y sector preifat bellach lawer yn llai nag ydoedd bryd hynny. Nid wyf yn dweud bod yr adeg honno'n berffaith, dim ond bod y dylanwad a oedd gan y sector preifat bryd hynny lawer yn fwy nag ydyw yn awr. Credaf y gwnaiff Syr Adrian Webb waith clodwiw, ond byddai unigolyn amlwg o'r sector preifat, un y gallasai'r Llywodraeth a'r sector preifat gael hyder ynddo, o ran cyrraedd amcanion ac anghenion y sector ar adeg o brinder mor ddybryd o sgiliau ar draws y rhan fwyaf o sectorau, wedi rhoi anogaeth a chefnogaeth ac wedi dangos ymrwymiad i fusnes. Byddai wedi dangos bod Llywodraeth glymblaid y Cynulliad Cenedlaethol yn benderfynol o gyflawni agenda'r sector preifat sydd, wedi'r cyfan, yn codi lefel ffyniant yng Nghymru yn wirioneddol, yn hytrach na symud arian neu bapur o gwmpas fel y mae cyrff eraill, efallai.

Yn yr un modd, mae'r agwedd sydd gan Lywodraeth y Cynulliad at sgiliau sylfaenol yn dal yn aneglur o ran ei huchelgeisiau a'i strategaeth, fel y nodir yn yr adroddiad. Sonia am gynlluniau peilot ar gyfer TGAU a'r agenda sgiliau y mae arni eisiau ei gyflwyno o fewn hynny, ond nid wyf yn siŵr ei bod yn eglur. Eto, sonia'r adroddiad am y diffyg manylder. Crybwyllwyd bagloriaeth Cymru, a chredaf ei bod yn deg dweud fod gwersi i'w dysgu, mae'n debyg, ar hyn o bryd am y modd y mae bagloriaeth Cymru wedi datblygu yn y cyfnod diweddar. Byddai hyn yn gyfle gwych i edrych ar y gwersi hynny a chyflwyno'r gwelliannau y mae llawer o bobl yn galw amdanynt. Dywedir wrthyf y gellir ennill bagloriaeth Cymru, er enghraifft, heb elfen wyddoniaeth, ar adeg o brinder affwysol o fyfyrwyr gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg. Mae hynny, eto, yn wers y gallem ei dysgu efallai o ran datblygu bagloriaeth Cymru neu edrych ar bosibiliadau eraill.

Eto, o ran sgiliau sylfaenol, mae 4 y cant o blant sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau o gwbl, ac nid wyf wedi fy narbwyllo bod



direction in terms of how the Assembly Government is reacting to Webb. The FE colleges are calling for a clear reaction and direction.

**Janet Ryder:** I think that there will be a number of opinions on Adrian Webb's report, but one thing that we can all agree on is that what Adrian Webb says, that the situation cannot stay as it is, is certainly right. Far too many young people are leaving the education system, either dropping out or just leaving, without the skills that they need.

I will touch on one or two of the recommendations that I do not think that other people have touched on yet. If we look at recommendation 5, it talks about those not in education, employment or training, and I know that the Deputy Minister is carrying out a consultation on that. The other part of that recommendation is that the Government should look at the curriculum for seven to 14-year olds as a matter of urgency. In the written response to our committee report, the Deputy Minister talks about the new curriculum that will be introduced—I believe that it is going to be introduced from September onwards and that it will create a more learner-centred and skills-focused curriculum. There is a world of difference between introducing a new curriculum and changing the style that you use to teach young people. With the foundation phase, we have not just introduced a new curriculum, but fundamentally changed the way in which we treat and teach young children.

For the foundation phase to be successful, to embed and build on the skills that children will learn, we must look radically at not just the curriculum for children aged seven to 14, but the way that we teach those children. We need to start doing that now, because those children are starting to come through the system. If children go from having a very free form of education—it is structured, but it appears to them to be very free—to a more traditional kind of education, where they sit down a bit more, although that is a good thing and to be encouraged, it will not develop the skills that they have learned at an early age. We must look at provision for that age group to ensure that the foundation phase succeeds, because it is only by getting the

gennym gyfeiriad clir o ran y ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn adweithio i Webb. Mae'r colegau addysg bellach yn galw am adwaith a chyfeiriad clir.

**Janet Ryder:** Credaf y bydd llawer barn ar adroddiad Adrian Webb, ond un peth y gallwn i gyd gytuno arno yw bod yr hyn a ddywed Adrian Webb, sef na all y sefyllfa aros fel y mae, yn sicr yn iawn. Mae llawer gormod o bobl ifanc yn gadael y gyfundrefn addysg, un ai'n gwrthgilio ynte'n ei gadael, heb y sgiliau y mae arnynt eu hangen.

Crybwyllaf un neu ddau o'r argymhellion sydd heb eu crybwyll eto gan bobl eraill. Os edrychwn ar argymhelliad 5, mae'n sôn am y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a gwn fod y Dirprwy Weinidog yn cynnal ymgynghoriad ar hynny. Y rhan arall o'r argymhelliad hwnnw yw y dylai'r Llywodraeth edrych ar y cwricwlwm i blant saith i 14 oed fel mater o frys. Yn yr ymateb ysgrifenedig i'n hadroddiad pwyllgor, sonia'r Dirprwy Weinidog am y cwricwlwm newydd a gaiff ei gyflwyno—credaf ei fod i gael ei gyflwyno o fis Medi ymlaen ac y bydd yn creu cwricwlwm wedi ei ganoli'n fwy ar y dysgwyr ac yn canolbwyntio'n fwy ar sgiliau. Mae byd o wahaniaeth rhwng cyflwyno cwricwlwm newydd a newid yr arddull a ddefnyddiwech i ddysgu pobl ifanc. Gyda'r cyfnod sylfaen, nid cyflwyno cwricwlwm newydd yn unig a wnaethom, ond newid yn sylfaenol y modd yr ydym yn trin ac yn dysgu plant ifanc.

Er mwyn i'r cyfnod sylfaen fod yn llwyddiannus, i adeiladu ar y sgiliau y bydd plant yn eu dysgu a sicrhau eu bod yn bwrw gwreiddiau, rhaid inni edrych mewn ffordd radical, nid yn unig ar y cwricwlwm i blant rhwng saith ac 14 oed, ond ar y ffordd y byddwn yn addysgu'r plant hynny. Mae angen inni ddechrau gwneud hynny'n awr, oherwydd mae'r plant hynny'n dechrau dod drwy'r system. Os bydd plant yn symud oddi wrth ffurf rydd iawn ar addysg—mae strwythur iddi, ond iddynt hwy mae'n ymddangos yn rhydd iawn—at addysg fwy traddodiadol ei natur, lle byddant yn eistedd fymryn mwy, er bod hynny'n beth da ac i'w annog, ni fydd hynny'n datblygu'r sgiliau y maent wedi'u dysgu ym more oes. Rhaid inni

early years right that we will eventually start to reduce the number of young people dropping out of education in the long run. Government can deal with that in two ways. It can put on the necessary training courses to entice people back into education after they have dropped out, but the best thing to do is to try to prevent them from dropping out of education in the first place.

I will just mention the Fast Forward programme in America, which a number of committee members looked at—I have never seen such results. It was put in place to help those with additional learning needs, but because it teaches and can reach a very wide section of people, districts in America are rolling it out across all of their schools. There is now proven data, through the school system, that young people are benefiting from the programme: their concentration and skills are improving. One reason why that programme has been implemented is because it means that young people do not drop out of the system later on. We must seriously consider such programmes. I hope that, as part of his response to this report, the Deputy Minister will look at such initiatives in relation to those who drop out of education.

I would also like to look at recommendations 11 and 12, which, as the committee Chair touched on, mention the need to provide crèche facilities. Many young people who want to go on training courses are parents, and need to have access to good-quality and affordable childcare. The provision of good-quality and affordable childcare is written into 'One Wales' as a priority and it was highlighted in our committee report. We raised the issue with the Department for Work and Pensions, but, as far as I am aware, we have not yet received a response from the DWP. We talked about not funding training courses or training providers that did not provide adequate childcare or crèche facilities, and I would like to know what progress has been made on that.

Lastly, I would like to touch on funding. Is the Deputy Minister satisfied that the roll-out

edrych ar ddarpariaeth ar gyfer y grŵp oed hwnnw i sicrhau bod y cyfnod sylfaen yn llwyddo, oherwydd drwy ond drwy sicrhau bod y blynyddoedd cynnar yn iawn yn y pen draw y gallwn ddechrau lleihau nifer y bobl ifanc sy'n cefnu ar addysg yn y tymor hir. Gall llywodraeth ddelio â hynny mewn dwy ffordd. Gall ddarparu'r cyrsiau hyfforddi angenrheidiol i ddenu pobl yn ôl i addysg ar ôl cefnu arni, ond y peth gorau i'w wneud yw ceisio'u hatal rhag cefnu ar addysg yn y lle cyntaf.

Soniaf yn fras am y rhaglen Fast Forward yn America, rhaglen yr edrychodd nifer o aelodau'r pwyllgor arni—ni welais erioed ganlyniadau o'r fath. Fe'i sefydlwyd i gynorthwyo pobl ag anghenion dysgu ychwanegol, ond gan ei bod yn addysgu ac yn gallu cyrraedd carfan eang iawn o bobl, mae ardaloedd yn America yn ei hymestyn i'w holl ysgolion. Mae data ar gael bellach, drwy'r system ysgolion, sy'n profi bod pobl ifanc yn elwa o'r rhaglen: bod eu canolbwyntio a'u sgiliau'n gwella. Un rheswm pam y mae'r rhaglen honno wedi'i rhoi ar waith yw am ei bod yn golygu nad yw pobl ifanc yn cefnu ar y system yn ddiweddarach. Rhaid inni ystyried rhaglenni o'r fath o ddifrif. Gobeithio, fel rhan o'i ymateb i'r adroddiad hwn, y bydd y Dirprwy Weinidog yn edrych ar fentrau felly mewn cysylltiad â'r rheini sy'n cefnu ar addysg.

Hoffwn hefyd edrych ar argymhellion 11 a 12 sydd, fel y crybwyllodd Cadeirydd y pwyllgor, yn sôn bod angen darparu cyfleusterau crèche. Rhieni yw llawer o'r bobl ifanc sydd am ddilyn cyrsiau hyfforddi, ac mae angen iddynt allu cael gofal plant o safon y gallant ei fforddio. Mae darparu gofal plant o safon sy'n fforddiadwy yn un o'r blaenoriaethau yn 'Cymru'n Un', a phwysleisiwyd hyn yn adroddiad ein pwyllgor. Codwyd y mater gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, ond hyd y gwn i nid ydym eto wedi cael ymateb gan yr adran honno. Trafodwyd peidio ag ariannu cyrsiau hyfforddiant neu ddarparwyr hyfforddiant nad oeddent yn darparu gofal plant neu gyfleusterau crèche digonol, a hoffwn wybod pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar hynny.

Yn olaf, hoffwn grybwyll ariannu. A yw'r Dirprwy Weinidog yn fodlon bod lledaenu'r

of the radical changes that will be needed to implement the 14-19 learning pathways and the Webb review has been adequately costed? Is he absolutely satisfied that the funding is in place and that the Assembly will not face yet another initiative being rolled out without the resources needed to ensure that it works properly?

**Kirsty Williams:** I thank the Chair of the committee, Gareth, who is patience personified in dealing with the committee proceedings. I also thank the clerk, Kathryn Jenkins, and the deputy clerk, Dan Collier, for the fantastic support that they offer our committee. Without it, I do not believe that we could have created as powerful a report and have had as powerful a contribution from Gareth this afternoon. As a member of the committee, I am hugely disappointed by the Government's response to this report. Our recommendations were not plucked out of thin air; they were made on the basis of the evidence that was given to us from a variety of sources. The report was not written to score political points. I believe that the recommendations could have been worded more strongly, but the wording in the report was the best that we could get through the committee, and I am very disappointed by the Government response.

4.20 p.m.

I will focus on three of the recommendations. On recommendation 1, I have to accept the way in which the recommendation was worded, but I will not accept the Government's response to it. I cannot understand why the Government will not accept level 3 as the benchmark level of skills that should be the ultimate goal for this Government. That response condemns Wales to always be the worst-qualified part of the country, and I do not know how the Government thinks that it can move the economy forward if we do not have better skills than our competitors. The fact is that there is a direct correlation between gross domestic product per capita and wealth and the attainment of higher level qualifications. One reason why we are languishing at the bottom of the pile in the UK is because our workforce is less qualified than the workforce in Scotland or England, and we will continue

newidiadau radical y bydd eu hangen er mwyn rhoi llwybrau dysgu 14-19 ac adolygiad Webb ar waith wedi ei gostio'n ddigonol? A yw'n gwbl fodlon fod yr arian ar gael ac na fydd y Cynulliad yn wynebu cyflwyno cynllun arall eto heb yr adnoddau angenrheidiol i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn?

**Kirsty Williams:** Diolchaf i Gadeirydd y pwyllgor, Gareth, sy'n batrwm o amynedd wrth ddelio â thrafodion y pwyllgor. Diolch hefyd i'r cler, Kathryn Jenkins, ac i'r dirprwy glerc, Dan Collier, am y gefnogaeth wych a roddant i'n pwyllgor. Hebddi ni chredaf y gallem fod wedi creu adroddiad mor bwerus na chael cyfraniad mor rymus gan Gareth y prynhawn yma. Fel aelod o'r pwyllgor, yr wyf yn hynod siomedig ag ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwn. Nid ydym wedi tynnu'r argymhellion hyn o'r gwynt; fe'u lluniwyd ar sail y dystiolaeth a gawsom o amrywiaeth o ffynonellau. Nid er mwyn sgorio pwyntiau gwleidyddol yr ysgrifennwyd yr adroddiad. Credaf y gellid bod wedi geirio'r argymhellion yn gryfach, ond y geiriad yn yr adroddiad oedd y gorau y gallem ei gael drwy'r pwyllgor, ac yr wyf yn siomedig iawn ag ymateb y Llywodraeth.

Canolbwyntiaf ar dri o'r argymhellion. Gyda golwg ar argymhelliad 1, rhaid imi dderbyn y ffordd y geiriwyd yr argymhelliad, ond ni dderbyniaf ymateb y Llywodraeth iddo. Ni allaf ddeall pam nad yw'r Llywodraeth yn derbyn lefel 3 yn lefel feincnod ar gyfer sgiliau a ddylai fod yn nod i'r Llywodraeth hon yn y pen draw. Mae'r ymateb hwnnw'n condemnio Cymru i gael y cymwysterau gwaethaf o hyd yn y DU, ac ni wn sut y mae'r Llywodraeth yn meddwl y gall symud yr economi yn ei blaen onid oes gennym well sgiliau na'n cystadleuwyr. Y gwir yw bod perthynas uniongyrchol rhwng cynnyrch domestig crynswth y pen a chyfoeth, ac ennill cymwysterau lefel uwch. Un rheswm pam yr ydym yn dihoeni ar waelod y domen yn y DU yw am nad oes gan ein gweithlu gystal cymwysterau ag sydd gan y gweithlu yn yr Alban neu yn Lloegr, a byddwn yn dal yn y sefyllfa honno oni fydd y Llywodraeth yn

to be in that position unless the Government wakes up to this fact and sets itself a bigger, better, more dynamic and ambitious goal. It is not exclusive of other things; the Minister can carry on with his person-centred, employer-focused or employer-led approach—or whatever the jargon is—and also set a level 3 target. The two things are not mutually exclusive and I cannot understand why the Government cannot get on with it and accept the recommendation.

**Jeff Cuthbert:** As I said in my contribution, in principle, I have no difficulty with having level 3 as the target, but do you understand why, in certain occupational areas, greater profiling may be needed, depending on the skills that are required? For some, it may be level 3 craft equivalent, and in others it may be level 2, because that is the nature of the industry. Can you not see why that may be a basis for moving forward?

**Kirsty Williams:** I am sure that Lord Leitch, in the review that he carried out on behalf of the Government, took those factors into consideration. However, that does not exclude you from having a general goal for this Government to work to. You can carry on with your profiling or whatever you want to call it, but we need an ambitious target for Wales, and your Government is not providing it.

On recommendation 3, it is ridiculous for the Minister to say that his skills strategy presents a comprehensive response to the Webb review—it simply does not do that and it was not designed to do that. Again, I am amazed. It is as if the Webb review landed on the Government's desk and it was not expecting it. The Government asked for this review, and it should hardly be surprised, after it had set all of those hares running and had all of that work done, that we would now quite like to know how the Government feels about what Professor Webb said in that review. The skills strategy is not a response to the review, and I stand by the committee's recommendation that we need a response to the Webb review so that all of the points raised in that review are adequately addressed. The skills strategy is not the correct mechanism to do that.

deffro i'r ffaith hon ac yn gosod nod uwch, gwell, mwy deinamig ac uchelgeisiol iddi'i hun. Nid yw hyn yn ei hatal rhag gwneud pethau eraill; gall y Gweinidog fwrw ymlaen â'i ddull o ganolbwyntio-ar-y-person, canolbwyntio-ar-gyflogwyr neu gyflogwyr-yn-arwain—neu beth bynnag yw'r jargon—a gosod targed lefel 3 hefyd. Nid yw gwneud y naill beth yn golygu na ellir gwneud y llall, ac ni allaf ddeall pam na all y Llywodraeth fwrw ymlaen â hyn a derbyn yr argymhelliad.

**Jeff Cuthbert:** Fel y dywedais yn fy nghyfraniad, nid yw'r egwyddor o osod lefel 3 yn darged yn peri unrhyw anhawster imi, ond a ydych yn deall pam, mewn rhai meysydd galwedigaethol penodol, y gall fod angen mwy o broffilio, yn ôl y sgiliau sy'n angenrheidiol? I rai, efallai mai cymhwyster crefft sy'n cyfateb i lefel 3 fydd hynny, ac i eraill, lefel 2 efallai, oherwydd dyna natur y diwydiant. Oni allwch weld pam y gallai hynny fod yn sail ar gyfer symud ymlaen?

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn siŵr fod yr Arglwydd Leitch yn yr adolygiad a wnaeth ar ran y Llywodraeth wedi ystyried y ffactorau hynny. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na allwch osod nod cyffredinol i'r Llywodraeth hon weithio tuag ato. Gallwch fwrw ymlaen â'ch gwaith proffilio, neu beth bynnag yr ydych am ei alw, ond mae angen targed uchelgeisiol arnom ar gyfer Cymru, ac nid yw eich Llywodraeth yn ei ddarparu.

O ran argymhelliad 3, mae'n hurt i'r Gweinidog ddweud bod ei strategaeth sgiliau'n ymateb cynhwysfawr i adolygiad Webb—yn syml, nid yw'n gwneud hynny ac nid dyna oedd ei fwriad. Unwaith eto, yr wyf yn rhyfeddu. Mae fel petai adolygiad Webb wedi glanio ar ddesg y Llywodraeth heb iddi ei ddisgwyl. Y Llywodraeth a ofynnodd am yr adolygiad hwn, ac felly go brin y dylai synnu, ar ôl iddi wthio'r holl gychod hynny i'r dŵr a threfnu i'r holl waith hwnnw gael ei wneud, ein bod ni'n awr am gael gwybod sut y mae'r Llywodraeth yn teimlo am yr hyn a ddywedodd yr Athro Webb yn yr adolygiad hwnnw. Nid ymateb i'r adolygiad yw'r strategaeth sgiliau, ac yr wyf yn dal wrth argymhelliad y pwyllgor fod angen inni gael ymateb i adolygiad Webb er mwyn i'r holl bwyntiau a godwyd yn yr adolygiad hwnnw gael sylw digonol. Nid y strategaeth sgiliau

yw'r mecanwaith cywir ar gyfer gwneud hynny.

On recommendation 7, which is on foundation degrees, the Deputy Minister has been all over the shop on his views on this. When he came to the committee, he said that he did not mind if further education institutions did or did not do it—it was up to them. Of course, he had forgotten that his own Government had not asked the UK Government to give it the powers to be able to move forward on this. Over the last six months, we have had four different Government Ministers say, in different settings, that they are in favour of increasing the number of foundation degrees that are offered and awarded in Wales. Yet that is not borne out by the Government's response to our recommendation. We still do not have a clear strategy and policy on what the Government is going to do. The Minister said that he will wait for the results of his consultation exercise and will then make a decision on whether we need a legislative competence Order in order to go forward.

Deputy Minister, your Government will make its legislative plan public next month. You cannot wait any longer—you have to make up your mind now about what you are going to do about this issue.

**Mohammad Asghar:** First, I would like to congratulate Gareth, committee members and staff, on doing such a skilful job.

The Deputy Minister for Skills, John Griffiths, says that he cannot accept the committee's recommendation that the Welsh Assembly Government makes representations to increase Welsh representation on the UK Commission for Employment and skills. He states:

'The Commission is a UK-wide body. Governments in the UK have agreed that each country should have one country Commissioner so that the Commission is fully informed of particular issues in each of the four home nations.'

However, in addition to the four national commissioners, there are a further 20

O ran argymhelliad 7, ar raddau sylfaen, mae barn y Dirprwy Weinidog ar hyn wedi bod fel ceiliog y gwynt. Pan ddaeth at y pwyllgor, dywedodd nad oedd ots ganddo a fyddai sefydliadau addysg bellach yn gwneud hyn ai peidio—eu dewis hwy ydoedd. Wrth gwrs, yr oedd wedi anghofio nad oedd ei Lywodraeth ei hun wedi gofyn i Lywodraeth y DU roi'r pwerau iddi er mwyn gallu symud ymlaen â hyn. Yn ystod y chwe mis diwethaf, clywsom bedwar o wahanol Weinidogion yn y Llywodraeth yn dweud, mewn gwahanol sefyllfaoedd, eu bod o blaid cynyddu nifer y graddau sylfaen sy'n cael eu rhoi a'u dyfarnu yng Nghymru. Eto, nid yw ymateb y Llywodraeth i'n hargymhelliad yn dangos hynny. Nid oes gennym strategaeth glir a pholisi o hyd ar gyfer yr hyn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu'i wneud. Dywedodd y Gweinidog y bydd yn aros am ganlyniadau ei ymarfer ymgynghori, ac y bydd wedyn yn penderfynu a oes angen Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol er mwyn bwrw ymlaen.

Ddirprwy Weinidog, bydd eich Llywodraeth yn cyhoeddi ei chynllun deddfwriaethol fis nesaf. Ni allwch ddisgwyl rhagor—rhaid ichi benderfynu'n awr beth y bwriadwch ei wneud ar y mater hwn.

**Mohammad Asghar:** Yn gyntaf, hoffwn longyfarch Gareth, aelodau'r pwyllgor a'r staff am wneud gwaith mor fedrus.

Dywed John Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, na all dderbyn argymhelliad y pwyllgor y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno sylwadau i gynyddu cynrychiolaeth Cymru ar Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau. Mae'n dweud:

Corff i'r DU i gyd yw'r Comisiwn. Mae Llywodraethau yn y DU wedi cytuno y dylai pob gwlad gael un Comisiynydd o'r wlad er mwyn i'r Comisiwn gael gwybodaeth lawn am faterion penodol ym mhob un o'r pedair gwlad.

Fodd bynnag, yn ogystal â'r pedwar comisiynydd cenedlaethol, mae yna 20

commissioners from business, education, trade unions and social enterprises. These include a representative from the Scottish Trades Union Congress, although the others all appear to be based in England. It is not clear from the website how the other commissioners were appointed. It appears that there was an open application process with input from the devolved administrations. Given that there is a Scottish TUC representative, it seems unfortunate that there is no equivalent representation from Wales. Would the Deputy Minister say more about this process?

The remit letter for the UK Commission for Employment and Skills states:

‘At all times the UK Commission will respect the devolved responsibilities and different arrangements for employment and skills within the UK, and reflect this in its work and approach. The UK Commission will provide advice to Ministers which they will consider individually and/or collectively. The UK Commission will not undertake single country reviews except by agreement with relevant Ministers in that country. The UK Commission will seek to establish a relationship of mutual respect and trust with governments across the UK’.

Under ‘Responsibilities’ it says that the commission will:

‘Work effectively across the four UK nations to support the world class employment and skills agenda’.

It also states that the commission will:

‘Advise Ministers in the four countries on the strategies and policies needed to increase employment, skills and productivity’.

How will this work in practice? The commission intends to set up six sub-committees. Given the balance of the commission, with most of the commissioners based in London, how will the Government ensure that the concerns of Wales are not lost or ignored?

comisiynydd arall o fyd busnes, addysg, yr undebau llafur a mentrau cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolydd o Gyngres Undebau Llafur yr Alban, er bod y lleill i gyd i bob golwg yn dod o Loegr. Nid yw'n glir ar y wefan sut y penodwyd y comisiynwyr eraill. Ymddengys fod yna broses ymgeisio agored a bod gweinyddiaethau datganoledig yn cyfrannu at hynny. Gan fod yno gynrychiolydd o TUC yr Alban, mae'n anffodus braidd nad oes cynrychiolaeth gyfatebol o Gymru. A fyddai'r Dirprwy Weinidog yn dweud mwy am y broses hon?

Mae llythyr cylch gorchwyl Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau yn dweud:

Bydd Comisiwn y DU bob amser yn parhau'r cyfrifoldebau datganoledig a'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyflogaeth a sgiliau o fewn y DU, ac yn adlewyrchu hyn ei waith a'i agweddau. Bydd Comisiwn y DU yn cynghori Gweinidogion a byddant yn ystyried y cyngor hwnnw fel unigolion a/neu gyda'i gilydd. Ni fydd Comisiwn y DU yn gwneud adolygiadau yn y gwledydd unigol, heblaw drwy gytundeb â Gweinidogion perthnasol y wlad honno. Bydd Comisiwn y DU yn ceisio sefydlu perthynas o barch a ffydd, y naill ochr a'r llall, gyda llywodraethau ledled y DU.

Dan ‘Cyfrifoldebau’ mae'n dweud y bydd y Comisiwn:

Yn gweithio'n effeithiol ar draws pedair gwlad y DU i gefnogi'r agenda fyd-eang ar gyflogaeth a sgiliau.

Mae'n dweud hefyd y bydd y comisiwn:

Yn cynghori Gweinidogion yn y pedair gwlad am y strategaethau a'r polisiau angenrheidiol i gynyddu cyflogaeth, sgiliau a chynhyrchedd.

Sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol? Mae'r Comisiwn yn bwriadu sefydlu chwe is-bwyllgor. O gofio cydbwysedd y comisiwn, a bod y rhan fwyaf o'r comisiynwyr yn dod o Lundain, sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau nad yw pryderon Cymru'n mynd ar goll neu'n cael eu hanwybyddu?

The committee's report highlights the fact that more than half of sector skills councils do not have a Welsh office listed in their publicity literature. This, in large part, is what lies behind the following recommendation. It is recommended that:

'the Welsh Assembly Government unit responsible for supporting and advising sector skill councils, works with the new Wales board of the UK Commission on Skills, and uses the re-licensing process to ensure that the SSCs are able to fulfil the role set out for them in the consultation strategy.'

The Deputy Minister says that the Welsh Assembly Government fully supports the direction of this recommendation. What steps will the Minister take to ensure that re-licensed SSCs are more focused on Wales than currently appears to be the case?

**The Deputy Minister for Skills (John Griffiths):** First of all, I want to make it clear how much I value the work of the committee, and I understand some of the frustration about our response. It is inevitable, given the process that we are going through, and where we are at the moment, that we have had to consider the committee's report and recommendations alongside the responses to the consultation on 'Skills that Work for Wales'. As we have not yet published the final document, we have had to be less clear in our response to the committee than we would have liked. Once we get the final document, and have the debate on it, I hope that we will be able to forge a strong consensus on the way forward.

I also understand the concern regarding a response to Webb. We intend to publish a full response to Webb at the same time, or shortly after, the publication of 'Skills that Work for Wales'. That will be a detailed response that Members can look at, and then make known their views. I hope that that answers many of the points made in that regard.

With regard to our Wales board, and indeed

Mae adroddiad y pwyllgor yn tynnu sylw at y ffaith nad oes gan dros hanner y cynghorau sgiliau sector swyddfa yng Nghymru sydd wedi'i rhestru yn eu llynyddiaeth gyhoeddusrwydd. I raddau helaeth, dyna sydd wrth wraidd yr argymhelliad canlynol. Argymhellir:

y dylai'r uned yn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am gefnogi a chynghori'r cynghorau sgiliau sector weithio gyda bwrdd newydd Cymru ar Gomisiwn Sgiliau'r DU, a defnyddio'r broses ail-drwyddedu i sicrhau bod y Cynghorau Sgiliau Sector yn gallu cyflawni'r rôl a osodwyd allan iddynt yn y strategaeth ymgynghori.

Dywed y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n llwyr gefnogi trywydd yr argymhelliad hwn. Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod y Cynghorau Sgiliau Sector, ar ôl eu haildrwyddedu, yn canolbwyntio mwy ar Gymru nag y maent, i bob golwg, ar hyn o bryd?

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Yn gyntaf oll, dymunaf ei gwneud yn glir faint yr wyf yn gwerthfawrogi gwaith y pwyllgor, a gallaf ddeall rhywfaint o'r rhwystredigaeth ynglŷn â'n hymateb. Mae'n anochel, o gofio'r broses yr ydym yn mynd drwyddi, a lle'r ydym arni ar hyn o bryd, ein bod wedi gorfod ystyried adroddiad ac argymhellion y pwyllgor ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghori ar 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'. Gan nad ydym eto wedi cyhoeddi'r ddogfen derfynol, yr oedd yn rhaid inni fod yn llai clir yn ein hymateb i'r pwyllgor nag a fyddem wedi'i ddymino. Ar ôl inni gael y ddogfen derfynol, a chael dadl arni, gobeithio y byddwn yn gallu llunio consensws cryf ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

Yr wyf yn deall hefyd y pryder ynglŷn ag ymateb i Webb. Bwriadwn gyhoeddi ymateb llawn i Webb yr un pryd ag y byddwn yn cyhoeddi 'Sgiliau ar gyfer Gwaith i Gymru', neu'n fuan wedyn. Bydd yr ymateb hwnnw'n un manwl y gall yr Aelodau edrych arno ac yna fynegi eu barn. Gobeithio bod hynny'n ateb llawer o'r pwyntiau yn y cyswllt hwnnw.

Gyda golwg ar ein bwrdd yng Nghymru, ac

the UK commission and the sector skills councils, I understand many of the concerns expressed. We want to ensure that Wales has as strong as possible voice on that UK commission. We believe that Adrian Webb, as chair of the Wales board, and a member of the UK commission, will do a very good job, given his experience and ability, but there are other avenues.

4.30 p.m.

Oscar mentioned the composition of that UK commission, and there is someone else on that UK commission, apart from Adrian Webb, who is Welsh and was born in Wales. He was a principal of a further education college in Wales but is now a principal of an FE college in England. That is useful. With regard to the sub-groups, we will have Welsh representation on the UK commission sub-groups from the Wales board, which will also be useful. For example—and this answers some of the concerns around sector skills councils—Huw Jones, who is the vice-chair of the Wales board, will sit on the sub-group dealing with the relicensing process of the sector skills councils, and that will be useful, given the role that they will have in the future.

As ever, it was a wide-ranging debate that raised many important points. In my allotted time, I am afraid that I will not be able to answer them all in the depth that I would like. In terms of being demand-led and the role of the private sector, we are quite clear that we must be much more demand-led in the future, as Leitch made so crystal clear in his report. We must be more responsive to the skills that will be needed in the future, but we have to strike a balance between that and wider educational and training values. The contributions policy that we intend to take forward will be based on shared responsibility. Government has an obvious responsibility to give people a basic raft of skills and, beyond that, when there is a more direct return to employers and individuals, there is an obvious case for them to make some contribution towards the cost of that education and training.

yn wir ar gomisiwn y DU a'r cynghorau sgiliau sector, gallaf ddeall llawer o'r pryderon a fynegwyd. Yr ydym am sicrhau bod gan Gymru lais mor gryf ag y bo modd ar y comisiwn hwnnw ar gyfer y DU. Credwn y bydd Adrian Webb, fel cadeirydd bwrdd Cymru, ac aelod o gomisiwn y DU, yn gwneud gwaith da iawn, o ystyried ei brofiad a'i allu, ond mae yna lwybrau eraill.

Soniodd Oscar am gyfansoddiad y comisiwn hwnnw i'r DU, ac mae rhywun arall ar y comisiwn hwnnw i'r DU, ar wahân i Adrian Webb, sy'n Gymro ac wedi ei eni yng Nghymru. Yr oedd yn brifathro coleg addysg bellach yng Nghymru, ond erbyn hyn mae'n brifathro coleg AB yn Lloegr. Mae hynny'n ddefnyddiol. O ran yr is-grwpiau, bydd gan Gymru gynrychiolaeth ar is-grwpiau comisiwn y DU oddi ar fwrdd Cymru, a fydd hefyd yn ddefnyddiol. Er enghraifft—ac mae hyn yn ateb rhai o'r pryderon ynglŷn â chynghorau sgiliau sector—bydd Huw Jones, sy'n is-gadeirydd bwrdd Cymru, yn eistedd ar yr is-bwyllgor sy'n delio â phroses ailrwyddedu'r cynghorau sgiliau sector, a bydd hynny'n ddefnyddiol, o gofio'r rôl a fydd ganddynt yn y dyfodol.

Fel bob amser, yr oedd yn ddadl eang ei chwmpas a gododd lawer o bwyntiau pwysig. Yn yr amser sydd wedi'i neilltuo imi, mae arnaf ofn na allaf ateb pob un ohonynt mor drylwyr ag y byddwn yn dymuno. O ran cael ein harwain gan y galw ac o safbwynt rôl y sector preifat, yr ydym yn ddigon clir ei bod yn rhaid inni gael ein harwain lawer yn fwy gan y galw yn y dyfodol, fel y gwnaethpwyd yn hollol glir gan Leitch. Rhaid inni fod yn barod i ymateb o ran y sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol, ond rhaid inni gadw cydbwysedd rhwng hynny a gwerthoedd addysgol a hyfforddiant ehangach. Bydd y polisi cyfraniadau y bwriadwn ei symud ymlaen yn seiliedig ar rannu cyfrifoldeb. Mae gan Lywodraeth gyfrifoldeb amlwg i roi amryw o sgiliau sylfaenol i bobl, a'r tu hwnt i hynny, pan fydd enillion uniongyrchol i gyflogwyr ac unigolion, mae achos amlwg o blaid cael Llywodraeth i wneud rhyw gyfraniad at gost yr addysg a'r hyfforddiant hwnnw.



The points made about level 3 and the level that we should aspire to were well answered by Jeff Cuthbert. We want to be demand-responsive, and if we are to be responsive in that way, we cannot focus all our attention on a particular level.

**David Melding:** Will you give way?

**John Griffiths:** I am afraid that I do not have time, David; I am very sorry, but I have about 45 seconds left.

The bedrock is basic skills, but we must ensure, as I said in my introduction, that we address all levels.

On the skills aspects that Janet Ryder mentioned, we are committed to the skills framework for ages 3 to 19. It is about experiential learning and developing skills. It will relate to the foundation phase and the new curriculum starting in September and will go through to 14 to 19 learning pathways.

In conclusion, I hope that we can move forward in the spirit of consensus when we get to the Plenary debate on the final version of 'Skills That Work for Wales' and the action plan. We will show leadership in that document, and I hope that that will be appreciated. This is an important agenda for Wales and, as a Welsh Assembly Government, we are absolutely determined to make a success of this and to ensure that we indeed deliver skills that work for Wales.

**Gareth Jones:** Diolchaf yn fawr iawn, fel y mae Aelodau eraill eisoes wedi'i wneud, am y gwaith ardderchog y mae Kathryn Jenkins, Daniel Collier a'r tîm wedi'i wneud, ac am eu cefnogaeth. Os oes ansawdd yn yr adroddiad hwn, mae hynny'n ymwneud hefyd â sgiliau Aelodau sydd yn dreiddgar yn eu cwestiynu a'u craffu, a rhaid cydnabod y sgiliau hynny hefyd.

Yr ydym wedi cael dadl llawn angerdd y prynhawn yma, oherwydd bod yr Aelodau, fel y Dirprwy Weinidog, yn ymwybodol o'n sefyllfa ni yng Nghymru cyn belled â mae

Cafodd y pwyntiau a wnaethpwyd am lefel 3 a'r lefel y dylem ymgysylltu ati eu hateb yn dda gan Jeff Cuthbert. Yr ydym am ymateb i'r galw, ac er mwyn inni allu ymateb fel hynny ni allwn hoelio ein holl sylw ar lefel neilltuol.

**David Melding:** A wnewch ildio?

**John Griffiths:** Mae arnaf ofn nad oes gennyf amser, David; mae'n ddrwg iawn gennyf, ond dim ond rhyw 45 eiliad sydd gennyf ar ôl.

Sgiliau sylfaenol yw craidd hyn, ond rhaid inni sicrhau, fel y dywedais yn fy rhagymadrodd, ein bod yn rhoi sylw i bob lefel.

O ran yr agweddau sgiliau a grybwyllodd Janet Ryder, yr ydym wedi ymrwymo i'r fframwaith sgiliau ar gyfer oeddrannau 3 i 19. Hanfod hyn yw dysgu drwy brofiad a datblygu sgiliau. Bydd yn berthnasol i'r cyfnod sylfaen a'r cwricwlwm newydd sy'n dechrau ym mis Medi, a bydd yn mynd drwy'r llwybrau dysgu 14 i 19.

I gloi, gobeithio y gallwn symud ymlaen mewn ysbryd o gonsensws pan gawn y dadl mewn Cyfarfod Llawn am fersiwn derfynol 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' a'r cynllun gweithredu. Byddwn yn dangos arweinyddiaeth yn y ddogfen honno, a gobeithio y caiff hynny ei werthfawrogi. Mae hon yn agenda bwysig i Gymru, ac fel Llywodraeth Cynulliad Cymru yr ydym yn hollol benderfynol o wneud i hyn lwyddo a sicrhau ein bod yn wir yn darparu sgiliau sy'n gweithio i Gymru.

**Gareth Jones:** Like other Members, I thank Kathryn Jenkins, Daniel Collier and the team for the excellent work that they carried out, and for their support. If this is a report of quality, that is also to do with the skills of Members who are thorough in their questioning and scrutiny, and we must recognise that.

We have had a debate which was full of passion this afternoon, because Members, like the Deputy Minister, are aware of our situation in Wales as far as skill levels and

lefel sgiliau ac ansawdd swyddi yn y cwestiwn ac o ran lle'r ydym arni o ran datblygu ac ychwanegu at werth. Mae'r materion hynny o angerddol bwys i bob un ohonom. Yr ydym i gyd yn cydnabod, felly, y cyfrifoldeb sydd ar eich hysgwyddau chi, Dirprwy Weinidog. Yr ydym hefyd yn cydnabod bod llawer o adroddiadau ac ymatebion ymgynghorol wedi bod a bod yn rhaid ichi gydbwysu'r rheiny a dod at gasgliadau a fydd yn dyngedfennol bwysig i ni yng Nghymru. Am y rheswm hwnnw ceir angerdd yn y ddadl hon ac y cafwyd angerdd yn y cyfraniadau'r prynhawn yma.

Yr ydych wedi derbyn y negeseuon sydd gennym, Ddirprwy Weinidog, a dymunwn ichi roi pob sylw iddynt. Yr wyf yn cydnabod eich bod yn barod i wneud hynny a gobeithiaf y byddwch yn ystyried eu cynnwys yn y strategaeth a'r cynllun gweithredu. Edrychwn ymlaen at weld hwnnw ar 18 Mehefin.

Nid wyf am fynd dros y pwyntiau a godwyd eisoes y prynhawn yma. Yr ydym i gyd yn ymwybodol o'r sefyllfa ar hyn o bryd. Bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu, pan ddaw, yn allweddol bwysig i bob un ohonom ac i bawb y tu allan i'r Siambr. Yr ydym am weld Cymru well ac yr ydym am i bobl feddu ar sgiliau o well ansawdd. Mae dadl ynglŷn â'r lefel yr ydych yn ei gosod ar gyfer y sgiliau hynny ac mae'n glir bod ddwy ochr i'r ddadl honno. Bu i Janet Ryder gyfeirio at adnoddau hefyd. Mae nifer fawr o bethau i'w hystyried.

Yr wyf yn hynod ddiolchgar i bob un o'r Aelodau sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn, ac i'r clerc a'r dirprwy glerc. Edrychwn ymlaen, Ddirprwy Weinidog, at eich cyfraniad allweddol chi. Cawn gyfle i graffu ar yr hyn y byddwch yn cyflwyno i ni ar 18 Mehefin. Yr wyf yn dymuno'r gorau i chi ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth i chi ymgymryd â'r gwaith hollbwysig hwn.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to note the Enterprise and Learning Committee's report. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.*

the quality of jobs are concerned and in terms of where we are with regard to development and added value. These matters are very important to every one of us. We all recognise, therefore, the responsibility on your shoulders, Deputy Minister. We also recognise that there have been many reports and consultation responses and that you have to evaluate them and come to conclusions which will be crucial to us in Wales. That is why there has been passion in this debate and in the contributions this afternoon.

You have received our messages, Deputy Minister, and we want you to give them your full attention. I recognise that you are willing to do that and I hope you will consider including them in the strategy and the action plan. We look forward to seeing that on 18 June.

I will not go over the points that have already been made this afternoon. We are all aware of the current situation. The strategy and action plan, when it comes about, will be vitally important to every one of us and to everyone outside the Chamber. We want to see a better Wales and we want to see people having better skills. There is a debate about the level you are setting for those skills, and it is clear that there are two sides to that debate. Janet Ryder also referred to resources. There are many things to consider.

I am extremely grateful to every Member who has contributed to this report, and to the clerk and deputy clerk. I look forward, Deputy Minister, to your key contribution. We will have an opportunity to scrutinise what you present to us on 18 June. I wish you and the Welsh Assembly Government well in undertaking this vital work.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Motion carried.*

## **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate**

### **Nodyn Cyngor Technegol 8 Technical Advice Note 8**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Kirsty Williams.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Kirsty Williams.

**Brynle Williams:** I propose that

**Brynle Williams:** Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales:*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. acknowledges the contribution that sustainable forestry management can make towards addressing climate change; and*

*1. yn cydnabod y cyfraniad y gall rheoli coedwigaeth yn gynaliadwy ei wneud at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd; a*

*2. calls on the Welsh Assembly Government to:*

*2. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:*

*a) review TAN 8 in accordance with the decision made by the National Assembly on 20 June 2007; and*

*a) adolygu TAN 8 yn unol â'r penderfyniad a wnaethpwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 20 Mehefin 2007; a*

*b) abandon its plans to build wind turbines on Forestry Commission Wales land. (NDM3949)*

*b) rhoi'r gorau i'w chynlluniau i adeiladu Tyrbinau Gwynt ar dir Comisiwn Coedwigaeth Cymru. (NDM3949)*

I am grateful for the opportunity to propose this motion on behalf of my colleague. Issues regarding sustainability are incredibly relevant, and the continuing debate regarding the far-reaching scope of this subject is necessary if we are to achieve progress. Therefore, Welsh Conservatives are again at the forefront of the ongoing sustainability conversation—[*Interruption.*] Thank you, fans. We understand and emphasise the importance of bringing it into this context.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyflwyno'r cynnig hwn ar ran fy nghyd-Aelodau. Mae materion ynglŷn â chynaliadwyedd yn anhygoel o berthnasol, ac mae'r ddadl sy'n parhau ynglŷn â chwmpas pellgyrhaeddol y mater hwn yn angenrheidiol os ydym i wneud cynnydd. Felly, mae Ceidwadwyr Cymru unwaith eto'n arwain y sgwrs sy'n parhau am gynaliadwyedd—[*Torri ar draws.*] Diolch ichi, gefnogwyr. Yr ydym yn deall ac yn pwysleisio pwysigrwydd gosod hyn yn ei gyd-destun.

As the motion suggests, our focus today is on sustainable forest management, with specific reference to the climate change challenge that we all face. Our forests in Wales count among some of our most valuable assets. Some 14 per cent of Wales is woodland. Although that is less than the EU average of 32 per cent, the part that it plays in aspects such as industry, the landscape and recreation should not be overlooked. Furthermore, with 40 per cent of the forestry land in Wales

Fel y mae'r cynnig yn ei awgrymu, yr ydym yn canolbwyntio heddiw ar reoli coedwigaeth yn gynaliadwy, gan gyfeirio'n benodol at her y newid yn yr hinsawdd yr ydym i gyd yn ei hwynebu. Mae ein coedwigoedd ymhlith ein hasedau mwyaf gwerthfawr yng Nghymru. Mae rhyw 14 y cant o Gymru yn goetir. Er bod hynny'n llai na chyfartaledd yr UE o 32 y cant, ni ddylid anwybyddu'r tirwedd a hamdden. At hynny, gyda 40 y cant o'r tir coedwigaeth yng Nghymru dan gyfrifoldeb

coming under the direct responsibility of the Welsh Assembly Government, the Labour-Plaid Government should be doing everything that it can to ensure its fair share of woodland in Wales is managed well for the benefit of the people of Wales, whom, of course, we represent.

In a recent survey conducted by Forestry Commission Wales, the findings on the public perception of woodland in Wales make interesting reading. For example, 71 per cent of those surveyed thought that trees were good because they remove carbon dioxide from the atmosphere and store it in the wood; 86 per cent said that a lot more trees should be planted; and 53 per cent believed that cutting down trees and woodland makes climate change worse. Over 90 per cent of respondents strongly agreed or agreed that woodland plays an important role in children's and young people's outdoor experience and that woodlands in Wales are an important part of the country's natural and cultural heritage.

4.40 p.m.

**Alun Ffred Jones:** Yr ydych newydd gyfeirio at y ffaith bod y coedwigoedd hyn yn rhan o'n treftadaeth naturiol. A ydych yn derbyn bod coed y Comisiwn Goedwigaeth i gyd wedi cael eu plannu ac nad ydynt yn goed cynhenid i Gymru? Cawsant eu plannu'n bennaf ar ôl y rhyfel byd cyntaf.

**Brynle Williams:** Yr wyf yn cydnabod bod y rhan fwyaf ohonynt wedi'u plannu rhwng ac ar ôl y rhyfeloedd byd. Yr wyf yn dweud y dylai'r rhain barhau a'u bod yn rhan o'n gwlad.

Some 79 per cent said that they had visited forests or woodlands for walks, picnics or other recreation in the past few years. It is certain from these figures—whether we agree with the perceptions or not—that woodland in Wales is important in the lives of the people in Wales. Increasingly, the perception is that our forests need to be preserved and managed well, especially within the context of climate change. Unfortunately, however, there is often a blinkered view of forest management, and a failure to take in the big

uniongyrchol Llywodraeth Cynulliad Cymru, dylai Llywodraeth Lafur-Plaid fod yn gwneud popeth a all i sicrhau bod cyfran deg o'r coetiroedd yng Nghymru yn cael ei rheoli'n dda er lles pobl Cymru yr ydym ni, wrth gwrs, yn eu cynrychioli.

Mewn arolwg yn ddiweddar a wnaed gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, mae'r darganfyddiadau am argraffiadau'r cyhoedd o goetiroedd yng Nghymru yn ddeunydd darllen diddorol. Er enghraifft, credai 71 y cant o'r rhai a arolygwyd fod coed yn dda am eu bod yn tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer ac yn ei storio yn y pren; dywedodd 86 y cant y dylid plannu llawer rhagor o goed; a chredai 53 y cant fod torri coed a choetiroedd yn gwneud y newid yn yr hinsawdd yn waeth. Yr oedd dros 90 y cant o'r rhai a ymatebodd yn cytuno ynteu'n cytuno'n gryf fod coetiroedd yn bwysig ym mhrofiadau plant a phobl ifanc yn yr awyr agored, a bod coetiroedd yng Nghymru yn rhan bwysig o dreftadaeth naturiol a diwylliannol y wlad.

**Alun Ffred Jones:** You have just referred to the fact that these woodlands are part of our natural heritage. Do you accept that Forestry Commission trees were all planted and that they are not trees that are native to Wales? They were mostly planted after the first world war.

**Brynle Williams:** I recognise that most of them were planted between and after the world wars. I am saying that they should remain and that they are part of our country.

Dyweddodd rhyw 79 y cant eu bod wedi ymweld â choedwigoedd neu goetiroedd i fynd am dro, i gael picnic neu i hamddena fel arall yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n sicr o'r ffigurau hyn—p'un a ydym yn cytuno â'r argraffiadau ai peidio—fod coetiroedd yng Nghymru yn bwysig ym mywydau pobl Cymru. Yn gynyddol, yr argraff yw fod angen cadw ein coedwigoedd a'u rheoli'n dda, yn enwedig yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd. Yn anffodus, fodd bynnag, edrychir mewn rhyw ffordd gibddall yn aml

picture is detrimental locally and nationally.

Without wishing to state the obvious, a well-managed forest has surely much more to offer than just being a place to walk the dog or have a picnic, although both of those pastimes have significant merit. Our forests need to be appreciated for their multi-functional aspects and the beneficial differences that they can make to so many areas of our lives and, as mentioned, for the ways in which they offer benefit to communities locally and to the country as a whole. Let us be clear, forests naturally offer a great resource in helping us to reduce our carbon footprint, and if for no other reason than that, we must ensure that our forests are managed and utilised to their full potential.

**Peter Black:** Will you give way?

**Brynle Williams:** No, I will not.

There are several excellent examples of forest management in Wales. For example, Llandegla forest in north Wales is managed impressively. Llandegla forest is owned and managed by UPM Tilhill and covers an area of some 1,620 acres. The forest produces a sustainable yield of about 6,500 tonnes of timber a year. In 2005, it won the Woods for Wales award as the best managed forest in Wales. Among other species, it is home to about 50 per cent of Wales's black grouse population.

Another jewel in the crown, proving that the private sector can produce public benefit within the context of commercial forest management, is the Llandegla mountain bike visitor centre, which, with its extensive mountain bike trails, cafe, conference room, shop and other facilities, is one of the largest privately owned recreation facilities in north Wales. Through various partnerships, ranging from the local community to the Forestry Commission, UPM Tilhill has developed a resource that has ambitious goals, including increasing its visitor level far above the current level of 120,000 a year. The company's overall sustainability ethos is also

ar reoli coedwigoedd, ac mae methiant i edrych ar y darlun mawr yn niweidiol yn lleol ac yn genedlaethol.

Nid wyf am ddweud rhywbeth sy'n amlwg, ond onid oes gan goedwig sy'n cael ei rheoli'n dda lawer mwy i'w gynnig na dim ond lle i fynd â'r ci am dro neu i gael picnic, er bod cryn rinwedd yn y naill ddifyrrwch a'r llall? Mae angen gwerthfawrogi ein coedwigoedd am eu hagweddau amlochrog ac am y gwahaniaethau llesol y gallant eu gwneud i gynifer o rannau o'n bywydau, ac fel y crybwyllwyd, am y ffyrdd y maent yn llesol i gymunedau'n lleol ac i'r wlad yn ei chyfanrwydd. Gadewch inni fod yn glir; mae coedwigoedd yn naturiol yn adnodd gwych i'n helpu i leihau ein hól-troed carbon, a phe bai am ddim un reswm heblaw hynny, rhaid inni sicrhau bod ein coedwigoedd yn cael eu rheoli a'u defnyddio i'w potensial llawn.

**Peter Black:** A wnewch chi ildio?

**Brynle Williams:** Na wnaif.

Mae yna nifer o enghreifftiau rhagorol o reoli coedwigoedd yng Nghymru. Er enghraifft, mae goedwig Llandegla yn y gogledd yn cael ei rheoli'n arbennig o dda. Mae goedwig Llandegla yn eiddo i UPM Tilhill ac yn cael ei rheoli ganddo, ac mae'n cwmpasu tua 1,620 erw. Mae'r goedwig yn cynhyrchu cwnd cynaliadwy o ryw 6,500 tonnell fetrig o goed y flwyddyn. Yn 2005, enillodd wobwr Coedwigoedd Cymru fel y goedwig a oedd yn cael ei rheoli orau yng Nghymru. Ymysg rhywogaethau eraill, mae'n gartref i 50 y cant o boblogaeth y rugiar ddu yng Nghymru

Un arall o'n trysorau, sy'n profi bod y sector preifat yn gallu bod o fudd i'r cyhoedd yng nghyd-destun rheoli coedwigoedd yn fasnachol yw'r ganolfan ymwelwyr beicio mynydd yn Llandegla sydd, gyda'i llwybrau beicio mynydd helaeth, ei chaffi, ei hystafell gynadledda, ei siop a'i chyfleusterau eraill, yn un o'r cyfleusterau hamdden mwyaf mewn dwylo preifat yn y gogledd. Drwy wahanol bartneriaethau, sy'n amrywio o'r gymuned leol i'r Comisiwn Coedwigaeth, mae UPM Tilhill wedi datblygu adnodd sydd ag amcanion uchelgeisiol, gan gynnwys cynyddu ei lefel ymwelwyr ymhell uwchlaw'r lefel bresennol o 120,000 y

impressive, and it has a timber management programme that makes environmental sense. That includes good practices ranging from forest residue harvesting and short rotation forestry to supplying other environmentally sustainable industries such as the company's own paper mill in Shotton, in my constituency. The company's forest management is to be commended and the whole process of the market chain is accounted for.

I suggest that this is in complete contrast to the way in which the Labour-Plaid Government views the forests under its jurisdiction. By embracing TAN 8 and the designated strategic search areas that it contains, the Labour-Plaid Government has in effect rushed headlong into this and, potentially, will be clearing huge areas of forest in an effort to fulfil its blinkered programme of proliferation with regard to onshore wind technology. The Labour-Plaid Government is clearly at odds with itself over its sustainability and environmental strategic objectives.

**Leanne Wood:** Take a look at yourselves.

**Brynle Williams:** I will take an intervention if you want to make one.

**Leanne Wood:** If you are saying that the Labour/Plaid Cymru Government is at odds with itself in relation to sustainability, I suggest that the Conservatives take a look at themselves.

**Brynle Williams:** On the one hand, the Government is handing over significant tracts of Government-owned forestry land to windfarm developers for it to be felled while on the other Ministers are stressing the importance of maintaining Welsh forests because of their value to the Welsh economy and tackling climate change. It is up to you.

The landscape is perhaps the most valuable asset of Wales. While the land itself supports agriculture and forestry, it is tourism that

flwyddyn. Mae ethos cynaliadwyedd cyffredinol y cwmni hefyd yn arbennig, ac mae ganddo raglen rheoli coed sy'n gwneud ddoeth yn amgylcheddol. Mae hynny'n cynnwys arferion da sy'n amrywio o gynaeafu'r gweddillion yn y goedwig, a choedwigaeth cylchdro byr i gyflenwi diwydiannau eraill sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol, megis melin bapur y cwmni ei hun yn Shotton, yn fy etholaeth i. Mae'r ffordd y mae'r cwmni'n rheoli coedwigoedd i'w chanmol, a rhoddir cyfrif am holl broses y gadwyn farchnad.

Awgrymaf fod hyn yn hollol i'r gwrthwyneb i'r ffordd y mae'r Llywodraeth Lafur-Plaid yn edrych ar y coedwigoedd y mae'n gyfrifol amdanynt. Drwy groesawu TAN 8 a'r ardaloedd chwilio strategol dynodedig y mae'n eu cynnwys, mae'r Llywodraeth Lafur-Plaid wedi rhuthro ar ei phen i hyn mewn gwirionedd, ac o bosibl bydd yn clirio darnau enfawr o goedwigoedd mewn ymgais i gyflawni ei rhaglen amlhau gibddall yng nghyswllt technoleg gwynt ar y tir. Mae'r Llywodraeth Lafur-Plaid yn amlwg yn anghytuno â hi ei hun ynglŷn â'i hamcanion strategol o ran cynaliadwyedd a'r amgylchedd.

**Leanne Wood:** Edrychwch arnoch chi'n hunain.

**Brynle Williams:** Cymeraf ymyriad os ydych am wneud un.

**Leanne Wood:** Os ydych yn awgrymu bod y Llywodraeth Lafur/Plaid Cymru yn anghytuno â hi ei hun o ran cynaliadwyedd, awgrymaf fod y Ceidwadwyr yn edrych arnynt eu hunain.

**Brynle Williams:** Ar y naill law, mae'r Llywodraeth yn trosglwyddo lleiniau mawr o dir coedwigaeth sy'n eiddo i'r Llywodraeth i ddatblygwyr ffermydd gwynt er mwyn cwmpo'r coed, ac ar y llaw arall mae Gweinidogion yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal coedwigoedd Cymru oherwydd eu gwerth i economi Cymru ac i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Y dirwedd, efallai, yw ased fwyaf gwerthfawr Cymru. Er bod y tir ei hun yn cynnal amaethyddiaeth a choedwigaeth,

makes the leading contribution to the economy of Wales. Much of the appeal of the Welsh landscape lies in its wildness, a sense of remoteness, and an absence of urban and industrial features. That is what is under threat. For example, in the Clocaenog forest in Denbighshire, TAN 8 accepts that half of the 12,500 acre forest will probably have to be cleared and felled to accommodate wind turbines. In the case of Clocaenog forest, it is not just the landscape features that are at risk. Good forest management also includes an assessment of water and flood risk management. Many forests, such as Clocaenog, occupy highland areas, and play a part in reducing the flood risk for areas downstream. In this case, as we have said several times before here, Ruthin could become vulnerable.

Many of our forests are habitats for vulnerable species. For example, the black grouse is found in Llandegla forest, while Clocaenog is home to the largest population of red squirrels in Wales. TAN 8 appears to have no mechanism to take these important aspects into consideration.

TAN 8 has numerous faults, as we have highlighted on many occasions. These include the imposition of windfarms on rural communities, tying the hands of local planning authorities, and its failure to propose other sources of renewable energy or ways to increase and promote energy efficiency. That is why last June, roughly a year ago, an agreement was made by the National Assembly to review TAN 8. However, to date, there is still no sign of that review. Surely it is time for the Labour/Plaid Government honoured that agreement and reviewed TAN 8 rather than simply paying lip service—

**Alun Davies** *rose*—

**Brynle Williams:** I am sorry, but I am running out of time. It is now time for the Plaid element of the coalition to speak up, as it did last June, in support of our calls for a review—or will the Party of Wales continue

twristiaeth sy'n gwneud y prif gyfraniad i economi Cymru. Gwylltineb tirwedd Cymru sydd i gyfrif am lawer o'i hatyniad, y teimlad eich bod ymhell o bobman, heb nodweddion trefol na diwydiannol i'w gweld yn unman. Dyna sydd dan fygythiad. Er enghraifft, yng nghoedwig Clocaenog yn sir Ddinbych mae TAN 8 yn derbyn ei bod yn debygol y bydd yn rhaid i hanner y goedwig o 12,500 erw gael ei chlririo drwy gwympo'r coed i wneud lle i dyrbinau gwynt. Yn achos coedwig Clocaenog, nid nodweddion y tirwedd yn unig sydd dan fygythiad. Mae rheoli coedwigoedd yn dda hefyd yn cynnwys asesu'r dŵr a rheoli perygl llifogydd. Mae llawer o goedwigoedd, fel Clocaenog, mewn mannau yn yr ucheldir ac yn chwarae rhan wrth leihau perygl llifogydd mewn ardaloedd i lawr yr afon. Yn yr achos hwn, fel y dywedwyd gennym droeon o'r blaen yn y fan yma, gallai Rhuthun fod yn agored i berygl.

Mae llawer o'n coedwigoedd yn gynefinoedd i rywogaethau sy'n agored i niwed. Er enghraifft, mae grugieir duon yng nghoedwig Llandegla, ac mae Clocaenog yn gartref i'r boblogaeth fwyaf yng Nghymru o wiwerod coch. Mae'n ymddangos nad oes mecanwaith yn TAN 8 o gwbl i ystyried yr agweddau pwysig hyn.

Mae i TAN 8 nifer o wendidau, fel y tanlinellwyd gennym droeon. Mae'r rhain yn cynnwys gorfodi cymunedau gwledig i dderbyn ffermydd gwynt, clymu dwylo awdurdodau cynllunio lleol, a methiant i gynnig ffynonellau eraill o ynni adnewyddadwy neu ffyrdd i gynyddu a hybu effeithiolrwydd ynni. Dyna pam, fis Mehefin diwethaf, flwyddyn yn ôl fwy neu lai, y gwnaethpwyd cytundeb gan y Cynulliad Cenedlaethol i adolygu TAN 8. Fodd bynnag, hyd yma nid oes golwg o gwbl o'r adolygiad hwnnw. Yn sicr, mae'n bryd i'r Llywodraeth Lafur/Plaid anrhydeddu'r cytundeb hwnnw ac adolygu TAN 8 yn hytrach nag esgus cefnogi—

**Alun Davies** *a gododd*—

**Brynle Williams:** Mae'n ddrwg gennyf, ond mae fy amser yn prinhaus. Mae'n bryd yn awr i elfen Plaid yn y glymblaid siarad yn uwch, fel y gwnaeth fis Mehefin diwethaf, i gefnogi ein galwadau am adolygiad—neu a fydd

to capitulate on Labour's terms and be jointly responsible for the demise of our rich environmental heritage?

As well as calling for a review of TAN 8, in line with the need for better forest management, the Welsh Conservatives also call on the Labour/Plaid Government to abandon its plans to build windfarms on Forestry Commission land. No doubt, Labour will jump on this and continue trying to paint the Welsh Conservatives as being totally opposed to renewable wind technology. However, to make it clear once again, the Welsh Conservatives are not against wind energy. *[Interruption.]*

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Unless you are allowing an intervention, Brynle, just ignore everyone else.

**Alun Davies:** Will you take an intervention, Brynle?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. No, he will not. Please carry on, Brynle.

**Brynle Williams:** What we are opposed to is the imposition of large-scale windfarms against the wishes of local people, which can have a devastating impact on communities and the local environment. We believe that a balanced approach should be taken to renewable energy, which will create more opportunities for British business and have a far less intrusive impact on our landscape.

New green technologies have been sidelined in Wales because Rhodri Morgan has failed to show leadership by developing a more diverse mix of renewable energy sources. I challenge you to talk to any expert in the field of renewable energy technology, as I can almost guarantee that there will be unanimous agreement that placing all our eggs in the basket of windfarms is just asking for trouble, and that wind technology is not the utopian dream that this Labour/Plaid Government makes it out to be.

4.50 p.m.

The Labour/Plaid Government could choose

Plaid Cymru yn parhau i ildio ar delerau Llafur a bod yn gydgryfifol am dranc ein hetifeddiaeth amgylcheddol gyfoethog?

Yn ogystal â galw am adolygiad o TAN 8, yn unol â'r angen am reoli'r coedwigoedd yn well, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn galw hefyd ar y Llywodraeth Lafur/Plaid i roi'r gorau i'w chynlluniau i godi ffermydd gwynt ar dir y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'n siŵr y bydd Llafur yn neidio ar hyn ac yn dal i ddweud bod y Ceidwadwyr Cymreig yn gwbl wrthwynebus i dechnoleg adnewyddadwy sy'n defnyddio'r gwynt. Fodd bynnag, i egluro hyn unwaith eto, nid yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn erbyn ynni gwynt. *[Torri ar draws.]*

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Oni bai eich bod yn caniatáu ymyriad, Brynle, anwybyddwch bawb arall.

**Alun Davies:** A wnewch chi dderbyn ymyriad, Brynle?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Na, nid yw am dderbyn ymyriad. Ewch yn eich blaen, Brynle.

**Brynle Williams:** Yr hyn yr ydym yn ei wrthwynebu yw gorfodi ffermydd gwynt mawr yn groes i ddymuniadau pobl leol, a gall hynny gael effaith ddinistriol ar gymunedau ac ar yr amgylchedd lleol. Credwn y dylid cael agwedd gytbwys at ynni adnewyddadwy, a fydd yn creu mwy o gyfleoedd i fusnesau Prydeinig a chael effaith lawer llai ymwithiol ar ein tirwedd.

Mae technolegau gwyrdd newydd wedi'u gwrthio i'r ymylon yng Nghymru oherwydd bod Rhodri Morgan wedi methu dangos arweinyddiaeth drwy ddatblygu cymysgedd mwy amrywiol o ffynonellau ynni. Heriaf chi i siarad ag unrhyw arbenigwr ym maes technoleg ynni adnewyddadwy, oherwydd gallaf sicrhau bron y bydd cytundeb unfrydol fod gosod ein holl wyau yn yr un fased yn gwahodd trybini, ac nad breuddwyd delfrydol yw technoleg gwynt, fel y mae'r Llywodraeth Lafur/Plaid hon yn ei ddarlunio.

Gallai'r Llywodraeth Lafur/Plaid ddewis



to embrace a variety of technologies, and show itself to be a true leader by working with the support of local communities, or it could join the bandwagon and continue to rush headlong into wind technology against the wishes and opinions of local communities.

The Welsh Conservatives are not against wind technology, but we believe that it should take its place alongside other renewable technologies, with the support of local communities.

**Michael German:** I propose amendment 1 in the name of Kirsty Williams. Delete point 2 b) and replace with new points:

*b) fully explain how it intends to reach the TAN 8 targets by 2010;*

*c) undertake a full appraisal of the impact of any wind power development on other investments in the area which enhance tourism and recreation.*

For the sake of absolute accuracy, I confirm that our amendment would modify the motion so that it asks the Welsh Assembly Government to undertake the action that the Assembly itself voted for last year, namely to review TAN 8, and would not necessarily to present the outcome that Brynle is seeking. Its second point seeks to ensure an economic appraisal of each of the proposals that are before you as and when they appear. That is important. However, the economic appraisal will not necessarily provide the answer that Brynle is seeking.

We have already had two surveys—one by the University of the West of England and another by MORI—which conclude that windfarms are not seen as having a detrimental effect on the visitor and that visitors are not deterred from visiting an area in the future. It is not necessarily the case that the economic appraisal will produce a negative result; it could well produce a positive result.

I am sorry for Brynle because he is obviously well meaning and probably has his own

cwmpasu nifer o dechnolegau, a dangos ei bod yn wir arweinydd drwy weithio gyda chefnogaeth cymunedau lleol. Fel arall gallai ddilyn y ffasiwn a pharhau i rithro ar ei phen i mewn i dechnoleg gwynt yn groes i ddymuniadau a barn cymunedau lleol.

Nid yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn erbyn technoleg gwynt, ond credwn y dylai gymryd ei lle ochr yn ochr â thechnolegau adnewyddadwy eraill, gyda chefnogaeth cymunedau lleol.

**Michael German:** Cynigïaf welliant 1 yn enw Kirsty Williams. Dileu pwynt 2 b) a rhoi pwyntiau newydd yn ei le:

*b) egluro yn llawn sut y mae'n bwriadu cyrraedd y targedau TAN 8 erbyn 2010;*

*c) cynnal gwerthusiad llawn o effaith unrhyw ddatblygiad pŵer gwynt ar fuddsoddiadau eraill yn yr ardal a fydd yn gwella twristiaeth ac adloniant.*

I fod yn hollol gywir, yr wyf yn cadarnhau y byddai ein gwelliant yn addasu'r cynnig er mwyn iddo ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymgymryd â'r weithred y pleidleisiodd y Cynulliad ei hun drosti y llynedd, sef adolygu TAN 8, ac na fyddai o reidrwydd yn rhoi'r canlyniad y mae Brynle yn ei geisio. Mae ail bwynt y gwelliant yn ceisio sicrhau gwerthusiad economaidd o bob un o'r cynigion sydd o'ch blaen wrth iddynt ymddangos a phan ymddangosant. Mae hynny'n bwysig. Fodd bynnag, ni fydd y gwerthusiad economaidd o reidrwydd yn rhoi'r ateb y mae Brynle yn ei geisio.

Yr ydym eisoes wedi cael dau arolwg—un gan Brifysgol Gorllewin Lloegr ac un arall gan MORI—sy'n dod i'r casgliad nad ystyrir bod ffermydd gwynt yn cael effaith niweidiol ar yr ymwelydd ac nad yw ymwelwyr yn cael eu rhwystro rhag ymweld ag ardal yn y dyfodol. Ni fydd y gwerthusiad economaidd o reidrwydd yn cynhyrchu canlyniad negyddol; mae'n ddigon posibl y gallai roi canlyniad cadarnhaol.

Mae'n ddrwg gennyf dros Brynle, oherwydd mae'n amlwg fod ei fwriad yn dda a bod

personal carbon reduction action plan. This motion shows that the Conservative Party is just not treating this issue seriously; its green credentials are only skin deep. The party is singing the green rhetoric and is arguing against wind power, but the reality is that it is against any proposed wind development. I would welcome any speaker from the Conservatives telling us during the course of this debate which windfarm development in Wales the Conservatives have supported. Just one example will suffice.

**Alun Cairns** *rose*—

**Michael German:** Let me speak first. You have plenty of time to think about it. You may find six or seven examples, which I would be pleased about.

**Alun Cairns:** Will you give way?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I do not think that Mike is taking any interventions.

**Michael German:** I will take an intervention in a moment, but I want to develop my argument a little further first, because there is a bit more to come in this debate, which you may want to concern yourself with.

One of the biggest problems is that we can already deal with the technologies, powers and issues at present. No-one is saying that wind power is the only answer to all of our problems, but it is the option that is most developed at this time, and is the one that will be replaced by alternative technologies as we get the powers and the opportunities as they are developed and become commercially available.

Let us just talk about the powers. There was a motion in the House of Lords to amend the Climate Change Bill, by calling for the power over all electricity generation proposals over 50 MW to be passed to the National Assembly for Wales. I am not certain whether Lord Dafydd Elis-Thomas was present in the House of Lords at that time, but the motion certainly had the support of Plaid

ganddo, mae'n debyg, ei gynllun gweithredu personol ei hun ar gyfer lleihau carbon. Mae'r cynnig hwn yn dangos nad yw'r Blaid Geidwadol ymdrin â'r mater hwn o ddifrif; arwynebol yw ei chymwysterau gwyrdd. Mae'r blaid yn lleisio'r rhethreg werdd ac yn dadlau yn erbyn pŵer gwynt, ond y gwir yw ei bod yn erbyn unrhyw ddatblygiad gwynt. Byddwn yn croesawu unrhyw siaradwr o blith y Ceidwadwyr a ddywedai wrthym yn ystod y ddatl hon pa ddatblygiad fferm wynt yng Nghymru y mae'r Ceidwadwyr wedi'i gefnogi. Bydd un enghraifft yn unig yn ddigon.

**Alun Cairns** *a gododd*—

**Michael German:** Gadewch imi siarad yn gyntaf. Mae gennych ddigon o amser i feddwl am y peth. Efallai y cewch chwech neu saith o enghreifftiau, a byddai hynny'n fy mhlesio.

**Alun Cairns:** A wnewch chi ildio?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ni chredaf fod Mike yn derbyn dim ymyriadau.

**Michael German:** Cymeraf ymyriad ymhen ennyd, ond mae arnaf eisiau datblygu fy nadl fymryn ymhellach yn gyntaf, oherwydd mae ychydig mwy i ddod yn y ddatl hon y byddwch, efallai, yn dymuno ymwneud â hi.

Un o'r problemau mwyaf yw ein bod eisoes yn gallu delio â'r technolegau, y pwerau a'r materion ar hyn o bryd. Nid oes neb yn dweud mai pŵer y gwynt yw'r unig ateb i'n holl broblemau, ond hwn yw'r dewis mwyaf datblygedig ar hyn o bryd, a hwn yw'r un a gaiff ei ddisodli gan dechnolegau amgen wrth inni gael y pwerau a'r cyfleoedd wrth iddynt gael eu datblygu ac wrth iddynt fod ar gael yn fasnachol.

Gadewch inni siarad am y pwerau. Yr oedd cynnig yn Nhŷ'r Arglwyddi i wella'r Mesur Newid yn yr Hinsawdd, drwy alw am i'r pŵer dros bob cynnig i gynhyrchu trydan dros 50 MW gael ei drosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid wyf yn sicr a oedd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas yn bresennol yn Nhŷ'r Arglwyddi bryd hynny, ond yn sicr cefnogwyd y cynnig gan Aelodau

Cymru Members in the House of Commons, who supported our amendment. The Conservative Party abstained on the devolution of that power to us, and the Labour Party voted against it. Therefore, we are beginning to understand why we do not get these powers, although I know that the Welsh Assembly Government wants those powers.

It is a matter of eggs and baskets, and you always have to be careful about planning ahead. We need a portfolio of renewable energy but it is a review of TAN 8 that we really want to see. That guidance was adopted in 2005 and, so far, only 73 additional TWh have become operational, although the target is 1,500 TWh a year by 2010. Therefore, if there is a target to be met, we have a long way to go to reach it. If the Conservatives have any green credentials, they must work to meet that target by 2010, because that is what they are supposed to stand for.

I must also have a word with Brynle privately about the Tories' attitude to concern about tree-felling. It may have escaped their notice that, back in 2003, there was a change of policy on our forests. It was decided that we would no longer go in for cash-crop forests, which were costing taxpayers in Wales, from a Welsh Assembly Government budget, more than £2 million a year. We were growing pine trees and selling them off at a loss to private industry. We changed the policy to grow broadleaved trees, which are planted usually through natural seeding as we fell the expensive cash crops, which are no longer needed. That is the change in forestry that is occurring in Wales. All that will happen is that we remove more of these pine trees as they come to the end of their useful lives. They were planted to make pit props and for the first world war effort. We had continued that policy, and it was not until the National Assembly for Wales got to grips with the policy that it changed. That is why we have a different proposal in Wales.

This debate shows that the Conservatives

Plaid Cymru, a gefnogodd ein gwelliant ni, yn Nhŷ'r Cyffredin. Ymatal a wnaeth y Blaid Geidwadol ynglŷn â datganoli'r pŵer hwnnw i ni, a phleidleisiodd y Blaid Lafur yn ei erbyn. Felly, yr ydym yn dechrau deall pam nad ydym yn cael y pwerau hyn, er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, mi wn, am gael y pwerau hynny.

Mater o wyau a basgedi ydyw, a rhaid ichi fod yn ofalus bob amser ynglŷn â chynllunio ymlaen llaw. Mae arnom angen portffolio o ynni adnewyddadwy, ond adolygiad o TAN 8 yw'r hyn y mae arnom eisiau ei weld mewn gwirionedd. Cafodd y cyfarwyddyd hwnnw ei fabwysiadu yn 2005, a hyd yma dim ond 73 TWh sydd ar waith er mai 1,500 TWh y flwyddyn erbyn 2010 yw'r targed. Felly, os oes targed i'w gyrraedd, mae gennym ffordd bell i fynd i'w gyrraedd. Os oes gan y Ceidwadwyr unrhyw gymwysterau gwyrdd, rhaid iddynt weithio i gwrdd â'r targed hwnnw erbyn 2010, oherwydd dyna y maent i fod i sefyll drosto.

Rhaid imi hefyd gael gair gyda Brynle yn breifat ynglŷn ag agwedd y Torïaid at bryderon ynghylch cwmpo coed. Efallai na thynnwyd eu sylw at y ffaith fod yna newid polisi ynglŷn â'n coedwigoedd yn ôl yn 2003. Penderfynwyd na fyddem mwyach yn dewis ymwneud â choedwigoedd cnwd gwerthu, a oedd yn costio i drethdalwyr Cymru dros £2 filiwn y flwyddyn o gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yr oeddem yn tyfu coed pîn ac yn eu gwerthu ar golled i ddiwydiant preifat. Newidiwyd ein polisi i dyfu coed llydanddail, a dyfir fel rheol drwy hadu naturiol wrth inni gwmpo'r cnydau gwerthu drud nad oes angen amdanynt mwyach. Dyna'r newid mewn coedwigaeth sy'n digwydd yng Nghymru. Y cyfan a fydd yn digwydd yw ein bod yn dileu mwy o'r coed pîn hyn wrth iddynt ddod i ddiwedd eu hoes ddefnyddiol. Cawsant eu plannu i wneud pyst ar gyfer pyllau glo ac ar gyfer ymdrech y rhyfel byd cyntaf. Yr oeddem wedi parhau â'r polisi hwnnw, ac ni newidiodd y polisi nes aeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r afael ag ef. Dyna pam mae gennym gynnig gwahanol yng Nghymru.

Mae'r ddadl hon yn dangos bod y

here are up to their old tricks again, showing that their green credentials are only skin deep. It just goes to show that if you vote blue, you certainly do not get green.

**Mark Isherwood:** I thank the soon-to-be-ex-leader of the Liberal Democrats for that hot air.

Wind turbines can only supplement conventional energy production; they cannot replace it. No country has ever been able to close a power station as a direct result of building wind turbines. Wind power cannot adapt to meet demand, and high levels of wind power cause the national grid to become unstable. The only stations that can be powered up reasonably quickly to respond to fluctuating turbine power are gas stations, and we could be held to ransom over the supply of gas. The Danish experience shows that investment in wind power is a grandiose and expensive folly. The need for backup means that Denmark negotiates extra power from Nordic countries and Germany, which makes Denmark's carbon footprint look good. However, research from the former Department of Trade and Industry in London suggests that even the biggest onshore wind turbines generate only 28 per cent maximum capacity, and the Danish experience suggests perhaps only 20 per cent. Without fossil fuel backup, the lights would, literally, go out.

To accommodate short variations in wind power supply, conventional power plants must throttle back, which makes them more polluting. Denmark has gone from having among the cheapest electricity in Europe to having among the most costly. In green terms, windmills are a mistake, and economically they make no sense. In response to a retired Forestry Commission officer, the Minister, Jane Davidson, expressed her confidence that windfarms can be embedded without the large-scale environmental damage envisaged. However, the evidence suggests that the Minister's confidence is misplaced.

Ceidwadwyr yn rhoi eu hen ystrywiau ar waith eto, gan ddangos mai arwynebol yw eu cymwysterau gwyrdd. Mae hyn yn dangos, os pleidleisiwch yn las ni fyddwch, yn sicr, yn cael gwyrdd.

**Mark Isherwood:** Diolchaf i'r un a fydd yn fuan yn gyn-arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol am y gwynt poeth yna.

Dim ond ychwanegu at gynhyrchu ynni confensiynol all tyrbinau gwynt; ni allant ei ddisodli. Nid oes yr un wlad erioed wedi gallu cau gorsaf bŵer o ganlyniad uniongyrchol i adeiladu tyrbinau gwynt. Ni all pŵer gwynt addasu i ateb y galw, ac mae lefelau uchel o bŵer gwynt yn creu ansefydlogrwydd yn y grid cenedlaethol. Yr unig orsafoedd y gellir eu troi ymlaen yn weddol gyflym i ymateb i ynni tyrbinau amrywiol yw gorsafoedd nwy, a gellid ein dal yn wystlon dros gyflenwad nwy. Mae profiad Denmarc yn dangos mai ffolineb mawreddog a chostus yw buddsoddi ym mhŵer y gwynt. Mae'r angen am ynni wrth gefn yn golygu bod Denmarc yn trafod ynglŷn â phŵer ychwanegol o wledydd Llychlyn a'r Almaen, ac mae hynny'n peri bod ôl-troed carbon Denmarc yn edrych yn dda. Fodd bynnag, mae ymchwil o'r Adran Masnach a Diwydiant gynt yn Llundain yn awgrymu nad yw hyd yn oed y tyrbinau gwynt mwyaf ar y tir yn cynhyrchu dim mwy na 28 y cant ar y mwyaf, ac mae profiad Denmarc yn awgrymu mai 20 y cant yn unig efallai yw'r ffigur. Heb gael tanwydd ffosil wrth gefn, byddai'r goleuadau, yn llythrennol, yn diffodd.

I wneud iawn am amrywiadau byr mewn cyflenwadau pŵer gwynt, rhaid i weithfeydd pŵer confensiynol ddal yn ôl, sy'n gwneud iddynt lygru mwy. Mae Denmarc wedi symud o fod yn cael rhywfaint o'r trydan rhataf yn Ewrop i gael rhywfaint o'r trydan mwyaf costus. Mewn termau gwyrdd, camgymeriad yw melinau gwynt, ac yn economaidd nid ydynt yn gwneud dim synnwyr. Wrth iddi ymateb i swyddog o'r Comisiwn Coedwigaeth sydd wedi ymddeol, dywedodd y Gweinidog, Jane Davidson, ei bod yn hyderus y gellir ymgorffori ffermydd gwynt heb y difrod amgylcheddol helaeth a ragwelir. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai cyfeiliornus yw hyder y

Gweinidog.

**Alun Ffred Jones:** You say that wind power is an expensive mistake. If so, why are countries all over Europe going in for wind power? Along with one or two other forms of renewables, it is proven and it works. Navarro in Spain, for example, is more or less self-sufficient in energy terms through wind power. Do you not accept that?

**Alun Ffred Jones:** Dywedwch fod pŵer gwynt yn gamgymeriad costus. Os felly, pam mae gwledydd ar hyd a lled Ewrop yn dewis pŵer gwynt? Ynghyd ag un neu ddau ddull arall o gynhyrchu ynni adnewyddadwy, mae wedi ei brofi ac mae'n gweithio. Mae Navarro yn Sbaen, er enghraifft, yn hunangynhaliol fwy neu lai drwy ynni drwy bŵer y gwynt. Onid ydych yn derbyn hynny?

**Mark Isherwood:** I suggest that you look at some of the well publicised research that has come out of Germany and Denmark in recent years, which I think will answer your question for you.

**Mark Isherwood:** Awgrymaf eich bod yn edrych ar rywfaint o'r ymchwil, sydd wedi cael cryn gyhoeddusrwydd, o'r Almaen a Denmarc dros y blynyddoedd diwethaf. Fe fydd, mi gredaf, yn ateb eich cwestiynau.

A response sent on behalf of the First Minister stated that the lease for a development requires the removal of turbines and infrastructure to 1 metre below ground level at the end of their lives. That means that the majority of 1,000 tonnes or more of concrete will be left in the ground. Water will be held on top of the concrete, which will reduce rooting depth, meaning that the areas will not be returned to forestry at the end of the project. That letter also states that potential developers propose to use the largest turbines available and to carry out the keyhole felling of small areas, and that could mean, as the letter puts it, the felling of just 500 ha if all other currently proposed developments go ahead, which is less than half of 1 per cent of the total Assembly Government woodland estate. Is that not sweet?

Mewn ymateb a anfonwyd ar ran y Prif Weinidog, dywedwyd bod prydles ar gyfer datblygiad yn golygu bod angen symud tyrbinau a seilwaith hyd at 1 metr o dan lefel y tir ar ddiwedd eu hoes. Mae hynny'n golygu y gadewir y rhan fwyaf o'r 1,000 o dunelli neu ragor o goncrid yn y ddaear. Bydd dŵr yn cael ei ddal ar ben y concrid, a bydd hynny'n lleihau dyfnder ar gyfer gwreiddiau, ac ystyr hynny yw na fydd y mannau'n cael eu dychwelyd i goedwigaeth ar ddiwedd y prosiect. Mae'r llythyr hwnnw'n dweud hefyd fod datblygwyr posibl yn bwriadu defnyddio'r tyrbinau mwyaf sydd ar gael a chwympo coed mewn mannau bach ar ffurf twll clo. Gallai hynny olygu, fel y dywed y llythyr, mai 500 ha yn unig o goed a fydd yn cael eu cwmpo os aiff yr holl ddatblygiadau eraill sydd ar y gweill yn awr yn eu blaenau, ac mae hynny'n llai na hanner 1 y cant o gyfanswm ystâd coetir Llywodraeth y Cynulliad. Onid yw hynny'n hyfryd?

That response conflicts with local applications in north Wales to build just 29 turbines, involving the clearfelling of 100 per cent of the development sites, totalling some 431 ha. That is 1,000 acres to be destroyed. The only place that you can get a canopy up with confidence is where there are firm ground conditions and the trees are well rooted.

Mae'r ymateb hwnnw'n gwrthdaro â cheisiadau lleol yng ngogledd Cymru i adeiladu 29 o dyrbinau, gan gynnwys cwmpo'r holl goed ar 100 y cant o'r safleoedd datblygu, dros gyfanswm o ryw 431 ha. Dyna ichi dministrio 1,000 o erwau. Yr unig le y gallwch godi canopi arno'n hyderus yw lle y mae cyflwr y ddaear yn gadarn a lle mae'r coed wedi ymwreiddio'n ddwfn.

5.00 p.m.

However, the majority of Forestry Fodd bynnag, cafodd y rhan fwyaf o

Commission woodlands were planted on less than ideal ground. The location of the gaps would be chosen to suit the turbines, not the canopy, and the wind blow risk is therefore enhanced. Every turbine erected will need its own access route cut and then a channel dug to take the electricity out. The proposed clearfelling is on private ground. All private woodlands have been directly managed by the Forestry Commission since 1919. It cannot, therefore, wash its hands of responsibility for the wholesale destruction of forests in order to please its short-sighted political masters, releasing the carbon dioxide stored in the trees, and removing the tree coverage that takes carbon dioxide out of the air.

Siting turbines in proximity to trees significantly and adversely impacts on their output, but 57 per cent of proposed turbine locations are in areas of forestry. As the 2006 woodland strategy conference concluded, the Forestry Commission is already going down the wrong path on renewable energy, through inviting bids from the multinational wind power industry to establish massive industrial developments on the mountain tops.

Conifers are not an ecological desert, but a thriving environmental system. Trees are good air filters and help to avoid storm flooding by regulating the flow of water from the hills. By pouring money into wind power, the Government is destroying our tourism, wildlife and quality of life. Renewable targets are not carbon targets; windfarms are a cruel and costly public con, and to place them on forestry land is a travesty.

I will leave the last word to Sir Bernard Ashley, the husband of the late Laura Ashley. He believes that climate change is one of the greatest threats, but that the problem with windfarms is that it is not 24/7 energy, you cannot store the energy, you cannot use turbines in high winds, and a huge amount of energy is lost.

goetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth eu plannu ar dir nad oedd yn ddelfrydol. Byddai lleoliad y bylchau'n cael eu dewis i fod yn addas ar gyfer y tyrbinau, nid y canopi, ac felly mae risg gwynt yn chwythu yn fwy. Bydd angen torri llwybr mynediad penodol ar gyfer pob tyrbin a godir, ac wedyn bydd angen tyllu sianel i fynd â'r trydan allan. Bydd y gwaith arfaethedig o ran cwmpo a chlirio coed yn digwydd ar dir preifat. Mae'r holl goetiroedd preifat wedi eu rheoli'n uniongyrchol gan y Comisiwn Coedwigaeth er 1919. Felly, ni all olchi ei ddwylo o'r cyfrifoldeb dros ddinistrio coedwigaeth ar raddfa fawr er mwyn plesio'i feistri gwleidyddol di-weld, gan ryddhau'r carbon deuocsid sydd wedi'i storio yn y coed, a thynnu'r gorchudd coed sy'n cymryd carbon deuocsid o'r aer.

Mae gosod tyrbinau ger coed yn cael effaith sylweddol ac andwyol ar yr hyn y gallant ei gynhyrchu, ond mae 57 y cant o'r lleoliadau arfaethedig ar gyfer tyrbinau mewn ardaloedd coedwigaeth. Fel y nododd casgliad cynhadledd strategaeth coetiroedd 2006, mae'r Comisiwn Coedwigaeth eisoes ar y trywydd anghywir yng nghyswllt ynni adnewyddadwy, drwy wahodd ceisiadau gan y diwydiant pŵer gwynt amlwladol i sefydlu datblygiadau diwydiannol enfawr ar gopa mynyddoedd.

Nid yw coed conifferaidd yn anialwch ecolegol, ond yn system amgylcheddol sy'n ffynnu. Mae coed yn hidlo aer yn dda ac yn helpu atal llyfogydd stormydd drwy reoleiddio'r llif dŵr o'r ucheldir. Drwy dywallt arian i mewn i bŵer gwynt, mae'r Llywodraeth yn dinistrio ein twristiaeth, ein bywyd gwyllt ac ansawdd ein bwyd. Nid yw targedau adnewyddadwy yn dargedau carbon; twyll cyhoeddus creulon a drud yw ffermydd gwynt ac y mae eu gosod ar dir coedwigaeth yn warth.

Yr wyf am adael i Syr Bernard Ashley gael y gair olaf, gŵr y diweddar Laura Ashley. Mae'n credu mai newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf, ond y broblem gyda ffermydd gwynt yw nad ydynt yn ynni 24/7, ni allwch storio'r ynni, ni allwch ddefnyddio'r tyrbinau pan fydd y gwynt yn gryf, a cholli'r llawer iawn o ynni.

**Alun Davies:** We will not waste much energy listening to that sort of nonsense. It was with some bafflement and bewilderment that I read the Conservative motion for debate this afternoon. In reality, all of us who have taken part in these debates in the Chamber before know that this debate is not about a strategy for the Forestry Commission, or about the future of wind energy, or even about TAN 8. The reality here is the mendacity of the Welsh Conservative Party.

We have all become used, over the last year, to seeing the difference between the rhetoric and the reality of 'vote blue, go green'. We have become used to the sight of the Conservative leader in all sorts of improbable locations, doing all sorts of improbable things. We have seen him cycle the wrong way up a one-way street, and we have seen him crash into traffic lights. We have seen him in the North Pole, and we have seen him in Africa. This is all with one objective in mind—to turn up the rhetoric in the hope that it will drown out the reality of Conservative policy. On the one hand, David Cameron talks about wind turbines as bird blenders, and the next moment he is in front of a camera putting one up on his own house. This is the rhetoric and the reality—the hypocrisy of Conservative Party policy, and the emptiness and the hollow words that we hear time and again.

We have heard more than that. What have we heard from the two Conservative speakers so far this afternoon? We have heard from Mark Isherwood about the destruction of the forestry and from Brynle Williams about the wholesale imposition of large-scale windfarms. It is obvious that neither of them has read any of the policy statements, or the statement made by the First Minister back in October. He said then that this policy happens with the consent and the support of local communities, but you do not hear that from the Conservatives, because it does not suit them. They are happy—

**Alun Cairns** *rose*—

**Alun Davies:** I will not take an intervention at this point, Alun. They will not allow the reality to cloud their rhetoric, because they

**Alun Davies:** Nid ydym am wastraffu llawer o ynni'n gwrando ar y math hwnnw o nonsens. Cefais fy nrysu wrth ddarllen cynnig y Ceidwadwyr ar gyfer y ddadl brynhawn heddiw. Mewn gwirionedd, mae pob un ohonom sydd wedi cymryd rhan yn y dadleuon hyn yn y Siambr o'r blaen yn gwybod nad yw'r ddadl hon yn ymwneud â strategaeth ar gyfer y Comisiwn Coedwigaeth, na dyfodol ynni gwynt, na hyd yn oed TAN 8. Y gwirionedd yma yw natur gelwyddog Plaid Geidwadol Cymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf yr ydym i gyd wedi hen arfer gweld y gwahaniaeth rhwng rhethreg a realiti 'pleidlais las, troi'n wyrdd'. Yr ydym wedi hen arfer gweld arweinydd y Ceidwadwyr mewn pob math o leoliadau rhyfedd, yn gwneud pob math o bethau rhyfedd. Yr ydym wedi'i weld yn seiclo i'r cyfeiriad anghywir ar stryd unffordd, ac wedi'i weld yn bwrw i mewn i oleuadau traffig. Yr ydym wedi'i weld ym Mhegwn y Gogledd ac wedi'i weld yn Affrica. Un amcan sydd y tu cefn i hyn oll—cynyddu'r rhethreg gan obeithio y bydd hynny'n cuddio realiti polisiau'r Ceidwadwyr. Ar y naill law, mae David Cameron yn siarad am dyrbinau gwynt fel peiriannau lladd adar, a'r funud nesaf mae'n sefyll o flaen camera yn codi un ar ei dŷ ei hun. Dyna'r rhethreg a'r realiti—rhagrith polisi'r Blaid Geidwadol, a'r gwacter a'r geiriau a glywn dro ar ôl tro.

Clywsom fwy na hynny. Beth a glywsom gan y ddau siaradwr Ceidwadol hyd yn hyn y prynhawn yma? Yr ydym wedi clywed gan Mark Isherwood am ddirnstrio coedwigaeth a Brynle Williams yn sôn am faich ffermydd gwynt ar raddfa fawr. Mae'n amlwg nad yw'r naill na'r llall wedi darllen yr un o'r datganiadau polisi, na'r datganiad gan y Prif Weinidog yn ôl ym mis Hydref. Dywedodd bryd hynny fod y polisi hwn yn digwydd gyda chydysyniad a chefnogaeth cymunedau lleol, ond ni chlywch hynny gan y Ceidwadwyr, oherwydd nid yw hynny'n gweddu i'w cynlluniau. Maent yn hapus i—

**Alun Cairns** *a gododd*—

**Alun Davies:** Nid wyf am dderbyn ymyriad ar hyn o bryd, Alun. Ni fyddant yn caniatáu i'r realiti gymylu eu rhethreg, oherwydd

know that they do not offer an alternative policy, but empty words and warm rhetoric.

Therefore, what I want to see from this Government is a continuation of the policy—

**Janet Ryder:** Would you agree that, while there will always be controversy over windfarm developments, where they have been acceptable to communities is where communities themselves have benefited? However, unfortunately, what has happened in one part of north Wales is that the county has drawn the boundaries so tightly around Forestry Commission land that it is not allowing local farmers to benefit from it; it has restricted the development boundary to Forestry Commission land.

**Alun Davies:** Absolutely. The reality is that this is not a policy about renewable energy; it is first, secondly and thirdly, an opposition to wind energy policy. When you read the Conservative manifesto for the last Assembly election—do not take my word for it; get it up on the web and search through it—if you look for wind energy, you will find that it does not appear anywhere in the manifesto. You will see the words ‘green’ and ‘renewables’, but what you will not see is a commitment to making that a reality; that is what is missing. I still cannot think of a single occasion when I, in supporting wind energy applications in mid Wales, have seen the Conservative spokesperson anywhere near supporting those proposals. All I see from the Conservatives are press releases and opportunism.

We have seen this afternoon, again, that they do not pay any attention to the reality of the policy. I know that TAN 8 is being reviewed, Brynle, because I have read the ‘Renewable Energy Route Map for Wales’. I have also listened to the statements made by Government Ministers, so I know that it is being reviewed. I could not understand why you tabled a motion to waste our time this afternoon, calling for something that is scheduled to happen next year. Of course, doing so saves the Conservatives from having to have a policy of their own; it saves them from having to take forward a realistic policy that would deliver renewable energy and an opportunity for us to reduce our carbon

gwyddant nad ydynt yn cynnig polisi amgen, dim ond geiriau gweigion a rhethreg gynnes.

Felly, yr hyn yr wyf am ei weld gan y Llywodraeth hon yw parhad o'r polisi—

**Janet Ryder:** A fydddech yn cytuno, er y bydd datblygiadau ffermydd gwynt yn bwnc llosg bob amser, mai'r cymunedau hynny sydd wedi'u derbyn yw'r rheini lle mae'r cymunedau eu hunain wedi elwa? Fodd bynnag, yn anffodus yr hyn sydd wedi digwydd mewn un rhan o'r gogledd yw bod y sir wedi llunio'r ffiniau mor dynn o amgylch tir y Comisiwn Coedwigaeth fel nad yw'n caniatáu i ffermwyr lleol elwa ohono; mae wedi cyfyngu'r ffin ddatblygu i dir y Comisiwn Coedwigaeth.

**Alun Davies:** Yn hollol. Y gwir amdani yw nad yw hwn yn bolisi ynglŷn ag ynni adnewyddadwy; yn anad dim arall, gwrthwynebiad i bolisi ynni gwynt ydyw. Pan ddarllenwch fanifesto'r Ceidwadwyr ar gyfer etholiad diwethaf y Cynulliad—peidiwch â chymryd fy ngair am hyn; ewch ar y we a chwilio drwyddo—os edrychwch am ynni gwynt, gwelwch nad yw'n ymddangos yn unman yn y manifesto. Byddwch yn gweld y geiriau ‘gwyrd’ ac ‘adnewyddadwy’, ond ni welwch ymrwymiad i wireddu hynny; dyna sydd ar goll. Ni allaf feddwl am un achlysur, wrth gefnogi ceisiadau ynni gwynt yn y canolbarth, imi weld y llefarydd Ceidwadol yn agos o gwbl at gefnogi'r cynigion hynny. Yr oll a welaf gan y Ceidwadwyr yw datganiadau i'r wasg a manteisio ar gyfle.

Gwelsom y prynhawn yma, unwaith eto, nad ydynt yn rhoi sylw i realiti'r polisi. Gwn fod TAN 8 yn cael ei adolygu, Brynle, oherwydd yr wyf wedi darllen ‘Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru’. Yr wyf hefyd wedi gwranddo ar y datganiadau a wnaethpwyd gan Weinidogion y Llywodraeth. Felly, gwn ei fod yn cael ei adolygu. Ni allwn ddeall pam yr oeddech yn cyflwyno cynnig i wastraffu ein hamser y prynhawn yma, yn galw am rywbeth sydd i ddigwydd flwyddyn nesaf. Wrth gwrs, mae gwneud hynny'n golygu nad yw'n rhaid i'r Ceidwadwyr gael eu polisi eu hunain; mae'n golygu nad yw'n rhaid iddynt ddatblygu polisi realistig a fyddai'n darparu ynni adnewyddadwy a chyfle inni leihau ein



emissions.

What I would like to see from the Minister this afternoon is a commitment to continue to implement the policy. I felt a bit generous at the beginning of this debate and I thought that we had, perhaps, made a mistake in asking our Members to vote against the motion; I thought that, for once, perhaps we should vote with the Conservatives and support their motion, and perhaps even the Liberal amendment—but I am not in that generous a mood—but the reality is that by doing so, we would do nothing except support chicanery.

**Leanne Wood:** I will start by doing something that I very rarely do, and that is to congratulate the Tories for using their time to debate this issue. I am grateful to you for raising this issue, because it gives us an opportunity to examine in detail the Conservative position on alternative energy.

Earlier this afternoon, Plenary debated the report of the Sustainability Committee's inquiry into the reduction of carbon emissions by transport. That report is just one of a series that is looking at our carbon emissions sector by sector. Energy is clearly an important sector in terms of carbon emissions. It is also increasingly an important sector if we are prepared to accept the predictions around peak oil. There is no doubt in my mind that we have to do two things: the first is that we have to seriously reduce our fossil fuel energy consumption, not only for reasons to do with carbon emissions, but because fossil fuels are finite and we are already seeing the effects of fuel running out. Today, fuel prices are rocketing, which is already having an impact on the price of food. Climate change and peak oil will have the greatest effect on the world's poorest people, but also the poorest people in Wales, because the lower your income, the greater the percentage of that income that is spent on food and fuel. With the price of both food and fuel going up, we have a duty to plan for the worst-case scenario, one where some people will not have access to the food that is available to us all at present.

hallyriadau carbon.

Yr hyn yr hoffwn ei weld gan y Gweinidog y prynhawn yma yw ymrwymiad i barhau i weithredu'r polisi. Yr oeddwn yn teimlo'n weddol hael ar ddechrau'r ddadl hon ac yn meddwl ein bod, efallai, wedi gwneud camgymeriad drwy ofyn i'n Haelodau bleidleisio yn erbyn y cynnig; meddyliais, am unwaith, efallai y dylem bleidleisio gyda'r Ceidwadwyr a chefnogi eu cynnig, ac efallai welliant y Rhyddfrydwyr hyd yn oed—ond nid wyf yn teimlo mor hael â hynny—ond y gwirionedd yw na fyddem yn gwneud dim ond hollti blew drwy wneud hynny.

**Leanne Wood:** Yr wyf am ddechrau drwy wneud rhywbeth na fyddaf yn ei wneud yn aml, sef llongyfarch y Torïaid am ddefnyddio'u hamser i gael dadl ar y mater hwn. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am godi'r mater hwn, oherwydd mae'n gyfle inni archwilio'n fanwl safle'r Ceidwadwyr ar ynni amgen.

Yn gynharach y prynhawn yma, bu'r Cyfarfod Llawn yn trafod adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar leihau allyriadau carbon trafndiaeth. Un o gyfres o adroddiadau sy'n edrych ar ein hallyriadau carbon fesul sector yw'r adroddiad hwnnw. Mae ynni yn amlwg yn sector pwysig yng nghyswllt allyriadau carbon. Mae pwysigrwydd y sector yn cynyddu hefyd os ydym yn fodlon derbyn y rhagamcanion ynghylch y brig olew. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl nad yw'n rhaid inni wneud dau beth; y cyntaf yw bod yn rhaid inni leihau o ddifrif faint o ynni tanwydd ffosil a ddefnyddiwn, nid yn unig am resymau'n ymwneud ag allyriadau carbon, ond oherwydd mai hyn a hyn o danwydd ffosil sydd ar ôl ac yr ydym eisoes yn gweld effeithiau tanwydd yn dod i ben. Heddiw, mae prisiau tanwydd yn eithriadol o uchel, sydd eisoes yn effeithio ar brisiau bwyd. Bydd newid yn yr hinsawdd a'r brig olew yn effeithio fwyaf ar bobl dlotaf y byd, ac ar y bobl dlotaf yng Nghymru hefyd, oherwydd po isaf yw eich incwm, y mwyaf yw canran yr incwm hwnnw sy'n cael ei wario ar fwyd a thanwydd. Gyda phrisiau bwyd a thanwydd yn codi, mae dyletswydd arnom i gynllunio ar gyfer y sefyllfa waethaf, lle na fydd pobl yn gallu cael y bwyd sydd ar gael inni i gyd

ar hyn o bryd.

The Tories on the Sustainability Committee fully recognise the need to reduce our energy consumption and move towards more sustainable energy alternatives—at least, that is the position that they put forward in committee. In practice, what we have seen from this debate today is that they are more likely to take a not-in-my-back-yard approach. I accept the point that there should be more emphasis on reducing our consumption, but we also need a greater mix of renewable energy—we need more microgeneration, more community-based alternative projects and we need to make much greater use of tides and hydro-power. However, what we know is that wind technology is the most advanced and is more likely to provide gains than other less-well-developed technologies. Getting windfarms in the right locations is key—I accept that point—and the debate around this issue is vital if we are to ensure that the move from fossil fuels towards alternatives is supported by the wider public.

Mae'r Torïaid ar y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn cydnabod yn llawn fod angen inni ddefnyddio llai o ynni a symud at ddewisiadau ynni sy'n fwy cynaliadwy—o leiaf, dyna'r agwedd y maent yn ei harddel yn y pwyllgor. Yn ymarferol, yr hyn a welsom yn y ddadl heddiw yw eu bod yn fwy tebygol o fabwysiadu dull dim-yn-fy-ngardd-gefn-i. Yr wyf yn derbyn y pwynt y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio llai o ynni, ond mae arnom angen gwell amrywiaeth o ynni adnewyddadwy hefyd—mae arnom angen rhagor o ficrogynhyrchu, mwy o brosiectau amgen yn y gymuned, ac mae angen inni ddefnyddio llawer mwy ar y llanw a phŵer hydro. Fodd bynnag, yr hyn a wyddom yw mai technoleg gwynt sydd wedi datblygu fwyaf ac sydd fwyaf tebygol o roi manteision, yn hytrach na thechnolegau eraill nad ydynt wedi datblygu gymaint. Mae cael ffermydd gwynt yn y mannau iawn yn allweddol—derbyniaf y pwynt hwnnw—ac mae'r ddadl am y mater hwn yn hanfodol os ydym i sicrhau bod y cyhoedd yn gyffredinol yn cefnogi symud o danwydd ffosil at ynni adnewyddadwy.

5.10 p.m.

Let us look at the question of the right location. Forestry land is already a scarred landscape and most of the trees on forestry land are not native trees, so it would make sense to use these sites to reduce the impact on our natural land. I have a question for the Conservatives. If you do not want wind turbines on forestry land or in the sea, but say that you are in favour of wind technology, where do you propose that it goes? Are you opposed to all wind energy? If that is the case, how do you propose that we move away from our dependence on fossil fuels? Perhaps you see nuclear as the answer to all of this. However, unless the Conservatives can adequately answer those questions, they risk exposing themselves as opportunists, who are happy to jump—

Gadewch inni edrych ar gwestiwn y lleoliad iawn. Mae tir coedwigaeth eisoes yn dirwedd sydd wedi'i greithio, ac nid yw'r rhan fwyaf o goed ar dir coedwigaeth yn goed brodorol, felly, byddai'n synhwyrol defnyddio'r safleoedd hyn i leihau'r effaith ar ein tir naturiol. Mae gennyf gwestiwn i'r Ceidwadwyr. Os nad ydych am gael tyrbinau gwynt ar dir coedwigaeth nac yn y môr, ond yn dweud eich bod o blaid technoleg gwynt, ble yr ydych yn bwriadu eu rhoi? A ydych yn erbyn pob math o ynni gwynt? Os felly, sut y bwriadwch symud o ddibynnu ar danwydd ffosil? Efallai eich bod yn credu mai ynni niwclear yw'r ateb i hyn oll. Fodd bynnag, oni all y Ceidwadwyr ateb y cwestiynau hynny, maent mewn perygl o ddangos eu hunain fel rhai sy'n achub ar y cyfle, sy'n fodlon neidio-

**Alun Cairns:** Will the Member give way?

**Alun Cairns:** A wnaiff yr Aelod ildio?

**Leanne Wood:** Let me finish this point. They risk exposing themselves as

**Leanne Wood:** Gadewch imi orffen y pwynt hwn. Maent mewn perygl o ddangos eu

opportunists, who are happy to jump on the green bandwagon for votes, but are also happy to gain votes by supporting anti-windfarm campaigns in their constituencies. They cannot have it both ways. This debate has shown the Tories in their true colours. They want to appear green and cuddly, but, in reality, they are inconsistent and incoherent, and, ultimately, they are in denial about the threats that face us.

**Alun Cairns** *rose*—

**Leanne Wood:** The con here is from the Conservative Party.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Are you giving way you or have you finished?

**Leanne Wood:** I have finished.

**Joyce Watson:** Climate change is clearly one of the biggest challenges that we face. The point of setting ambitious near-term targets for renewable energy and emissions, as this Government has done, is to ensure that we act now to tackle it and deliver a secure and sustainable energy future for Wales. It is all well and good for the Tories to claim to be serious about combating climate change, but they always seem to opt out when it comes to taking the necessary action. If they are serious about the use of renewable energies, I would like them to prove where they have demonstrated that seriousness, because time and again they vote against it in the Chamber.

Wind-generated power is the most commercially viable renewable technology available at the moment—I emphasise the words ‘at the moment’. It produces zero carbon dioxide emissions and it requires comparatively little infrastructural support. That might change as technology changes. We are already seeing more efficient wind power than we had 10 or 15 years ago, and, in the future, we should be looking to tap into more of Wales’s renewable energy potential. The fact that onshore windfarms are only given consent for 25 years and that decommissioning is relatively

hunan fel rhai sy’n achub ar y cyfle, sy’n fodlon neidio ar y wagen werdd i ennill pleidleisiau, ond sydd hefyd yn fodlon ennill pleidleisiau drwy gefnogi ymgyrchoedd yn erbyn ffermydd gwynt yn eu hetholaethau. Ni allwch ei chael hi bob ffordd. Mae’r ddadl hon wedi dangos gwir liwiau’r Toriaid. Maent eisiau ymddangos yn wyrdd ac yn gwtshlyd, ond mewn gwirionedd maent yn anghyson ac yn annealladwy, ac yn y pen draw maent yn gwadu bod bygythiadau yn ein hwynebu.

**Alun Cairns** *a gododd*—

**Leanne Wood:** Gan y Blaid Geidwadol y mae’r twyll yma.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A ydych yn ildio ynteu a ydych wedi gorffen.

**Leanne Wood:** Yr wyf wedi gorffen.

**Joyce Watson:** Mae newid yn yr hinsawdd yn amlwg yn un o’r heriau mwyaf sy’n ein hwynebu. Nod gosod targedau uchelgeisiol yn y tymor agos o ran ynni adnewyddadwy ac allyriadau, fel y mae’r Llywodraeth hon wedi’i wneud, yw sicrhau ein bod yn gweithredu nawr i fynd i’r afael ag ef a darparu dyfodol ynni diogel a chynaliadwy i Gymru. Mae’n hawdd iawn i’r Toriaid honni eu bod o ddifrif am fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd, ond maent fel pe baent yn camu’n ôl bob tro pan ddaw’n adeg cymryd y camau angenrheidiol. Os ydynt o ddifrif ynglŷn â defnyddio ynni adnewyddadwy, hoffwn iddynt brofi ble maent wedi dangos y difrifoldeb hwnnw, oherwydd dro ar ôl tro maent yn pleidleisio yn ei erbyn yn y Siambr.

Pŵer a gynhyrchir gan y gwynt yw’r dechnoleg adnewyddadwy fwyaf ymarferol yn fasnachol sydd ar gael ar hyn o bryd—yr wyf yn pwysleisio’r geiriau ‘ar hyn o bryd’. Nid yw’n cynhyrchu allyriadau carbon deuocsid o gwbl, ac ychydig iawn o gefnogaeth seilwaith sydd ei hangen. Efallai y bydd hynny’n newid wrth i dechnoleg newid. Yr ydym eisoes yn gweld pŵer gwynt sy’n fwy effeithlon nag ydoedd 10 neu 15 mlynedd yn ôl, ac yn y dyfodol dylem fod yn edrych ar ddefnyddio rhagor ar botensial ynni adnewyddadwy Cymru. Bydd y ffaith mai am 25 mlynedd yn unig y rhoir caniatâd ar gyfer

straightforward will ensure that we will be in a position to make technological transitions in the future to develop a mixed energy economy in Wales.

In developing wind energy on Forestry Commission land, this policy goes hand-in-hand with initiatives like the new plants scheme and with the Assembly's vision for developing sustainable Welsh woodland for the benefit of communities, the environment and the economy. Wind turbines will not always be appropriate everywhere, but all proposals are subject to normal, independent processes of planning approval at the local authority level. Those processes take the impact on the local environment into account. Built into large schemes is the commitment to include a premium for community benefit as part of the terms, and I would be interested, Minister, if you could provide any details of how the agreement signed in April making provision for the benefit of local communities is coming along. Apart from the major schemes, the exciting aspect of this policy is that it encourages smaller community-based and community-owned windfarms, from which the energy and funding can be a fantastic non-grant income stream for local projects.

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Yr wyf yn falch o weld bod y cynnig yn enw'r Blaid Geidwadol heddiw yn cydnabod y cyfraniad y gall coed ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'r Llywodraeth a'r wrthblaid yn gytûn ar hyn ac, yn wir, mae'n siŵr bod cytundeb ar draws y Siambr. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad ydym yn gytûn ar flaenoriaethau a gweithredu ar ynni adnewyddadwy.

Clywsom heddiw ddisgrifiad gan Brynle Williams o blanhigfa o *Sitka Spruce*. Cafodd ei disgrifio a'i chlodfori'n rhamantaidd fel rhan o dreftadaeth amgylcheddol gyfoethog Cymru. Mae coed yn chwarae rhan allweddol wrth reoli ein hinsawdd. Mae coed, drwy ffotosynthesis, yn amsugno carbon deuocsid o'r awyrgylch ac yn ei ddal a'i storio fel carbon. Mae'r carbon yn cael ei ddal ym miomas y coedwigoedd, yn y boncyffion, y canghennau, y dail, y gwreiddiau ac yn y pridd fel carbon organig. Mae'r carbon yn

ffermydd gwynt ar y tir, a bod dadgomisiynu'n weddol hawdd, yn sicrhau y byddwn mewn sefyllfa i wneud newidiadau technolegol yn y dyfodol i ddatblygu economi ynni gymysg yng Nghymru.

Wrth ddatblygu ynni gwynt ar dir y Comisiwn Coedwigaeth, mae'r polisi hwn yn mynd law yn llaw â mentrau megis y cynllun planhigion newydd a gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer datblygu coetiroedd cynaliadwy yng Nghymru er lles cymunedau, yr amgylchedd a'r economi. Ni fydd tyrbinau gwynt yn briodol bob amser ac ym mhob man, ond mae'r holl gynigion yn amodol ar brosesau cymeradwyaeth cynllunio arferol, annibynnol ar lefel awdurdod lleol. Mae'r prosesau hyn yn ystyried yr effaith ar yr amgylchedd lleol. Mewn cynlluniau mawr, mae ymrwymiad i gynnwys premiwm er lles y gymuned fel rhan o'r telerau, a byddai gennyf ddiddordeb, Weinidog, petai modd ichi ddarparu unrhyw fanylion am hynt y cytundeb a lofnodwyd ym mis Ebrill ac sy'n darparu er lles cymunedau lleol. Ar wahân i'r cynlluniau mawr, yr agwedd gyffrous ar y polisi hwn yw ei fod yn annog ffermydd gwynt bach cymunedol sy'n eiddo i'r gymuned, lle gall yr ynni a'r cyllid fod yn ffrwd incwm gwych heb gymorth grant i brosiectau lleol.

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I am pleased to see that today's motion in the name of the Conservative Party acknowledges the contribution trees can make in tackling climate change. The Government and opposition are agreed on this, and I am sure there is agreement across the Chamber on the issue. However, we are not agreed, apparently, on the priorities and action required on renewable energy.

We heard today from Brynle Williams a description of a Sitka Spruce plantation. It was described in a romantic way to applaud the rich environmental heritage of Wales. Trees do play a crucial role in controlling our climate. Trees, through photosynthesis, take carbon dioxide from our environment, capture it and store it as carbon. The carbon is caught in the biomass of our forests, in the trunks, in the branches, in the leaves, in the roots and in the soil as organic carbon. The carbon remains even after the tree has been

para hyd yn oed ar ôl i'r goeden gael ei thorri a'i defnyddio fel adnodd adeiladu, er enghraifft.

felled and used as a building resource, for example.

Ar y cyd â'r Gweinidogion eraill yn y Deyrnas Gyfunol sy'n gyfrifol am goedwigaeth, yr wyf wedi gofyn i'r Comisiwn Coedwigaeth gymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Yn gyntaf, mae angen asesu cyfraniad coedwigoedd at ein hymdrechion i daclo newid yn yr hinsawdd. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi comisiynu astudiaeth a fydd yn rhoi inni asesiad ystyrlon o botensial coed a choedwigoedd Cymru, a rhannau eraill o Brydain, i arafu'r newid yn yr hinsawdd, ynghyd ag asesiad o'n gallu i addasu i'r newid. Bydd yr astudiaeth hon hefyd yn creu senarios er mwyn helpu i ragfynegi'r effeithiau tebygol ar rywogaethau coed brodorol yng Nghymru. Yn ail, mae angen creu fframwaith ar gyfer rheoli carbon mewn coetiroedd a gwrthbwysu allyriadau drwy ddatblygu safonau, canllawiau a phrotocolau ar gyfer asesu a monitro lefelau carbon, a chod ymarfer ar gyfer cynlluniau coetiroedd at ddiben gwrthbwysu. Y nod yw datblygu fframwaith ymarferol ar gyfer rheoli carbon coetiroedd a gwrthbwysu allyriadau o fewn y 12 mis nesaf.

Jointly with other Ministers in the United Kingdom with responsibility for forestry, I have asked the Forestry Commission to take a number of steps to get to grips with climate change. First, we need to assess the contribution of forestry to our efforts to tackle climate change. The Forestry Commission has commissioned a study that will give us a considered assessment of the potential of trees and forestry in Wales and other parts of the United Kingdom to slow down climate change, as well as an assessment of our ability to adapt to the change. This study will also create scenarios that will assist us in predicting the possible effects on native tree species in Wales. Secondly, we need to create a framework to manage the carbon in our woodlands and to offset emissions by developing standards, guidance and protocols that will assess and monitor carbon levels, and a code of practice for woodland schemes with the aim of offsetting the effects. The aim is to develop a practical framework to manage the carbon in our woodlands and to offset emissions within the next 12 months.

Mae'r cynlluniau hyn yn golygu newid mawr ym mhswylais y Comisiwn Coedwigaeth a'r sector coedwigaeth ehangach o ran datblygu adnoddau a pholisi. Mae 'Cymru'n Un' yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi coetiroedd cynhenid drwy blannu coeden ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei eni a phob plentyn sy'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn wedi dechrau, a bydd 25,000 o goed llydanddail brodorol wedi'u plannu cyn diwedd 2008. Mae 'Cymru'n Un' hefyd yn cynnwys ymrwymiad i greu coedwig genedlaethol yng Nghymru o goed brodorol i fod yn ddalfa garbon. Mae fy swyddogion yn paratoi manylion y cynllun, a gaiff ei gynnwys yn y strategaeth goetiroedd newydd y byddwn yn ei lansio yn ddiweddarach eleni.

These schemes mean a great change of emphasis by the Forestry Commission and the broader sector in terms of developing resources and policy. 'One Wales' includes a commitment to support native woodlands by planting a tree for each child born and each child adopted in Wales. This scheme has already started, and 25,000 native broadleaf trees will have been planted before the end of 2008. 'One Wales' also includes a commitment to create a national forest in Wales of native trees to be a carbon capture site. My officials are preparing the details of the scheme, which will be included in the new forestry strategy which we will launch later this year.

Fel un o'r dylanwadau mwyaf ar bolisi, mae newid yn yr hinsawdd yn rhan bwysig o'r broses ymgynghori ar ddiwygio'r strategaeth goetiroedd. Byrddwn y strategaeth newydd yw'r cysyniad fod angen addasu coetiroedd Cymru i ddygydd â'r hinsawdd sy'n newid

As one of the greatest influences on policy, climate change is an important part of the consultation process on revising the woodland strategy. The focus of the new strategy is the concept that we need to adapt woodland in Wales in order to deal with an

drwy greu adnodd mwy amrywiol a hyblyg. Felly, gall rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy wneud cyfraniad amlwg i'r gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac yr wyf yn croesawu'r ffaith bod y cynnig heddiw yn cydnabod hynny. Serch hynny, nid drwy'r gweithgareddau hyn yn unig y gall coetiroedd Cymru daclo newid yn yr hinsawdd, ac, felly, yr wyf yn gwrthod y cynnig i roi gorau i'r rhaglen ffermydd gwynt ar gyfer coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth.

Mae ein hinsawdd a'n daearyddiaeth yng Nghymru yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i fod yn allforiwr net o drydan sydd wedi'i gynhyrchu mewn modd adnewyddadwy. Ynni'r gwynt, ar hyn o bryd, yw'r dechnoleg mwyaf masnachol sydd ar gael inni nad yw'n rhyddhau unrhyw garbon. Fel mae proses TAN 8 yn ei chydabod, mae llawer o'r coedwigoedd mawr sydd gennym ar ein bryniau yng Nghymru yn safleoedd delfrydol ar gyfer datblygu ffermydd gwynt i gefnogi'r targedau ar ynni adnewyddadwy. Nod rhaglen ffermydd gwynt Llywodraeth y Cynulliad, o dan reolaeth y Comisiwn Coedwigaeth, yw codi ffermydd gwynt ar goetiroedd y Cynulliad. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cynnal proses dendro drylwyr a chadarn i ddod o hyd i'r cwmnïau mwyaf addas i roi opsiynau i ddatblygu ffermydd gwynt ar dir y Cynulliad. Yr oedd y tendr hwn yn cynnwys meini prawf llym er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i bobl Cymru, ond mater i'r awdurdodau cynllunio perthnasol fydd y penderfyniad terfynol ar union faint a lleoliad pob un o'r datblygiadau hyn. Llywodraeth y Cynulliad sydd biau'r tir o dan sylw, ond, wrth benderfynu i ganiatáu'r datblygiadau hyn, y broses gynllunio fydd piau'r penderfyniadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, wrth gwrs, adran y Deyrnas Gyfunol, sef yr Adran Fusnes, Mentergarwch a Diwygio Rheoliadol, fydd yr awdurdod cynllunio, gan fod y rhan fwyaf o'r ceisiadau cynllunio yn debygol o fod yn fwy na 50 MW. Yr ydym wedi clywed cyfeiriad at hyn eisoes y prynhawn yma; mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth i'r pwerau hyn gael eu datganoli i Gymru maes o law.

5.20 p.m.

Mae ôl troed pob twrbein yn debygol o fod

environment which is changing quickly by creating a more varied and flexible resource. Therefore, managing our forests in a sustainable way can make a huge contribution to our efforts to get to grips with climate change, and I welcome the fact that today's motion acknowledges that. However, it is not only through these activities that Welsh woodlands could tackle climate change, so I reject the proposal to abandon plans to build wind turbines on Forestry Commission land.

Our climate and geography in Wales mean we are in an effective position to be a net exporter of electricity produced in a renewable way. Wind energy, at present, is the most commercially viable technology available to us that does not release any carbon. As the TAN 8 process acknowledges, many of the large woodlands that we have on our hillsides are ideal sites to develop windfarms to support the renewable energy targets. The aim of the Welsh Assembly Government windfarm programme, under the control of the Forestry Commission, is to erect windfarms on these lands. The Forestry Commission has conducted a thorough tendering process to find the most appropriate companies to provide options for developing windfarms on Assembly land. This included strict rules in order to secure best value for the people of Wales, but it will be for the relevant planning authority to decide the exact size and location of these schemes. The Assembly Government owns the land but, in deciding whether or not to allow these developments, the planning process will make the final decisions. In most cases, of course, the UK department, the Department for Business, Enterprise and Regulatory Reform, will be the planning authority, as the majority of planning applications are likely to be over 50 MW. We have already heard reference to this today; it is still a priority for the Government to see the devolution of those powers to Wales in due course.

The footprint of each turbine is likely to be

yn llai nag 1 ha, gan leihau yn sylweddol effaith weledol y datblygiad heb amharu ar orchudd y coed. Mae hynny'n golygu y gallwn barhau i elwa ar yr holl fanteision o reoli'n coedwigoedd yn gynaliadwy ac, ar yr un pryd, gynhyrchu dros 75 y cant o darged Llywodraeth y Cynulliad o 800 MW o drydan o ffermydd gwynt ar y tir. Nid oes cynlluniau i glirio darnau mawr o dir ar gyfer y ffermydd gwynt hyn; nid oes cynlluniau i wneud unrhyw *clearfelling*. Mae'r bidiau sydd wedi eu derbyn yn cynnig cwmpo dim ond nifer fach o goed o amgylch troed y twrbein; fel arfer rhwng 0.4 ha ac 1 ha i bob twrbein. Yr ydym yn rhagweld na fydd yn effeithio ar fwy nag 1 y cant o dir y Comisiwn Coedwigaeth. Bydd yr ynni glân a fydd yn cael ei gynhyrchu yn mwy na gwneud yn iawn yn amgylcheddol am y coed bythwyrdd digynhenid fydd yn cael eu cwmpo. Unwaith eto, bydd hyn yn effeithio ar lai nag 1 y cant o dir y Comisiwn Coedwigaeth.

Mae'r broses gaffael ar gyfer dod o hyd i ddatblygwyr posibl ar fin dod i ben. Mae'r cytundebau wedi eu llofnodi gyda phedwar o dendrwyr llwyddiannus i ddatblygu safleoedd mewn pump o'r saith ardal. Byddant yn bwrw ati â'r datblygiadau hyn yn unol â'r cynlluniau presennol. Byddant yn darparu mwy na 600 MW o gapasiti cynhyrchu yn ogystal â darparu incwm blynyddol dros oes y datblygiadau i Lywodraeth y Cynulliad. Bydd yr incwm hwn yn seiliedig ar flaendal o £1.9 miliwn eleni, a bydd yn codi i £8.4 miliwn ymhen 10 mlynedd pe bai'r datblygiadau yn ennill caniatâd cynllunio ac yn bodloni eu targedau o ran dyddiadau'r comisiwn. Fel rhan o'r cytundebau hyn, bydd y datblygwyr hefyd yn darparu hyd at £2 filiwn y flwyddyn i gymunedau gerllaw'r datblygiadau er mwyn cefnogi prosiectau a chyfleusterau cymunedol. Disgwyliaf y bydd y trafodaethau ynglŷn â'r ddwy ardal strategol sy'n weddill yn dod i ben yn yr haf.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Deallaf y dadleuon ynglŷn â ffermydd gwynt, ond byddai asesiadau fel y rhai sy'n cael eu crybwyll gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn faterion, yn ein barn ni, sy'n rhan o'r broses cynllunio ac nid yn flaenoriaeth i'r

less than 1 ha, significantly reducing the visual impact of the development without impacting the canopy. This means we will continue to benefit from all the advantages of managing our woodlands sustainably, while at the same time producing over 75 per cent of the UK Government's target of 800 MW of electricity from onshore windfarms. There are no plans for large-scale clearfelling; there are no plans for any clearfelling. The bids that have been accepted so far involve felling only a small area of land around the foot of the turbine; that is usually between 0.4 ha and 1 ha per turbine. We do not predict that that will affect more than 1 per cent of Forestry Commission land. The clean energy produced will more than make up, environmentally, for the evergreen, non-indigenous trees which will be felled. Once again, less than 1 per cent of Forestry Commission land will be used.

The procurement process for finding possible developers is about to come to an end. Contracts have been signed with four successful tenderers to develop sites in five of the seven areas. They will progress with these developments in accordance with current guidelines. They will provide more than 600 MW of production capacity as well as an annual income for the Assembly Government over the life of the developments. This income will be based on a £1.9 million investment this year, increasing to £8.4 million in 10 years' time, if these developments are given planning permission and satisfy their targets in terms of commission dates. As part of these developments, the developers will also provide up to £2 million per annum for neighbouring communities, to support community projects and facilities. I expect the discussions on the two remaining strategic areas to come to an end this summer.

We will not support the Liberal Democrat amendment. I understand the arguments regarding windfarms, but assessments such as those mentioned by the Liberal Democrats would, in our opinion, be part of the planning process and would not be a priority for the Government.

Llywodraeth.

Yn olaf, hoffwn ddweud fod yr ystâd coedwigoedd cyhoeddus wedi cael ei phlannu i greu cronfa strategol o bren—dyna oedd y flaenoriaeth genedlaethol ar y pryd, yn dilyn y rhyfeloedd byd. Mae'r flaenoriaeth genedlaethol wedi newid erbyn hyn, a hynny i geisio mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad adnodd gwerthfawr iawn yn ei dwylo yn nhir a choed y Comisiwn Coedwigaeth. Yr ydym yn llwyr fwriadu defnyddio'r adnodd honno i gwrdd â her fawr ein hoes ni, sef newid yn yr hinsawdd.

**Alun Cairns:** It has been an interesting debate to say the least. In the time available, it will be difficult to cover all of the points made. I will start off by saying that the Welsh Conservative Party is not opposed to wind energy in principle. What the Welsh Conservative Party is opposed to is the mass imposition of windfarms on communities that do not want them.

**Alun Davies:** Will you give way?

**Alun Cairns:** I do not have time to take any interventions, sorry.

People need to recognise that destroying one environment in the name of protecting the environment and in the name of being green is not green, it is not environmentally friendly, and it is not being sustainable. We need to recognise the threat and the risks of climate change, and we need a co-ordinated approach to energy, but it has to be a balanced approach, and that means getting energy from a range of sources, including wind in some form. I think that it is interesting that those who made the most sweeping statements—Mike German, Alun Davies and Leanne Wood—were not prepared to take interventions. Mike German said that the Welsh Conservative Party was being opportunistic—that is a bit rich coming from the Liberal Democrats. They say one thing in one part of a constituency, and something else in another. Their former energy spokesman in the Assembly supported an offshore windfarm near Porthcawl, for example, but locally, the Liberal Democrats were wholly opposed to it.

Finally, I wish to say that the public forestry estate was planted to create a strategic timber asset—that was the national priority following two world wars. The national priority has now changed: it is now to attempt to tackle climate change. The Assembly Government, therefore, has a very valuable resource in its hands in terms of Forestry Commission land and trees. We fully intend to use that resource to meet the great challenge of our age, namely climate change.

**Alun Cairns:** Bu'n drafodaeth ddiddorol, a dweud y lleiaf. Yn yr amser sydd ar gael, bydd yn anodd ymdrin â'r holl bwyntiau a godwyd. Dechreuaf drwy ddweud nad yw Plaid Geidwadol Cymru yn gwrthwynebu egwyddor ynni gwynt. Yr hyn y mae Plaid Geidwadol Cymru yn ei wrthwynebu yw gorfodi llu o ffermydd gwynt ar gymunedau nad oes arnynt mo'u heisiau.

**Alun Davies:** A wnewch chi ildio?

**Alun Cairns:** Mae'n ddrwg gennyf, ond nid oes gennyf amser i gymryd ymyriadau.

Mae angen i bobl sylwi nad yw'n wyrdd, yn ecogyfeillgar nac yn gynaliadwy i ddinistrio'r amgylchedd yn enw amddiffyn yr amgylchedd a bod yn wyrdd. Mae angen inni gydnabod bygythiad a risgiau newid yn yr hinsawdd, ac mae arnom angen agwedd gydlynol tuag at ynni. Ond rhaid iddi fod yn agwedd gytbwys, ac mae hynny'n golygu cael ynni o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys gwynt ar ryw ffurf. Credaf ei bod yn ddiddorol nad oedd y rheini a wnaeth y datganiadau mwyaf ysgubol—Mike German, Alun Davies a Leanne Wood—yn barod i gymryd ymyriadau. Dywedodd Mike German fod Plaid Geidwadol Cymru yn ceisio achub ar y cyfle—mae hynny'n ddigon eironig gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Maent yn dweud un peth mewn un rhan o etholaeth, a rhywbeth arall mewn rhan arall. Yr oedd eu cyn-lefarydd ynni yn y Cynulliad yn cefnogi fferm wynt ar y môr ger Porth-cawl, er enghraifft, ond yn lleol yr oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei gwrthwynebu'n llwyr.



Alun Davies said that this was all about public relations. As he is someone who claims to have supported Tony Blair when he was Prime Minister, we certainly do not need to take lectures from him on that. He said that windfarms would have the support of the communities involved—try telling that to the communities that had windfarms imposed on them. I can tell you that the large windfarms put forward did not have community support.

Then we came to Leanne Wood, who refused to take an intervention. She mentioned the N-word, nuclear power, and talked about apparent inconsistency—[*Interruption.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. He is not taking any interventions, so please sit down, Alun Davies.

**Alun Cairns:** Leanne talked about apparent inconsistency in Welsh Conservative policy; inconsistency on nuclear policy was invented by Plaid Cymru. Look at Anglesey, where the so-called leader of Plaid Cymru is backing a nuclear power station, while the party's policy is against nuclear power, and the Government that it is a part of is also opposed to nuclear power. Where is the consistency in that? What is its policy on nuclear power, given that 20 per cent of the energy that is used in Wales comes from nuclear sources?

The key point in this debate is TAN 8. Twelve months ago, before the coalition was formed, Members in this Chamber voted for a review of TAN 8. Why is it that we have voted for it here, and it is included in 'One Wales', but 12 months on we are still arguing about it and calling for a review? Of course you will have applications rushed through—there is no point in having a revision of TAN 8 four years down the road, when all of the applications for windfarms will have been approved. We oppose TAN 8 because it offers such narrow areas—exactly the point made by Derek Vaughan, the deputy leader of the Welsh Local Government Association and one of Wales's most senior Labour councillors. He is wholly opposed to TAN 8

Dywedodd Alun Davies fod hyn i gyd yn ymwneud â chysylltiadau cyhoeddus. Gan ei fod yn rhywun sy'n hawlio'i fod wedi cefnogi Tony Blair pan oedd yn Brif Weinidog y DU, yn sicr nid oes angen inni ddebyn pregeth ganddo ar hynny. Dywedodd y byddai ffermydd gwynt yn cael cefnogaeth y cymunedau dan sylw—ceisiwch ddweud hynny wrth y cymunedau y mae ffermydd gwynt wedi'u gorfodi arnynt. Gallaf ddweud wrthyhych nad oedd cefnogaeth gymunedol i'r ffermydd gwynt mawr a awgrymir.

Yna, daethom at Leanne Wood, a wrthododd gymryd ymyriad. Soniodd am y gair N, pŵer niwclear, a siaradodd am yr anghysondeb sydd i'w weld—[*Torri ar draws.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid yw'n cymryd dim ymyriadau, felly, eisteddwch os gwelwch yn dda, Alun Davies.

**Alun Cairns:** Siaradodd Leanne am yr anghysondeb tybiedig ym mholisi Ceidwadwyr Cymru; ond Plaid Cymru a ddyfeisiodd anghysondeb mewn polisi niwclear. Edrychwch ar Ynys Môn, lle mae arweinydd honedig Plaid Cymru yn cefnogi gorsaf bŵer niwclear, tra mae polisi'r blaid yn gwrthwynebu pŵer niwclear, a thra mae'r Llywodraeth y mae'n rhan ohoni hefyd yn gwrthwynebu pŵer niwclear. Ble mae'r cysondeb yn y fan honno? Beth yw ei pholisi ar bŵer niwclear, o gofio bod 20 y cant o'r ynni a ddefnyddir yng Nghymru yn dod o ffynonellau niwclear?

Pwynt allweddol y ddadl hon yw TAN 8. Ddeuddeg mis yn ôl, cyn i'r glymblaid gael ei ffurfio, pleidleisiodd Aelodau yn y Siambur hon dros adolygu TAN 8. Er ein bod wedi pleidleisio drosto yma, a'i fod wedi'i gynnwys yn 'Cymru'n Un', pam yr ydym yn dal i ddadlau amdano ac yn galw am adolygiad ar ôl 12 mis? Wrth gwrs bydd ceisiadau'n cael eu gwthio drwyddo'n frysiog—nid oes pwynt adolygu TAN 8 ar ôl pedair mlynedd, pan fydd yr holl geisiadau am ffermydd gwynt wedi'u cymeradwyo. Yr ydym yn gwrthwynebu TAN 8 am ei fod yn cynnig ardaloedd mor gul—sef yr union bwynt a godwyd gan Derek Vaughan, dirprwy arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac un o brif gynghorwyr Llafur

because of its effect on the small, deprived communities in Neath Port Talbot. That is exactly why many Assembly Members here have opposed windfarms in their constituencies. They would not be in that position if it were not for TAN 8, because applications would not have been restricted to such narrow areas, and imposed upon them.

**The Deputy Presiding Officer:** Please wind up.

**Alun Cairns:** I am sorry that I have run out of time, because I would have welcomed a much longer debate in order to highlight the inconsistencies in Members' views on this—particularly among the parties in Government.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the amendment. Does any Member object? I see that there are objections. As it is past 4.30 p.m., we will proceed directly to voting time.

yng Nghymru. Mae ef yn gwrthwynebu TAN 8 yn llwyr oherwydd ei effaith ar gymunedau bach, difreintiedig Castell-nedd Port Talbot. Dyna'n union pam mae nifer o Aelodau'r Cynulliad yma wedi gwrthwynebu ffermydd gwynt yn eu hetholaethau. Ni fyddent yn y sefyllfa honno oni bai am TAN 8, oherwydd ni fyddai'r ceisiadau wedi'u cyfyngu i ardaloedd mor gul, nac ychwaith wedi'u gorfodi arnynt.

**Y Dirprwy Lywydd:** Dewch â hyn i ben, os gwelwch yn dda.

**Alun Cairns:** Mae'n ddrwg gennyf fod fy amser wedi dod i ben, oherwydd byddwn wedi croesawu dadl lawer hirach er mwyn rhoi sylw i'r anghysondebau ym marn Aelodau am hyn—yn enwedig ymysg y pleidiau yn y Llywodraeth.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno â'r diwygiad. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod rhai'n gwrthwynebu. Gan ei bod wedi troi 4.30 p.m., awn yn syth at y cyfnod pleidleisio.

### Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM3949: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 37.  
Amendment 1 to NDM3949: For 5, Abstain 0, Against 37.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
German, Michael  
Law, Trish  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Jocelyn  
Davies, Paul  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred

Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Williams, Brynle  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment defeated.*

*Cynnig NDM3949: O blaid 8, Ymatal 5, Yn erbyn 30.  
Motion NDM3949: For 8, Abstain 5, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Williams, Brynle

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
German, Michael  
Law, Trish  
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig.*

*Motion defeated.*

5.30 p.m.

### **Dadl Fer Short Debate**

#### **Yr Hen a Wyr: Byddwch yn Gall am Weithio ar ôl 50 Sageism not Ageism: Get Wise to Work after 50**

**Joyce Watson:** I have allowed Jeff Cuthbert, Irene James and Eleanor Burnham time to contribute.

I have chosen this topic for the short debate to raise awareness of the issue of people working after the age of 50—or rather, as it too often the case, not working, or not even being given the opportunity to work past that age. The over-50s age group is growing all the time. One in three people in Wales is aged over 50, and, looking around the Chamber, I see that more and more of us are entering that 50-plus age bracket—or at least, I could have said that when the Chamber was fuller.

Too many people find themselves shut out from the world of work when they reach that stage of their lives. One in three people aged between 50 and the state retirement age is economically inactive. Why is that so, and what effect does that have on individuals and society? How can we effect any positive and meaningful change in Wales that would get more people into work? As matters stand, we are wasting an enormous amount of talent, experience and skill.

It is not that older people do not want to work. Prime Cymru estimates that at least 50,000 older people in Wales lack work but want to work. Of course, older workers are different. Where some are looking for new challenges later in their working life, others want to slow down or withdraw from the workplace altogether. What is clear, however, is that the way in which people are treated has a huge effect on the contribution that they make.

There are many reasons why older people find it difficult to find or keep work. Age

**Joyce Watson:** Yr wyf wedi caniatáu amser i Jeff Cuthbert, Irene James ac Eleanor Burnham gyfrannu.

Dewisais y pwnc hwn ar gyfer y ddadl fer er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth am bobl yn gweithio ar ôl 50 oed—neu yn hytrach, fêl sy'n digwydd yn rhy aml, yn peidio â gweithio, neu hyd yn oed heb gael y cyfle i weithio pan fyddant dros yr oed hwnnw. Mae'r grŵp oed dros 50 yn cynyddu drwy'r amser. Mae un unigolyn o bob tri yng Nghymru dros 50 oed, ac wrth edrych o amgylch y Siambr, gwelaf fod mwy a mwy ohonom yn cyrraedd yr oedran hwnnw o 50 neu hŷn—neu o leiaf, gallwn fod wedi dweud hynny pan oedd y Siambr yn llawnach.

Mae gormod o bobl yn cael eu bod wedi eu cau allan o fyd gwaith ar ôl iddynt gyrraedd y cyfnod hwnnw yn eu bywydau. Mae un unigolyn o bob tri rhwng 50 ac oed ymdddeol y wladwriaeth yn economaidd anweithredol. Pam hynny, a pha effaith mae'n ei chael ar unigolion ac ar gymdeithas? Sut y gallwn ni achosi unrhyw newid cadarnhaol ac ystyrlon yng Nghymru a fyddai'n cael mwy o bobl i weithio? Fel y mae pethau, yr ydym yn gwastraffu peth wmbreth o ddawn, profiad a sgiliau.

Nid oes wnelo hyn â'r ffaith nad yw pobl hŷn am weithio. Mae Prime Cymru yn amcangyfrif bod o leiaf 50,000 o bobl hŷn yng Nghymru heb waith ond am weithio. Wrth gwrs, mae gweithwyr hŷn yn wahanol. Tra bydd rhai'n chwilio am her newydd yn hwyrach yn eu bywyd gwaith, mae eraill am arafu neu gilio o'r gweithle'n gyfan gwbl. yr hyn sy'n amlwg, fodd bynnag, yw bod y ffordd y caiff pobl eu trin yn cael effaith aruthrol ar y cyfraniad a wânt.

Mae nifer o resymau pam y mae pobl hŷn yn ei chael yn anodd dod o hyd i waith neu gadw

discrimination is prevalent in the public and private sectors. Evidence suggests that, if you are made redundant after the age of 50 in Wales, you stand a greater chance of dying before reaching retirement age than you do of finding a job. That is a particularly amazing statistic. In a recent survey, nine out of 10 older employees believed that their company discriminated on the grounds of age, and more than a third of those who had retired considered that they were forced into that decision.

There are other issues, however, such as the provision of education and training, the availability of flexible working and the lack of appropriate support. I will return to those later.

We know that the right kind of work is good for people's health, their physical wellbeing and their self-esteem. These health benefits sit alongside the obvious economic incentive of getting more older people into work. Across the UK, it is estimated that workplace age discrimination costs as much as £30 billion in lost production and £5.5 billion in lost taxation and benefit payments.

Employing older people brings many benefits, however. There are lower turnover costs because of improved retention. Staff morale is better, as is productivity. A workforce that reflects a company's customer base will result in a better public image. Older employment is therefore a win-win situation. It is good for individuals and the economy.

We can change things in Wales and better use our older talent. The Labour Government in Westminster and the Labour-led Assembly Government have increased the number of older people in work to an all-time high. However, because of demographic trends, we have been running to stand still. Here in Wales, we have appointed a commissioner for older people, and we have the older people's strategy, both of which are signs that we are taking a positive approach to this issue. With the strategy's key aim of improving access to work and learning, and with a budget of £20 million allocated to

swydd. Mae camwahaniaethu ar sail oed yn digwydd yn aml yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Awgryma tystiolaeth, os collwch eich swydd a chithau dros 50 oed yng Nghymru, eich bod yn fwy tebygol o farw cyn cyrraedd oed ymddeol nag o gael swydd. Mae hwnnw'n ystadegyn rhyfeddol. Mewn arolwg yn ddiweddar yr oedd naw gweithiwr hŷn o bob 10 yn credu bod eu cwmni'n camwahaniaethu ar sail oed, ac yr oedd dros un rhan o dair o'r rheini a oedd wedi ymddeol yn credu iddynt gael eu gorfodi i wneud y penderfyniad hwnnw.

Mae yna broblemau eraill, fodd bynnag, megis darparu addysg a hyfforddiant, y dulliau gweithio hyblyg sydd ar gael, a diffyg cefnogaeth briodol. Dychwelaf at y rheini'n ddiweddarach.

Gwyddom fod y math iawn o waith yn dda i iechyd pobl, eu lles corfforol a'u hunanbarch. Saif y manteision iechyd hyn ochr yn ochr â'r cymhelliad economaidd amlwg o gael mwy o bobl hŷn i weithio. Ledled y DU amcangyfrifir bod camwahaniaethu ar sail oed yn y gweithle yn costio cymaint â £30 biliwn o ran colli cynhyrchedd, a £5.5 biliwn mewn colli trethi a taliadau budd-dal.

Mae lawer o fanteision o gyflogoi pobl hŷn, fodd bynnag. Mae'r costau trosiant yn is oherwydd bod pobl yn aros yn hwy. Mae ysbryd y staff yn well; felly hefyd gynhyrchedd. Bydd gweithlu sy'n adlewyrchu sylfaen cwsmeriaid cwmni yn well yn arwain at ddelwedd gyhoeddus well. Mae pawb ar eu hennill, felly, drwy gyflogi pobl hŷn. Mae'n dda i'r unigolion ac i'r economi.

Gallwn newid pethau yng Nghymru a defnyddio'n doniau hŷn yn well. Mae'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan a Llywodraeth y Cynulliad dan arweiniad Llafur wedi cynyddu nifer y bobl hŷn sydd mewn gwaith i'r lefel uchaf erioed. Fodd bynnag, oherwydd tueddiadau demograffig, rhedeg i aros yn llonydd fuom ni. Yma yng Nghymru yr ydym wedi penodi comisiynydd pobl hŷn, ac mae gennym y strategaeth pobl hŷn: y naill a'r llall yn arwyddion ein bod yn gadarnhaol ynghylch y mater hwn. Gyda nod allweddol y strategaeth o wella mynediad i waith a dysgu, a chydau chyllideb o £20

implement the second phase, we must ensure that the central investment reaches the people on the ground, where it can be put to best use. At the moment, that does not always happen. For example, this year, with its total budget of £76,000 for its older people strategy, Ceredigion County is spending just £167 on older people's employment and economic activity.

We need to encourage employers to recruit and retain older workers. Some private sector employers, especially retailers, are moving in the right direction and are adopting positive recruitment policies, and they are profiting because of it. However, in the public sector, we should be able to expect public bodies to be exemplar employers, having age-positive practices and delivering good age-diversity training. For the Assembly Government, that means supporting incentives for employers to adopt good equalities practice and taking a flexible approach to the mandatory retirement age. The recent legislation on flexible working is great news, and is to be welcomed, especially for people with young families, but perhaps we need to look at extending it to older or disabled workers who can find it difficult to find employment because of their caring responsibilities.

As someone who changed direction later in life and was given opportunities to forge a new career, I feel strongly that everyone should have the same opportunity, and that good education and training are essential. More people aged over 50 are not in education, employment or training than is the case with those aged under 30. One reason that that often slips beneath the radar is because these people are outside the system of support. The vast majority of people who are aged over 50 and who are not working are not on the jobseekers' allowance and do not come into contact with the jobcentre, so it is important that we develop more ways to include older people in education and training programmes and employment support, where they are looking to receive it.

Therefore, on employment for older people, I call on the Assembly Government to consider asking public bodies to monitor their

miliwn wedi ei neilltuo i weithredu'r ail gyfnod, rhaid inni sicrhau bod y buddsoddiad canolog yn cyrraedd y bobl ar lawr gwlad, lle gellir ei ddefnyddio yn y ffordd orau. Ar hyn o bryd nid yw hynny bob amser yn digwydd. Er enghraifft, eleni, gyda chyfanswm cyllideb o £76,000 ar gyfer ei strategaeth pobl hŷn, mae sir Ceredigion yn gwario £167 yn unig ar gyflogi a gweithgaredd economaidd bobl hŷn.

Rhaid inni annog cyflogwyr i recriwtio a chadw gweithwyr hŷn. Mae rhai cyflogwyr yn y sector preifat, yn enwedig mân-werthwyr, yn symud i'r cyfeiriad iawn ac yn mabwysiadu polisïau recriwtio cadarnhaol, ac maent yn elwa o'r herwydd. Fodd bynnag, yn y sector cyhoeddus, dylem allu disgwyl i gyrff cyhoeddus osod esiampl fel cyflogwyr, gydag arferion oed cadarnhaol a chyflwyno hyfforddiant da am amrywiaeth oed. I Lywodraeth y Cynulliad, mae hynny'n golygu cefnogi cymhellion i gyflogwyr fabwysiadu arferion da o ran cydraddoldeb a chael agwedd hyblyg at yr oed ymddeol gorfodol. Mae'r ddeddfwriaeth yn ddiweddar ar weithio hyblyg yn newyddion gwych, a dylid ei chroesawu, yn enwedig i bobl sydd â theuluoedd ifanc, ond efallai fod angen inni edrych ar ei hymestyn i weithwyr hŷn neu anabl, a all ei chael yn anodd dod o hyd i waith oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu.

Fel rhywun a newidiodd gyfeiriad yn hwyrach yn ei hoes ac a gafodd gyfle i lunio gyrfa o'r newydd, teimlaf yn gryf y dylai pawb gael yr un cyfle, a bod addysg a hyfforddiant da yn hanfodol. Mae mwy o bobl dros 50 oed heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant nag o bobl ifanc dan 30 oed. Un rheswm na chofnodir yn aml yw bod y bobl hyn y tu allan i'r system gefnogaeth. Mae mwyafrif llethol y bobl sydd dros 50 oed a heb fod yn gweithio heb fod yn cael lwfans ceiswyr gwaith nac yn dod i gysylltiad â'r ganolfan waith, ac felly mae'n bwysig inni ddatblygu mwy o ffyrdd i gynnwys pobl hŷn mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant a chefnogaeth gwaith, pan fyddant yn chwilio amdano.

Felly, o ran gwaith i bobl hŷn, galwaf ar Lywodraeth y Cynulliad i ystyried gofyn i gyrff cyhoeddus fonitro'r ffordd y maent yn

recruitment of the 50 plus age group. We will then at least have a statistical basis on which we can work.

**Jeff Cuthbert:** I thank Joyce for bringing this subject before us. In the minute that I have to speak, I want to relate the points that she made to the earlier debate that we had on 'Skills That Work for Wales'. There is often a view that training is for younger people, namely teenagers or people up to the age of 30, but, in reality, learning is very much life long. It is critical that employers realise the value of people over the age of 50 as potential employees, given their experience, abilities and attitude.

There is also the issue of upgrading skills at work, which applies at any age. It is critical that trade unions and other key organisations always remember the needs of older people.

I will close by praising the services of Learndirect, the Open University and community education in the provision of vocationally based adult education. Through those organisations, considerable steps can be taken by older people who wish to improve their skills levels.

**Irene James:** I am delighted to say that, where I work, age seems to be a positive advantage when it comes to employment chances. I am also delighted to have the opportunity to speak in this short debate. Jeff Cuthbert, our colleague and friend, turned 60 today, and he continues to work hard and effectively for his constituents. Therefore, I do not see age as a barrier to anything.

Whether you are a long-established business, a growing concern or just starting out, recruiting people over the age of 50 gives your business the opportunity to access a unique resource, namely people who have a wide range of experience and skills picked up over a lifetime of work. Increasingly, many older people turn to volunteering as a way back into the labour market after they have left their full-time job or after they have raised a family. Volunteering can be a flexible way of gaining new skills, which can be a way of building up confidence and self-

recruiwio'r grŵp oed 50 a hŷn. Bydd gennym wedyn o leiaf sail ystadegol inni weithio arni.

**Jeff Cuthbert:** Diolch i Joyce am ddod â'r pwnc hwn gerbron. Yn y funud sydd gennyf i siarad, yr wyf am gyfeirio at y pwyntiau a wnaeth yn y ddadl gynharach a gawsom ar 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'. Mae yna farn yn aml mai rhywbeth i bobl iau yw hyfforddiant, sef pobl yn eu harddegau neu bobl hyd at 30 oed, ond mewn gwirionedd mae dysgu'n rhywbeth gydol oes yng ngwir ystyr y gair. Mae'n hanfodol i gyflogwyr sylweddoli gwerth pobl dros 50 oed fel darpar-weithwyr, ac ystyried eu profiad, eu galluoedd a'u hagwedd.

Hefyd, mae yna fater uwchraddio sgiliau yn y gwaith, sy'n wir am unrhyw oed. Mae'n hanfodol i undebau llafur a sefydliadau allweddol eraill gofio anghenion pobl hŷn bob amser.

Terfynaf drwy ganu clodydd Learndirect, y Brifysgol Agored ac addysg gymunedol wrth ddarparu addysg oedolion yn seiliedig ar alwedigaeth. Drwy'r cyrff hyn gall pobl hŷn gymryd camau breision i wella'u lefelau sgiliau.

**Irene James:** Mae'n bleser gennyf ddweud, lle'r wyf fi'n gweithio, fod oed yn fantais bendant pan ddaw'n fater o gyfle am waith. Mae'n bleser gennyf hefyd gael y cyfle i siarad yn y ddadl fer hon. Mae ein cyd-Aelod a'n cyfaill Jeff Cuthbert yn 60 heddiw, ac mae'n parhau i weithio'n galed ac yn effeithiol dros ei etholwyr. Felly, ni welaf fi fod oed yn rhwystro dim.

Ni waeth a ydych yn fusnes sydd wedi hen sefydlu, yn fusnes sy'n tyfu ynteu ar fin cychwyn, mae recruiwio pobl dros 50 oed yn rhoi cyfle i'ch busnes gael adnodd unigryw, sef pobl gydag ystod eang o brofiad a sgiliau wedi eu dysgu dros oes mewn gwaith. Mae mwy a mwy o bobl hŷn yn troi at wirfoddoli fel llwybr yn ôl i'r farchnad lafur wedi iddynt adael eu swydd amser llawn neu ar ôl magu teulu. Gall gwirfoddoli fod yn ddull hyblyg o ennill sgiliau newydd, a gall hyn yn ei dro fagu hyder a hunan-barch mewn pobl dros 50 oed yn ogystal â phobl sydd wedi bod allan o

esteem for the over-50s, as well as the long-term unemployed. Many organisations benefit greatly from the injection of skills provided by volunteers who are aged over 50, and I hope that that practice continues.

According to a recent report, many businesses in Wales were established by older people, and many of them received help from Prime Cymru, an organisation dedicated to helping people aged over 50 in Wales to become economically active. Almost half of these individuals were previously economically inactive.

5.40 p.m.

It is crucial that we continue to act to ensure that the skills and the experience that older people can bring to the workplace are not ignored.

**Eleanor Burnham:** I have to take an intake of breath. I am proud to be over 50 years of age. Like Joyce, I have had a wonderful portfolio career, which people sometimes snigger at, but it has stood me in good stead. I think that we have a lot of maturity; we certainly have vitality—I think that I have vitality. I am very passionate about lifelong learning and dipping in and out of it. I hope that the Deputy Minister and the Government will start to listen about the choices that older people need and what they have to offer. Dipping in and out of education, whether it is further education or Open University, is causing more and more concern, as it is becoming more expensive. You need to be aware of this, so that those of us who are over 50 years of age can continue to make some valuable and positive contribution.

**The Deputy Minister for Skills (John Griffiths):** I thank Joyce for bringing these important matters to Plenary, and thank the other contributors for adding to Joyce's speech.

In a previous incarnation, I was the Deputy Minister with responsibility for older people, so many of these matters remain very dear to my heart. We have a good story to tell in the Welsh Assembly Government in terms of the older people's strategy that we have taken

waith ers amser maith. Mae nifer o sefydliadau ar eu hennill o'r mewnlifiad sgiliau a gânt gan wirfoddolwyr dros 50 oed, a hir y parhaed hynny.

Yn ôl adroddiad yn ddiweddar, sefydlwyd nifer o fusnesau yng Nghymru gan bobl hŷn, a chafodd nifer ohonynt help gan Prime Cymru, sefydliad unswydd i helpu pobl dros 50 oed yng Nghymru i fod yn economaidd weithgar. Yr oedd bron hanner yr unigolion hyn gynt yn economaidd anweithgar.

Mae'n hanfodol inni ddal i weithredu i sicrhau nad anwybyddir y sgiliau a'r profiad sydd gan bobl hŷn i'w cynnig yn y gweithle.

**Eleanor Burnham:** Rhaid imi gymryd fy ngwynt. Yr wyf yn falch fy mod dros 50 oed. Fel Joyce, cefais yrfa bortffolio ardderchog, sy'n destun gwawd i bobl weithiau, ond sydd wedi bod o fantais fawr i mi. Credaf fod gennym lawer o aeddfedrwydd; yn sicr mae gennym fywiogrwydd—yr wyf yn credu fy mod yn fywiog. Yr wyf yn frwdfrydig iawn dros ddysgu gydol oes a phicio i mewn ac allan ohono. Gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog a'r Llywodraeth yn dechrau gwrandao ar y dewisiadau y mae eu hangen ar bobl hŷn a'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig. Mae picio i mewn ac allan o addysg, boed yn addysg bellach ynteu'r Brifysgol Agored, yn peri mwy a mwy o bryder am ei fod yn mynd yn ddrutach. Mae angen ichi fod yn ymwybodol o hyn, fel y gall y rheini yn ein plith sydd dros 50 oed barhau i wneud cyfraniad gwerthfawr a chadarnhaol.

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Diolch i Joyce am ddod â'r materion pwysig hyn i'r Cyfarfod Llawn, a diolch i'r cyfranwyr eraill am ychwanegu at araith Joyce.

Mewn bywyd blaenorol, fi oedd y Dirprwy Weinidog gyda chyfrifoldeb dros bobl hŷn, felly, mae nifer o'r materion hyn yn dal yn agos at fy nghalon. Mae gennym hanes da i'w adrodd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran y strategaeth pobl hŷn a ddygwyd



forward, and continue to take forward under the direction of Gwenda Thomas, the Deputy Minister for Social Services. I know that, across the world, Wales's older people's strategy has attracted a lot of admiring attention. It is good to see Wales being perceived as being at the forefront of progressive and constructive developments for older people. There are good reasons why we should be at the forefront; the ageing population is more marked in Wales than elsewhere in the UK.

Over the last 40 years, there has been a 30 per cent increase in the number of people over the age of 60 years in Wales. The number of people over 65 is expected to increase by half again over the next 40 years, to over 800,000 by 2040. Far too many people look at an ageing society in a negative way in terms of increasing dependency and the strain that it places on Government, but we should be much more positive than that. When I was the Deputy Minister with responsibility for older people, I attended an interesting event where a retired GP gave a presentation and began by declaring:

'I want to die young when I am very, very old'.

As I travelled around Wales after that presentation, I met many older people who were very young for their age. I saw many women well into their 90s, for example, taking dancing classes, conducting keep fit and activity classes in general, and participating in computer and information technology instruction. They were extremely impressive for their advanced age, and in general. It gives everyone great hope to see people setting that sort of example. We want to take a positive view of an ageing society and look to the contribution that people can make.

Nonetheless, it poses challenges for Government, which is why I am glad that we have our older people's strategy. We need to have innovative policies to deal with the ageing society and we need to explode the negative myths about the ageing process and what it brings. We know that individuals in Wales are living longer and more active lives,

ymlaen gennym, ac yr ydym yn parhau i'w ddwyn ymlaen dan gyfarwyddyd Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Gwn, ledled y byd, fod strategaeth pobl hŷn Cymru wedi denu llawer o sylw a chanmoliaeth. Da yw gweld synied am Gymru fel lle ar flaen y gad gyda datblygiadau blaengar ac adeiladol i bobl hŷn. Mae rhesymau da pam y dylem fod ar flaen y gad; mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn amlycach yng Nghymru nag mewn manau eraill yn y DU.

Dros y 40 mlynedd diwethaf, bu cynnydd o 30 y cant yn nifer y bobl dros 60 oed yng Nghymru. Disgwylir i nifer y bobl dros 65 oed gynyddu o'r hanner eto dros y 40 mlynedd nesaf, i fey nag 800,000 erbyn 2040. Mae llawer gormod o bobl yn edrych ar gymdeithas sy'n heneiddio mewn ffordd negyddol o ran dibyniaeth gynyddol a'r straen y mae'n ei rhoi ar y Llywodraeth, ond dylem fod yn fwy cadarnhaol o lawer na hynny. Pan oeddwn yn Ddirprwy Weinidog gyda chyfrifoldeb dros bobl hŷn, bŵm mewn digwyddiad diddorol lle yr oedd meddyg teulu wedi ymddeol yn rhoi cyflwyniad, a dechreuodd drwy ddweud:

Yr wyf eisiau marw'n ifanc pan fyddaf yn hen, hen iawn.

Wrth i mi deithio o gwmpas Cymru wedi'r cyflwyniad hwnnw, cyfarfŵm â llawer o bobl hŷn oedd yn ifanc iawn eu hysbryd. Gwelais nifer o fenywod yn eu 90au hwyr, er enghraifft, yn cymryd dosbarthiadau dawns a chadw'n heini yn gyffredinol, ac yn cymryd rhan mewn hyfforddiant cyfrifiadurol, a thechnoleg gwybodaeth. Am bobl mewn gwth o oedran, yr oeddent yn arbennig iawn. Mae'n rhoi gobraith i bawb i weld pobl yn rhoi'r math hwnnw o esiampl. Mae angen inni edrych ar gymdeithas sy'n heneiddio mewn ffordd gadarnhaol a sylwi ar y cyfraniad y gall pobl ei wneud.

Er hynny, mae'n her i'r Llywodraeth, a dyna'r rheswm pam yr wyf yn falch fod gennym ein strategaeth pobl hŷn. Rhaid inni gael polisiau arloesol i fynd i'r afael â'r gymdeithas sy'n heneiddio, a rhaid inni chwalu'r mythau negyddol am broses heneiddio a'r hyn a ddaw yn ei sgil. Gwyddom fod unigolion yng Nghymru yn

which is to be celebrated. Many businesses now understand that they need to take advantage of this workforce—older people provide opportunities for them at a time of high employment, thankfully, and, in many cases, labour shortages. Thankfully, they are waking up to that.

The vision that we have is of a Wales in which older people can play a full and active role across the board. Irene mentioned volunteering, we have talked about employment, and Eleanor, when she was here, spoke about lifelong learning, as did Irene and, of course, Joyce. Therefore, it is wide-ranging. Prime Cymru is a good organisation doing many good things. We have some good policies for lifelong learning, and I am as committed to it as anybody else, being someone who has returned to education for a second-chance education as an adult. I am determined to ensure that lifelong learning remains a reality in Wales.

Joyce spoke of employment being central to lifelong education, which is right, because it is important to all aspects of life. People want the income that it brings, the social network that it involves, and they want to work for as long as suits them. Often, towards the end of people's working lives, they look for a change. That is very understandable; variety is the spice of life. If they want to work reduced hours in a more flexible way or try something new, the Welsh Assembly Government wants to facilitate that and ensure that it becomes a reality for more and more older people.

On volunteering, we know that many older people contribute a huge amount as grandparents by looking after their children's children. It has been estimated that the childcare provided by grandparents is worth £259 million, and the value of their volunteering generally, £469 million. Both of those are annual figures, so their contribution is immense.

Although we have made progress in Wales, we have a lower proportion of people aged over 50 in our workforce than is the case in

byw'n hwy ac yn fwy bywiog, sy'n rheswm dros ddathlu. Mae nifer o fusnesau'n awr yn deall bod angen iddynt fanteisio ar y gweithlu hwn—mae pobl hŷn yn darparu cyfleoedd iddynt ar adeg pan yw cyflogaeth yn uchel, diolch byth, ac mewn llawer achos lle mae prinder gweithwyr. Diolch i'r drefn eu bod yn dechrau dod yn ymwybodol o hynny.

Ein gweledigaeth yw Cymru lle gall pobl hŷn chwarae rhan lawn a gweithgar yn gyffredinol. Soniodd Irene am wirfoddoli, yr ydym wedi siarad am gyflogaeth, a siaradodd Eleanor, pan oedd yma, am ddysgu gydol oes, fel y gwnaeth Irene, a Joyce, wrth reswm. Mae'n bellgyrhaeddol felly. Mae Prime Cymru yn sefydliad da sy'n gwneud llawer o bethau da. Mae gennym rai polisiau da ar gyfer dysgu gydol oes, ac yr wyf wedi ymroi cymaint ag unrhyw un arall iddo, gan imi ddychwelyd i addysg ar gyfer addysg ail-gyfle yn oedolyn. Yr wyf yn benderfynol o sicrhau bod dysgu gydol oes yn parhau'n wirionedd yng Nghymru.

Soniodd Joyce fod cyflogaeth yn ganolog i addysg gydol oes, sy'n gywir gan ei bod yn bwysig i bob agwedd ar fywyd. Mae ar bobl eisiau'r incwm a ddaw yn ei sgil, y rhwydwaith cymdeithasol y mae'n ei olygu, ac mae arnynt eisiau gweithio cyhyd ag sy'n addas iddynt. Yn aml, tua diwedd bywydau gwaith pobl, byddant yn chwilio am newid. Mae hynny'n ddealladwy iawn; amrywiaeth sy'n rhoi blas ar fywyd. Os ydynt am weithio llai o oriau mewn ffordd fwy hyblyg neu roi cynnig ar rywbeth newydd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am hwyluso hynny a sicrhau y daw'n wirionedd i fwy a mwy o bobl hŷn.

Ynghylch gwirfoddoli, gwyddom fod llawer o bobl hŷn yn cyfrannu llawer iawn fel neiniau a theidiau drwy ofalu am blant eu plant. Amcangyfrifwyd bod y gofal plant a ddarperir gan neiniau a theidiau yn werth £259 miliwn, a bod eu gwirfoddoli cyffredinol yn werth £469 miliwn. Ffigurau blynyddol yw'r rhain, felly, mae eu cyfraniad yn aruthrol.

Er inni wneud cynnydd yng Nghymru, mae gennym gyfran is o bobl dros 50 oed yn ein gweithlu nag sydd mewn rhannau eraill o'r

other parts of the UK. We are determined to step up our programmes to tackle these issues, and we have various ways of taking this forward. Some of it involves working with the UK Government. Pension reforms and changes to the state pension age, reforms to the welfare benefits system, skills development and the lifelong learning that I spoke of earlier, supporting employers and businesses, and the more flexible provision of health and social services are all matters that must be tackled effectively, working constructively in partnership with the UK Government.

I am pleased to say that we have some very strong partnerships. We have worked well with the Department for Work and Pensions and Jobcentre Plus in Wales on the New Deal 50 Plus, for example, for people aged 50 and over, which provides tailored practical help and support to develop potential skills and experience as well as help with finding and retaining work. From the inception of that programme in 2000 until the end of 2007, 12,000 people aged 50 and over moved into employment in Wales. Over the past seven years, the number of people over the age of 50 claiming unemployment-related benefits in Wales has more than halved. Therefore, we have made significant progress.

In March this year, the Secretary of State for Work and Pensions, James Purnell, announced plans to implement a new flexible New Deal to build on the progress that has already been made. I am pleased to say that we in Wales are strong on ensuring that most of our lifelong learning programmes are all-aged, which ensures that skills and lifelong learning complement the activity of the DWP and Jobcentre Plus. For example, the modern apprenticeship programme, support for numeracy and literacy skills, and our adult community programmes all meet the rightful demand of avoiding age discrimination.

Playing an important role in equipping individuals with work-related skills while

DU. Yr ydym yn benderfynol o wella ein rhaglenni i fynd i'r afael â'r materion hyn, ac mae gennym ffyrdd amrywiol i fynd â hyn yn ei flaen. Mae rhywfaint ohono'n cynnwys gweithio gyda Llywodraeth y DU. Mae diwygiadau pensiwn a newidiadau yn oedran pensiwn y wladwriaeth, diwygiadau yn y system budd-daliadau lles, datblygu sgiliau a'r dysgu gydol oes y soniais amdano'n gynharach, cefnogi cyflogwyr a busnesau, a darparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol mwy hyblyg, i gyd yn faterion y mae'n rhaid delio â hwy'n effeithiol, gan weithio'n adeiladol mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU.

Yr wyf yn falch dweud bod gennym rai partneriaethau cryf iawn. Yr ydym wedi gweithio'n dda gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith yng Nghymru ar y Fargen Newydd 50 a Hŷn, er enghraifft, i bobl 50 oed a hŷn sy'n rhoi cymorth ymarferol wedi'i deilwra a chefnogaeth i ddatblygu sgiliau a phrofiad posibl yn ogystal â chymorth i gael a chadw gwaith. Ers dechrau'r rhaglen honno yn 2000 tan ddiwedd 2007, symudodd 12,000 o bobl 50 oed a hŷn i mewn i gyflogaeth yng Nghymru. Yn ystod y saith mlynedd diwethaf, mae nifer y bobl dros 50 oed sy'n hawlio budd-daliadau'n ymwneud â diweithdra yng Nghymru wedi haneru a mwy. Yr ydym wedi gwneud cynnydd sylweddol, felly.

Ym mis Mawrth eleni cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, James Purnell, gynlluniau i roi Bargen Newydd hyblyg newydd ar waith i feithrin ymhellach y cynnydd a wnaethpwyd eisoes. Yr wyf yn falch dweud ein bod ni yng Nghymru yn gryf i sicrhau bod y rhan fwyaf o'n rhaglenni dysgu gydol oes yn cynnwys pob oed, sy'n sicrhau bod sgiliau a dysgu gydol oes yn ategu gweithgarwch yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith. Er enghraifft, mae'r rhaglen prentisiaeth fodern, chefnogaeth ar gyfer sgiliau rhifedd a llythrennedd, a'n rhaglenni cymunedol i oedolion i gyd yn bodloni'r galw cyfiawn am osgoi gwahaniaethu ar sail oed.

Un peth sydd â rhan bwysig wrth roi sgiliau'n gysylltiedig â gwaith i unigolion, gan

building on the wider benefits and outcomes for individuals and their local communities is the adult community learning policy. We will consult on a new five-year plan this autumn, which will bring greater clarity to what we are doing on adult community learning, will ensure more consistent planning and funding across Wales, and will build strategic links across policy agendas, including those with Communities Next.

5.50 p.m.

Health is also vital. If we do not tackle health problems early on, we know that they can drive people out of work in older age. That is why 'One Wales' has a progressive agenda, and makes commitments to improve access to occupational health support. That is also why our workplace health programme takes an integrated approach to improving the health and wellbeing of the working-age population, with the maxim 'Prevention is better than cure' very much in mind.

Support for business and employers is extremely important, and the sector skills councils, which were mentioned earlier during the debate on 'Skills That Work for Wales', are an important part of the agenda that we are discussing. Sector skills councils are concerned to ensure that our ageing population, and the increasing need to ensure that older people play the role that they can play in dealing with labour shortages, to ensure that their potential is fully realised is part of their activity. Therefore, they are looking at developing capacity for the over-50s to continue to work, and we want to reinforce that through phase 2 of our older people's strategy.

That brings me back to where I started: the central importance of that older people's strategy. That is now being taken forward effectively by Gwenda Thomas and Ruth Marks, our commissioner for older people. I know that they are determined to address all the issues mentioned by the contributors to this short debate. A key theme of phase 2 of the strategy is the economic status of older people. Its aim is to develop policies to increase the capacity of the over-50s to

adeiladu ar y manteision a'r canlyniadau ehangach i unigolion a'u cymunedau lleol, yw'r polisi dysgu oedolion yn y gymuned. Byddwn yn ymgynghori ar gynllun pum mlynedd newydd yr hydref hwn, a fydd yn egluro'n well yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ddysgu oedolion yn y gymuned, yn sicrhau cynllunio a chyllid mwy cyson ledled Cymru, ac yn adeiladu cysylltiadau strategol ar draws agendâu polisi, gan gynnwys y rheini â Cymunedau Nesaf.

Mae iechyd hefyd yn hanfodol. Os nad awn i'r afael â phroblemau iechyd yn gynnar, gwyddom y gallant orfodi pobl allan o waith pan fyddant yn hŷn. Dyna pam y mae gan 'Cymru'n Un' agenda flaengar, a pham y mae'n ymrwymo i sicrhau bod cymorth iechyd galwedigaethol yn haws i'w gael. Dyna hefyd pam y mae ein rhaglen iechyd yn y gweithle yn cymryd ymagwedd integredig at wella iechyd a lles y boblogaeth oed gwaith, gyda'r wireb 'Mae atal yn well na gwella' ar flaen y meddwl.

Mae cymorth i fusnes a chyflogwyr yn bwysig dros ben, ac mae'r cynghorau sgiliau sector, y soniwyd amdanynt yn gynharach yn ystod y ddadl ar 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru', yn rhan bwysig o'r agenda yr ydym yn ei thrafod. Mae cynghorau sgiliau sector yn ymwneud â sicrhau bod ein poblogaeth sy'n heneiddio, a'r angen cynyddol i sicrhau bod pobl hŷn yn chwarae'r rhan y gallant ei chwarae wrth ymdrin â phrinder llafur, i sicrhau cyflawni hyd eithaf eu gallu, yn rhan o'u gweithgarwch. Maent yn edrych felly ar ddatblygu gallu er mwyn i bobl dros 50 barhau i weithio, ac yr ydym eisiau atgyfnerthu hynny drwy ail gyfnod ein strategaeth pobl hŷn.

Daw hynny â mi yn ôl i'r man lle dechreuais: pwysigrwydd canolog y strategaeth honno i bobl hŷn. Mae honno'n cael ei hyrwyddo yn effeithiol bellach gan Gwenda Thomas a Ruth Marks, ein comisiynydd dros bobl hŷn. Gwn eu bod yn benderfynol o fynd i'r afael â'r holl faterion y soniwyd amdanynt gan y cyfranwyr at y ddadl fer hon. Thema allweddol yn ail gyfnod y strategaeth yw statws economaidd pobl hŷn. Ei nod yw datblygu polisiau i gynyddu gallu pobl dros

continue to work, learn, volunteer and care, making an active contribution for as long as they wish, and to ensure that older people do not live in poverty.

Therefore, the Welsh Assembly Government, with its 'One Wales' vision, is determined to ensure that we develop a Wales of all talents. If we are to do that, we cannot, must not, and will not ignore the 50-plus section of our population, the demographics, and our ageing society. Congratulations, Joyce, on bringing this topic to the Assembly. I hope that, working together, we can take this forward effectively. Diolch yn fawr.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's business to a close.

50 oed i ddal i weithio, dysgu, gwirfoddoli a gofalu, gan wneud cyfraniad gweithgar cyhyd ag y dymunant, a sicrhau nad yw pobl hŷn yn byw mewn tlodi.

O ganlyniad, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda'i gweledigaeth 'Cymru'n Un', yn benderfynol o sicrhau ein bod yn datblygu Cymru o bob dawn. I wneud hynny, ni allwn, ni chawn ac ni fyddwn yn anwybyddu'r rhan o'n poblogaeth sy'n 50 oed a hŷn, y ddemograffeg, a'n cymdeithas sy'n heneiddio. Llongyfarchiadau, Joyce, am ddod â'r pwnc hwn i'r Cynulliad. Gobeithio y gallwn fynd â hyn yn ei flaen yn effeithiol drwy gydweithio. Diolch yn fawr.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae hynny'n dod â busnes heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.53 p.m.  
The meeting ended at 5.53 p.m.*

#### **Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
Davies, Alun (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
Griffiths, John (Llafur – Labour)  
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
James, Irene (Llafur – Labour)  
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ann (Llafur – Labour)  
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)